Ofcom

Sicrhau bod marchnadoedd cyfathrebiadau'n
**gweithio i bawb**















# Y SWYDDFA GYFATHREBIADAU

## Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol

Am y cyfnod 1 Ebrill 2015 i 31 Mawrth 2016

Ofcom

Sicrhau bod marchnadoedd cyfathrebiadau'n **gweithio i bawb**

# Y SWYDDFA GYFATHREBIADAU

## Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol

Am y cyfnod 1 Ebrill 2015 i 31 Mawrth 2016

# CYNNWYS

## A

### TROSOLWG


4 Pwy ydyn ni

6 Neges y Cadeirydd


## B

### ADRODDIAD PERFFORMIAD


8 Adroddiad y Prif Weithredwr

12 Trosolwg o’r sector cyfathrebiadau

14 Y cynnydd sydd wedi’i wneud yn cyflawni blaenoriaethau ein cynllun blynyddol

30 Gweithio yn y gwledydd a’n hymgysylltiad rhyngwladol

32 Gwaith arall i gefnogi ein nodau

37 Sut rydym yn gweithio a gyda phwy rydym yn gweithio

42 Adolygiad Ariannol

47 Ein gweithwyr

48 Cyfrifoldeb corfforaethol

50 Adroddiad cynaliadwyedd


## C

### ADRODDIAD ATEBOLRWYDD


52 Adroddiad y Cyfarwyddwyr

55 Datganiad Llywodraethu

64 Adroddiad taliadau

68 Tystysgrif ac adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i ddau Dŷ’r Senedd


## D

### DATGANIADAU ARIANNOL


70 Datganiad incwm a gwariant

71 Datganiad am y sefyllfa ariannol

72 Datganiad am newidiadau mewn ecwiti

73 Datganiad am y llifoedd arian parod

74 Nodiadau i'r cyfrifon


## E

### ATODIAD


102 Byrddau a Phwyllgorau Ofcom

105 Datganiadau rheoleiddio

110 Rhaglen ymchwiliadau

111 Safonau darlledu

112 Gorfodi a pheirianneg sbectrwm

114 Trwyddedu sbectrwm

118 Cynaliadwyedd

120 Geirfa

A

## TROSOLWG

# BETH RYDYM YN EI WNEUD


Mae Ofcom yn rheoleiddio telegyfathrebiadau llinell sefydlog a symudol, teledu, radio, gwasanaethau fideo-ar-alwad, post a'r tonnau awyr y mae dyfeisiau di-wifr yn eu defnyddio.

Rydym yn helpu unigolion a busnesau yn y DU i gael y gorau o wasanaethau cyfathrebiadau ac yn eu diogelu rhag arferion cyfrwys. Lle bo'n briodol, rydym yn cefnogi cystadleuaeth fel y sail ar gyfer rhoi canlyniadau da i ddefnyddwyr.

Rydym yn gweithredu'n annibynnol ar lywodraethau a buddiannau masnachol i gyflawni ein dyletswyddau. Fodd bynnag, rydym yn atebol i'r Senedd ac, i gyflawni ein rôl yn effeithiol, mae angen i ni ymgysylltu'n agored ac yn adeiladol gyda llywodraethau. Rydym yn darparu cyngor technegol i lywodraethau (er enghraifft, ein hadolygiadau rheolaidd o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus) ac, mewn rhai achosion, rydym yn gweithredu fel cynrychiolydd ffurfiol y llywodraeth (er enghraifft, mewn trafodaethau rhyngwladol ar sbectrwm).

### Ein prif ddyletswydd yw hybu buddiannau dinasyddion a defnyddwyr

Sefydlwyd Ofcom gan Ddeddf Swyddfa Gyfathrebiadau 2002, ac mae'n gweithredu'n unol â nifer o Ddeddfau Seneddol[1]. Dywed Deddf Cyfathrebiadau 2003 mai ein prif ddyletswydd yw hyrwyddo buddiannau dinasyddion yng nghyswllt materion yn ymwneud â chyfathrebiadau a hyrwyddo buddiannau defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol, drwy hybu cystadleuaeth lle bo hynny'n briodol. Gyda gwasanaethau post, ein dyletswydd yw cyflawni ein swyddogaethau mewn ffordd a fydd, yn ein barn ni, yn diogelu'r gwasanaeth post cyffredinol yn y DU.



Rydym yn gweithredu ac yn gorfodi cyfreithiau sy'n ymwneud â chyfathrebiadau, cystadleuaeth a diogelu defnyddwyr.

## Ein prif ddyletswyddau cyfreithiol sy'n tywys cyfeiriad ein gwaith

Ein prif ddyletswyddau cyfreithiol yw:

- sicrhau bod gan y DU amrywiaeth eang o wasanaethau cyfathrebiadau electronig;
- sicrhau bod y sbectrwm radio yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol;
- sicrhau bod rhaglenni radio a theledu o ansawdd uchel yn cael eu darparu gan amrywiaeth o sefydliadau gwahanol, gan apelio at amrywiaeth o ddiddordebau a chwaethau;
- sicrhau bod pobl yn cael eu diogelu rhag deunydd niweidiol neu dramgwyddus, triniaeth annheg, ac ymyrraeth ar breifatrwydd ar y radio a'r teledu; a
- sicrhau bod y rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol ar wasanaethau post yn cael ei diogelu yn y DU.

Gall Ofcom orfodi cyfraith defnyddwyr ar ran defnyddwyr. Ar gyfer gwasanaethau telegyfathrebiadau a phost, yn wahanol i deledu a radio, nid yw'r pŵer gennym i ddatrys cwynion defnyddwyr unigol. Yn hytrach, rydym yn darparu cyngor i'r rhai sy'n cwyno am y gwasanaethau post a thelegyfathrebiadau, ac yn eu cyfeirio at gynlluniau dulliau amgen o ddatrys anghydfod (ADR) yr ydym wedi'u cymeradwyo.

[1] Mae'r rhain yn cynnwys Deddf Cyfathrebiadau 2003, Deddf Telegraffiaeth Ddi-wifr 2006, Deddfau Darlledu 1990 a 1996, Deddf Economi Ddigidol 2010 a Deddf Gwasanaethau Post 2011.



# NEGES Y CADEIRYDD

## Patricia Hodgson, Cadeirydd

Mae *Adolygiad Strategol o Gyfathrebiadau Digidol* Ofcom a gyhoeddwyd ym mis Chwefror, yn pennu'r fframwaith ar gyfer band eang a gwasanaethau digidol yn y DU ar gyfer y degawd nesaf a thu hwnt.

Yn ganolog iddo mae ansawdd y gwasanaeth y gall defnyddwyr ei ddisgwyl. Mae'n ceisio ail-gydbwyso cymhellion buddsoddi a chystadleuaeth yn y maes telegyfathrebiadau i helpu i ddarparu ffibr i'r cartref, gan sicrhau y bydd y DU yn gallu diwallu'r galw cynyddol gan bobl a busnesau am wasanaethau cyfathrebiadau. Ac mae'n gosod safonau newydd ar gyfer gwasanaeth i gwsmeriaid.

Mae'r sector yn newid yn eithriadol o sydyn, ond mae ein prif ddyletswydd yr un fath o hyd: gwasanaethu dinasyddion a defnyddwyr.

Mae ein prif ffordd o gyflawni hyn yn parhau: hybu cystadleuaeth. Marchnad gystadleuol a deinamig, yn hytrach na marchnad sy'n dibynnu ar reoleiddio, sy'n rhoi'r manteision gorau i ddefnyddwyr a busnesau. Ond, os bydd y farchnad yn methu mewn rhyw ffordd, rhaid i Ofcom fod yn barod i gamu i'r adwy a gweithredu mewn ffordd sy'n seiliedig ar wneud penderfyniadau annibynnol ar sail tystiolaeth. Mae'r elfennau hyn yn hanfodol er mwyn i gwmnïau fuddsoddi, arloesi a chystadlu, ac er mwyn diogelu defnyddwyr. Mae'r cynnydd yn ein sectorau wedi bod yn dda hyd yma,



gydag argaeledd a phrisiau isel yn gosod y safonau o'i gymharu â gwledydd tebyg yn Ewrop. Ond, mae heriau sylweddol o'n blaen os yw pawb ar draws y DU, gan gynnwys yn ein cymunedau gwledig, i fwynhau manteision cyfathrebiadau digidol.

Mae fframwaith newydd ar gyfer y BBC hefyd wedi bod yn destun dadlau gydol y flwyddyn. Ym mis Mai 2016, cyhoeddodd y Llywodraeth Bapur Gwyn yn cynnig bwrdd integredig cryf ar gyfer y BBC gyda'r holl waith rheoleiddio yn symud i Ofcom. Roedd hyn yn adleisio adolygiad Syr David Clementi, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth, a oedd yn argymell cael rhaniad clir rhwng y drefn lywodraethu a'r drefn reoleiddio ar gyfer rheoli'r BBC yn y dyfodol, gyda rheoleiddio'n amlwg y tu allan i'r BBC ac yn annibynnol arno.

Rydym yn ymwybodol y bydd y dyletswyddau newydd hyn yn ymrwymiad mawr. Yn y cyd-destun hwnnw, mae record 12 mlynedd Ofcom o sefydlu a rheoleiddio safonau ledled sector darlledu'r DU, a hynny'n gwbl ddiduedd, yn bwysig, ynghyd â sicrhau bod cystadleuaeth deg wrth wraidd y farchnad gyfathrebiadau sy'n cydgyfeirio. O dan y trefniadau newydd, bydd Ofcom yn ceisio defnyddio'r profiad hwnnw i sicrhau bod darparwyr gwasanaethau a chynulleidfaoedd yn gallu ymddiried yn ein hannibyniaeth.

Eleni, gwnaethom gynnal ein harchwiliad iechyd cyfnodol ar ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus, a chanfod bod y sector mewn cyflwr da, gyda refeniw yn codi. Ond gwnaethom leisio pryderon am ostyngiad dros nifer o flynyddoedd yn y buddsoddi mewn cynyrchiadau gwreiddiol yn y DU, drama, comedi, y celfyddydau a theledu plant yn benodol.

Yn y cyfamser, gwnaethom gychwyn ar y broses o reoleiddio rhaglenni fideo-ar-alwad yn fewnol yn ystod y flwyddyn. Arweiniodd hyn at arbedion effeithlonrwydd gweithredol ac mae'n golygu bod y gwaith o reoli gwasanaeth fideo-ar-alwad bellach yn gydnaws â'r gwaith rheoleiddio a wnawn ar hyn o bryd yn y byd darlledu. Hoffwn ddiolch i'n cyd-reoleiddiwr, yr Awdurdod Teledu ar Alwad, am ei gefnogaeth dros y blynyddoedd ac yn ystod y cyfnod pontio.

Mae Ofcom yn sefydliad cenedlaethol, sy'n gweithredu o fewn fframwaith cystadleuaeth Ewropeaidd, ac mae ein prif swyddfa yn Llundain. Ond mae angen i ni ddeall a gwasanaethu rhannau gwahanol iawn o'r Deyrnas Unedig. Mae gennym swyddfeydd ymhob un o'r gwledydd ac rydym yn agor swyddfa newydd yng Nghaeredin yn ystod y misoedd nesaf. Byddwn hefyd yn agor swyddfa newydd yng ngogledd orllewin Lloegr. Mae ein canolfan gyswllt ar gyfer defnyddwyr a'n timau trwyddedu sbectrwm yn symud i Warrington. Mae hyn yn pwysleisio ein hymrwymiad i adlewyrchu holl gwmpas y gwledydd rydym yn eu gwasanaethu, gan wella ein heffeithlonrwydd hefyd yr un pryd.

Ymunodd dau aelod profiadol â'n Bwrdd yn ystod y flwyddyn, Ben Verwaayen a Bill Emmott. Mae'r Bwrdd eisoes yn elwa o'u barn a'u profiad helaeth, sy'n fuddiol iawn i Ofcom ac yn helpu i gryfhau ein henw da.



SICRHAU BOD CYFATHREBIADAU'N GWEITHIO I BAWB

- Hyrwyddo dewis
- Sicrhau safonau
- Atal niwed

Penodwyd Ben a Bill ar ôl i ddau aelod o'r Bwrdd - Mike McTighe a Tim Gardam - roi'r gorau iddi ar ôl gwasanaethu ar y Bwrdd am ddau dymor. Ymddiswyddodd Stephen Hill o fod yn aelod o'r Bwrdd i ymgymryd â chyfleoedd newydd. Mae Tim, Mike a Stephen wedi cyfrannu'n helaeth at waith Ofcom dros y blynyddoedd; rwy'n *eithriadol ddiolchgar* iddynt am eu cefnogaeth a dymunaf y gorau iddynt yn y dyfodol.

B

## ADRODDIAD PERFFORMIAD

# ADRODDIAD Y PRIF WEITHREDWR

Sharon White, Prif Weithredwr

Mae'n debyg nad Swydd Gaerhirfryn wledig yw'r man cyntaf lle byddech yn disgwyl dod o hyd i un o arloeswyr band eang tra chyflym y DU. Ond mae trigolion lleol yn Nyffryn Lune yn manteisio ar gyflymderau band eang o 1Gbit yr eiliad - sydd 35 gwaith yn gyflymach na'r cyflymder cyfartalog cenedlaethol ar hyn o bryd.

A'r hyn sy'n fwy trawiadol na'r cyflymder yw penderfyniad y trigolion, llawer ohonynt heb brif gyflenwad dŵr na nwy hyd yn oed. Maent wedi gweithio'n ddiflino i gloddio'r ffosydd a gosod y ceblau ffibr-optig sy'n ofynnol ar gyfer y rhwydwaith band eang arbennig hwn.



Es i ymweld â'r prosiect hwn, Broadband for the Rural North (B4RN), yn gynharach yn y flwyddyn. Roedd yn ategu fy marn bod cefnogi'r gwaith o gyflwyno band eang ffibr yn uniongyrchol i gartrefi a swyddfeydd yn hanfodol os yw'r DU i aros yn un o economïau digidol blaenllaw'r byd.

Roedd hyn yn rhan sylfaenol o'n *Hadolygiad Strategol o Gyfathrebiadau Digidol*, adolygiad eang i sicrhau bod pobl yn cael y gwasanaethau cyfathrebiadau y mae eu hangen arnynt i fyw a gweithio yn yr unfed ganrif ar hugain. Bydd hyn yn cael ei



gyflawni drwy fwy o gystadleuaeth ymysg rhwydweithiau ffibr a thrwy ddiwygio Openreach, un o adrannau BT sy'n cynnal rhwydwaith ffôn a band eang mwyaf y DU ar ran darparwyr. Rydym wrthi'n gweithio'n galed i roi cynlluniau ar waith a fydd, yn fy marn i, yn gwneud gwahaniaeth go iawn i ddefnyddwyr ffôn a band eang.

Cyhoeddwyd ein hadolygiad ar adeg o gydgyfeirio a chyfuno yn y farchnad, a phan mae disgwyliadau defnyddwyr am eu ffonau, gwasanaethau teledu a gwasanaethau rhyngrwyd yn cynyddu.

Mae'r cydgyfeiriant rydym wedi bod yn sôn amdano am flynyddoedd lawer yn realiti bellach. Dyna pam rwyf yn deall y rhesymeg o gael rheoleiddiwr cyffredin ar gyfer safonau darlledu, a argymhellwyd ym Mhapur Gwyn y Llywodraeth ym mis Mai 2016 ar ddyfodol y BBC. Mae hyn yn golygu mai ni fydd yn rheoleiddio'r BBC yn llwyr o hyn ymlaen, gan adeiladu ar ein gwaith cyfredol yn goruchwylio darlledwyr masnachol a rhai rhannau o raglenni'r BBC. Er y bydd gennym rôl fwy yn rheoleiddio'r BBC, Bwrdd Unedol newydd yn y BBC fydd yn gyfrifol am y drefn lywodraethu.

Bydd y flwyddyn i ddod yn golygu gwaith cynllunio sylweddol i fod yn barod am yr estyniad mwyaf sylweddol i gyfrifoldebau Ofcom ers ei greu. Gyda'r adnoddau priodol yn eu lle, rydym yn hyderus y byddwn yn gallu rheoleiddio'r BBC mewn ffordd broffesiynol ac effeithiol. Mae Ofcom wastad yn rhoi defnyddwyr a dinasyddion gyntaf yn y sectorau rydym yn eu rheoleiddio. Yn yr un modd, bydd ein gwaith yn rheoleiddio'r BBC yn hyrwyddo anghenion cynulleidfaoedd, gan ddefnyddio'r profiad sylweddol sydd gennym eisoes o ddarlledu a'r cyfryngau ar lefelau Gweithredol a Bwrdd.

Mae gennym raglen waith helaeth a chymerwyd camau breision gennym yng nghyswllt y blaenoriaethau a osodwyd gennym ar gyfer 2015/16. Dyma beth rydym wedi'i wneud.

## Hyrwyddo cystadleuaeth a sicrhau bod marchnadoedd yn gweithio'n effeithiol i ddefnyddwyr

### Ei gwneud hi'n haws i bobl newid darparwr

Rydym yn ei gwneud hi'n haws i bobl newid darparwr. Mae proses newid syml a chyflym yn hanfodol os yw defnyddwyr i fanteisio ar gystadleuaeth yn y farchnad.

Felly, ym mis Mehefin 2015, gwnaethom gyflwyno proses 'un cam' ar gyfer pobl sy'n newid darparwr band eang neu linell dir ar rwydwaith telegyfathrebiadau Openreach - gan gynnwys cwsmeriaid BT, EE, Sky, TalkTalk a Vodafone. Mae hyn wedi lleihau'r drafferth a oedd yn gysylltiedig â newid darparwr i filiynau o bobl.

### Gwybodaeth well i lywio drwy'r farchnad

Ynghyd â phroses newid symlach, mae pobl a busnesau hefyd angen gwybodaeth glir i'w helpu i lywio drwy'r farchnad. Gwnaethom gynnydd eleni, a lansio mapiau darpariaeth band eang a symudol. Mae'r rhain yn gadael i bobl ganfod pa wasanaethau sydd ar gael yn eu hardal hwy ac a ydynt yn derbyn y gwasanaeth y dylent fod yn ei gael. Mae pobl wedi ymweld â'r mapiau ar-lein hyn dros dri chwarter miliwn gwaith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Ym mis Rhagfyr, gwnaethom gynhyrchu ein 'ap' cyntaf ar gyfer ffonau clyfar a chyfrifiaduron llechen, sy'n gadael i bobl weld a yw eu rhyngrwyd Wi-Fi yn gweithio fel y dylai. Hyd yma, mae dros 800,000 o bobl wedi llwytho'r ap i lawr, ap sy'n rhoi cyngor defnyddiol ar sut i gael y gorau o ryngrwyd di-wifr. Nid dim ond apiau a'r rhyngrwyd rydym yn eu defnyddio i helpu pobl. Rhoddodd canolfan gyswllt Ofcom gymorth a chyngor i 100,000 bron o bobl a busnesau a alwodd neu a ysgrifennodd atom yn ystod y flwyddyn.

Un o'm pryderon mwyaf yw'r bwlch yng nghyflymderau band eang - y gwahaniaeth rhwng y cyflymder mae pobl yn ei ddisgwyl a pha gyflymder maent yn ei gael go iawn. Yn 2015, gwnaethom gryfhau ein Cod Ymarfer ar gyflymderau band eang, sy'n golygu y gall cwsmeriaid preswyl bellach roi'r gorau i'w contract band eang os bydd y cyflymderau'n disgyn o dan y lefelau a addawyd iddynt gan eu darparwr.

Gwnaethom hefyd weithio gydag un cyd-reoleiddiwr, yr Awdurdod Safonau Hysbysebu, i gyflwyno newidiadau i'r ffordd mae prisiau llinell dir a band eang yn cael eu hysbysebu, fel nad yw defnyddwyr yn cael eu camarwain am wir gost yr hyn sy'n cael ei gynnig.

### Gweithio gyda rheoleiddwyr eraill

Yn ystod y flwyddyn, rhoesom gyngor arbenigol i'r awdurdodau cystadleuaeth perthnasol ar yr uno sy'n digwydd yn ein sector. Mae BT wedi cymryd EE drosodd ac fe gymeradwywyd hyn ym mis Ionawr. Rhoesom gyngor i'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ar hyn, gan leisio rhai pryderon, ond gan esbonio y gall mesurau yn ein *Hadolygiad o'r Farchnad Cysylltedd Busnes* fynd i'r afael â phryderon a all godi mewn perthynas â chystadleuaeth.

Hefyd, rhoesom dystiolaeth i'r Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer ei asesiad o'r broses lle mae'r cwmni ffonau symudol Three yn bwriadu cymryd O2 drosodd. Gwnaethom sôn am ein pryderon sylweddol y byddai hyn yn niweidio cystadleuaeth ac yn arwain efallai at brisiau uwch. Ym mis Mai 2016, gwaharddodd y Comisiwn yr uno.

## Sicrhau safonau a gwella ansawdd

### Gofalu am gynulleidfaoedd

Mae wedi bod yn flwyddyn bwysig i'n gwaith yn diogelu cynulleidfaoedd. Mae'r gwaith o reoleiddio gwasanaethau fideo-ar-alwad yn cael ei wneud yn fewnol erbyn hyn. Gwnaethom hefyd lunio ein hadolygiad cyfnodol o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus, a ganfu fod y sector mewn cyflwr da. Ond gwnaethom rybuddio bod grwpiau lleiafrifol yn teimlo eu bod yn cael eu tangynrychioli. Gwnaethom hefyd gyfeirio at bryderon newydd am foddhad pobl hŷn â'r sector.

### Gwella argaeledd

Eleni, gwnaethom gyflwyno cynlluniau i helpu'r llywodraeth i weithredu ei rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol newydd. Bydd hyn yn rhoi hawl cyfreithiol i bob cartref a busnes gael cysylltiad band eang o 10Mbit yr eiliad o leiaf erbyn diwedd y Senedd gyfredol. Mae hynny'n ddigon i ffrydio rhaglenni teledu, gwneud galwadau fideo neu weithio o adref.

Rydym wedi gosod y sylfaen ar gyfer rhyddhau rhagor o donnau awyr ar gyfer darparwyr symudol, a darparu'r band sbectrwm 700MHz i'w ddefnyddio ledled y DU erbyn 2022 fan bellaf - ac yn gynharach os gallwn. Llwyddwyd i wneud hyn drwy ymgymryd â rhaglen fanwl i ddechrau clirio sbectrwm i ddiwallu'r galw cynyddol gan bobl am ddata ar y ffordd. Yn y cyfamser, gohiriwyd yr arwerthiant o sbectrwm bandiau 2.3 a 3.4GHz nes cael canlyniad yr uno arfaethedig rhwng Three/O2, a waharddwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd ym mis Mai 2016.

### Cefnogi busnesau

Dangosodd ein hadroddiad, *Cysylltu'r Gwledydd*, yr heriau sy'n ein hwynebu yn sicrhau bod busnesau bach, peiriant twf ein heconomi, yn cael y gwasanaethau cyfathrebiadau sydd eu hangen arnynt. Erbyn mis Mehefin y llynedd, roedd gan 68% o fusnesau bach a chanolig (BBCh) fynediad at fand eang cyflym iawn yn y DU, o'i gymharu ag 85% o bob adeilad.

Mae cefnogi busnesau yn dal yn ffocws pwysig i Ofcom. Cyhoeddasom God Ymarfer ar gyflymderau band eang i ddiogelu busnesau, ac roedd BT, TalkTalk a Virgin Media ymysg y rheini a fydd yn ei ddefnyddio. Daw'r Cod i rym ym mis Medi ac, ar ôl hynny, bydd busnesau'n gallu gadael contract os bydd y cyflymderau'n disgyn o dan yr hyn a addawyd.

Cefnogir hyn gan ein cyngor gwell a theilwredig i fusnesau ar newid i ddarparwr newydd, yn ogystal â gwybodaeth ar negodi contractau a datrys cwynion.

Cyflwynwyd rheolau newydd llym gennym i sicrhau bod Openreach yn mynd ati'n gynt i osod a thrwsio'r 'llinellau prydles' capasiti uchel a ddefnyddir gan fusnesau. Dyfarnwyd gennym hefyd y dylai cwmnïau sy'n darparu'r llinellau prydles hyn gael mynediad i rwydweithiau BT, drwy broses o'r enw 'ffibr tywyll'. Mae hyn yn golygu bod BT yn rhoi mynediad ffisegol i gystadleuwyr at eu ceblau ffibr-optig, gan roi'r gallu iddynt reoli'r cysylltiad yn uniongyrchol, cynyddu cystadleuaeth ac arloesedd.

## Diogelu defnyddwyr rhag niwed

### Gweithredu yn erbyn arferion drwg

Pan fydd cwmnïau'n torri'n rheolau, gallwn ymchwilio a rhoi dirwyon. Ym mis Gorffennaf 2015, rhoesom gosb o £1m i'r cwmni symudol EE, ar ôl canfod methiannau yn ei brosesau delio â chwynion. Rydym wrthi'n ymchwilio i ddarparwyr eraill.

### 0800 yn rhad ac am ddim o ffonau symudol

Ar 1 Gorffennaf 2015, bu i filiynau o bobl a busnesau elwa o'r ffaith bod rhifau rhadffôn (yn cychwyn gyda 080 a 116) bellach yn rhad ac am ddim o bob ffôn - llinellau tir a symudol. Hefyd, gwnaethom y taliadau ar gyfer rhai rhifau premiwm yn gliriach, er mwyn i bobl wybod beth maent yn ei dalu.

### Mynd i'r afael â galwadau niwsans

Mae mynd i'r afael â galwadau niwsans yn dal yn flaenoriaeth bwysig i ni. Rydym yn gwybod ei fod yn dal yn broblem fawr ac yn amcangyfrif bod pobl yn y DU yn derbyn oddeutu 4.8 biliwn o alwadau niwsans bob blwyddyn.

Er bod gan Ofcom gyfrifoldeb penodol dros fynd i'r afael â galwadau mud a galwadau sy'n cael eu gadael, gwnaethom barhau â'n hymgyrch yn erbyn pob galwad niwsans gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth sy'n rheoleiddio negeseuon a galwadau marchnata. Daethom i gytundeb gyda deg cwmni telegyfathrebiadau i gyflwyno atebion technegol a ddylai arwain at ostyngiad sylweddol yn y mathau hyn o alwadau. Rydym eisoes yn gweld cynnydd, ac rydym yn croesawu ymdrechion TalkTalk a BT i flocio galwadau niwsans. Rhoesom gosb o £150,000 i XS Remarketing Ltd, yn masnachu fel Debt Masters Direct, am wneud galwadau mud a galwadau sy'n cael eu gadael.

## Dadreoleiddio lle bo modd

Rydym bob amser yn ofalus i beidio â gosod beichiau diangen ar y cwmnïau rydym yn eu rheoleiddio. Lle bo modd, byddwn bob amser yn ceisio cael gwared â rheoleiddio. Er enghraifft, eleni gwnaethom ddileu'r ddyletswydd ar Sky i ddarparu rhai o'i phrif sianeli chwaraeon i ddarlledwyr eraill yn gyfanwerthol, ar ôl gweld bod cystadleuaeth yn gweithio'n dda erbyn hyn.

## Gwella effeithlonrwydd

Rydym wedi cyflawni ein gwaith i gael y gwerth gorau posibl am yr arian rydym yn ei wario ar adnoddau - gan y Llywodraeth a drwy ffioedd y diwydiant. Mae cyllideb Ofcom ar gyfer y pum mlynedd nesaf wedi'i rhewi mewn termau arian, a byddwn yn parhau i chwarae'n rhan yn ateb yr her sy'n wynebu'r pwrs cyhoeddus.

Yn benodol, byddwn yn gwneud arbedion effeithlonrwydd drwy leihau ein hôl-troed yn Llundain, lleihau ein costau TGCh drwy gontract newydd, a lleihau'r gwariant ar gaffael. Mae Ofcom wedi sicrhau arbedion cyllidebol am 11 mlynedd yn olynol mewn termau real tebyg am debyg, a byddwn yn parhau i leihau ein gwariant lle y gallwn. Rydym wedi gosod cyllideb o £114.3m, yn unol â chyllideb 2015/16, sy'n ostyngiad 1.5% ers 2015/16 mewn termau real.

## Y rhaglen waith ar gyfer 2016/17

Eleni, rydym am ddatblygu ein gwaith diweddar i sicrhau bod cyfathrebiadau'n gweithio i bawb.

Ar ôl gwneud y broses newid yn haws i ddefnyddwyr band eang, rydym yn awr yn canolbwyntio ar wella'r broses i ddefnyddwyr ffonau symudol. Gwnaethom gyhoeddi opsiynau ar gyfer sicrhau hyn ym mis Mawrth. Yn y misoedd i ddod, byddwn yn amlinellu cynlluniau i wella profiad pobl o newid rhwng darparwyr gwasanaethau bwndeli – llinell dir, band eang a theledu drwy dalu – sy'n defnyddio rhwydweithiau lloeren Sky, cebl Virgin Media neu Openreach.

Rydym eisiau parhau i gau 'bwlch cyflymderau' band eang. Er enghraifft, rydym yn ystyried cyfleoedd newydd i ddarparu rhagor o sbectrwm di-wifr i lwybryddion band eang, a allai wella perfformiad Wi-Fi yn y cartref yn y dyfodol.

Rhaid i'r ddarpariaeth barhau i wella ac felly, byddwn yn parhau i roi cyngor i'r Llywodraeth ar y gwasanaeth band eang cyffredinol newydd. O ran darpariaeth symudol, rydym ar y trywydd iawn i sicrhau y bydd 98% o gartrefi'n cael signal 4G dan do erbyn diwedd 2017. Bydd y mesurau hyn yn helpu i sicrhau na fydd pobl yn cael eu gadael ar ôl.

Bydd mynd i'r afael â niwed i ddefnyddwyr yn aros yn flaenoriaeth i Ofcom. Byddwn yn parhau i ymchwilio i gwmnïau sy'n torri'n rheolau, ac yn gosod sancsiynau arnynt, ac yn parhau i weithio gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth i fynd i'r afael â galwadau niwsans.

Rhaid i'n gwaith rheoleiddio aros yn berthnasol ac effeithiol. Felly, rydym yn cynnal adolygiad sylweddol o'r Amodau Cyffredinol, sef y rheolau y mae'n rhaid i bob cwmni telegyfathrebiadau eu dilyn er mwyn gweithredu yn y DU. Y nod fydd gwneud yr Amodau'n gliriach, lleihau cost cydymffurfio a dadreoleiddio'n ofalus pan nad oes angen rheolau mwyach.

Mae hon yn flwyddyn fawr i Ofcom. Yn benodol, bydd paratoi ar gyfer rheoleiddio'r BBC yn llawn yn gofyn am gynllunio gofalus, yn ogystal â rhagor o adnoddau ac arbenigedd. Wrth inni gyflawni'r gwaith pwysig hwn, fyddwn ni ddim yn anwybyddu ein dyletswyddau a'n blaenoriaethau yn y sectorau eraill rydym yn eu rheoleiddio.

Mae ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2016/17 yn rhoi rhagor o fanylion am ein blaenoriaethau a'n rhaglen waith.

# TROSOLWG O'R SECTOR CYFATHREBIADAU

Mae gan Ofcom ymrwymiad i gynnal a chyhoeddi ymchwil marchnad ac ymchwil defnyddwyr a fydd yn sail i'n gwaith.

Mae'r ymchwil hwn yn rhychwantu ystod eang o fertigau sy'n edrych ar y nifer sy'n manteisio ar y gwasanaethau ac yn eu defnyddio, a bodlonrwydd pobl, sy'n dal yn uchel yn y marchnadoedd rydym yn eu rheoleiddio.

## Teledu

**Gwylio teledu (wedi'i ddarlledu)** (munudau yr unigolyn y dydd)

| 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|
| 241 | 232 | 220 | ▼ 216 |

**Nifer â phecyn aml-sianel** (% yr holl gartrefi)

| 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|
| 96% | 95% | 93% | ▲ 94% |

## Radio

**Gwrando ar y radio** (y pen y diwrnod mewn munudau)

| 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|
| 190 | 184 | 183 | 183 |

**Nifer â radio digidol** (% o oedolion)

| 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|
| 42% | 46% | 49% | ▲ 54% |

## Llinell Dir

**% sy'n ei defnyddio** (% oedolion)

| 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|
| 84% | 84% | 84% | 84% |

**Defnydd** (biliwn munud)

| 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|
| 103 | 93 | 82 | ▼ 74 |

## Symudol

**Nifer â ffôn symudol** (% oedolion)

| 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|
| 92% | 92% | 93% | 93% |

**Nifer â ffôn clyfar** (% oedolion)

| 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|
| 39% | 51% | 61% | ▲ 66% |

**Defnydd o ffôn symudol** (biliwn munud)

| 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|
| 132 | 134 | 137 | ▲ 143 |

**% sy'n derbyn gwasanaethau data symudol** (% o oedolion)

| 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|
| 39% | 49% | 57% | ▲ 61% |

**Darpariaeth symudol 4G yn yr awyr agored oddi wrth bob cwmni** (% adeiladau)

| 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|
| - | - | 37% | ▲ 46% |

**Darpariaeth symudol 2G yn yr awyr agored oddi wrth bob cwmni** (% adeiladau)

| 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|
| - | - | 93% | 93% |

## Rhyngrwyd

**Nifer â band eang** (% oedolion)

| 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|
| 76% | 75% | 77% | ▲ 80% |

**Cyflymderau band eang sefydlog cyfartalog** (Mbit yr eiliad)

| 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|
| 12 | 17.8 | 22.8 | ▲ 28.9 |

**Bodlonrwydd â gwasanaeth band eang sefydlog** (% y cartrefi â band eang sefydlog)

| 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|
| 87% | 88% | 88% | ▼ 86% |

**Nifer â band eang cyflym iawn preswyl yn y DU** (30Mbit yr eiliad a mwy)

| 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|
| - | - | 21% | ▲ 34% |

**% y cartrefi sydd wedi'u cysylltu gan linellau na allant dderbyn cyflymderau band eang dros 10Mbit yreiliad**

| 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|
| - | - | - | 8% |

**Darpariaeth band eang cyflym iawn** (% yr adeiladau)

| 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|
| - | - | 75% | ▲ 83% |

**Nifer â band eang cyflym iawn** (% yr adeiladau)

| 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|
| - | - | 21% | ▲ 34% |

**Darpariaeth gwasanaethau band eang gyda chyflymderau lawrlwytho o 100Mbit yr eiliad** (%)

| 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|
| - | - | - | 46% |

## Post


**Defnydd** (Nifer eitemau llythyr â chyfeiriad mewn biliynau)

| 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|
| 13.5 | 12.8 | 12.6 | ▼ 12.2 |

**Bodlonrwydd defnyddwyr** â'r gwasanaeth post (%)

| 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|
| 88% | 89% | 88% | ▲ 89% |

Nodyn: Fel y derbynnir mwy o wybodaeth, mae ffigurau blynyddoedd blaenorol yn cael eu hailddatgan ac efallai na fyddant yn cyfateb â'r ffigurau mewn adroddiadau blaenorol.




- Darpariaeth band eang cyflym iawn (% yr adeiladau)
- Nifer â band eang cyflym iawn (% yr adeiladau)
- % y cartrefi sydd wedi'u cysylltu gan linellau na allant dderbyn cyflymderau band eang dros 10Mbit yr eiliad
- Darpariaeth symudol 4G yn yr awyr agored oddi wrth bob cwmni (% adeiladau)
- Darpariaeth symudol 2G yn yr awyr agored oddi wrth bob cwmni (% adeiladau)
- Darpariaeth gwasanaethau band eang gyda chyflymderau lawrlwytho o 100Mbit yr eiliad (%)

Ffynhonnell: Data Cysylltu'r Gwledydd Ofcom

# Y CYNNYDD SYDD WEDI'I WNEUD YN CYFLAWNI BLAENORIAETHAU EIN CYNLLUN BLYNYDDOL

Mae Ofcom yn bodoli er mwyn sicrhau bod y marchnadoedd cyfathrebiadau'n gweithio i bawb.



I gyflawni hyn, mae gennym dri nod sylfaenol hirdymor ac rydym yn gosod blaenoriaethau blynyddol o dan bob un o'r nodau hyn.

### Ein nodau

- Hyrwyddo cystadleuaeth a sicrhau bod marchnadoedd yn gweithio'n effeithiol i ddefnyddwyr;
- sicrhau safonau a gwella ansawdd; a
- diogelu defnyddwyr rhag niwed.

## Hyrwyddo cystadleuaeth a sicrhau bod marchnadoedd yn gweithio'n effeithiol i ddefnyddwyr

Rydym am weld pobl a busnesau'n elwa o amrywiaeth o wasanaethau a chynnyrch cyfathrebiadau. Rydym hefyd am weld marchnadoedd yn darparu dewis eang, prisiau teg, ansawdd uchel, buddsoddiad ac arloesedd.

Gwnawn hyn drwy sicrhau bod marchnadoedd yn gallu gweithio'n effeithiol, drwy reoleiddio lle bo hynny'n briodol, er mwyn i ddefnyddwyr elwa o gystadleuaeth.

**Ein hamcan: Cynnal adolygiad strategol o gyfathrebiadau digidol**

Mae'r farchnad telegyfathrebiadau wedi cael ei gweddnewid yn ystod y degawd diwethaf. Bellach, mae dwy ran o dair ohonom yn berchen ar ffôn clyfar; mae ffrydio fideo manylder uwch yn gyffredin; ac mae llawer o bobl yn cael band eang cyflym iawn gartref a rhyngrwyd 4G cyflymder uchel ar y ffordd. Mae'r farchnad yn esblygu, wrth i gwmnïau gystadlu yn erbyn ei gilydd i ddarparu gwasanaethau llinell dir, symudol, band eang a theledu dros rwydweithiau sy'n cydgyfeirio.

I helpu i gefnogi'r gwaith o ddatblygu cyfathrebiadau digidol, rhaid i Ofcom barhau i ddarparu fframwaith rheoleiddio clir i'r dyfodol.

Bwriad ein *Hadolygiad Strategol o Gyfathrebiadau Digidol* yw hybu cystadleuaeth a chefnogi rhagor o fuddsoddi ac arloesi. Fel adolygiad trosfwaol o gyfathrebiadau digidol y DU, mae'n ystyried yr ystod o ddatblygiadau yn y farchnad, cyhoeddiadau a datblygiadau disgwyliedig yn y sector dros y degawd nesaf.

Mae'r adolygiad yn gydnaws â nod Ofcom o sicrhau bod marchnadoedd yn gweithio'n effeithiol ar ran pobl a busnesau drwy hyrwyddo cystadleuaeth, sicrhau bod mwy o wasanaethau ar gael a gwella ansawdd y gwasanaethau.

## Beth rydym wedi'i wneud

Ar ôl amlinellu cwmpas yr adolygiad ym mis Mawrth 2015, buom yn cydgysylltu â'r cyhoedd, grwpiau defnyddwyr, arbenigwyr academaidd, cyrff cyhoeddus a rhanddeiliaid, gan gynnwys y cwmnïau rydym yn eu rheoleiddio. Cynhaliwyd fforwm rhanddeiliaid gennym ym mis Mai a chyfres o weithdai.

Ar ôl casglu tystiolaeth, daeth y cam cyntaf hwn o'r adolygiad i ben gyda dogfen drafod ym mis Gorffennaf 2015.

Ar ôl ystyried yr ymatebion a gwneud rhagor o waith dadansoddi manwl, daeth ail gam yr adolygiad i ben ym mis Chwefror 2016 wrthi inni gyhoeddi ein casgliadau cychwynnol. Rydym yn disgrifio ein cynlluniau tymor byr a thymor hir yma i hyrwyddo buddiannau defnyddwyr a busnesau.

Gwnaethom amlinellu pum prif elfen ein strategaeth:

- Hyrwyddo cystadleuaeth a buddsoddi mewn rhwydweithiau, gan gynnwys newid strategol i annog cwmnïau i gysylltu rhwydweithiau ffibr mawr sy'n cystadlu â'i gilydd yn uniongyrchol i gartrefi a swyddfeydd. Bydd hyn yn darparu ateb amgen i'r rhwydweithiau telegyfathrebiadau presennol sy'n rhannol seiliedig ar gopr, technolegau llawer hŷn;
- Cynllun i ddiwygio trefn lywodraethu Openreach a chryfhau ei annibyniaeth oddi wrth BT, gyda mwy o annibyniaeth i wneud ei benderfyniadau ei hun ar gyllidebu, buddsoddi a strategaeth. Efallai y bydd hyn yn golygu y bydd yn rhaid i Openreach ddod yn is-gwmni ar wahân sy'n eiddo'n llwyr i Grŵp BT gyda'i ddiben ei hun ac aelodau bwrdd ei hun neu, os bydd raid, ei wneud yn endid cyfreithiol hollol ar wahân gyda'i gyfranddalwyr ei hun;
- Newid sylweddol yn ansawdd gwasanaethau. Bydd hyn yn cynnwys tablau perfformiad, cymharu ansawdd gwasanaeth yn ôl cwmni; safonau sylfaenol llymach ar gyfer Openreach, ac iawndal awtomatig i ddefnyddwyr a busnesau bach pan fydd pethau'n mynd o chwith;
- Grymuso defnyddwyr, ac yn arbennig gwneud yn siŵr fod ganddynt bŵer go iawn i arfer dewis yn y farchnad. Mae hyn yn golygu darparu gwybodaeth glir a hwylus am y gwasanaethau sydd ar gael iddynt, a sut y gallant newid darparwr; a
- Dadreoleiddio a symleiddio ein rheolau, gan ddiogelu ein defnyddwyr yr un pryd, drwy leihau rheoleiddio pan nad yw pobl a busnesau ei angen mwyach - er enghraifft pan mae marchnadoedd yn ddigon cystadleuol.

Rydym yn gweithredu casgliadau penodol yr adolygiad drwy ffrydiau gwaith gwahanol o fewn Ofcom.

## Canlyniad

Mae defnyddwyr telegyfathrebiadau ledled y DU wedi elwa o gynnyrch arloesol, dewis ehangach a phrisiau is ers ein hadolygiad strategol diwethaf yn 2005. Ond er bod y ddarpariaeth a'r ansawdd yn gwella, nid yw cyflymder y newid yn ddigon sydyn i ateb disgwyliadau cynyddol pobl a busnesau.

Hefyd, mae diddordeb cynyddol mewn cynnyrch cyfathrebiadau cydgyfeiriol, ac rydym yn gweld cyfuno'n digwydd yn y diwydiant.

Bwriad casgliadau ein hadolygiad strategol yw sicrhau mwy o gystadleuaeth a llai o ddibyniaeth ar Openreach; strwythur newydd ar gyfer Openreach, gydag annibyniaeth briodol; targedau llymach ar gyfer ansawdd y gwasanaeth; a darpariaeth symudol a band eang gwell.

Mae'r casgliadau hyn ar gamau cynnar y broses ymgynghori a gweithredu. Bydd ymgysylltu â'r diwydiant, Llywodraeth a defnyddwyr yn dal yn agwedd hanfodol ar ein gwaith yn y blynyddoedd i ddod.

Credwn ein bod wedi sefydlu fframwaith i hyrwyddo buddsoddiad, cystadleuaeth a lefelau gwasanaeth gwell. Bwriad hyn yw sicrhau bod busnesau a defnyddwyr yn cael y gwasanaethau ffôn, band eang a symudol y maent eu hangen dros y degawd nesaf, lle bynnag y maent yn byw ac yn gweithio.



**Ein hamcan: Sicrhau cystadleuaeth effeithiol wrth ddarparu gwasanaethau cyfathrebiadau ar gyfer busnesau, yn enwedig busnesau bach a chanolig (BBCh)**

Mae llinellau ar brydles yn floc adeiladu hollbwysig yn seilwaith y DU. Mae'r cysylltiadau data cyflymder uchel pwrpasol hyn yn cael eu defnyddio gan fusnesau mawr a chwmnïau symudol a band eang i drosglwyddo data ar eu rhwydweithiau. Maent hefyd yn darparu cysylltiadau cyflymder uchel hanfodol rhwng ysgolion, prifysgolion, llyfrgelloedd a chyrff cyhoeddus eraill.

Mae cystadleuaeth effeithiol yn y farchnad llinellau ar brydles yn helpu i feithrin buddsoddiad, arloesedd a dewis, ac o fudd i ddefnyddwyr yn y pen draw.

Mae gwasanaethau cyfathrebiadau hefyd yn hollbwysig i'r 5.2 miliwn o BBCh yn y DU (busnesau bach a chanolig sydd â llai na 250 o weithwyr). Mae BBCh yn ffurfio 99.9% o gwmnïau y DU ac maent yn cyfrannu'n sylweddol at dwf economaidd. Rydym eisiau gwneud yn siŵr fod y farchnad yn rhoi'r ddarpariaeth, yr ansawdd a'r prisiau y mae busnesau bach eu hangen, yn ogystal â diogelwch digonol pan aiff pethau o chwith.

## Beth rydym wedi'i wneud

Rydym wedi edrych ar linellau ar brydles fel rhan o'n *Hadolygiad o'r Farchnad Cysylltedd Busnes* (BCMR). Mae mwyafrif y llinellau hyn ym meddiant BT, ac yn cael eu cynnal ar ran darparwyr sy'n cystadlu â'i gilydd gan BT. Daethom i'r casgliad y dylai BT agor ei rwydwaith ffibr optegol i ddarparwyr llinellau ar brydles cyflymder uchel ar gyfer busnesau. Credwn y bydd hyn yn gadael i gystadleuwyr ddatblygu gwasanaethau capasiti-uchel newydd ar gyfer eu cwsmeriaid.

Rydym hefyd wedi cyflwyno gofynion perfformiad ansawdd-gwasanaeth sylfaenol newydd ar Openreach ar gyfer llinellau ar brydles, ac wedi dadreoleiddio mewn rhai rhannau o'r farchnad lle mae'r gystadleuaeth yn ddigonol erbyn hyn.

Ar wahân, rydym wedi amlinellu rhaglen waith i helpu BBCh i gael y gorau o'u gwasanaethau cyfathrebiadau.

Roedd hyn yn dilyn astudiaeth fanwl o gyflymderau band eang busnesau, argaeledd, ansawdd y gwasanaeth a'r gallu i ddewis a newid darparwr. Drwy ein hymchwil, nodwyd nifer o feysydd i gael sylw drwy gyfuniad o reoleiddio, polisi cyhoeddus a gweithredu gan ddarparwyr band eang.

Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo, gan gynnwys cyflwyno Cod Ymarfer band eang busnes newydd. Mae darparwyr wedi cytuno i roi gwybodaeth gliriach, fwy cywir a mwy tryloyw ar gyflymderau band eang i fusnesau cyn iddynt ymrwymo i gontract. Mae'r rheini sydd wedi cytuno i ddilyn y Cod yn ymrwymo i reoli'n effeithiol unrhyw broblemau a gaiff busnesau gyda chyflymderau band eang, ac i ganiatáu i gwsmeriaid roi'r gorau i'w contract os bydd y cyflymderau'n disgyn o dan lefel sylfaenol sydd wedi'i gwarantu.

Canfu ein hymchwil hefyd nad yw BBCh yn cael eu gwasanaethu gystal â defnyddwyr preswyl gan fand eang cyflym iawn, ac nad oes gan 84% o adeiladau BBCh mewn ardaloedd gwledig fynediad i'r cyfryw wasanaeth. Gwnaethom argymell wrth y Llywodraeth y dylid gosod targedau penodol ar gyfer mynediad BBCh i fand eang cyflym iawn. Gwnaethom hefyd ymestyn ein porth busnes ar-lein, a lansiwyd am y tro cyntaf yn 2014. Mae hwn yn rhoi cyngor i BBCh am ddewis a newid darparwr, llywio yn y farchnad, negodi contractau a datrys cwynion.

## Canlyniad

Dros y blynyddoedd nesaf, dylai ein penderfyniadau yn dilyn yr Adolygiad o'r Farchnad Cysylltedd Busnes arwain at brisiau is, rhagor o arloesi, gosod cyfarpar yn gynt a mwy o gystadleuaeth wrth ddarparu llinellau busnes cyflym iawn.

Er bod 85% o BBCh yn teimlo bod eu hanghenion busnes yn cael eu diwallu'n dda gan y farchnad gyfathrebiadau, mae gan nifer sylweddol bryderon am gyflymderau band eang, argaeledd, ansawdd y gwasanaeth a dewis.

Rydym yn cymryd camau, ochr yn ochr â'r diwydiant a'r Llywodraeth, i roi sylw i'r pryderon hyn fel blaenoriaeth. Byddwn yn parhau i ymgysylltu'n agos â BBCh i helpu i sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu.

### Ein hamcan: Gwella'r broses o newid darparwyr ar gyfer defnyddwyr

Mae'n rhaid i ddefnyddwyr allu dod o hyd i'r bargeinion gorau ac mae'n rhaid iddynt allu newid darparwr yn hawdd os ydynt i fanteisio'n llawn ar gystadleuaeth yn y marchnadoedd cyfathrebiadau. Mae problemau wrth newid darparwr yn gallu cyfyngu ar ddewis defnyddwyr a gall niweidio cystadleuaeth a buddsoddi, tra mae'r arfer cynyddol o fwndelu gwasanaethau yn gallu gwneud newid yn fwy anodd byth.

Credwn fod newid darparwr yn haws pan all defnyddwyr wneud dewisiadau ar sail gwybodaeth, a phan fyddant yn hyderus y bydd y broses newid yn ddidrafferth. Mae ein hymchwil wedi canfod y gall newid fod yn llawer mwy anodd pan mae defnyddwyr yn gorfod cysylltu â'u darparwr presennol fel rhan o'r broses.

## Beth rydym wedi'i wneud

Ym mis Mehefin 2015, gwnaethom y broses o newid rhwng darparwyr band eang a llinell dir ar rwydwaith telegyfathrebiadau Openreach yn llawer symlach. Mae proses un cam newydd yn gosod y cyfrifoldeb am newid erbyn hyn yn gyfan gwbl yn nwylo'r cwmni y mae'r cwsmer yn symud ato. Gwnaethom ymestyn hyn i rwydwaith copr KCOM hefyd yn Hull.

Ym mis Mawrth 2016, gwnaethom amlinellu opsiynau i'w gwneud yn haws i ddefnyddwyr newid eu darparwr ffôn symudol. Mae'r ffordd mae hyn yn gweithio heddiw'n gallu amrywio, yn dibynnu ar a yw'r cwsmer am gadw ei rif.



Yr opsiwn a ffafrir gennym ni yw symud i system 'dan arweiniad y darparwr sy'n ennill y cwsmer', sy'n debyg i'r hyn sydd ar gael ar gyfer gwasanaethau llais a band eang. Ond rydym hefyd yn gofyn barn am symleiddio'r broses bresennol drwy ei gwneud yn haws ac yn gynt trosglwyddo rhif i ddarparwr newydd.

Ar wahân, rydym yn awr yn adolygu profiadau defnyddwyr o newid gwasanaethau tri-gwasanaeth (cynnyrch llinell dir, band eang a theledu drwy dalu wedi'u bwndelu) rhwng darparwyr gan ddefnyddio rhwydweithiau lloeren Sky, Virgin Media neu Openreach.

Ar wahân i'r gwaith ar newid, mae Ofcom yn gysylltiedig â nifer o brosiectau i annog cystadleuaeth rhwng darparwyr. Mae'r rhain yn cynnwys gweithio i sicrhau bod defnyddwyr yn fwy ymwybodol o'r amser y daw eu contractau i ben; cynlluniau i helpu defnyddwyr i lywio drwy'r farchnad; a rhaglen orfodi mewn perthynas â'r trefniadau presennol ar gyfer canslo a therfynu contractau, gan gynnwys ymchwiliad sy'n parhau i gydymffurfiad Sky â'r rheolau ar ganslo a therfynu.

## Canlyniad

Bwriadwn gwblhau ein gwaith ar y prosesau newid symudol presennol yn ystod tymor yr hydref 2016.

Drwy ein hadolygiad strategol, gwelwyd bod angen gwella'r broses newid ar gyfer gwasanaethau wedi'u bwndelu. Bwriadwn amlinellu'r camau nesaf, gan gynnwys unrhyw gynigion ar gyfer newid fel rhan o ymgynghoriad ffurfiol yn ystod yr haf. Rydym hefyd yn gweithio gyda'r Llywodraeth a'r Comisiwn Ewropeaidd ar ddatblygu fframwaith priodol i reoleiddio'r gwaith o newid bwndeli.

Gydol ein gwaith ar newid darparwr, yng nghyswllt gwasanaethau symudol a thri-gwasanaeth, rydym yn ystyried datblygiadau yn y farchnad yn y dyfodol fel bwndeli pedwar-gwasanaeth sy'n cynnwys gwasanaethau llinell dir, band eang, teledu drwy dalu a symudol.

## Ein hamcan: Sicrhau bod y gwasanaeth post cyffredinol yn parhau i gael ei ddarparu

Mae defnyddwyr a busnesau'r DU yn elwa o'r gwasanaeth post cyffredinol sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Post Brenhinol gasglu a danfon llythyrau i bob cyfeiriad yn y DU chwe diwrnod yr wythnos (a pharseli bum diwrnod yr wythnos) am yr un pris.

Mae gennym ddyletswydd i sicrhau bod gwasanaeth post cyffredinol yn cael ei ddarparu sy'n gynaliadwy'n ariannol ac yn effeithlon. Dylai hyn helpu i ddiwallu anghenion pobl ar draws gwledydd y DU, ac mewn ardaloedd gwledig.

### Beth rydym wedi'i wneud

Daeth ein hadolygiad ym mis Rhagfyr 2014 o gystadleuaeth yn y sector post i'r casgliad nad oedd y gwasanaeth cyffredinol o dan fygythiad ar hyn o bryd.

Ond, gwnaethom benderfynu ehangu ein hadolygiad i asesu ffactorau eraill - y tu hwnt i gystadleuaeth gyda llythyrau - a allai effeithio ar y gwasanaeth cyffredinol. Yn benodol, amlinellwyd cynlluniau gennym i weld pa mor gyflym y dylai'r Post Brenhinol allu gwella ei effeithlonrwydd, yn ogystal â datblygiadau yn y farchnad parseli.

Penderfynodd Whistl, yr unig gystadleuydd o bwys a oedd gan y Post Brenhinol yng nghyswllt danfon llythyrau, roi'r gorau i'r rhan honno o'i fusnes ym mis Mehefin 2015. Yn niffyg cystadleuaeth uniongyrchol wrth ddanfon llythyrau, rydym yn bryderus na fydd gan y Post Brenhinol gymhelliant i wella'i effeithlonrwydd na chyfyngu ar brisiau. Felly, cyhoeddwyd cynlluniau gennym i ehangu ein gwaith drwy gynnal adolygiad sylfaenol o'r broses rheoleiddio'r gwasanaeth post. Nod hyn yw sicrhau bod y drefn reoleiddio'n dal yn briodol ac yn ddigonol i ddiogelu'r gwasanaeth post cyffredinol.

Gofynnwyd am dystiolaeth gychwynnol ar gyfer yr adolygiad ym mis Gorffennaf 2015, a dilynwyd hyn gan ymgynghoriad manwl ym mis Ebrill 2016.

Yn ystod y flwyddyn gwnaethom barhau i fonitro prif agweddau'r farchnad bost sy'n effeithio ar y gwasanaeth cyffredinol. Dangosai ein pedwerydd diweddariad monitro blynyddol, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2015, fod busnes y Post Brenhinol a reoleiddir wedi cynyddu maint ei elw i 5.6% yn 2015/16. Mae hyn o fewn yr ystod 5% - 10% sydd, ym marn Ofcom, yn golygu bod y gwasanaeth cyffredinol yn gynaliadwy'n ariannol.

### Canlyniad

Ar ôl ystyried sawl ffactor a allai effeithio ar gynaliadwyedd y gwasanaeth post cyffredinol, gan gynnwys newidiadau yn y farchnad, bwriadwn gwblhau ein hadolygiad o'r fframwaith rheoleiddio'r post erbyn diwedd 2016.

Ein nod o hyd yw sicrhau bod defnyddwyr y gwasanaeth post yn elwa o wasanaeth cyffredinol sy'n darparu arloesedd a phrisiau is, gan gydnabod hefyd ein dyletswydd i gydbwyso hyn â chynaliadwyedd ariannol y cwmni sy'n darparu'r gwasanaeth hwnnw.



SICRHAU BOD CYFATHREBIADAU'N GWEITHIO I BAWB

- Hyrwyddo dewis
- Sicrhau safonau
- Atal niwed

**Ein hamcan: Cynrychioli safbwynt y DU mewn trafodaethau rhyngwladol i gytuno ar y ffordd orau o ddefnyddio sbectrwm yn effeithiol**

Mae sbectrwm yn adnodd gwerthfawr y mae pen draw iddo sy'n sail i wasanaethau di-wifr yn amrywio o deledu i gyfathrebiadau radio a band eang. Mae'n hanfodol fod y tonnau awyr yn cael eu defnyddio'n effeithlon i alluogi economi ddigidol y DU i ddiwallu anghenion defnyddwyr. Un o'n swyddogaethau craidd yw rheoli'r adnodd pwysig hwn yn ofalus.

Rydym yn cynrychioli'r DU mewn trafodaethau rhyngwladol ar sbectrwm, gan gynnwys yng Nghynhadledd Radiogyfathrebu'r Byd (WRC)[2]. Defnyddir y fforwm hwn, a gynhelir oddeutu bob pedair blynedd, i adolygu a diwygio'r cytuniad rhyngwladol sy'n rheoli sbectrwm.

Mae'r cytuniad hwn yn gweithredu fel fframwaith ar gyfer y defnydd o sbectrwm yn fyd-eang, gan helpu rheoleiddwyr i osgoi ymyriant rhwng gwledydd ac yn galluogi cwmnïau neu gynhyrchwyr cyfarpar i wella'r darbodion maint a'r gallu i ryngweithredu. Mae'r buddion hyn yn llifo trwodd i'r defnyddwyr ar ffurf prisiau is a dewis ehangach o ddyfeisiau.

Cynhaliwyd y gynhadledd ddiwethaf ym mis Tachwedd 2015 (WRC-15). Yn y gynhadledd, trafodwyd materion yn ymwneud â sbectrwm, gan gynnwys band eang symudol a gwasanaethau symudol, awyrofod, lloeren, defnydd gwyddonol a radio-seryddiaeth, radio amatur a morol.

## Beth rydym wedi'i wneud

Gwnaethom gynnal rhaglen ymgysylltu eang a llawn yn y cyfnod yn arwain at WRC-15, gan gynnwys gwaith gyda'r Llywodraeth a rhanddeiliaid yn y DU. Cyn y gynhadledd, cyhoeddasom ymgynghoriad, diweddariad, a dogfen derfynol yn nodi safbwyntiau'r DU.

Gwnaethom ymgysylltu'n helaeth hefyd â rhanddeiliaid drwy ymgynghori a chyfarfodydd gweithgorau cyhoeddus. Wedyn, gwnaethom gydlynu ein safbwynt â safbwynt cymdogion daearyddol y DU yn y CEPT[3] (y Gynhadledd Ewropeaidd ar Weinyddiaethau Post a Thelegyfathrebiadau).

Roeddem yn darparu llais cryf ar ran y DU yn WRC-15. Nod ein cynigion oedd cefnogi buddiannau'r DU, ond gan gydnabod pwysigrwydd cydweithredu da o fewn y Gynhadledd. Er enghraifft, gwnaethom argymell y defnydd o'r bandiau amledd 1427-1518MHz a 3,400-3,600MHz ar gyfer band eang symudol; a gwnaethom gynnig amrywiaeth o fandiau ar gyfer astudiaethau technegol mewn perthynas â '5G', y genhedlaeth nesaf o fand eang symudol. Gwnaethom hefyd gynnig bod CEPT yn cadarnhau'r ffaith y dylai sbectrwm teledu digidol, yn y band UHF, gael ei ddefnyddio dim ond ar gyfer darlledu am y blynyddoedd i ddod.

O safbwynt y DU, gwnaethom weithio i sicrhau bod yr 'eiliad llamu' o dan amser cydgysylltiedig y byd (UTC) yn cael ei gadw; gwnaethom amddiffyn y warchodaeth dechnegol i gysylltiadau sefydlog microdon a ddefnyddir yn niwydiant olew a nwy Môr y Gogledd; a gwnaethom gynrychioli buddiannau diwydiant lloeren y DU mewn nifer o drafodaethau.




## Canlyniad

Yn gyffredinol, cytunodd CEPT a WRC-15 â'n cynigion. Credwn fod hyn yn ganlyniad da i'r DU. Mae gan y newidiadau a gadarnheir yn y WRC swyddogaeth bwysig yn pennu'r disgwyliadau a'r penderfyniadau buddsoddi yn y dyfodol i lawer o sectorau ar draws y maes cyfathrebiadau radio, megis lloeren, symudol, awyrofod a morol. Dros amser, mae hyn yn arwain at fwy o ddewis a phrisiau is i bobl a busnesau.

Bydd canlyniadau'r WRC-15 hefyd yn cyfrannu at ein hadolygiadau yn y tymor hwy i sicrhau bod sbectrwm yn cael ei ddefnyddio'n effeithlon yn y DU. Mae'r rhain yn cynnwys ein strategaeth[4] ar ddata symudol a'n hadolygiad strategol o sbectrwm, a ddefnyddir gan y diwydiannau lloeren a gwyddorau'r gofod[5].

[2] http://www.itu.int/en/ITU-R/conferences
[3] http://cept.org
[4] http://stakeholders.ofcom.org.uk/consultations/mobile-data-strategy/
[5] http://stakeholders.ofcom.org.uk/consultations/space-science-cfi/

## Sicrhau safonau a gwella ansawdd

Rydym eisiau sicrhau bod gwasanaethau cyfathrebiadau o safon dda yn hygyrch ac yn fforddiadwy i bawb yn y DU.

Er mai cystadleuaeth sydd wrth wraidd ein dull gweithredu, nid yw hyn yn ddigon ar ei ben ei hun. Mewn rhai achosion, mae angen i ni ddefnyddio ymyriadau wedi'u targedu.

**Ein hamcan: Hybu diogelwch a ffydd y gynulleidfa mewn amgylcheddau traddodiadol ac amgylcheddau ar-lein**

Ar y llwyfannau darlledu traddodiadol, rydym yn trwyddedu mwy o sianeli nag erioed o'r blaen. Mae rhai o'r sianelau hyn ym meddiant darlledwyr nad ydynt wedi bod yn y maes ers amser hir neu ddarlledwyr heb ddiwylliant wedi'i sefydlu o gydymffurfio â rheoliadau. Mae hyn yn creu mwy o gyfle i arloesi, ond mwy o risg y bydd cynnwys niweidiol yn cael ei ddarlledu ar yr awyr.

I fynd i'r afael â'r heriau hyn, rydym wedi cyflawni gwaith amrywiol i gynnal a diweddaru'r fframwaith diogelwch a ffydd cynulleidfaoedd ar gyfer cynnwys clyweledol. Ochr yn ochr â hyn, rydym yn parhau i hyrwyddo diogelwch cynulleidfaoedd sy'n gwylio cynnwys ar-lein, yn arbennig plant.





### Beth rydym wedi'i wneud

Yn dilyn adolygiad helaeth, rhoesom newidiadau ar waith i'n proses o drwyddedu gwasanaethau darlledu a gorfodi safonau. Ein nod oedd sicrhau bod trwyddedeion yn cydymffurfio â'n rheolau, a'n galluogi i ganfod cynnwys nad yw'n cydymffurfio mor effeithiol â phosibl.

Roedd y gwaith hwn yn cynnwys ehangu ein gwaith monitro i ganfod cynnwys a allai fod yn niweidiol; archwilio ein trwyddedeion a chynnal gwiriadau ychwanegol arnynt; gweithredu'n gadarn yn erbyn trwyddedeion sy'n torri amodau eu trwyddedau; a helpu trwyddedeion newid i ddeall eu rhwymedigaethau rheoleiddiol.

Ar 1 Ionawr 2016, daeth Ofcom yn unig reoleiddiwr gwasanaethau rhaglenni ar-alwad. Yn y gorffennol, y cyd-reoleiddiwr, yr Awdurdod Teledu ar Alwad (ATVOD) oedd yn bennaf gyfrifol am y maes hwn. Erbyn hyn, mae Ofcom yn rheoleiddio cynnwys golygyddol ar wasanaethau rhaglenni ar-alwad, ochr yn ochr â'n gwaith rheoleiddio presennol yn y maes darlledu. Mae hyn yn creu arbedion effeithlonrwydd sydd o fudd i'r diwydiant a chynulleidfaoedd. Bydd yr Awdurdod Safonau Hysbysebu (ASA) yn parhau i fod yn gyd-reoleiddiwr gyda ni ar gyfer cynnwys hysbysebu ar wasanaethau ar-alwad.

Ofcom yw'r bwrdd sy'n cadeirio gweithgor cyfryngau cymdeithasol o fewn UKCCIS (Cyngor y DU ar Ddiogelwch Plant ar y Rhyngrwyd). Yn y rôl hon, lluniwyd canllaw[6] gennym ar gyfer cwmnïau cyfryngau cymdeithasol, sy'n cynnig cyngor ac arferion gorau ym maes diogelwch plant ar-lein. Mae'r canllaw wedi'i anelu at gwmnïau technoleg newydd a chwmnïau canolig eu maint sy'n darparu gwasanaethau rhyngweithiol a chyfryngau cymdeithasol ar-lein, neu ar ddyfeisiau symudol, i bobl ifanc o dan 18 oed. Gall hyn gynnwys rhwydweithiau cymdeithasol, darparwyr gemau rhyngweithiol neu negeseua.

Ym mis Rhagfyr 2015, gwnaethom gyflwyno ein pedwerydd adroddiad i Lywodraeth y DU ar fesurau diogelwch ar y rhyngrwyd i ddiogelu plant. Roedd hwn yn canolbwyntio ar strategaethau rhieni i ddiogelu plant ar-lein, ac roedd yn darparu diweddariad ar y mesurau a gymerir gan bedwar darparwr gwasanaethau rhyngrwyd llinell sefydlog mwyaf y DU[7] i ymestyn eu gwasanaethau hidlo sy'n ystyriol o deuluoedd i gwsmeriaid cyfredol a newydd.

---

6 https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/487973/ukccis_guide-final__3_.pdf

7 BT, Sky, TalkTalk a Virgin Media.

8 Y Gyfarwyddeb AVMS sy'n rheoli'r broses ar draws yr UE o gydlynu deddfwriaeth genedlaethol ar yr holl gyfryngau clyweledol; o ran darllediadau teledu traddodiadol a gwasanaethau ar-alwad. Gwna hyn drwy set sylfaenol o reolau cyffredin.

Mae Ofcom yn dal yn aelod prysur o'r Grŵp Rheoleiddwyr Ewropeaidd ar gyfer Gwasanaethau Cyfryngau Clyweledol (ERGA). Rydym wedi cyfrannu'n helaeth at ei is-grŵp ar ddiogelu pobl ifanc dan oed, a gyflwynodd adroddiad ar y cyd gan aelodau ERGA i'r Comisiwn Ewropeaidd ar ddefnyddio'r Gyfarwyddeb Gwasanaethau Cyfryngau Clyweledol[8], ac ar faterion yn ymwneud â gwasanaethau cyfryngau clyweledol yn fwy cyffredinol.

## Canlyniad

Mae cynulleidfaoedd yn dal i ddisgwyl safonau uchel yng nghyswllt diogelwch ar y teledu a'r radio. Mae ein gwaith i gryfhau'r prosesau ar gyfer trwyddedu a gorfodi wedi sicrhau bod gennym ddull effeithiol wedi'i dargedu ar gyfer diogelu cynulleidfaoedd.

Yn y byd digidol, mae gennym fframwaith effeithiol yn ei le i roi'r lefel briodol o ffydd a diogelwch i gynulleidfaoedd rhag cynnwys clyweledol a allai fod yn niweidiol.

Wrth i'r ffordd y mae pobl yn gwylio ac yn gwrando ar gynnwys barhau i newid, bydd Ofcom yn sicrhau bod y gwaith rheoleiddio'n parhau ar yr un lefel ac yn hyrwyddo buddiannau gorau cynulleidfaoedd.

**Ein hamcan: Hyrwyddo darpariaeth well o ran gwasanaethau sefydlog a symudol i ddefnyddwyr preswyl a busnes**

Er bod y ddarpariaeth o ran rhwydweithiau sefydlog a symudol yn parhau i wella, mae rhai rhannau o'r DU yn parhau heb wasanaethau band eang cyflym a lle mae'r ddarpariaeth symudol yn wael – yn arbennig yn yr ardaloedd mwy gwledig ar draws y gwledydd a'r rhanbarthau.

Er enghraifft, mae oddeutu 2.4 miliwn o gartrefi a busnesau bach yn dal heb allu cael cyflymderau band eang uwchben 10Mbit yr eiliad, tra mai dim ond 68% o BBCh sydd â mynediad i fand eang cyflym iawn, o'i gymharu â 85% o holl adeiladau'r DU. Ac er bod 99% o ardaloedd trefol yn gallu cael darpariaeth llais gan y pedwar rhwydwaith symudol, 72% yw'r ganran mewn ardaloedd gwledig, 42% ar ffyrdd y DU, a 31% y tu mewn i adeiladau yng nghefn gwlad.


## Beth rydym wedi'i wneud

Mae gwella ansawdd y gwasanaeth a'r ddarpariaeth drwy roi gwybodaeth well i ddefnyddwyr yn parhau'n greiddiol i'n cynlluniau.


Cyhoeddon ni ddau adroddiad ymchwil arall yn archwilio perfformiad y gwasanaethau 3G a 4G gan bedwar cwmni rhwydwaith symudol cenedlaethol y DU: EE, O2, Three a Vodafone.

Gwnaethom hefyd lansio adnodd ar-lein pwerus sy'n galluogi pobl i wirio ansawdd y ddarpariaeth symudol i 100 metr sgwâr. Credwn mai hwn yw'r adnodd mwyaf hygyrch a chynhwysfawr sydd ar gael i ddefnyddwyr a busnesau ar gyfer asesu'r ddarpariaeth symudol. Ym mis Mawrth 2016, gwnaethom wella rhagor ar yr adnodd drwy ychwanegu gwybodaeth am fand eang fel y gall pobl a busnesau bellach wirio eu darpariaeth band eang symudol a chyflym iawn, yn ogystal â'r cyflymderau lawrlwytho cyfartalog, i gyd mewn un man.

## Mynediad band eang - BBCh




Dim ond 68% o BBCh sydd â mynediad i fand eang cyflym iawn o'i gymharu ag 85% o adeiladau yn y DU.




Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom barhau i gynghori'r Llywodraeth ar agweddau technegol y dulliau amrywiol sydd ar gael i helpu i wella'r ddarpariaeth symudol. Roedd hyn yn cynnwys rhoi cymorth technegol i'r Adran Drafnidiaeth a Network Rail ar gyfer gwella gwasanaethau symudol ar y rheilffyrdd. Mae'r Adran Drafnidiaeth yn bwriadu buddsoddi dros £50m i wella mynediad Wi-Fi ar drenau.

Ym mis Mawrth 2016 hefyd, gwnaethom gyhoeddi ymchwil ar berfformiad band eang y cartref yn y DU. Roedd yr adroddiad yn canolbwyntio ar dri mesur allweddol a oedd yn berthnasol i brofiad defnyddwyr o fand eang: cyflymder llwytho i lawr, cyflymder llwytho i fyny ac ansawdd ffrydio fideo.

Mae nifer o heriau yn dal i fodoli yng nghyswllt gwella'r ddarpariaeth gwasanaethau band eang sefydlog ar draws y DU, a'u hansawdd.

Ar hyn o bryd, mae oddeutu 8% o gartrefi a busnesau bach y DU yn methu derbyn cyflymderau band eang o 10Mbit yr eiliad neu uwch, sef y lefel a ddynodwyd gennym fel y lefel lle mae'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr yn dweud bod eu profiad o fand eang yn 'dda'. Mae'r ffigur hwn yn codi i 48% o gartrefi a busnesau yn yr ardaloedd gwledig, gyda chyfran debyg o BBCh mewn ardaloedd fel parciau busnes yn methu derbyn y cyfryw gyflymderau.

Rydym yn gweithio'n agos gyda'r Llywodraeth a'r diwydiant i wneud rhywbeth am yr heriau hyn. Rydym yn darparu cyngor technegol i'r Llywodraeth a byddwn yn helpu i weithredu'r rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol newydd y mae'n ei hargymell, sy'n golygu y bydd gan bob cartref a busnes hawl gyfreithiol i ofyn am gysylltiad band eang o 10Mbit yr eiliad erbyn diwedd y Senedd bresennol.

Lle bo modd, rydym yn anelu at sicrhau y bydd pobl a busnesau'n gallu dewis darparwr, a all gynnwys technolegau sefydlog a di-wifr, i gyflwyno'r rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol.

Rydym hefyd yn gweithio i chwalu'r rhwystrau sy'n atal darparwyr llai rhag buddsoddi yn eu rhwydweithiau eu hunain, sy'n aml yn gwasanaethu ardaloedd lle nad oes dim darpariaeth bron. Gan edrych ymhellach, rydym yn ymgysylltu â diwydiant a gwneuthurwyr polisi i ystyried sut i gefnogi'r genhedlaeth nesaf o rwydweithiau band eang. Dros y blynyddoedd nesaf efallai y gwelwn y bydd band eang 'tra chyflym' ar gael yn eang (a ddiffinnir fel cyflymderau dros 300Mbit yr eiliad), sydd ar gael ar hyn o bryd i 2% yn unig o gartrefi.

## Canlyniad

Mae ein hymchwil yn dangos bod cynnydd da wedi'i wneud yng nghyswllt y cyfathrebiadau sydd ar gael, a'r nifer sy'n manteisio arnynt, dros y flwyddyn ddiwethaf. Ond, mae mwy i'w wneud o hyd. Ein her yw parhau i gefnogi cystadleuaeth ac arloesi, gan helpu hefyd i wella'r ddarpariaeth ledled y wlad - yn arbennig mewn ardaloedd anodd eu cyrraedd ac ar gyfer BBCh.

Dylai ein gwaith i sicrhau bod mwy o wybodaeth ar gael am wasanaethau band eang sefydlog a symudol helpu defnyddwyr i wneud dewisiadau mwy gwybodus. Dylai hefyd helpu gwneuthurwyr polisi i wella'r ddarpariaeth symudol, ac ysgogi darparwyr cyfathrebiadau i wella'u rhwydweithiau. Ar yr un pryd, dylai ein hymdrechion gyda'r Llywodraeth a diwydiant helpu i ymestyn y gwasanaethau band eang a band eang tra chyflym sydd ar gael i'r cartrefi a'r busnesau nad ydynt ar hyn o bryd yn gallu cael cyflymderau da.

Mae ein hadolygiad digidol yn cynnwys cynlluniau i asesu sut y gallwn osod rhagor o rwymedigaethau ar gwmnïau sy'n gwneud cais am sbectrwm di-wifr er mwyn helpu i wella'r ddarpariaeth mewn ardaloedd gwledig. Mae'r adolygiad hefyd yn amlinellu cynlluniau i gefnogi camau'r Llywodraeth i leihau cost buddsoddi mewn rhwydweithiau symudol, gan gynnwys adolygiadau o'r rheolau sy'n ymwneud ag adeiladu mastiau newydd.

**Ein hamcan: Gweithio tuag at sicrhau bod sbectrwm yn cael ei ryddhau'n brydlon a'i ddyfarnu'n effeithiol, gan gynnwys y bandiau 2.3GHz, 3.4GHz a 700MHz**

Mae darparwyr gwasanaethau symudol angen mwy o sbectrwm i gefnogi galwadau cynyddol defnyddwyr am wasanaethau rhyngrwyd ar y ffordd, sy'n cael ei sbarduno gan ffonau clyfar a dyfeisiau tabled.

Mae angen inni reoli'r cyflenwad cyfyngedig o sbectrwm sydd ar gael a chydbwyso anghenion defnyddwyr gwahanol drwy sicrhau eu bod yn cael mynediad at faint priodol ohono.



## Beth rydym wedi'i wneud

Yn ystod y flwyddyn, bu i ni ganolbwyntio ar dri band sbectrwm penodol - pob un o ddiddordeb i gwmnïau rhwydweithiau symudol ac eraill sy'n ymwneud â band eang symudol. Mae'r band 700MHz yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd ar gyfer teledu daearol digidol (DTT) a 'gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig' (PMSE). Arferai'r bandiau 2.3GHz a 3.4GHz gael eu defnyddio gan y Weinyddiaeth Amddiffyn, ond maent yn rhan o gynllun y Llywodraeth i ryddhau 750MHz o sbectrwm y sector cyhoeddus mewn bandiau o dan 10GHz erbyn 2022, gyda 500MHz ohono ar gael erbyn 2020.

Ar gyfer y bandiau 2.3 a 3.4GHz, bu i ni gyhoeddi dau ddatganiad (ym mis Mai a mis Hydref 2015) yn disgrifio'r arwerthiant arfaethedig o 190MHz o sbectrwm ar draws y ddau fand. Roedd y rhain yn cadarnhau manylion, fformat, cynllun a phrisiau cadw'r arwerthiant. Roedd y datganiad ym mis Hydref hefyd yn ystyried pryderon posibl ynghylch cystadleuaeth wrth ddyfarnu'r sbectrwm, gan ddod i'r casgliad y gallai'r arwerthiant fynd yn ei flaen heb ddefnyddio mesurau cystadleuaeth penodol.

Ym mis Tachwedd 2014, gwnaethom benderfynu newid y defnydd o'r band 700MHz i ddata symudol, gan anelu at ei ddarparu ar gyfer y cyfryw ddefnydd erbyn dechrau 2022 fan bellaf.

Cyn hyn, rydym yn parhau i weithio ar yr heriau sy'n gysylltiedig â chlirio'r band a diogelu buddiannau defnyddwyr presennol teledu daearol digidol a PMSE.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi parhau i fod yn rhan o drafodaethau rhyngwladol ar gynllunio a chysoni sbectrwm. Rydym wedi gwneud rhagor o waith gyda darlledwyr i helpu i gynllunio ar gyfer gwneud addasiadau gofynnol i seilwaith teledu daearol digidol, a hefyd wedi bod yn cydlynu â'r diwydiant PMSE i sicrhau ei fod yn parhau i gael gafael ar sbectrwm er mwyn i'w wasanaethau ffynnu yn y dyfodol.

## Canlyniad

Mae'n anochel y bydd ein penderfyniad i ryddhau'r amleddau 700MHz ar gyfer band eang symudol yn effeithio ar ddefnyddwyr presennol y band. Mae gan deledu daearol digidol rôl hanfodol o hyd yn darparu mynediad cyflawn bron ac am gost isel at sianeli teledu gwasanaeth cyhoeddus (fel Freeview).

Ond, rydym yn gweithio i sicrhau na fydd y newid yn tarfu'n ormodol ar wylwyr teledu daearol digidol; yr unig beth y bydd angen i'r mwyafrif llethol ei wneud fydd ail-diwnio eu cyfarpar cyfredol.

Rydym hefyd wedi nodi nifer o fandiau amledd y gall microffonau di-wifr eu defnyddio. Gan weithio'n agos gyda'r gymuned PMSE, gobeithiwn gyfyngu ar unrhyw broblemau sy'n gysylltiedig â symud i'r bandiau newydd hyn.

Yn dilyn penderfyniad y Comisiwn Ewropeaidd ar yr uno rhwng Hutchison 3G UK a Telefónica UK, rydym yn awr mewn sefyllfa i fwrw ymlaen ag arwerthiant y bandiau 2.3 a 3.4 GHz. Gobeithiwn allu defnyddio'r amleddau cyn gynted â phosibl er mwyn i fusnesau a defnyddwyr elwa o brisiau is, ansawdd gwasanaeth gwell a chyflymderau gwell ar gyfer y rhwydweithiau.

**Ein hamcan: Monitro a sicrhau bod perfformiad yn gwella o ran ansawdd gwasanaeth a gwasanaeth i gwsmeriaid**

Mae cystadleuaeth, arloesi a buddsoddi mewn telegyfathrebiadau dros y degawd diwethaf wedi bod o fudd i gwsmeriaid ar ffurf prisiau is. Ond er bod defnyddwyr at ei gilydd wedi cael gwerth da am arian, maent yn rhy aml o'r hanner wedi dioddef ansawdd gwasanaeth gwael. Mae rhai wedi wynebu oedi annerbyniol gyda gosod neu drwsio cyfarpar, neu wedi dioddef llawer o alwadau symudol sy'n cael eu gollwng.

Rydym yn dynodi problemau sy'n gysylltiedig ag ansawdd gwasanaeth yn ein sectorau, a hefyd yn datblygu polisïau ac yn cymryd camau gorfodi i wella lefel y gwasanaeth a ddarperir i gwsmeriaid.

94%

Safonau sylfaenol

**Canlyniad yr amcan**
Rhaid trwsio 94% o namau cyn pen pump awr.




## Beth rydym wedi'i wneud

Fel rhan o'n *Hadolygiad o'r Farchnad Mynediad Sefydlog* yn 2014, bu i ni gyflwyno gofynion ansawdd gwasanaeth newydd ar Openreach ar gyfer trwsio namau a gosod llinellau ffôn safonol a band eang.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi monitro perfformiad Openreach yn agos yn erbyn ei rwymedigaethau, ac wedi cynnal adolygiad manwl o'i ddatganiad cydymffurfio blynyddol.

Er bod perfformiad Openreach wedi gwella, credwn y gall wneud yn well. Rydym ar hyn o bryd yn adolygu'r safonau sylfaenol rydym wedi'u gosod ar Openreach fel rhan o'r *Adolygiad o Fynediad Lleol Cyfanwerthol*, a ddylai gael ei gwblhau yn 2017.

Ar wahân, rydym wedi cyflwyno gofynion perfformiad sylfaenol o ran ansawdd gwasanaeth ar Openreach ar gyfer gosod llinellau ar brydles. Mae hyn yn sgil pryderon fod Openreach yn cymryd gormod o amser i osod llinellau o'r fath, a'i fod yn rhy aml yn newid y dyddiad yr oedd wedi addo cyflwyno gwasanaethau arno.

Mae'r rheolau newydd yn golygu y bydd yn rhaid i Openreach erbyn 2017 ddarparu llinell Ether-rwyd newydd (y math mwyaf cyffredin o linell ar brydles a ddefnyddir gan fusnesau) cyn pen 40 diwrnod gwaith (46 diwrnod ar hyn o bryd). Rhaid iddo hefyd lynu wrth y dyddiad gosod gwreiddiol y cytunwyd arno gyda chwsmeriaid mewn 80% o achosion erbyn 2016 (o ryw 50% heddiw), gan godi i 90% erbyn 2018.

Byddwn yn sefydlu safonau sylfaenol mewn meysydd newydd, fel cyfraddau namau – i gyd-fynd â'r gofynion presennol i wella amseroedd trwsio. Ar gyfer llinellau ar brydles Ether-rwyd, rydym wedi gosod rheol lle y bydd yn rhaid i 94% o leiaf o namau gael eu trwsio cyn pen pump awr.

Nododd ein hadolygiad digidol ffyrdd eraill o wella ansawdd gwasanaeth. Bwriadwn gyflwyno rheolau i symbylu Openreach i ragori ar y safonau sylfaenol a darparu gwasanaeth gwell. Pan fydd pethau'n mynd o chwith, rydym am weld defnyddwyr a busnesau'n cael iawndal awtomatig am golli gwasanaeth neu am ostyngiad yn y gwasanaeth.

Heddiw, does braidd dim gwybodaeth ar gael i'r cyhoedd ar ansawdd gwasanaeth telegyfathrebiadau. Bwriadwn unioni'r sefyllfa hon drwy ddarparu adroddiad blynyddol ar ansawdd gwasanaeth, gan enwi'r perfformwyr gorau a'r perfformwyr gwaethaf – o blith cwmnïau sefydlog a symudol – ar amrywiaeth o fesurau perfformiad.

Ochr yn ochr â hyn, rydym wedi bod yn gweithio i ddelio â mater gwasanaeth gwael i gwsmeriaid drwy wella systemau delio â chwynion darparwyr a sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'n rheolau.

Yn ystod y flwyddyn, bu i ni barhau i gyhoeddi ein bwletinau a'n hymchwil rheolaidd i gwynion yn y maes telegyfathrebiadau, ac, ym mis Ionawr 2016, bu i ni gyhoeddi ymchwil i ansawdd y gwasanaeth i gwsmeriaid gan ddarparwyr. Mae hyn yn ein helpu i fonitro profiadau defnyddwyr a chloriannu'r newidiadau yn y gwasanaeth i gwsmeriaid dros amser, yn ôl marchnad a darparwr.



Gwnaethom adolygu'r trefniadau presennol ar gyfer delio â chwynion a datrys anghydfodau yn y gwasanaethau post, gan ddod i'r casgliad nad oes angen newid dim ar hyn o bryd. Yn ystod 2016, byddwn yn cynnal adolygiad tebyg yn y maes telegyfathrebiadau.

Gwnaethom gyhoeddi dau ganllaw cyngor newydd i ddefnyddwyr sy'n nodi sut y gallant gael eu problemau â gwasanaeth wedi'u datrys, a sut y gall defnyddwyr gael eu digolledu'n briodol.

Hefyd, gwnaethom barhau i weithredu mewn sefyllfaoedd pan nad oedd darparwyr wedi delio â chwynion cwsmeriaid yn unol â'n rheolau ni.

Ym mis Gorffennaf 2015, rhoesom gosb o £1m i'r cwmni symudol EE, ar ôl canfod methiannau yn ei brosesau delio â chwynion. Mae ymchwiliad i drefn delio â chwynion Vodafone yn parhau. Ym mis Medi, gwnaethom gyhoeddi cynllun gweithredu i wella sut mae darparwyr yn hysbysu'u cwsmeriaid am gynlluniau datrys anghydfod.

Ar wahân, buom yn gweithio gyda darparwyr i sicrhau eu bod yn cynnig mesurau digolledu priodol am broblemau'n ymwneud â rhwydweithiau - fel gostyngiad yn y pris, iawndal, neu'r hawl i adael contract lle bo hynny'n briodol.

## Canlyniad

Yn y pen draw, y ffordd orau o wella ansawdd gwasanaeth yw drwy gystadleuaeth, nid drwy reoleiddio. Drwy roi darlun cyflawn o'r ansawdd a gynigir gan y prif ddarparwyr, rydym nid yn unig yn grymuso defnyddwyr i ddewis gwasanaethau sy'n diwallu'u hanghenion yn well; rydym hefyd yn ysgogi darparwyr i wella'u perfformiad a gwella eu henw da ymysg cwsmeriaid.

Mae ein gwaith gorfodi yn ategu hyn, gan sicrhau y gall defnyddwyr fod yn hyderus y bydd eu cwynion yn cael y sylw priodol.

## Diogelu defnyddwyr rhag niwed

Rydym am sicrhau nad yw pobl yn wynebu arferion cyfrwys a bod pobl fregus yn cael eu diogelu rhag niwed penodol.

Gwnawn hyn drwy roi mesurau ychwanegol ar waith os oes risg y bydd rhywun yn dioddef ymddygiad niweidiol gan gwmnïau neu gynnwys niweidiol ar y teledu neu'r radio.

**Ein hamcan: Diogelu defnyddwyr rhag niwed mewn amrywiaeth o feysydd blaenoriaeth, gan gynnwys galwadau niwsans**

Mae sawl math o alwad niwsans, o alwadau a negeseuon nad ydych yn eu dymuno sy'n ceisio gwerthu rhywbeth (galwadau byw ac wedi'u recordio), i alwadau mud a galwadau sy'n cael eu gadael. Rydym yn amcangyfrif bod defnyddwyr y DU yn cael oddeutu 4.8 biliwn o alwadau niwsans bob blwyddyn.

Ein nod yw lleihau niwed i ddefnyddwyr drwy annog darparwyr cyfathrebiadau, lle bo hynny'n bosibl, i flocio neu stopio'r galwadau hyn; drwy rymuso defnyddwyr i wneud penderfyniadau gwybodus am y galwadau hyn; a thrwy gymryd camau gorfodi effeithiol yn erbyn y rheini sy'n gwneud y galwadau hyn yn anghyfreithlon.






### Beth rydym wedi'i wneud

Mae Ofcom yn cymryd camau gorfodi yn erbyn cwmnïau sy'n gwneud galwadau mud neu alwadau sy'n cael eu gadael gan ddefnyddio'i bwerau 'camddefnyddio cyson' o dan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003.

Yn 2015/16 rhoesom dri hysbysiad gorfodi. Arweiniodd un o'r rhain at gosb o £150,000, tra mae'r ddau ymchwiliad arall yn parhau. Yn ystod blwyddyn galendr 2015, agorwyd 98 ymchwiliad anffurfiol gennym hefyd, gan gau 80 ar ôl i'r cwynion stopio neu ostwng yn sylweddol.

Ym mis Rhagfyr 2015, cyhoeddasom ymgynghoriad ar ein polisi 'camddefnyddio cyson'. Roeddem yn argymell gwneud ein gwaith gorfodi yn gyflymach, yn llymach ac yn fwy effeithiol. Daeth yr ymgynghoriad i ben ym mis Chwefror 2016 ac rydym wrthi'n paratoi'n datganiad.

Ym mis Ebrill 2015, gwnaethom ffurfio gweithgor o ddeg darparwr cyfathrebiadau i ystyried ffyrdd o leihau galwadau niwsans ar eu rhwydweithiau. O ganlyniad, mae'r darparwyr wedi cytuno i fonitro traffig ar eu rhwydweithiau a, lle bynnag y bo hynny'n bosibl, cymryd camau fel blocio neu atal galwadau sy'n bodloni'r meini prawf y cytunwyd arnynt. Fel rhan o'r cynllun hwn, byddwn yn derbyn adroddiadau rheolaidd ar nifer y galwadau sy'n cael eu stopio a, lle bynnag y bo hynny'n bosibl, tarddiad y galwadau.

Rydym hefyd yn gweithio i wella'r gwasanaeth adnabod y galwr (CLI). Gyda'r gwasanaeth hwn, mae pobl yn gallu gweld rhif y sawl sy'n eu galw, cyn iddynt ateb.

Gwnaethom barhau i ymgysylltu â'r corff safonau byd-eang, Tasglu Peirianneg y Rhyngrwyd (IETF), ar safoni arferion dilysu manylion adnabod y galwr (CLI), er mwyn atal rhif ffôn ffug rhag ymddangos, lle mae'r galwr yn rhoi rhif anghywir yn fwriadol. Y nod yw ei gwneud hi'n haws i bobl ganfod pwy sy'n galw, ac i reoleiddwyr olrhain galwadau.

Bwriadwn roi'r drefn dilysu manylion adnabod y galwr ar waith yn y DU cyn gynted â phosibl. Ond, rydym yn cydnabod mai dim ond pan gaiff ei mabwysiadu'n fyd-eang y bydd yn gwbl effeithiol, a all gymryd sawl blwyddyn.

Ofcom sy'n gyfrifol am fynd i'r afael â galwadau mud a galwadau sy'n cael eu gadael, ac am gynnal cofrestr y TPS (*Telephone Preference Service*). Swyddfa Comisiynydd Gwybodaeth y DU yw prif asiantaeth orfodi Rheoliadau Cyfathrebiadau Electronig a Phreifatrwydd 2003, sy'n gwneud rhai galwadau marchnata uniongyrchol yn anghyfreithlon. Mae Ofcom a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn cydweithio i fynd i'r afael â'r broblem.

Ym mis Gorffennaf 2013, gwnaethom fabwysiadu cynllun gweithredu ar y cyd i fynd i'r afael â galwadau niwsans, ac rydym yn ei ddiweddaru'n gyson gyda'n gilydd. Yn 2015, gwnaethom ganolbwyntio ar rannu gwybodaeth a gorfodi cydgysylltiedig o dan y gyfraith, gan ymuno â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar gyrch gorfodi a darparu cymorth technegol.

Rydym wedi parhau i gydgysylltu â rheoleiddwyr rhyngwladol, gan rannu gwybodaeth a strategaethau am rymuso defnyddwyr a gwybodaeth orfodi.

## Canlyniad

Bydd gwaith gorfodi cyson, cydlynu â rheoleiddwyr y DU a thramor, a mesurau sy'n cael eu cymryd gan ddarparwyr i gyd yn helpu i leihau nifer y galwadau diangen y mae defnyddwyr yn eu derbyn.

Er nad oes ateb syml i broblem galwadau niwsans, byddwn yn parhau i ystyried yr holl atebion sydd ar gael i sicrhau bod defnyddwyr yn cael eu diogelu'n well.

Rydym yn wynebu nifer o heriau, ond credwn ein bod yn defnyddio'r strategaeth a'r tactegau iawn i fynd i'r afael â'r broblem. Mae hwn yn faes blaenoriaeth i Ofcom o hyd.

**Ein hamcan: Diwygio rhifau nad ydynt yn rhai daearyddol i sicrhau tryloywder prisiau**

Bob diwrnod, mae pobl yn defnyddio rhifau nad ydynt yn rhai daearyddol - rhifau yn cychwyn ag 08, 09 a 118 – i gael gwybodaeth, cysylltu â busnes neu linell gymorth, neu ar gyfer cyfrannu at gystadleuaeth a gwasanaethau pleidleisio, adloniant ac ymholiadau.

Canfu ymchwil Ofcom fod pobl yn ansicr weithiau ynghylch cost ffonio'r rhifau hyn a phwy oedd yn pennu'r prisiau. Roedd hyn yn arwain at ddiffyg hyder yn y rhifau hyn, ac ar brydiau roedd yn golygu bod pobl yn osgoi'u defnyddio.

Penderfynon ni fod defnyddwyr angen cael gwell gwybodaeth. Ddiwedd 2013, cyhoeddon ni benderfyniadau i wneud cost ffonio busnesau a gwasanaethau yn gliriach i ddefnyddwyr o 2015.

## Beth rydym wedi'i wneud

O 1 Gorffennaf 2015, roedd modd ffonio rhifau Rhadffôn (yn cychwyn ag 080 a 116) yn rhad ac am ddim o bob ffôn, llinell dir neu symudol.

Ar gyfer rhifau 084, 087, 09 ac 118, mae'r gost yn awr mewn dwy ran, gan helpu'r rhai sy'n galw i ddeall ble mae'u harian yn mynd: 'tâl mynediad' i'r cwmni ffôn, a 'thâl gwasanaeth' a bennir gan y cwmni sy'n cael ei alw.

Cyn i'r newidiadau ddod i rym, buom yn gweithio gyda diwydiant ffôn y DU i lansio rhaglen i roi gwybodaeth i ddefnyddwyr, gan esbonio'r newidiadau mwyaf i alwadau ers dros ddegawd. Lansiodd yr ymgyrch genedlaethol chwe mis hon o dan faner UK Calling ac roedd yn cynnwys gwefan newydd, ukcalling.info.

Mae darlledwyr yn aml yn defnyddio rhifau heb fod yn rhai daearyddol er mwyn i gynulleidfaoedd ryngweithio â rhaglenni; er enghraifft, drwy bleidleisio ar raglen deledu neu gyfrannu at sioe ffonio i mewn ar y radio. Ym mis Hydref 2014, gwnaethom ymgynghori ar sut y dylai newidiadau UK Calling effeithio ar y Cod Darlledu. Gwnaethom gyhoeddi ein datganiad ar newidiadau i'r Cod ym mis Ebrill 2015, gyda'r bwriad o wneud cost rhifau heb fod yn rhai daearyddol yn gliriach ac yn symlach i wylwyr a gwrandawyr eu deall.

## Canlyniad

Nod ein gwaith ar rifau heb fod yn rhai daearyddol yw gwneud prisiau'n fwy tryloyw, helpu i wella cystadleuaeth, adfer hyder defnyddwyr a sicrhau cynnydd yn y defnydd o'r cyfryw rifau.

Mae defnyddwyr wedi elwa'n uniongyrchol mewn sawl ffordd. Mae rhifau rhadffôn yn awr yn rhad ac am ddim o ffonau symudol; mae'r tâl gwasanaeth ar gyfer rhifau premiwm (09) wedi cael ei gapio; ac mae cost ffonio rhifau 084 ac 087 yn gliriach.

Gwnaethom gomisiynu ymchwil i fesur pa mor ymwybodol oedd defnyddwyr o'r newidiadau ledled y DU. Erbyn i'r gwaith ddod i ben ym mis Awst 2015, canfu'r ymchwil fod UK Calling wedi llwyddo i greu ymwybyddiaeth ymysg dros hanner y boblogaeth oedolion. Dywedodd dros naw o bob deg oedolyn nad oeddynt yn poeni am y newidiadau, ac roedd dros hanner miliwn o unigolion wedi ymweld â gwefan UK Calling.

## Prif risgiau a materion sy'n achosi ansicrwydd

Mae'r tabl isod yn dangos rhai o'r prif faterion sy'n achosi ansicrwydd a'r prif risgiau y mae Ofcom yn eu hwynebu ar hyn o bryd. Mae rhagor o wybodaeth am y ffordd yr ydym yn rheoli risgiau ar gael ar dudalen 55.

| Prif Risgiau | Prif gamau lliniaru |
|---|---|
| **Canlyniad adolygiad y Llywodraeth o Siarter Brenhinol y BBC** | |
| Ym Mhapur Gwyn y Llywodraeth ar adnewyddu Siarter Brenhinol y BBC disgrifir y cyfrifoldebau newydd sylweddol y bydd Ofcom yn eu cael. Mae'r rhain yn cynnwys meysydd megis safonau golygyddol, materion yn ymwneud â chystadleuaeth ac adolygiadau cyfnodol o berfformiad y BBC. Cynhelir trafodaeth ar union gynnwys a chwmpas y cyfrifoldebau newydd hyn, a gallwn ddisgwyl gweld y cyhoedd yn dangos diddordeb sylweddol.<br><br>Bydd rhaid gwneud llawer iawn o waith cyn y bydd Ofcom yn barod i ysgwyddo'i gyfrifoldebau newydd, a bydd yn rhaid i'r amserlen derfynol ar gyfer newid adlewyrchu hyn.<br><br>Er bod gan Ofcom brofiad helaeth o faes rheoleiddio darlledu a chystadleuaeth, bydd y cyfrifoldebau newydd yn gofyn am ragor o adnoddau. | • Byddwn yn gweithio gyda'r Llywodraeth a'r BBC ar y camau nesaf, gan sicrhau y cyfathrebir yn glir ac yn dryloyw â'r cyfryngau, y cyhoedd a'r diwydiant;<br>• Byddwn yn gysylltiedig â'r broses o ddrafftio'r Cytundeb a'r Siarter newydd i'r graddau y maent yn berthnasol i rôl Ofcom;<br>• Rydym wedi lansio proses newid sefydliadol strwythuredig i sicrhau bod y gallu a'r sgiliau gennym i ymgymryd ag unrhyw gyfrifoldebau newydd;<br>• Ymgysylltu'n gynnar â DCMS a'r BBC ynghylch y trefniadau ariannu ar gyfer ein cyfrifoldebau newydd. |
| **Sicrhau bod y marchnadoedd cyfathrebiadau digidol yn parhau i fodloni defnyddwyr a busnesau** | |
| Bydd cyflymder y newidiadau a'r arloesi a welwyd yn y marchnadoedd a reoleiddiwn dros y deng mlynedd diwethaf yn parhau yn y dyfodol.<br><br>Ym mis Chwefror, gwnaethom gyhoeddi casgliadau cychwynnol yr *Adolygiad Strategol o Gyfathrebiadau Digidol*, a oedd yn disgrifio ein dull o reoleiddio'r marchnadoedd cyfathrebiadau dros y degawd nesaf.<br><br>Gall peidio â rhoi ein cynigion ar waith olygu na fyddwn yn bodloni anghenion defnyddwyr a busnesau, a mygu buddsoddiad newydd ac arloesi. | • Gwnaethom gyhoeddi ein cynllun gwaith cychwynnol ar gyfer gweithredu'r argymhellion a gafwyd yn ein cyhoeddiad ar y casgliadau cychwynnol yn ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2016/17;<br>• Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda'r diwydiant, y Llywodraeth a defnyddwyr. |
| **Sicrhau canlyniadau cadarnhaol i ddefnyddwyr** | |
| Mae gennym raglen waith heriol sy'n anelu at hyrwyddo dewis, sicrhau safonau ac atal niwed. Mae hyn yn cynnwys gwaith yn y meysydd canlynol:<br>• Iawndal awtomatig;<br>• Newid darparwr;<br>• Galwadau niwsans; a<br>• Gwybodaeth am Ansawdd Gwasanaeth.<br><br>Gallai methu â chyflawni'r rhaglen waith eang hon yn llwyddiannus danseilio'r buddion i ddefnyddwyr ac arwain at niwed i ddefnyddwyr. | • Mae ein rhaglen waith yn y maes hwn yn cael ei hamlinellu yn ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2016/17;<br>• Byddwn yn ymgynghori ar ofyniad i'w gwneud yn ofynnol i ddarparwyr cyfathrebiadau adwerthol ddarparu iawndal yn awtomatig pan fyddant yn methu darparu gwasanaeth i'r safon benodedig;<br>• Rydym wedi amlinellu opsiynau i'w gwneud hi'n haws i ddefnyddwyr newid cyflenwyr gwasanaeth symudol, ac rydym yn adolygu profiadau defnyddwyr o newid gwasanaethau wedi'u bwndelu;<br>• Mae gennym gynllun gweithredu ar y cyd â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth i fynd i'r afael â galwadau niwsans ac rydym yn parhau i weithio gyda'r diwydiant ar atebion technegol;<br>• Bwriadwn sefydlu adroddiad blynyddol newydd, a fydd yn delio ag amryw o fesurau ansawdd yng nghyswllt rhwydweithiau a gwasanaeth i gwsmeriaid. Bydd yn berthnasol i'r holl ddarparwyr yn y sector cyfathrebiadau. |

| Prif Risgiau | Prif gamau lliniaru |
| --- | --- |
| **Seibr-ddiogelwch a delio â data** | |
| Mae diogelu ein systemau TG a'r data sydd yn ein meddiant, a'r prosesau a'r mesurau diogelu sydd gennym ar waith i sicrhau ein bod yn delio â data mewn ffordd ddiogel, yn hollbwysig. Gallai methiant yn unrhyw un o'r meysydd hyn olygu niwed i'n cwsmeriaid a rhanddeiliaid, ac achosi niwed mawr i enw da Ofcom. | Mae gennym raglen waith barhaus i sicrhau bod gennym bolisïau a mesurau amddiffyn cadarn ar waith. Mae'r rhain yn cynnwys:<br>• profion annibynnol ar ein rhwydwaith i sicrhau bod gennym fesurau amddiffyn priodol yn erbyn bygythiadau allanol;<br>• parhau i weithio i sicrhau, cynnal a gwella ein fframwaith rheoli presennol; a<br>• sicrwydd cyson fel rhan o'r cynllun archwilio mewnol. |
| **Cyfuno yn y marchnadoedd rydym yn eu rheoleiddio** | |
| Ym mis Ionawr 2016, cwblhaodd BT y gwaith o brynu'r cwmni symudol EE. Ym mis Mawrth 2015, cyhoeddodd y cwmni symudol Three gynlluniau i brynu ei gystadleuydd O2 er bod y pryniant wedi cael ei flocio wedyn gan y Comisiwn Ewropeaidd.<br>Rydym yn gwybod y gall cyfuno yn y marchnadoedd rydym yn eu rheoleiddio fod yn fuddiol, ond gallai wanio cystadleuaeth ac arwain at brisiau uwch ac ansawdd salach yn y marchnadoedd cyfanwerthol a defnyddwyr. | • Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'r Comisiwn Ewropeaidd a'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd mewn perthynas â chwmnïau'n uno;<br>• Yn ôl yr angen, byddwn yn ystyried ymyriadau eraill sy'n rhoi gwell canlyniadau os bydd uno'n digwydd. |
| **Clirio bandiau sbectrwm 700MHz** | |
| Ym mis Tachwedd 2014, gwnaethom gyhoeddi ein penderfyniad i newid y defnydd o'r band 700MHz o deledu daearol digidol a PMSE i ddata symudol. Yng nghyllideb 2015, cyhoeddodd y Llywodraeth y byddai'n darparu hyd at £600m i gefnogi'r gwaith o gyflwyno'r newid hwn i'r defnydd o'r sbectrwm. Mae sicrhau gwerth am arian yn flaenoriaeth bwysig. | Rydym wedi sefydlu fframwaith sicrwydd cadarn ar gyfer y defnydd o arian. Mae hyn yn cynnwys adolygiad arbenigol ac ariannol o geisiadau am grant, craffu ar benderfyniadau ar lefel anweithredol a sicrwydd annibynnol, gan gynnwys goruchwyliaeth gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol. |
| **Gallu denu a chadw talent amrywiol o safon uchel** | |
| Ein cydweithwyr yw ein hased mwyaf gwerthfawr. Gall cynnydd yn y farchnad swyddi allanol danseilio ein gallu i ddenu a chadw talent amrywiol o safon uchel. | Rydym wedi cynnal adolygiad cynhwysfawr o'n strategaeth cydweithwyr sy'n cynnwys lefelau cyflog, telerau ac amodau, cynnwys gwaith a theitlau swyddi ac rydym yn parhau i ystyried opsiynau i gynnig mwy o hyblygrwydd i gydweithwyr yn y gwaith. |

# GWEITHIO YN Y GWLEDYDD A'N HYMGYSYLLTIAD RHYNGWLADOL

## Ein gwaith yn y gwledydd

Mae gwella argaeledd ac ansawdd gwasanaethau cyfathrebiadau i ddefnyddwyr a dinasyddion, lle bynnag y maent yn byw, yn dal yn rhan flaenllaw o'n gwaith.

Rhaid i'r gwaith hwn fod yn seiliedig ar safbwyntiau a buddiannau pobl ledled y DU. Mae gennym swyddfeydd ymhob un o'r gwledydd, i sicrhau y gallwn ymgysylltu'n uniongyrchol â llywodraethau cenedlaethol, cynrychiolwyr etholedig a rhanddeiliaid lleol; mae gennym Bwyllgorau Ymgynghorol ar gyfer pob gwlad; a Phwyllgor y Gwledydd sy'n adrodd yn uniongyrchol i Fwrdd Ofcom. Mae ein Bwrdd Cynnwys a'n Paneli Defnyddwyr hefyd yn cynnwys aelodau sy'n cynrychioli pob gwlad.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae Senedd y DU a seneddau a chynulliadau'r gwledydd wedi bod yn ystyried cynigion datganoli sy'n cynnwys rhoi swyddogaethau ychwanegol i'r gwledydd datganoledig, yng nghyswllt Ofcom. Oherwydd hyn, bydd strwythur ein Bwrdd yn cael ei ehangu yn ystod y flwyddyn nesaf er mwyn cynnwys aelodau a benodir yn uniongyrchol gan lywodraethau cenedlaethol.

Byddwn hefyd yn ystyried ffyrdd eraill o barhau i wella ein hymgysylltiad â'r gwledydd a sut yr ydym yn ymateb iddynt.



Yng Ngogledd Iwerddon, rydym wedi parhau i gefnogi cynlluniau i gyflwyno band eang a gwella'r ddarpariaeth symudol, gan ddarparu cyngor i Weithrediaeth Gogledd Iwerddon, Cynulliad Gogledd Iwerddon ac awdurdodau lleol.

Dros y flwyddyn ddiwethaf hefyd, rydym wedi rhoi gwybodaeth i Bwyllgor Diwylliant y Cynulliad ar safonau teledu a'r *Adolygiad o Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus* (PSB). Gwnaethom lunio adroddiad ar gyfer Pwyllgor Menter y Cynulliad ar fynediad gwylwyr at chwaraewyr ar-lein TG4 ac RTÉ, a rhoi tystiolaeth i'r Pwyllgor ar welliannau i'r ddarpariaeth symudol.

Darn mawr o waith i ni yn yr Alban oedd rhoi argymhellion Comisiwn Smith ar waith, gan gynnwys drafftio Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth newydd rhwng Ofcom, Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban a Senedd yr Alban.

Rydym hefyd wedi bod yn paratoi ar gyfer agor ein swyddfa bolisi newydd yng Nghaeredin yn ddiweddarach eleni. Mae'n debyg y bydd y swyddfa newydd hon yn cynnwys cynghorwyr polisi a chystadleuaeth, economegwyr ac arbenigwyr cyfreithiol.

Yng Nghymru, rydym wedi parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru i gefnogi'r gwaith o roi prosiect Cyflymu Cymru ar waith, ac rydym wedi rhoi cyngor ar argaeledd gwasanaethau symudol a band eang mewn ardaloedd gwledig.

Rydym yn ymrwymedig i weithredu'r Cynllun Iaith Gymraeg sy'n darparu gwasanaeth ardderchog i unrhyw un sydd am gynnal ei fusnes yn Gymraeg gydag Ofcom. Rydym wedi parhau i weithio gyda Chomisiynydd y Gymraeg, gan baratoi ar gyfer trosglwyddo i drefn Safonau'r Gymraeg newydd.

Yn Lloegr, rydym wedi bod yn gweithio ar gynlluniau i agor swyddfa newydd yn Warrington a fydd yn gartref i'n canolfan gyswllt ar gyfer defnyddwyr a thimau trwyddedu sbectrwm.

Rydym hefyd wedi rhoi cyngor a thystiolaeth i Senedd a Llywodraeth y DU gydol y flwyddyn, gan gynnwys cyflwyno canfyddiadau ein *Hadolygiad Strategol o Gyfathrebiadau Digidol*, ac wedi cynnal digwyddiad galw heibio ar gyfer ASau er mwyn rhoi cyfle iddynt roi cynnig ar wiriwr darpariaeth symudol newydd Ofcom.

## Ein gwaith ymgysylltu rhyngwladol

### Mae datblygiadau rhyngwladol yn dylanwadu ar weithgareddau Ofcom ac ar weithgareddau'r cwmnïau a reoleiddir ganddo.

Mae'r sector cyfathrebiadau'n fwyfwy byd eang ei natur; rydym yn gweithio'n agos gyda sefydliadau Ewropeaidd, rheoleiddwyr cyfathrebiadau cenedlaethol eraill, partneriaid rhyngwladol a sefydliadau amlwladol.

Rydym hefyd yn ceisio dysgu oddi wrth ein cymheiriaid dramor, ac yn rhannu profiadau rheoleiddio ac arferion da gyda'r cymheiriaid hynny. Mae hyn yn cynnwys mynychu cyfarfodydd rheoleiddio a rhynglywodraethol, dadleuon amlwladol, a siarad mewn digwyddiadau rhyngwladol, i rannu ein safbwyntiau a'n profiadau.

Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom ddarparu cymorth - gan gynnwys secondiad arbenigwr technegol yn y tymor byr - i'r Comisiwn Ewropeaidd tra oedd yn asesu ymgais arfaethedig y cwmni symudol Three i brynu O2. Gwnaethom gyflwyno sylwadau ffurfiol i'r Comisiwn yn lleisio'n pryderon am drafodiad a fyddai, petai'n cael ei gymeradwyo, wedi creu arweinydd newydd ym marchnad symudol y DU a chael gwared â chystadleuydd pwysig. Cafodd y pryniant arfaethedig ei atal wedyn gan y Comisiwn, gan fod ganddo bryderon mawr y byddai gan gwsmeriaid gwasanaethau symudol y DU lai o ddewis ac y byddent yn talu prisiau uwch oherwydd y pryniant, ac y byddai'r broses wedi niweidio arloesi.

Buom yn gweithio gydol y flwyddyn i sicrhau bod buddiannau dinasyddion a defnyddwyr y DU yn dal wrth galon y ddadl bolisi. Rhoesom fewnbwn i'r Comisiwn Ewropeaidd cyn ei adolygiad o'r Fframwaith Cyfathrebiadau Electronig, cyfres o Gyfarwyddebau sy'n llywio'r gwaith o reoleiddio telegyfathrebiadau yn Ewrop. Buom yn brysur fel rhan o Gorff Rheoleiddwyr Cyfathrebiadau Electronig Ewrop (BEREC) wrth iddo barhau i ddatblygu canllawiau i roi deddfwriaeth yr UE ar waith, a fabwysiadwyd y llynedd ar grwydro neu drawsrwydweithio symudol a niwtraliaeth y we.

Mae polisïau'n ymwneud â sbectrwm yn rhan gynyddol o drafodaethau Ewropeaidd ar y Fframwaith. Mae ein Cyfarwyddwr Sbectrwm, Philip Marnick, wedi cael ei ethol yn Gadeirydd y Grŵp Polisi Sbectrwm Radio (RSPG) ar gyfer 2016/17. Dyma gorff blaenllaw sy'n cynghori'r Comisiwn Ewropeaidd ar faterion yn ymwneud â sbectrwm.

Mae'r RSPG eisoes wedi llunio Barn am yr Adolygiad o'r Fframwaith, a bydd cadeiryddiaeth Philip yn galluogi Ofcom a'r DU i gael rôl arweiniol yn ystod y cyfnod hanfodol hwn. Mae'r Comisiwn wedi cyflwyno cynigion deddfwriaethol i neilltuo'r band sbectrwm 700MHz ar gyfer band eang symudol, ac rydym yn trafod hyn a materion eraill drwy'r Pwyllgor Sbectrwm Radio.

Ym mis Mai 2016, cyhoeddodd y Comisiwn gynigion i ddiweddaru'r Gyfarwyddeb Gwasanaethau Cyfryngau Clyweledol, sy'n gosod rheolau sylfaenol ar lefel yr UE ar gyfer rheoleiddio cynnwys. Rydym wedi cydweithio gyda rheoleiddwyr yn Ewrop, gan ddarparu cyngor arbenigol i'r Comisiwn drwy ERGA (Grŵp Rheoleiddwyr Ewropeaidd ar gyfer Gwasanaethau Cyfryngau Clyweledol), gan sicrhau bod buddiannau'r DU yn cael eu cynrychioli'n briodol yn yr adolygiad pwysig hwn.

Rydym wedi cyfrannu at bwyllgorau post Ewropeaidd, er mwyn deall yr heriau sy'n wynebu'r sector, ac i baratoi ar gyfer cynllun yr UE ar barseli trawsffiniol.

Y tu allan i Ewrop, rydym wedi cynrychioli'r DU yng ngweithgorau radiogyfathrebiadau a safoni telegyfathrebiadau'r Undeb Telegyfathrebiadau Rhyngwladol (ITU). Ym mis Tachwedd 2015, gwnaethom gynrychioli buddiannau'r DU yng Nghynhadledd Radiogyfathrebu'r Byd (gweler tudalen 19).

Gwnaethom gyfrannu hefyd at waith y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD).

Byddwn yn parhau i weithio'n galed i sicrhau bod canlyniadau dadleuon rhyngwladol ar bolisi'n fanteisiol i'r sector cyfathrebiadau yn y DU ac yn Ewrop.

# GWAITH ARALL I GEFNOGI EIN NODAU

Yn ogystal â chyflawni'r blaenoriaethau yn ein Cynllun Blynyddol, rydym yn gweithio i gyflawni ein nodau hirdymor ac i gael y canlyniadau gorau i ddinasyddion ac i ddefnyddwyr yn ein cyfrifoldebau o ddydd i ddydd.

## Sicrhau safonau a gwella ansawdd

### Safonau cynnwys, trwyddedu a gorfodi yn y maes darlledu

Mae gan Ofcom amrywiaeth o ddyletswyddau mewn perthynas â darlledu cynnwys. Mae'r rhain yn cynnwys sicrhau digon o amddiffyniad i'r cyhoedd rhag deunydd sy'n peri niwed neu dramgwydd; diogelu plant; a sicrhau bod ystod eang o wasanaethau teledu a radio ar gael sydd o ansawdd uchel ac sy'n apelio at ystod eang o bobl.

### Diogelu cynulleidfaoedd rhag niwed a deunydd tramgwyddus

Eleni, comisiynwyd ymchwil gennym ar agweddau cynulleidfaoedd at iaith dramgwyddus. Bydd y canfyddiadau'n cyfrannu at y ffordd y byddwn yn asesu iaith dramgwyddus cyn 9:00pm ar y teledu, a phan fydd plant yn debygol iawn o fod yn gwrando ar y radio.

Gwnaethom hefyd gynnal ymchwil i agweddau oedolion a'u defnydd o gyfryngau ar draws y teledu, radio, gemau, dyfeisiau symudol a'r rhyngrwyd, gan ganolbwyntio'n benodol ar agweddau a defnydd ar-lein.

Rhoesom ddirwy o £25,000 i Asia TV Limited am ddarlledu honiadau y gallai cyflyrau meddygol difrifol gael eu trin â thriniaethau amgen yn unig.

Dyfarnwyd gennym hefyd fod y darlledwr Governance Ministries wedi torri'r Cod, am ddarlledu tystiolaeth bersonol yn awgrymu bod canser wedi cael ei drin drwy weddi yn unig.

### Diogelu'r rhyddid i lefaru

Yn ogystal â gorfodi mewn sefyllfaoedd lle roedd y Cod wedi'i dorri, rhaid inni roi sylw dyladwy i hawl y darlledwr i gael rhyddid i lefaru a hawl cynulleidfa i ryddid gwybodaeth.

Eleni, daethom i'r casgliad nad oedd "*Fighting Terror with Torture*" (Panorama, BBC One) wedi torri'r cod, rhaglen ddogfen yn sôn am ddulliau holi eithafol. Nodwyd y diddordeb cryf gan y cyhoedd, a'r ffaith nad oedd y rhaglen wedi'i hanelu at blant.

## Cwynion darlledu dros flwyddyn

**23,420** cwyn

**7,080** o faterion/ rhaglenni penodol

**222** achos angen ymchwiliad pellach

**127** achos wedi torri'n rheolau

**CWYNION AM SAFONAU CYNNWYS**

**16** wedi'u cadarnhau (4 ohonynt wedi'u cadarnhau'n rhannol)

**205** cwyn

**CWYNION TEGWCH A PHREIFATRWYDD**

**4** darlledwr wedi'u cosbi a'u dirwyo

**Dirwyon a roddwyd: £70,000+**

**SANCSIYNAU**

Daethom i'r casgliad hefyd nad oedd "*Politicians for Hire*" (Dispatches, Channel 4) wedi torri'r cod, rhaglen a oedd yn honni bod dau Seneddwr yn fodlon defnyddio'u swyddi a'u cysylltiadau i gael budd personol. Dyfarnwyd gennym na chafodd yr unigolion eu trin yn annheg, ac y gellid cyfiawnhau'r ffilmio dirgel.

## Diogelu plant

Mae gennym ddyletswydd i ddiogelu plant rhag deunydd anaddas a ddarlledir a chynnwys niweidiol ar wasanaethau fideo-ar-alwad.

Eleni, dyfarnwyd gennym bod Paramount UK Partnership wedi torri'r Cod Darlledu oherwydd iddynt gynnwys iaith dramgwyddus, themâu rhywiol a hiwmor at ddant oedolion mewn clipiau rhagflas cyn y trothwy ar Comedy Central a Comedy Central Extra.

Dyfarnwyd gennym hefyd fod ITV wedi torri'r Cod am ddangos golygfeydd treisgar ffantasïol a oedd yn anaddas i blant yn rhaglen gyntaf "*Jekyll and Hyde*" am 6:30pm.

Gwnaethom weithredu'n sydyn i ddiogelu plant rhag y gwasanaeth ar-alwad ShebangTV, drwy gyhoeddi hysbysiad i gydymffurfio. Roedd hyn mewn ymateb i gynnwys digyfyngiad ar gyfer oedolion yn cael ei ddangos gan y gwasanaeth a chynnwys gwaharddedig a oedd ar gael i bobl ifanc dan oed.

SICRHAU BOD CYFATHREBIADAU'N GWEITHIO I BAWB

- Hyrwyddo dewis
- Sicrhau safonau
- Atal niwed



Gwnaethom gynnal ymchwil eang hefyd i'r ffordd y mae plant a phobl ifanc yn cael mynediad at wahanol fathau o gyfryngau a sut maent yn eu defnyddio, a rôl rhieni yn eu goruchwylio.

## Amddiffyn rhag safbwyntiau eithafol

Mae gan Ofcom ddyletswydd i wahardd deunydd a ddarlledir sy'n debygol o annog neu gymell troseddu neu anhrefn.

Ym mis Ionawr 2016, gwnaethom ymgynghori ar newidiadau i'n rheolau sy'n gwahardd deunydd sy'n debygol o annog neu gymell troseddu, neu arwain at anhrefn. Daeth y rheolau diwygiedig i rym ar 9 Mai 2016.

Gwnaethom ehangu ein rhaglen monitro cynnwys, gan ganolbwyntio ar sianeli a all beri mwy o niwed i'r cyhoedd.

Dyfarnwyd gennym hefyd fod Club TV Limited wedi torri'r Cod am ddarlledu sylwadau hynod dramgwyddus a gwahaniaethol am Iddewon mewn darlithoedd ar Peace TV Urdu.

## Amrywiaeth mewn darlledu

Mae'r DU yn arwain y byd yn y maes cynhyrchu ar gyfer teledu, ac mae'n bwysig bod cyfle cyfartal i bawb sydd am gael gyrfa yn y maes darlledu.

Mae gan Ofcom ddyletswydd i hyrwyddo cyfle cyfartal mewn darlledu. Ym mis Awst 2015, ar y cyd â'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, gwnaethom gyhoeddi adroddiad o'r enw '*Thinking Outside the Box*'. Mae'r adroddiad yn rhoi arweiniad i'r sector darlledu ar y teledu ar ba gamau y gellir eu cymryd i wella amrywiaeth yn y diwydiant. Y nod yw sicrhau gwell dealltwriaeth am yr hyn y mae cyfraith cydraddoldeb yn ei wahardd a'i ganiatáu.



**79%** o wylwyr teledu

**Mae Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus yn cyflawni'i ddibenion**

## Adolygu darlledu gwasanaeth cyhoeddus

Mae darlledu gwasanaeth cyhoeddus (PSB) yn golygu rhaglenni teledu sy'n cael eu darlledu er budd y cyhoedd, yn hytrach nag am ddibenion masnachol yn unig. Mae'r math hwn o ddarlledu yn rhoi buddion diwylliannol sylweddol i gymdeithas, a hynny mewn sawl ffordd. Mae'n sicrhau amrywiaeth yn y cyfryngau, lluosogrwydd mewn newyddion ac mae'n darparu rhaglenni sy'n adlewyrchu ac yn archwilio cymdeithas yn ehangach. Mae gan ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus hefyd rôl economaidd bwysig drwy gefnogi'r diwydiannau creadigol, yn enwedig y sector cynhyrchu annibynnol.

Fel rheoleiddwr darlledu'r DU, mae gan Ofcom ddyletswyddau i gynnal adolygiadau rheolaidd o PSB. Rydym yn ystyried pa mor dda mae'r system yn gweithio, a yw darlledwyr yn cyflawni ei ddibenion, a sut y gall ansawdd Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus gael ei gynnal a'i gryfhau yn y dyfodol.

Ym mis Gorffennaf 2015, gwnaethom gyhoeddi ein hadroddiad blynyddol ar Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus, ochr yn ochr â chasgliadau ein hadolygiad mwyaf manwl ers 2008.

### Prif Gasgliadau

Gwelsom fod darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn parhau i wneud cyfraniad sylweddol at ddarlledu'r DU. Mae gwylwyr yn gwerthfawrogi rhaglenni PSB ac mae bodlonrwydd cynulleidfaoedd yn uchel.

Mae dros hanner yr holl wylio yn digwydd ar y prif sianeli PSB – BBC One, BBC Two, ITV, UTV, STV, Channel 4 a Channel 5. Mae hynny'n codi i dros 70% pan mae'r holl sianeli a ddarlledir gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, megis sianeli '+1', yn cael eu hystyried. Hefyd, mae wyth gwyliwr o bob deg (79%) yn credu bod darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn cyflawni ei ddibenion – fel newyddion dibynadwy a rhaglenni o ansawdd uchel sy'n adlewyrchu'r DU – cynnydd sylweddol o 69% yn 2008.

Mae gwylio ar-lein, ar-alwad ac ar draws ystod o ddyfeisiau yn dod yn bwysicach i wylwyr, yn enwedig pobl iau. Credwn fod hyn yn creu heriau yn ogystal â chyfleoedd i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, y mae angen ffyrdd newydd arnynt o gysylltu â chynulleidfaoedd ac aros yn effeithiol yn yr oes ddigidol.

Gostyngodd y buddsoddiad mewn cynnwys newydd yn y DU oddi wrth ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus oddeutu £440m mewn termau real rhwng 2008 a 2014, 15% o ostyngiad. Mae darlledwyr wedi ymateb drwy gymysgedd o arbedion a newidiadau i'r mathau o raglenni maent yn eu gwneud. O ganlyniad, arhosodd maint y cynnwys newydd gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn uchel, gyda 32,491 o oriau o raglenni newydd yn y DU yn 2014, o'i gymharu â 33,981 o oriau yn 2008.

### Cynrychioli gwahanol gynulleidfaoedd

Mae cynulleidfaoedd ledled y DU yn rhoi llawer iawn o bwys ar y portread o'u gwlad neu eu rhanbarth. Ond roedd un o bob pump (21%) gwyliwr yn yr Alban, ac un o bob pedwar (26%) gwyliwr yng Ngogledd Iwerddon, yn teimlo eu bod yn cael eu portreadu'n negyddol mewn rhaglenni PSB.

Canfu ymchwil Ofcom fod dros hanner yr ymatebwyr (55%) o grwpiau ethnig du yn teimlo nad oedden nhw'n cael eu cynrychioli'n ddigonol mewn rhaglenni darlledu gwasanaeth cyhoeddus ac roedd cyfran debyg (51%) yn teimlo eu bod yn cael eu portreadu'n negyddol. Teimlai tua hanner (51%) o bobl anabl nad oeddynt yn cael eu cynrychioli'n ddigonol.

Mae sicrhau bod darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn adlewyrchu amrywiaeth y DU yn faes y bydd angen i ddarlledwyr ei fonitro'n ofalus er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni eu cyfrifoldebau ac yn ymateb i ddisgwyliadau cynulleidfaoedd.

### Heriau i'r dyfodol

Credwn fod angen i ddarlledwyr barhau i addasu eu modelau i wneud y gorau o arbedion effeithlonrwydd a refeniw masnachol. Fel arall, efallai y byddant yn wynebu dewisiadau anodd am ba gynnwys a gwasanaethau y gallant eu hariannu.

Caiff darlledu gwasanaeth cyhoeddus ei gefnogi gan fanteision penodol fel mynediad at sbectrwm teledu digidol gwerthfawr, amlygrwydd ar restrau electronig o raglenni ac, yn achos y BBC, ffi'r drwydded. Bydd angen i lunwyr polisïau ystyried a fydd y buddiannau a gyflwynwyd i alluogi darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn dal yn effeithiol yn oes y rhyngrwyd.

### Sbectrwm ar gyfer defnydd PMSE (gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig)

Mae PMSE yn dibynnu ar sbectrwm radio ar gyfer cymwysiadau di-wifr sy'n hanfodol ar gyfer cynhyrchu a llwyfannu amrywiaeth eang o ddigwyddiadau adloniant byw ac a ddarlledir, megis darllediadau newyddion o leoliadau a chynyrchiadau theatr.

Bydd rhyddhau'r band 700MHz ar gyfer gwasanaethau symudol yn lleihau faint o sbectrwm sydd ar gael ar gyfer cyfarpar PMSE sain - megis microffonau di-wifr a monitorau yn y glust.

Ym mis Hydref 2015, ymgynghorodd Ofcom ar gynlluniau i ddarparu sbectrwm ar gyfer defnyddwyr cyfarpar sain di-wifr yn y sector PMSE.

Ym mis Mawrth 2016 cyhoeddasom ein penderfyniad i ganiatáu i ddefnyddwyr PMSE rannu mynediad i'r band 960-1164MHz gyda gwasanaethau radio-lywio awyrofod. Byddwn yn gweithredu'r penderfyniad hwn yn unol â'r rheolau rheoli sbectrwm y cytunwyd arnynt gyda'r Awdurdod Hedfan Sifil.

## Hyrwyddo cystadleuaeth a sicrhau bod marchnadoedd yn gweithio'n effeithiol i ddefnyddwyr

### Sicrhau cystadleuaeth deg ac effeithiol wrth gyflenwi gwasanaethau teledu drwy dalu

Yn 2010, gwnaethom fynnu bod Sky yn cynnig Sky Sports 1 a 2 i fanwerthwyr eraill am bris cyfanwerthol wedi'i bennu gan Ofcom. Cyflwynwyd y rheol hon, sef 'rhaid cynnig yn gyfanwerthol' (WMO), i sicrhau bod cystadleuaeth yn y farchnad, sy'n arwain at ddewis ac arloesedd ar gyfer cynulleidfaoedd chwaraeon.

Ym mis Rhagfyr 2014, dechreusom adolygiad o'r rheol WMO i weld a oedd yn dal yn briodol.

Mae'r farchnad am chwaraeon premiwm wedi datblygu'n arw ers 2010. Oherwydd y trefniadau cyfanwerthol masnachol, mae Sky Sports ar gael erbyn hyn oddi wrth sawl darparwr teledu drwy dalu - gan gynnwys TalkTalk, Virgin Media a BT Vision. Mae sianeli Sky Sports hefyd ar gael ar wasanaeth NOW TV Sky ar y rhyngrwyd, y gellir cael mynediad iddo ar sawl dyfais.

Yn y cyfamser, mae darparwyr newydd fel EE a Vodafone wedi dod neu'n bwriadu dod yn rhan o'r farchnad deledu, ac mae cwmnïau'n cystadlu fwyfwy i fwndelu gwasanaethau teledu drwy dalu â band eang a symudol.

Ar ôl ystyried trefniadau cyflenwi Sky, a datblygiadau yn y farchnad ers 2010, gwnaethom ddileu'r rheoliad 'rhaid cynnig yn gyfanwerthol' ym mis Tachwedd 2015.

Rydym yn cydnabod bod teledu drwy dalu yn farchnad bwysig a werthfawrogir gan ddefnyddwyr, gyda 58% o gartrefi'r DU yn tanysgrifio i wasanaeth erbyn hyn. Rydym eisiau sicrhau bod defnyddwyr yn cael dewis ac arloesedd drwy gystadleuaeth deg ac effeithiol, a byddwn yn parhau i fonitro'r farchnad yn ofalus. Os daw tystiolaeth i'r wyneb o arferion gwrthgystadleuol, byddwn yn ailasesu'r angen am reoleiddio.

### Cymryd cwmnïau drosodd

Cyhoeddodd BT gynlluniau i brynu'r cwmni symudol EE ym mis Tachwedd 2014, mater a gafodd ei adolygu gan yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA). Y mis dilynol, cyhoeddodd cwmni rhwydwaith symudol lleiaf y DU, Three, gynlluniau i brynu ei gystadleuydd O2. Adolygwyd y cynnig hwn gan y Comisiwn Ewropeaidd.

Yn ystod y flwyddyn, rhoesom gefnogaeth i'r CMA a'r Comisiwn Ewropeaidd yn ystod eu gwaith



yn adolygu'r uno arfaethedig. Gwnaethom ddadansoddi'r marchnadoedd yr oedd y ddau uniad arfaethedig yn effeithio arnynt, gwnaethom ddarparu data am y marchnadoedd; gwnaethom gyflwyno sylwadau ffurfiol yn nodi'n pryderon, ac awgrymu atebion posibl. Gwnaethom hefyd drefnu i arbenigwr technegol gael ei secondio dros dro i'r CMA a'r Comisiwn Ewropeaidd.

Mae cyfuno'n gallu tanseilio cystadleuaeth a gall arwain at brisiau uwch yn y marchnadoedd cyfanwerthol a defnyddwyr. Yn dilyn unrhyw uno, byddwn yn ystyried unrhyw ymyriadau eraill a all fod yn ofynnol i helpu i gael gwell canlyniadau. Er enghraifft, teimlwn y bydd ein penderfyniad i gyflwyno mynediad 'ffibr tywyll', fel rhan o'n *Hadolygiad o'r Farchnad Cysylltedd Busnes*, yn helpu i liniaru ar rai o'r pryderon a leisiwyd gan randdeiliaid mewn perthynas â darparu gwasanaethau symudol cyfanwerthol ar ôl i BT brynu EE.

### Adolygiadau o'r Farchnad Band Cul a Mynediad Lleol Cyfanwerthol

Dylanwadir yn drwm ar y ddau adolygiad uchod gan gasgliadau cychwynnol ein *Hadolygiad o Gyfathrebiadau Digidol*.

Mae'r *Adolygiad o'r Farchnad Mynediad Lleol Cyfanwerthol* gan Ofcom yn astudiaeth dros dair blynedd o gystadleuaeth yn y marchnadoedd band eang sefydlog, llais a llinell dir.



Rydym wedi gofyn am farn gychwynnol gan randdeiliaid, a bwriadwn symud ymlaen yn ystod y flwyddyn bresennol drwy gynnal ymgynghoriad ffurfiol. Anelwn at gyflwyno unrhyw newidiadau gofynnol i'r fframwaith rheoleiddio yn 2017.

Mae'r *Adolygiad o'r Farchnad Band Cul* yn edrych ar gystadleuaeth wrth wneud a chysylltu galwadau llinell dir. Gwnaethom ofyn am farn gychwynnol ar y farchnad hon yn 2015, a bwriadwn ymgynghori'n fanwl cyn dod i gasgliad yn ystod y flwyddyn bresennol. Bydd y broses ymgynghori'n ystyried i ba raddau y gallwn ddadreoleiddio gwasanaethau ffôn llais traddodiadol, ond gan roi amddiffyniad i ddefnyddwyr bregus a'r rheini sy'n dal i ddibynnu ar eu llinell dir.

### Anghydfodau yn y diwydiant ac ymchwiliadau i faterion cystadleuaeth

Mae Tîm Ymchwiliadau i faterion Cystadleuaeth Ofcom yn ymchwilio i achosion posibl o dorri rheolau ac yn datrys anghydfodau yn ymwneud â rheoleiddio rhwng cwmnïau.

Yn ystod 2015/16, gwnaethom ddatrys dau anghydfod yn ymwneud â thaliadau cludo cyfartalog BT mewn perthynas â throsglwyddo rhif i ddarparwr arall, a hefyd defnydd y cwmni o beirianwaith ar gyfer gohirio gosod gwasanaethau Ether-rwyd, a elwir yn 'ganiatâd tybiedig'.

Gwnaethom roi'r gorau i un gŵyn yn ystod y flwyddyn ar sail blaenoriaeth weinyddol. Ar 1 Ebrill 2016, roedd gennym ddau ymchwiliad dan y gyfraith gystadleuaeth ar y gweill.

Mae rhagor o fanylion am yr ymchwiliadau hyn ar gael yn ein *Bwletin Gorfodaeth yng nghyswllt Cystadleuaeth a Materion Defnyddwyr*.

Ceir data ystadegol am ein gwaith achosion a gwaith y tîm Diogelu Defnyddwyr yn yr Atodiad ar dudalen 110.

### Ffioedd trwydded blynyddol newydd ar gyfer sbectrwm symudol

Ym mis Medi 2015, cyhoeddasom ffioedd blynyddol diwygiedig ar gyfer cwmnïau symudol. Dyma'r arian mae'n rhaid i gwmnïau ei dalu i ddefnyddio bandiau sbectrwm 900MHz a 1800MHz ar gyfer darparu eu gwasanaethau data a llais.

Yn 2010, dywedodd y Llywodraeth wrth Ofcom am adolygu'r ffioedd hyn i adlewyrchu eu gwerth ar y farchnad yn llawn.

Ar ôl dadansoddi helaeth ac ymgyngoriadau, daethom i'r casgliad y dylai cwmnïau symudol dalu cyfanswm blynyddol cyfun o £199.6m y flwyddyn, o'i gymharu â £64.4m yn flaenorol.

## Diogelu defnyddwyr rhag niwed

Mae arnom eisiau sicrhau bod defnyddwyr yn cael y dewis gorau o'u gwasanaethau cyfathrebiadau, a'r gwerth gorau am eu harian, ac rydym yn barod i ymyrryd os na fydd pethau'n gweithio cystal ag y dylent. Dros y flwyddyn ddiwethaf, gwnaethom weithredu ar ystod eang o faterion yn ymwneud â defnyddwyr, ac rydym yn adolygu rhai ohonynt yma.

### Mynd i'r afael â cham-werthu

Rydym yn parhau i fonitro cwynion am gam-werthu llinellau tir a 'slamio' - lle mae llinell cwsmer yn cael ei throsglwyddo heb yn wybod iddynt - ac rydym wedi gweithredu fel y bo'n briodol.

O ganlyniad, mae cwynion am gam-werthu llinellau tir wedi aros yn isel gydol y flwyddyn, tua 300 y mis, o uchafswm o dros 1,000 y mis ym mis Mehefin 2010.

Ym mis Gorffennaf, cwblhawyd ein hymchwiliad i Universal Utilities Limited (yn masnachu fel Unicom), a rhoddwyd cosb o £200,000 iddynt.

### Sicrhau bod defnyddwyr anabl yn cael y wybodaeth gywir

Datgelodd ymarfer 'siopwr dirgel' gan Ofcom nad yw cwsmeriaid anabl yn cael y wybodaeth sydd ei hangen arnynt gan ddarparwyr cyfathrebiadau.

Ym mis Awst 2015, gwnaethom gychwyn rhaglen fonitro a gorfodi i asesu arferion darparwyr wrth gyhoeddi a hyrwyddo'r gwasanaethau maent yn eu cynnig i ddefnyddwyr ag anableddau. Rydym wrthi'n asesu'r ymatebion, a byddwn yn cymryd camau pellach os bydd angen.

### Hawliau newydd a gwybodaeth gliriach i gwsmeriaid band eang preswyl

Gwnaethom gryfhau ein Cod Ymarfer cyfredol ar Gyflymderau Band Eang i ddefnyddwyr preswyl ym mis Ionawr 2016, gan ganiatáu iddynt adael contract heb gael eu cosbi, ar unrhyw adeg, os nad yw eu darparwr yn darparu'r isafswm cyflymder a addawyd ganddynt ar y cychwyn. Fel rhan o'r newidiadau, mae'r llofnodwyr yn cytuno i roi gwybodaeth glir a thryloyw i gwsmeriaid ar gyflymder tebygol eu band eang, fel bod cwsmeriaid yn deall yn iawn beth maent yn cytuno iddo.

Ar wahân, gan weithredu ar ymchwil Ofcom, cyhoeddodd yr Awdurdod Safonau Hysbysebu reolau newydd i wneud y broses o hysbysebu cynigion band eang a rhentu llinell yn gliriach, a fydd yn ei gwneud yn haws i bobl gymharu cynigion.

# SUT RYDYM YN GWEITHIO A GYDA PHWY RYDYM YN GWEITHIO

## Pryd byddwn yn rheoleiddio

Yn unol â Deddf Cyfathrebiadau 2003 mae'n rhaid inni roi ystyriaeth i egwyddorion rheoleiddio gwell: y dylai rheoleiddio fod yn dryloyw, yn atebol, yn gymesur, yn gyson a dim ond wedi ei dargedu at achosion lle mae angen gweithredu yn eu cylch. Pan sefydlwyd Ofcom, buom yn ehangu'r egwyddorion hyn drwy ddatblygu set fwy penodol o egwyddorion rheoleiddio a fyddai'n sail i'n gwaith beunyddiol. Am fod y sector cyfathrebiadau yn newid mor gyflym mae'n bwysig iawn fod gennym egwyddorion clir i'n tywys.

SICRHAU BOD CYFATHREBIADAU'N GWEITHIO I BAWB

- Hyrwyddo dewis
- Sicrhau safonau
- Atal niwed



## Egwyddorion Rheoleiddio Ofcom

### Pryd byddwn yn rheoleiddio

Bydd Ofcom yn gweithredu gyda gogwydd yn erbyn ymyrryd, ond â pharodrwydd i ymyrryd yn ddiymdroi ac yn effeithiol pan fydd angen.

Bydd Ofcom yn ymyrryd pan mae dyletswydd statudol benodol i weithio at nod na all y marchnadoedd ei gyflawni ar eu pen eu hunain.

### Sut rydym yn rheoleiddio

Bydd Ofcom bob amser yn ceisio defnyddio'r dulliau rheoleiddio lleiaf ymwthiol er mwyn cyflawni ei amcanion.

Bydd Ofcom yn ceisio sicrhau bod ymyriadau'n seiliedig ar dystiolaeth, yn gymesur, yn gyson, yn atebol ac yn dryloyw wrth eu hystyried ac o ran canlyniadau.

Bydd Ofcom yn rheoleiddio gyda chynllun blynyddol a fydd wedi'i fynegi'n glir ac wedi'i adolygu'n gyhoeddus, ynghyd ag amcanion penodedig.

### Sut byddwn yn cefnogi rheoleiddio

Bydd Ofcom yn ymchwilio i farchnadoedd yn gyson ac yn ceisio aros ar flaen y gad o ran dealltwriaeth dechnolegol.

Bydd Ofcom yn ymgynghori'n eang â'r holl randdeiliaid perthnasol ac yn asesu effaith camau rheoleiddio cyn rheoleiddio marchnad.


## Lleihau rheoleiddio

Mae Ofcom yn canolbwyntio ar leihau rheoleiddio pan fo hynny'n bosibl. Rydym yn credu bod 'rheoleiddio gwell' yn golygu sicrhau bod rheolau'n cael eu targedu'n briodol, ac nad ydynt yn gosod beichiau gormodol ar randdeiliaid.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf gwnaethom nifer o benderfyniadau rheoleiddio pwysig. Roedd rhai o'r penderfyniadau hyn yn ategu ein ffocws ar leihau rheoleiddio. Er mwyn diogelu buddiannau dinasyddion a defnyddwyr, roedd rhai penderfyniadau'n gofyn am reoleiddio ychwanegol neu reoleiddio cryfach, yn bennaf yn ymwneud â'n gwaith i sicrhau y gwneir y defnydd gorau posibl o sbectrwm. Mae Ffigur 1 yn rhoi trosolwg o'r ffordd y newidiodd y baich rheoleiddio ar randdeiliaid o ganlyniad i ddatganiadau a phenderfyniadau rheoleiddio Ofcom yn 2015/16.

**Ffigur 1: Effaith ein datganiadau ar y baich rheoleiddio ar randdeiliaid: 2015/16**

Effaith ein datganiadau ar y baich rheoleiddio ar randdeiliaid yn 2015/16 o'r 62 prif ddatganiad a wnaethpwyd yn ystod y flwyddyn:




Mae trosolwg o'r datganiadau a'r penderfyniadau allweddol rydym wedi'u gwneud yn ystod y flwyddyn ar gael yn y tablau yn yr Atodiad ar dudalennau 105 i 107.

## Ymgyngoriadau

Drwy ymgyngoriadau cyhoeddus, mae rhanddeiliaid yn gallu rhoi sylwadau ar ein cynigion, ac ymateb iddynt, cyn y gwneir unrhyw benderfyniadau terfynol.

Os bydd cyfnod ymgynghori yn rhy fyr, efallai na fydd gan y rheini sydd â barn bwysig i'w chyfleu ddigon o amser i baratoi eu hymatebion. Os bydd yn rhy hir, efallai y bydd y farchnad dan sylw wedi newid yn ddramatig. Pan fyddwn yn penderfynu ar hyd cyfnod ymgynghoriad, mae angen inni gael y cydbwysedd iawn rhwng y ddwy ystyriaeth hyn. Yn gyffredinol, ceir tri chategori o ymgynghoriad:

- **Categori 1:** ymgyngoriadau sy'n cynnwys cynlluniau polisi o bwys a/neu sydd o ddiddordeb i amrywiaeth eang o randdeiliaid (yn enwedig y rheini y bydd angen mwy o amser arnynt efallai ar gyfer ymateb); yn yr achosion hyn byddwn fel arfer yn ymgynghori am ddeg wythnos.
- **Categori 2:** ymgyngoriadau sy'n cynnwys cynigion polisi pwysig ond a fydd o ddiddordeb i nifer cyfyngedig o randdeiliaid a fydd yn ymwybodol o'r materion; yn yr achosion hyn byddwn fel arfer yn ymgynghori am chwe wythnos.
- **Categori 3:** ymgyngoriadau sy'n dod o fewn un neu fwy o'r categorïau canlynol, gyda'r cyfnod arferol ar gyfer ymgynghori yn fis:
    - materion technegol;
    - lle bydd angen cwblhau prosiect o fewn amserlen benodol oherwydd datblygiadau yn y farchnad neu ffactorau eraill lle mae gofyn cwblhau'r prosiect mewn cyfnod byr;
    - lle mae'r mater eisoes wedi bod yn destun ymgynghoriad;
    - lle na chaiff y cynnig fawr o effaith ar farchnad; neu
    - lle nad yw'r cynnig ond yn fân newid i bolisi neu reoliad sy'n bodoli eisoes.

Mae Ffigur 2 yn dangos dadansoddiad o hyd ein ymgyngoriadau fesul sector.

## Ffigur 2: Dadansoddiad o hyd ymgyngoriadau: 2015/16


| | Telegyfath-rebiadau | Darlledu | Sbectrwm | Post | Arall | CYFANSWM | Cyfanswm 2015/16 | Cyfanswm 2014/15 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfnod ymgynghori o leiaf 10 wythnos o hyd | 6 | 4 | 6 | 0 | 1 | 17 | 33% | 26% |
| Cyfnod ymgynghori llai na 10 wythnos (gan gynnwys ymgyngoriadau categori 2 a chategori 3) | 9 | 7 | 15 | 3 | 1 | 35 | 67% | 74% |





Mae Ofcom yn casglu ystadegau ar nifer yr ymatebion i ymgyngoriadau, fel y gwelir yn Ffigur 3. Cawsom 1,411 o ymatebion i'n hymgyngoriadau, i lawr o 10,519 yn 2014/15. Y rheswm pennaf am y cynnydd sylweddol mewn ymatebion yn 2014/15 oedd ein hymgynghoriad ar yr *Adolygiad o Restr Ofcom o'r Prif Bleidiau Gwleidyddol ar gyfer yr Etholiadau a Gynhelir ar 7 Mai 2015*.


**Ffigur 3: Ymatebion i ymgyngoriadau: 2015/16**



## Gwneud penderfyniadau'n brydlon

Rydym yn dadansoddi pa mor hir mae'n ei gymryd i ni gyhoeddi penderfyniad ar ôl i ymgynghoriad ddod i ben (gweler Ffigur 4). Yn 2015/16, cyhoeddwyd 73% o benderfyniadau cyn pen 20 wythnos i ddiwedd yr ymgynghoriad, y rhan fwyaf ohonynt cyn pen 10 wythnos.

**Ffigur 4: Dadansoddiad o'r amser a gymerwyd i gyhoeddi penderfyniad Ofcom ar ôl i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben: 2015/16**




## Ffigur 5: Dadansoddiad o'r asesiadau effaith a gynhaliwyd

| Telegyfath-rebiadau | Darlledu | Sbectrwm | Post | Arall | CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|---|
| 15 | 11 | 21 | 3 | 2 | 52 |
| 11 | 6 | 10 | 1 | 0 | 28 |

Nifer y dogfennau ymgynghori (rhes gyntaf) — Asesiad effaith yn rhan o'r ddogfen a gyhoeddwyd (ail res)

## Asesiadau effaith

Mae asesiadau effaith yn rhan bwysig o'r broses gwneud penderfyniadau. Mae Adran 7 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 yn ei gwneud yn ofynnol inni gynnal asesiad effaith pan rydym yn bwriadu gwneud unrhyw beth er mwyn cyflawni ein swyddogaethau neu mewn cysylltiad â chyflawni ein swyddogaethau, a lle teimlwn fod y cynnig yn bwysig. Mae asesiadau effaith yn sicrhau, ymysg pethau eraill, ac yng nghyswllt ein penderfyniadau:

- bod ystod eang o ddewisiadau'n cael eu hystyried, gan gynnwys y dewis i beidio â rheoleiddio;
- bod y dewisiadau hyn yn cael eu cyflwyno'n glir;
- bod effeithiau posibl pob dewis yn cael eu dadansoddi'n ofalus; a
- bod y manteision yn fwy na'r costau sy'n gysylltiedig â'r dewis a ddewisir.

Rhaid i ni gyhoeddi rhestr o'r asesiadau effaith sydd wedi cael eu cynnal gennym yn ystod y flwyddyn. Mae hon yn ymddangos yn yr Atodiad ar dudalennau 108 a 109.

Ym mis Gorffennaf 2005, gwnaethom gyhoeddi'r canllawiau: *Arferion gorau wrth lunio polisïau: dull Ofcom o asesu effaith*, a oedd yn pwysleisio ymrwymiad Ofcom i gynnal asesiadau fel rhan greiddiol o'r broses llunio polisïau gan ddweud ein bod yn disgwyl cynnal asesiadau effaith ym mwyafrif helaeth ein penderfyniadau polisi.

Dengys Ffigur 5 fod 54% o ymgyngoriadau yn 2015/16 wedi cynnal asesiad effaith, a oedd wedi'i osod mewn adran neu atodiad penodol o'r ddogfen ymgynghori. Dan rai amgylchiadau efallai na fydd cynnal asesiad effaith yn ofynnol neu efallai na fydd yn briodol, neu efallai ei fod yn ymhlyg yn yr ymgynghoriad. Byddwn yn parhau i sicrhau bod asesiadau effaith yn cael eu cynnal ac yn cael eu cyflwyno'n briodol ymhob achos perthnasol.

## Ymgysylltu â rhanddeiliaid

### Defnyddwyr a dinasyddion

Mae deall buddiannau ac ymddygiad defnyddwyr a dinasyddion yn hanfodol i'n gwaith. Mae Ofcom yn defnyddio ymchwil marchnad yn helaeth i ddeall patrymau sy'n ymwneud â'r nifer sy'n prynu ac yn defnyddio gwasanaethau cyfathrebiadau ac ymddygiad a phryderon defnyddwyr. Mae ein hadroddiadau blynyddol, *Adroddiad Profiad Defnyddwyr* ac *Adroddiad y Farchnad Cyfathrebiadau*, yn benodol, yn amlygu ac yn dadansoddi'r patrymau hyn.

Mae Tîm Cyswllt Defnyddwyr Ofcom yn cael oddeutu 70,000 o alwadau'n uniongyrchol gan ddefnyddwyr bob blwyddyn, ac mae'r wybodaeth a gawn gan ddefnyddwyr yn ein helpu i dargedu ein polisïau a'n gwaith gorfodi. Gall defnyddwyr hefyd gysylltu â ni drwy ein gwefan. Er na allwn ddatrys cwynion unigol am wasanaethau telegyfathrebiadau, rydym yn cynghori'r rheini sy'n cwyno ac yn eu cyfeirio at gynlluniau Dulliau Amgen o Ddatrys Anghydfodau (ADR) sydd wedi cael eu cymeradwyo gennym. Ond, rydym yn delio â chwynion am raglenni teledu a radio.

Mae ein swyddfeydd ymhob gwlad yn y DU yn rhoi gwybodaeth fanwl ac arbenigol i Ofcom am yr heriau penodol a wynebir gan ddinasyddion a defnyddwyr yng ngwahanol ardaloedd y DU. Mae ein pwyllgorau ymgynghorol ar gyfer pob un o wledydd y DU yn cynnig gwybodaeth a chyngor i Ofcom ar agweddau ar ei waith, a chyfathrebiadau yn gyffredinol, sydd o bwysigrwydd penodol i bob gwlad. Mae buddiannau cenedlaethol hefyd yn cael eu cynrychioli gan Aelodau Bwrdd Cynnwys a Phanel Defnyddwyr Cyfathrebiadau Ofcom. Mae'r Fforwm Defnyddwyr ar Gyfathrebiadau, sy'n cynnwys dros 50 o aelodau o gyrff defnyddwyr, yn cwrdd bob chwarter ag Ofcom i drafod testunau polisi sy'n berthnasol i ddefnyddwyr. Rydym hefyd yn cael cyfarfodydd dwyochrog rheolaidd gyda sefydliadau rhanddeiliaid a defnyddwyr, yn ogystal â chyfarfodydd ymgynghori ar destunau penodol.

### Diwydiant a'r Llywodraeth

Mae Ofcom yn ymgysylltu ag amrywiaeth eang o randdeiliaid, gan gynnwys cwmnïau a chyrff y diwydiant yn y sectorau rydym yn eu rheoleiddio, grwpiau defnyddwyr a defnyddwyr, llywodraeth y DU a'r sefydliadau datganoledig, cyd-reoleiddwyr a rheoleiddwyr eraill. Rydym yn aelodau o Rwydwaith Rheoleiddwyr y DU a Rhwydwaith Cystadleuaeth y DU, ac rydym mewn cysylltiad ag amryw o gyrff rheoleiddio a chyrff rhyngwladol.

Mae gan Ofcom ddyletswydd statudol i sicrhau bod ei benderfyniadau'n ystyried safbwyntiau a buddiannau'r rheini sy'n byw mewn gwahanol rannau o'r DU. Mae ein gweithrediadau yn y gwledydd yn cael eu harwain gan uwch gyfarwyddwyr yng Nghaerdydd, Llundain, Glasgow a Belfast. Maent yn gweithio i sicrhau bod barn, anghenion ac amgylchiadau arbennig y gwledydd yn cael sylw uniongyrchol gan Ofcom. Mae ein pwyllgorau ymgynghorol ar gyfer pob un o'r gwledydd hefyd yn darparu cyngor am fuddiannau a safbwyntiau'r gwledydd a'r rhanbarthau am yr holl faterion yn ymwneud â chyfathrebiadau.

## Dyletswyddau newydd a diwygiedig

Roedd ATVOD (yr hen Awdurdod Teledu ar Alwad) yn gyfrifol am ddelio â chwynion a oedd yn ymwneud â chynnwys golygyddol gwasanaethau fideo-ar-alwad yn y DU. Mae'r gwaith hwn wedi dod o dan adain Ofcom erbyn hyn, ac rydym yn cyflawni'r gwaith hwn ochr yn ochr â'n dyletswyddau rheoleiddio eraill.

## Cyd-reoleiddwyr a chyrff eraill

Mae gan Ofcom bartneriaeth gyd-reoleiddio gyda'r ASA (Awdurdod Safonau Hysbysebu), a ffurfiwyd yn 2004. Mae'n delio â darlledwyr a hysbysebu ar wasanaethau fideo-ar-alwad. Mae'n rhaid i ddarlledwyr gydymffurfio â'r Codau Hysbysebu o dan eu trwyddedau darlledu a roddir gan Ofcom. Pan fydd yr ASA yn dyfarnu ar hysbyseb, bydd darlledwyr yn cydymffurfio â'r penderfyniadau ar unwaith o dan amodau eu trwyddedau. Pan fo angen, mae'r ASA yn gallu cyfeirio trwyddedeion at Ofcom.

Mae Ofcom yn gyfrifol am reoleiddio gwasanaethau cyfradd premiwm, sy'n galluogi defnyddwyr i brynu nwyddau a gwasanaethau drwy godi'r gost ar eu biliau ffôn a'u cyfrifon talu ymlaen llaw. PhonepayPlus sy'n rheoleiddio gwasanaethau cyfradd premiwm o ddydd i ddydd ar ran Ofcom drwy ei waith yn gorfodi cod ymarfer sydd wedi'i gymeradwyo gan Ofcom.

Mae gan y CMA (yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd) bwerau cydredol o dan ddeddfwriaeth diogelu defnyddwyr penodol ac o fewn y fframwaith cyfraith cystadleuaeth ar gyfer y sector cyfathrebiadau. Rydym yn gweithio gyda'r CMA i sicrhau y gweithredir yn gyson ac yn gydgysylltiedig mewn perthynas â'r materion lle mae gennym bwerau cydredol ac rydym yn trafod pa gorff sydd yn y sefyllfa orau i arwain ymhob achos.

# ADOLYGIAD ARIANNOL

## Cyflawni ein dyletswyddau a gwerth am arian

Yn 2015/16, gosododd Ofcom gyllideb a sicrhaodd ragor o arbedion mewn termau real o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Wrth osod cyllideb o £114.3m, gwnaethom sicrhau gostyngiad cyllidebol o £2.7m (gostyngiad 3.4% mewn termau real) o'i gymharu â chyllideb 2014/15. Llwyddasom i wneud hyn drwy ganolbwyntio ar gynlluniau arbed costau fel gwneud y gwaith trwyddedu PMSE (gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig) yn fewnol, defnyddio gwasanaethau TGCh cwmwl lle bo'n briodol a llwyddo i sicrhau arbedion yn ein contractau rheoli cyfleusterau, gwasanaethau cyflogres a buddion cyflogeion.

Mae ein cyllideb ar gyfer 2016/17 yn adeiladu ar arbedion effeithlonrwydd blaenorol ac mae'n adlewyrchu ein hymrwymiad parhaus i ddarparu gwerth am arian. Drwy bennu meysydd lle gallwn wneud pethau'n wahanol, yn ogystal ag ymateb i heriau newydd yn y marchnadoedd rydym yn eu rheoleiddio, rydym wedi pennu cyllideb o £114.3m ar gyfer 2016/17, yr un fath â'n cyllideb ar gyfer 2015/16. Mae hyn yn ostyngiad 1.5% mewn termau real.

Yn 2016/17, byddwn yn parhau i edrych ar sut rydym yn gwneud ein gwaith a, lle mae adnoddau'n brin, byddwn yn gwneud dewisiadau yn unol â'n nodau a'n dyletswydd gyffredinol i hyrwyddo buddiannau dinasyddion a defnyddwyr. Yn 2015/16, gwnaethom gynnal adolygiad mewnol i edrych ar yr heriau mae Ofcom yn eu hwynebu, a sut y dylem ymateb i'r heriau hyn, i sicrhau y byddwn mor effeithiol â phosibl yn y dyfodol.



Roedd ein hadolygiad mewnol yn cynnwys asesiad o'n gofynion o ran eiddo ac adeiladau. Roedd y gwaith yn cynnwys edrych ar leoliad ein timau, ac ar drefniadau gweithio mwy ystwyth i gydweithwyr, i helpu i leihau ein hôl-troed yn Llundain a sicrhau rhagor o fesurau effeithlonrwydd. Mae nodyn 25 i'r Cyfrifon yn nodi ein cynnydd â'r mater hwn yn fwy manwl gan gynnwys ar ôl diwedd y cyfnod adrodd. Yn 2016/17, rydym yn symud Tîm Cyswllt Cwsmeriaid Ofcom o'n swyddfa yn Llundain i ogledd orllewin Lloegr. Wrth i ni symud rhai o wasanaethau trwyddedu sbectrwm ar-lein, bydd y swyddogaeth hon hefyd yn symud o Lundain i Warrington. Rydym wedi adolygu sut yr ydym yn rheoli ein heiddo, gan gyfuno a symleiddio ein dull, er mwyn darparu rhagor o fesurau effeithlonrwydd ac arbedion cost.

## Perfformiad ariannol 2015/16

Mae nodyn 2 y cyfrifon yn darparu cost rhedeg flynyddol Ofcom o £114.1m ar sail cyfrifo arian. Mae'r gost rhedeg hon fwy neu lai yn unol â'r gyllideb sydd wedi'i gosod a gwnaethom gyflwyno ein cynllun gwaith blynyddol yn ychwanegol at reoli blaenoriaethau newydd, gan gynnwys ein gwaith ar yr *Adolygiad Strategol o Gyfathrebiadau Digidol*, drwy ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael yn effeithiol ac effeithlon. Er yr arbedion a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn, roeddem wedi wynebu costau ychwanegol gyda rhai trwyddedau meddalwedd penodol, croniad yng nghyswllt rhwymedigaethau ardrethi busnes ychwanegol ar gyfer ein hadeilad yn Llundain a thrwy ymgymryd â rhywfaint o wariant a oedd wedi'i gynllunio ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.

Yn ystod y flwyddyn, bu i Ofcom anfonebu a chasglu cyfanswm o £270.0m ar gyfer y pwrs cyhoeddus oddi wrth y rheini sy'n dal trwyddedau o dan y Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr, rhifau ffôn daearyddol, taliadau ychwanegol oddi wrth y rheini sy'n dal trwyddedau darlledu a thrwy osod dirwyon a chosbau ar randdeiliaid, fel y'u cyflwynwyd yng Nghyfrifon Adran 400.

## Fframwaith ariannol

Dan Baragraff 8(1) o'r Atodlen i Ddeddf Swyddfa Gyfathrebiadau 2002, mae gofyn i Ofcom gydbwyso ei wariant â'i incwm ym mhob blwyddyn ariannol.

Mae Adran 38 ac Adran 347 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 ac Atodlen 4 i Ddeddf Gwasanaethau Post 2011 hefyd yn mynnu bod Ofcom yn codi incwm gan bob un o'r sectorau y mae'n ei reoleiddio i dalu'r costau a ddaw i ran Ofcom wrth reoleiddio'r sector hwnnw.

Rhaid i Ofcom hefyd rannu ei gostau gweithredol cyffredinol (y rheini nad ydynt yn uniongyrchol berthnasol i unrhyw sector penodol) mewn modd cymesur ar draws pob un o'r sectorau hynny.

## Bydd Ofcom yn codi ei arian o'r ffynonellau a ganlyn:

### Arian rhanddeiliaid sectorau

Ffioedd trwyddedau darlledu ar gyfer:

- Teledu;
- Radio.

Taliadau gweinyddol am:

- Gwasanaethau a rhwydweithiau electronig a darparu cyfleusterau cysylltiedig;
- Rheoleiddio'r gwasanaethau post.

### Cymorth grant

- I dalu costau gweithredu Ofcom wrth reoli sbectrwm;
- I dalu costau clirio a dyfarnu sbectrwm, gan gynnwys grantiau effeithlonrwydd sbectrwm;
- Ar gyfer swyddogaethau a'r dyletswyddau statudol hynny y mae'n rhaid i Ofcom eu cyflawni ond nad oes llif refeniw cyfatebol ar eu cyfer.

Bydd Ofcom hefyd yn cael incwm rhent o le mewn swyddfa mae'n ei roi ar les, llog ar gyfrifon banc ac incwm o wasanaethau sy'n ychwanegol at ddyletswyddau statudol Ofcom.

## Rheolaeth ariannol

Mae deall ein costau a rheoli arian yn gadarn yn hollbwysig er mwyn i Ofcom gyflawni ei ddibenion strategol ar yr un pryd â chyrraedd y targedau uchelgeisiol a osodwyd fel rhan o'n hadolygiad o wariant.

I gyflawni hyn, mae Ofcom yn parhau i ganolbwyntio ar gael gwerth am arian drwy brosesau caffael masnachol a rheoli cyflenwyr; cyllidebu amserol a chywir a rhagweld gwariant; blaenoriaethu adnoddau a gweithgareddau; darparu adroddiadau cynhwysfawr am reolaeth; rheoli risg; sicrhau y cydymffurfir â rheolaethau allweddol a phrosesau trafodol effeithlon.

## Incwm Gweithredol

Mae cyfanswm incwm gweithredol Ofcom yn y Datganiad Incwm a Gwariant yn gwahanu'r incwm a geir sy'n ymwneud â Chlirio a Dyfarnu Sbectrwm, gan fod hon yn ddyletswydd ychwanegol sydd tu allan i'n cyllideb weithredol graidd.

Roedd incwm ar gyfer Clirio a Dyfarnu Sbectrwm yn £5.9m (2014/15: £4.3m). Mae'r £1.6m o gynnydd yn adlewyrchu'r grantiau sydd wedi dechrau cael eu talu i hwyluso'r gwaith o glirio'r band 700MHz.

Roedd incwm Ofcom heb gynnwys clirio a dyfarnu sbectrwm ar gyfer 2015/16 yn £114.8m (2014/15: £111.2m). Dyma rai o'r newidiadau ers y flwyddyn flaenorol:

- cynnydd £4.1m yn y taliadau rheoleiddio ar gyfer cwmnïau'r gwasanaethau a'r rhwydweithiau. Y rheswm pennaf am hyn yw mwy o weithgarwch yn y sector, gan gynnwys y gwaith helaeth a wnaethpwyd ar gyfer yr *Adolygiad Strategol o Gyfathrebiadau Digidol* a'r rhaglen barhaus o adolygiadau marchnad sy'n ofynnol o dan fframwaith yr UE; a
- gostyngiad £0.8m mewn cymorth gan Lywodraeth yr Alban yn dilyn cwblhau gwaith a wnaethpwyd ar gyfer Gemau'r Gymanwlad yn Glasgow yn 2014/15.

Ofcom oedd y rheoleiddiwr sy'n gwesteio o hyd ar gyfer Rhwydwaith Rheoleiddwyr y DU (UKRN) yn 2015/16, a bydd yn parhau i wneud hyn yn ystod hanner cyntaf 2016/17. Bydd y cyfrifoldebau gwesteio wedyn yn trosglwyddo i'r Awdurdod Hedfan Sifil o 1 Tachwedd 2016 ymlaen. Bydd unrhyw warged a fydd gan Ofcom bryd hynny yn trosglwyddo i'r Awdurdod Hedfan Sifil.

## Gwariant gweithredol

Roedd costau gweithredol yn ymwneud â chyfrifoldebau craidd Ofcom yn 2015/16 yn £48.0m, £1.7m yn is na'r flwyddyn flaenorol (yn 2014/15 roedd ein costau gweithredol yn £49.7m). Priodolir y gwahaniaethau yn y gwariant ers y flwyddyn flaenorol i'r costau canlynol:

Gostyngiadau:

- £2.0m o gostau gwasanaethau a oedd yn cael eu gwneud yn allanol drwy wneud y gwaith trwyddedu PMSE yn fewnol, yn gynnar yn 2015/16;
- £1.3m o gostau dibrisiant, gyda nifer o asedau wedi'u dibrisio'n llawn yn 2014/15;
- Dim costau amhariad yn 2015/16 o'i gymharu â £0.6m yn 2014/15, yn ymwneud â datblygu ein system drwyddedu digwyddiadau arbennig a gwneud rhaglenni ac e-drwyddedu; a
- £0.4m o gostau ymchwil technolegol yn adlewyrchu'r rhaglen waith yn 2015/16, a blaenoriaethu costau ar gyfer yr *Adolygiad Strategol o Gyfathrebiadau Digidol*.

Wedi'u gwrthbwyso gan y codiadau canlynol

- £1.4m o gostau ychwanegol ar adeiladau, yn rhannol o ganlyniad i gydnabod rhwymedigaeth ardrethi uwch ar ein prif swyddfa. Gwnaeth y flwyddyn flaenorol elwa wrth i groniad o £0.9m gael ei ryddhau ar ôl cwblhau ein hadolygiad rhenti'n llwyddiannus;
- £0.9m o gostau staff dros dro i leihau'r defnydd o ymgynghorwyr, a chostau recriwtio ychwanegol i lenwi swyddi gwag hollbwysig yn y sefydliad;
- £0.5m o gostau ymchwil ymysg defnyddwyr a chynulleidfaoedd i helpu i ddatblygu polisïau a phenderfyniadau yng nghyswllt ymchwiliadau i hybu buddiannau defnyddwyr;
- £0.4m o gostau ychwanegol yng nghyswllt trwyddedu a chynnal a chadw meddalwedd wrth i systemau TG gwell gael eu cyflwyno.

Mae costau staff £2.7m yn fwy na'r flwyddyn flaenorol, yn bennaf oherwydd i staff PMSE gael eu trosglwyddo fel rhan o'r broses o drwyddedu PMSE yn fewnol am y tro cyntaf, cynnydd mewn costau ailstrwythuro ar ôl cwblhau'r cynlluniau ad-drefnu, yr adolygiad cyflogau blynyddol ymysg cymheiriaid a llenwi swyddi gwag yn llwyddiannus yn ystod y flwyddyn.


Cynyddodd y gwariant ar Glirio a Dyfarnu Sbectrwm o £5.9m (2014/15: £4.1m) wrth i'r gwaith ddechrau ar raglen clirio'r band 700 MHz, a sefydlwyd i symud trwyddedeion teledu daearol digidol oddi ar y band.

## Gwarged/diffyg am y flwyddyn ariannol

### Gwarged neu ddiffyg cyllido

Bydd y refeniw gweithredol sydd ei angen ar Ofcom i gyflawni ei ddyletswyddau a chyflawni ei raglen waith ar gyfer unrhyw flwyddyn ariannol yn cael ei gyfrifo ar sail datganiad egwyddorion codi ffioedd Ofcom. Mae'r dull gweithredu hwn yn pennu'r arian gwirioneddol y mae angen ei gasglu i dalu rhwymedigaethau ariannol yn ystod y flwyddyn. Bydd unrhyw arian dros ben a geir o ganlyniad i arbedion cyllidebol a sicrheir yn ystod y flwyddyn ariannol yn cael ei ddychwelyd i'r rhanddeiliaid drwy leihau'r tariffau blynyddol a godir yn y ddwy flynedd ariannol olynol.

Mae'r gwarged cyllido ar gyfer y flwyddyn ariannol yn cael ei nodi yn Nodyn 2 i'r cyfrifon, sef £2.7m (y swm yn 2014/15 oedd £6.8m).



### Gwarged neu ddiffyg cyfrifyddu

Mae angen gwarged cyfrifyddu ar gyfer y gwariant nad yw'n cael ei adlewyrchu yn y Datganiad Incwm a Gwariant, gan gynnwys gwariant cyfalaf a thaliadau i adennill diffyg sy'n ofynnol mewn perthynas â'r ddau gynllun pensiwn â'r buddion wedi'u diffinio.

Mae diffyg cyfrifyddu'n digwydd pan mae dibrisiant, amorteiddio a thrafodion anariannol eraill yn fwy na'r incwm a dderbynnir i dalu costau arian eitemau cyfalaf a'r cynlluniau pensiwn â'r buddion wedi'u diffinio.

Y diffyg cyfrifyddu ar gyfer y flwyddyn ariannol ar ôl treth, a gofnodwyd yn y Datganiad Incwm a Gwariant ar gyfer y flwyddyn dan sylw, oedd £0.9m (2014/15: gwarged o £0.1m). Mae'r diffyg am y flwyddyn yn adlewyrchu'r gostyngiad yn yr asedau treth ohiriedig o £2.4m yn dilyn ein hadolygiad o'n gofynion eiddo yn Llundain.

## Arian ychwanegol a gesglir ar ran Trysorlys EM

Bydd Ofcom yn paratoi set o Ddatganiadau Ariannol ar wahân at ddibenion Adran 400 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003. Adroddir ar y ffioedd, y taliadau a'r cosbau, ynghyd â rhagor o fanylion, yn y Datganiadau Ariannol hyn yn nodyn 23 i'r cyfrifon.

Yn ystod 2015/16 casglodd Ofcom £270.0m (2014/15: £272.6m) ar ran Trysorlys EM.

Mae'r arian yma wedi cael ei drosglwyddo i'r pwrs cyhoeddus. Cesglir y refeniw o bedair ffynhonnell:

- ffioedd trwyddedau dan y Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr;
- taliadau ychwanegol oddi wrth y rheini sy'n dal trwyddedau teledu a radio;
- cosbau ariannol; a
- Rhifau Daearyddol.

## Datganiad egwyddorion codi ffioedd

Mae Ofcom yn cael ei ariannu drwy gyfuniad o ffioedd trwyddedau a thaliadau gweinyddol oddi wrth randdeiliaid a chymorth grant gan Lywodraeth ganol.

O ran arian gan randdeiliaid o dan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 ("y Ddeddf"), mae'n rhaid i Ofcom osod ffioedd trwydded yn y sector darlledu a thaliadau gweinyddol yn y sector cyfathrebiadau electronig yn unol â'r egwyddorion codi ffioedd y mae wedi'u cyhoeddi. Ceir darpariaethau tebyg yn Neddf Gwasanaethau Post 2011 o ran gosod ffioedd ar gyfer y sector gwasanaethau post. O flwyddyn i flwyddyn, rhaid i ffioedd a thaliadau o'r fath gael eu gosod er mwyn talu costau blynyddol Ofcom i reoleiddio'r sector perthnasol, ond ni ddylent fod yn fwy na'r costau hyn.

Wrth osod taliadau a ffioedd, rhaid inni sicrhau eu bod yn bodloni'r gofynion statudol perthnasol, gan gynnwys sicrhau eu bod yn dryloyw, yn gymesur a bod modd eu cyfiawnhau'n wrthrychol.

Adeg adroddiad blynyddol y llynedd, y bwriad oedd cynnal ail gam ymgynghoriad yn ystod 2015/16 ar ein datganiad o egwyddorion codi ffioedd. Ar ôl ystyried ymatebion rhanddeiliaid ac asesu rhaglen waith gyfredol Ofcom, mae Ofcom wedi penderfynu mai'r peth mwyaf priodol i'w wneud ar hyn o bryd yw gohirio ail gam yr ymgynghoriad am y tro. Unwaith y bydd Ofcom yn teimlo y bydd yr amser yn briodol i ailgychwyn, bydd y manylion yn cael eu cyhoeddi ar wefan Ofcom.

## Tariffau 2016/17

Ar 30 Mawrth 2016, cyhoeddodd Ofcom y Tablau Tariff ar gyfer 2016/17, a oedd wedi'u seilio ar amcangyfrif o £114.3m o alldro gwariant gweithredol ar gyfer 2015/16; roedd hwn yn gyson â chyllideb 2015/16.

Bydd y swm o £0.2m, sef y gwahaniaeth rhwng yr alldro gweithredol gwirioneddol a'r amcangyfrif o'r alldro gweithredol, a ddefnyddiwyd i osod ffioedd a thaliadau ar gyfer 2016/17, yn cael ei roi yn ôl i randdeiliaid drwy dariffau ar gyfer 2017/18 yn unol â'n Datganiad Egwyddorion Codi Ffioedd.


£114.3m yw cyllideb Ofcom ar gyfer 2016/17, sy'n cynnwys gwariant cyfalaf a thaliadau gwirioneddol i gynlluniau pensiwn, ond heb gynnwys dibrisiant ac amorteiddio. Mae hyn yn ostyngiad 1.5 y cant mewn termau real yng nghyfanswm cost flynyddol rheoleiddio.

Er bod lefel gyffredinol costau Ofcom yn dal yn wastad, o fewn y cyfanswm costau hyn bydd symudiad o un flwyddyn i'r llall rhwng pob sector a reoleiddir, ac yng nghydbwysedd costau a ffioedd i'r diwydiant a'r trethdalwr trwy gymorth grant.

Yn benodol, bydd taliadau a ffioedd sectorau ar gyfer 2016/17 yn newid fel a ganlyn:

- cynnydd cyfartalog o 14.3% (cynnydd 12.6% mewn termau real) ar gyfer gweithredwyr rhwydweithiau a gwasanaethau (telegyfathrebiadau) a hynny'n bennaf oherwydd y gwaith a wnaethpwyd ar yr *Adolygiad Strategol o Gyfathrebiadau Digidol* yn 2015/16 a'r gwaith arfaethedig a fydd yn deillio o'r adolygiad yn 2016/17;
- lleihad 11.1% ar gyfartaledd (lleihad 12.4% mewn termau real) ar gyfer y sector teledu;
- cynnydd 8.9% ar gyfartaledd (cynnydd 7.3% mewn termau real) ar gyfer y sector radio yn sgil y ffaith na chafodd yr arbedion o 2014/15 a ymgorfforwyd yn ffioedd 2015/16 eu hailadrodd; a
- gostyngiad 9.1% (gostyngiad 10.5% mewn termau real) ar gyfer y sector gwasanaethau post.

**Ffigur 6: Mae'r siart isod yn dangos cyllid Ofcom dros y saith blynedd diwethaf**





## Clirio a dyfarnu sbectrwm

Yn 2015/16, mae cyfanswm gwariant o £5.9m yn ymwneud â chlirio a dyfarnu Sbectrwm (2014/15: £4.1m), sydd y tu allan i gyllideb graidd Ofcom.

Statud sy'n diffinio pwerau Ofcom i ddyfarnu grantiau i hyrwyddo'r defnydd effeithlon o sbectrwm a rheoli'r defnydd hwnnw'n effeithlon o dan Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr 2006, yn amodol ar gael cymeradwyaeth Trysorlys EM. Mae Ofcom wedi sefydlu cynllun grant i glirio trwyddedeion teledu daearol digidol oddi ar y band 700MHz er mwyn hwyluso'r gwaith o newid defnydd y band i ddefnydd symudol. Mae angen gwneud newidiadau i rannau sylweddol o'r seilwaith teledu daearol digidol (e.e. i fastiau ac antenae teledu daearol digidol).

Bydd rhaglen clirio'r band 700MHz yn rhychwantu nifer o flynyddoedd ariannol ac mae'r Llywodraeth wedi darparu arian tan 2022, gyda'r nod o glirio'r band cyn gynted â phosibl. Dyfarnwyd y grantiau DTT cyntaf ym mis Ionawr 2016, a bydd maint y gwaith seilwaith yn dwysau dros y blynyddoedd ariannol dilynol.

Effeithir ar amseriad arwerthiant y bandiau 2.3GHz a 3.4GHz o dan brosiect diwygio sbectrwm y sector cyhoeddus (PSSR) gan faterion yn ymwneud â chystadleuaeth a chydgyfeiriant yn y farchnad symudol. Mae'n debyg y cynhelir yr arwerthiant yn 2016/17 ar ôl i'r UE benderfynu blocio dau gwmni rhag uno.

Yn unol â blynyddoedd blaenorol, mae'r costau sy'n ymwneud â chlirio a dyfarnu sbectrwm wedi cael eu gwahanu oddi wrth gyfrifoldebau craidd Ofcom yn y datganiadau ariannol.

## Pensiynau

Mae Ofcom yn darparu buddion pensiwn drwy lwfans pensiwn â'r cyfraniadau wedi'u diffinio sydd ar gael i bob cydweithiwr. Mae cydweithwyr yn Ofcom wedi'u cyflogi ar delerau sy'n cynnig aelodaeth o gynllun pensiwn cyfranddeiliaid. Gellir defnyddio'r lwfans i gyfrannu at gynllun pensiwn cyfranddeiliaid Ofcom â'r cyfraniadau wedi'u diffinio.

Roedd gan gydweithwyr a ymunodd ag Ofcom o hen reoleiddwyr hawl i barhau i fod yn aelod o un o ddau gynllun pensiwn â'u buddion wedi'u diffinio. Mae'r ddau gynllun hwn ar gau i newydd-ddyfodiaid a daeth y drefn cronni buddion i ben ar 31 Mai 2011. O'r amser hwn, roedd yr holl aelodau cyfredol yn gallu cael mynediad i gynllun cyfranddeiliaid Ofcom. Mae nodiadau 1(k) a 19 i'r cyfrifon yn darparu rhagor o fanylion.

Roedd y prisiadau actiwaraidd diweddaraf ar gyfer y naill gynllun a'r llall, ar 31 Mawrth 2012 wedi amlygu diffyg o £5.2m yng nghyllid cyfun y ddau gynllun. Ers cwblhau'r prisiadau actiwaraidd, mae cyfanswm o £4.4m mewn perthynas â thaliadau adfer y diffyg wedi cael ei roi i'r cynllun buddion wedi'u diffinio yn unol â'r cynlluniau adfer perthnasol.

Fodd bynnag, mae datganiadau ariannol 2015/16 yn dangos gwarged o £15.4m, yn rhannol oherwydd bod y rhwymedigaethau pensiwn dan y datganiadau ariannol yn cael eu paratoi ar y sail bod y rhwymedigaethau'n cael eu gostwng yn unol â'r elw ar fondiau ansawdd uchel sydd, dan yr amodau marchnad cyfredol, yn wahanol iawn i'r dull sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer pennu cyfraniadau Ofcom. Mae hyn hefyd yn adlewyrchu'r symudiadau sylweddol yn y marchnadoedd ariannol ers dyddiad prisiadau'r actiwari a'r taliadau cywiro diffyg a wnaed gan Ofcom.

Mae Ofcom yn gwneud taliadau ariannol at Gynllun Buddion wedi'u Diffinio Ofcom ac at Gynllun Pensiwn Ofcom (ITC gynt) ar sail y prisiadau actiwaraidd. Cynhwysir taliadau arian, yn hytrach na'r swm a neilltuir i'r gwarged gweithredol, fel y'u cyfrifir dan IAS19, yn alldro'r gwariant gweithredol a ddefnyddir i gyfrifo'r tariffiau a godir ar randdeiliaid bob blwyddyn.

Oherwydd y gwaith lliniaru ar risg rhwng Ofcom, Ymddiriedolwyr ac Actiwarïaid y ddau gynllun pensiwn, mae oddeutu 80% o rwymedigaethau'r cynlluniau yn cael eu cefnogi bellach gan flwydd-daliadau. Fel rhan o'r gweithgarwch parhaus i reoli ac i liniaru ar risgiau'r cynlluniau, bydd rhagor o gynlluniau prynu buddion i mewn gyda chefnogaeth yswiriant ar gyfer aelodau sy'n bensiynwyr yn cael eu hystyried yn y dyfodol.

Mae'r gwaith a wneir bob tair blynedd o brisio gwerth y ddau gynllun (fel yr oedd ar 31 Mawrth 2015) yn cael ei gwblhau ar hyn o bryd a rhaid iddo ddod i ben erbyn 30 Mehefin 2016. Ni ddisgwylir y bydd cyfraniadau Ofcom at y ddau gynllun hyn yn arwain at newid mawr ar ôl i brisiadau cyllid 2015 gael eu cwblhau.

# EIN GWEITHWYR

## Gwerthoedd Ofcom

Mae ein gwerthoedd yn ganolog i'n ffordd o weithredu, yn llywio ein gwaith ymgysylltu â'n rhanddeiliaid a'n ffordd o gydweithio er mwyn cyflawni'n blaenoriaethau. Eleni, mae cydweithwyr o bob rhan o Ofcom wedi bod yn allweddol yn diweddaru'r pedwar gwerth craidd sy'n adlewyrchu ein dymuniad i weithio mewn ffordd agored, effeithiol sy'n canolbwyntio ar bobl. Y rhain yw:

- Rhagoriaeth;
- Cydweithio;
- Ystwythder;
- Grymuso.

## Ymgynghori â chydweithwyr a'u cynnwys

Anogir cydweithwyr i helpu i sicrhau bod Ofcom yn cael safbwyntiau amrywiol yn ein gwaith. Mae ein dulliau ffurfiol arferol o hysbysu ac ymgynghori â chydweithwyr yn cynnwys:

- Fforwm Cydweithwyr Ofcom, sef fforwm ymgynghori sy'n cynnwys cynrychiolwyr o blith cydweithwyr ar draws Ofcom ac sy'n cwrdd yn rheolaidd gyda'r uwch reolwyr yng nghyfarfodydd y Grŵp Ymgynghori ar y Cyd (sy'n cynnwys dau aelod o'r undeb);
- mewnrwyd Ofcom, sydd ar gael i bob cydweithiwr ym mhob un o swyddfeydd Ofcom;
- cyflwyniadau gan y Prif Weithredwr ac uwch reolwyr. Yn ystod y rhain mae cynlluniau a phrosiectau yn cael eu hegluro i gydweithwyr;
- cyfarfodydd grŵp rheolaidd, i siarad â chydweithwyr, ac i glywed ganddynt; a
- Y Panel Cynnwys Cydweithwyr, panel o gydweithwyr sy'n gyfrifol am gyfweld ymgeiswyr am uwch swyddi a chyfrannu eu barn at y broses ddethol gyffredinol.

Rydym hefyd yn cynnal arolygon rheolaidd sy'n rhoi'r cyfle i gydweithwyr rannu eu barn ar amrywiol bynciau. Mae canlyniadau'r arolygon hyn yn rhoi sylfaen i lawer o'n gwaith yn datblygu ein sefydliad.

## Datblygiad proffesiynol

Mae ansawdd ac ymrwymiad ein pobl yn ganolog i'n gallu i gyflawni ein dyletswyddau. Yn ystod 2015, cyflwynasom nifer o raglenni hyfforddiant ar gyfer y sefydliad cyfan, a oedd yn cynnwys hyfforddiant datblygu rheolwyr a sesiynau yn delio â'r sectorau penodol yn y diwydiant y mae Ofcom yn eu rheoleiddio. Rydym hefyd yn cynnal cynllun mentora a hyfforddi mewnol, ac rydym wedi noddi nifer o'n huwch gydweithwyr i gael cymhwyster hyfforddi ffurfiol. Mae hyn yn eu galluogi i gefnogi datblygiad gyrfa staff ar lefel is.

Rydym yn mynd ati'n frwd i annog cydweithwyr i gysgodi uwch gydweithwyr. Yn 2015 gwnaethom lansio cynllun cysgodi newydd, sy'n rhoi cyfle i bob cydweithiwr ddod i wybod am amrywiaeth ein gwaith.

## Polisïau a phrosesau cyflogaeth

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau y caiff pob cydweithiwr ei drin yn deg a chydag urddas a pharch. Rydym yn adolygu ein polisïau a phrosesau staff yn gyson er mwyn sicrhau eu bod yn gyfoes ac yn cyd-fynd â'n gwerthoedd, yn ogystal â gofynion cyfraith cyflogaeth.



Yn ystod 2015, cyfrannodd cydweithwyr at adolygiad o'n prosesau gwerthuso, dyrchafu a recriwtio, yn unol â'n gwerthoedd newydd.

## Absenoldeb

Mae Ofcom yn hybu diwylliant lle mae presenoldeb da yn ddisgwyliedig ac yn cael ei werthfawrogi. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod nad oes modd osgoi absenoldeb am resymau meddygol o bryd i'w gilydd.

Nod Ofcom yw trin ei staff sy'n sâl yn deg ac â chydymdeimlad gan roi cefnogaeth iddynt lle bo modd. Bydd hynny'n eu galluogi i wella ac i fynychu'r gwaith yn rheolaidd. Yn 2015/16, nifer y diwrnodau gwaith a gollwyd oedd 4.57 diwrnod y flwyddyn fesul gweithiwr (2014/15: 4.55 diwrnod). Mae hyn yn cymharu'n ffafriol â'r cyfartaledd yn y sector cyhoeddus, sef 8.7 diwrnod y flwyddyn fesul gweithiwr yn 2015 (2014: 7.9 diwrnod)[9].

[9] CIPD Absence Management 2015: Public Sector, cyhoeddwyd Hydref 2015.



# CYFRIFOLDEB CORFFORAETHOL

## Ymrwymiad Ofcom i gydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol.

Fel cyflogwr, rydym wedi ymrwymo i roi cyfle cyfartal i bob cydweithiwr, ni waeth beth yw ei hil, ei anabledd, ei rywedd (gan gynnwys ailbennu rhywedd), ei oed, ei grefydd neu gred a'i gyfeiriadedd rhywiol. Mae'r ymrwymiad hwn wrth galon ein polisïau cyflogaeth a'n hagwedd at hyfforddiant a datblygu gyrfa.

Mae ein *Cynllun Cydraddoldeb Sengl* yn disgrifio sut y byddwn yn sicrhau bod amrywiaeth a chydraddoldeb yn ganolog i'r ffordd rydym yn gweithredu. Mae ein Cynllun Cydraddoldeb Sengl diweddaraf, a gyhoeddwyd yn 2014, yn adeiladu ar yr hyn rydym eisoes wedi'i gyflawni.

Rydym hefyd wedi cyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb ar gyfer Gogledd Iwerddon. Mae hwn yn nodi sut byddwn yn hybu cyfle cyfartal a chysylltiadau da ar draws grwpiau o bobl wrth gyflawni ein swyddogaethau sy'n berthnasol i Ogledd Iwerddon.



Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae Ofcom wedi:

- cael ei enwi yn gyflogwr band aur ym mynegeion cydraddoldeb hiliol a rhywedd Busnes yn y Gymuned; a
- parhau i wella ein sgôr ym Mynegai Cydraddoldeb y Gweithle Stonewall, sy'n edrych ar ein hagwedd at staff lesbiaidd, hoyw a deurywiol;
- noddi gwobr 'Peirianwraig Ifanc y Flwyddyn' y Sefydliad Peirianneg Trydanol, am y bedwaredd flwyddyn yn olynol; a
- gwneud cynnydd sylweddol yn rhoi'r gwelliannau a nodwyd yn ein cynllun gweithredu ar gydraddoldeb ar waith.

Fel rhan o'n hymrwymiad i ddarparu strwythur tâl teg a chyfartal yn Ofcom, gwnaethom gynnal ein harchwiliad o gyflog cyfartal yn 2016 sy'n cael ei gynnal bob dwy flynedd. Roedd hwn yn dangos, er bod rhai gwahaniaethau i'w gweld yn y lefelau cyflog ymysg cydweithwyr sy'n gwneud rolau tebyg, nad oedd yn ymddangos bod cydweithwyr o un rhyw yn cael mwy o dâl na'r rhyw arall am waith cyfartal. Gwnaethom gyflwyno adroddiad hefyd ar amrywiaeth ein cydweithwyr a byddwn yn defnyddio'r canfyddiadau i'n helpu i recriwtio a chadw cymysgedd amrywiol o weithwyr.

Er ein bod yn cychwyn gyda thargedau rhywedd ac ethnigrwydd, rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod pawb o grwpiau a dangynrychiolir yn cael cyfle cyfartal.

## Cyfrifoldeb corfforaethol

Mae gan Ofcom gyfrifoldebau corfforaethol nid yn unig i'w gydweithwyr, ond hefyd i'r gymuned ehangach. Ein nod yw:

- trin pob cydweithiwr ag urddas a pharch mewn amgylchedd gwaith cynhwysol a theg, gan hyrwyddo cyfle cyfartal i bawb;
- lleihau ein hôl troed carbon, darparu gwerth am arian a sicrhau bod arferion Ofcom yn gynaliadwy yn amgylcheddol; a
- cynnwys, ysbrydoli a datblygu cydweithwyr gan geisio cefnogi ein cymuned leol yr un pryd.

Yn y gymuned ehangach, rydym wedi rhedeg cynllun mentora darllen gydag ysgol gynradd leol yn Southwark, gan roi'r cyfle i gydweithwyr hyfforddi plant ifanc i wella eu sgiliau llythrennedd.

Rydym hefyd yn gweithio gyda Career Ready, yn mentora myfyrwyr 16-17 oed a'u helpu i baratoi ar gyfer bywyd corfforaethol. Yn ystod haf 2015, daeth pedwar intern atom o academïau lleol. Rydym hefyd wedi hyrwyddo cyfleoedd i gydweithwyr siarad mewn ysgolion drwy ymgyrchoedd fel Inspiring the Future, Inspiring Women a STEMNET.

**Ffigur 7: Yn 2015, gosodasom y targedau canlynol ar gyfer cynyddu nifer y menywod ar draws Ofcom yn gyffredinol, a grwpiau lleiafrif ethnig ar lefelau uwch.**

**RHYW**

| OFCOM | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfansoddiad Ofcom ar hyn o bryd | | Economaidd weithgar (cyfrifiad 2011)* | | Targedau: Erbyn 2020 | |
| 40% | 60% | 47% | 53% | 50% | 50% |
| **ARBENIGWYR/UWCH REOLWYR AC ARBENIGWYR** | | | | | |
| 32% | 68% | Amh | | 40% | 60% |

**ETHNIGRWYDD**

| OFCOM | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cyfansoddiad Ofcom ar hyn o bryd | | | Economaidd weithgar* | Targedau: Erbyn 2020 |
| LLEIAFRIF ETHNIG | GWYN | DDIM YN GWYBOD | LLEIAFRIF ETHNIG | DIM TARGED |
| 16% | 71% | 13% | 13% | |
| **ARBENIGWYR/UWCH REOLWYR AC ARBENIGWYR** | | | | |
| LLEIAFRIF ETHNIG | GWYN | DDIM YN GWYBOD | Amh | 13% O GYDWEITHWYR I DDOD O GEFNDIR LLEIAFRIF ETHNIG |
| 9% | 79% | 12% | | |

* (cyfrifiad 2011)

# ADRODDIAD CYNALIADWYEDD

Mae'r adran hon yn rhoi golwg gyffredinol ar strategaeth cynaliadwyedd Ofcom a'n perfformiad yn y maes hwn. Mae'n cynnwys data cynaliadwyedd a chostau ariannol cysylltiedig, wedi'u cyflwyno mewn fformat sy'n cydymffurfio â'r canllawiau ar gyfer adrodd ar gynaliadwyedd a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM ar gyfer 2015/16.



## Strategaeth cynaliadwyedd Ofcom

### Cyflwyniad

Comisiynodd Ofcom archwiliad carbon annibynnol yn 2007, ac wedyn ymrwymo i ostyngiad 25% yn ei allyriadau carbon mewnol erbyn diwedd 2012/13 (o'i gymharu â gwaelodlin yn 2007). Cafodd prosiect Ôl Troed a Chynaliadwyedd Ofcom ei sefydlu i bennu camau gweithredu i sicrhau bod Ofcom yn cyflawni ei ymrwymiad i leihau ei ddefnydd o garbon a bod ei arferion gweithredu'n gynaliadwy'n amgylcheddol, a rhoi'r camau hynny ar waith.

### Trosolwg o'r targedau lleihau

Roedd targed lleihau cychwynnol Ofcom o 25% yn berthnasol ar draws saith maes: gwasanaethau gwybodaeth, cyfleustodau, gwastraff, teithiau busnes, deunyddiau caffael, cyfalaf caffael a chymudo.

Yn 2009, roedd Ofcom wedi comisiynu ail archwiliad carbon annibynnol a oedd yn cadarnhau bod gostyngiad o 15% mewn allyriadau carbon wedi cael ei gyflawni. Cafodd trydydd archwiliad carbon ei gynnal yn 2013 a gadarnhaodd fod Ofcom wedi sicrhau 30% o ostyngiad yn ei allyriadau carbon - a oedd yn rhagori ar y targed gwreiddiol o 25% o arbedion a osodwyd yn 2007.

Yn 2015, sicrhaodd Ofcom ardystiad Safon yr Ymddiriedolaeth Carbon am yr eildro, gan sicrhau gostyngiad pellach yn ein hôl-troed o 10.5% ers 2013. Mae'r adroddiad a gynhyrchwyd gan yr Ymddiriedolaeth Carbon ynghyd â'n hailardystiad ganddynt yn cynnwys nifer o argymhellion y byddwn yn gwneud ein gorau i'w rhoi ar waith.

Mae rhagor o fanylion am berfformiad Ofcom o ran cynaliadwyedd ar gael ar ein gwefan: **www.ofcom.org.uk/about/corporate-responsibility/footprint-and-sustainability**

## Perfformiad 2015/16

### Allyriadau nwyon tŷ gwydr

Yn 2015, dyfarnodd Ofcom un contract Rheoli Cyfleusterau Cyflawn ar gyfer ein portffolio eiddo. Daeth y contract hwn i rym ar 1 Ionawr 2016, ac roedd yn disodli oddeutu 150 o gontractau cyfleusterau unigol. Dyfarnwyd y contract i sefydliad â phrofiad o ddarparu arbedion effeithlonrwydd yng nghyswllt defnyddio ynni, ar y cyd â'r Protocol Dilysu a Rheoli Perfformiad Rhyngwladol (IMPVP), sef y safon fyd-eang ar gyfer meintoli perfformiad mesurau rheoli ynni.

Y llynedd, cynhaliwyd prosiect gennym i leihau'r fflyd o gerbydau prydles a ddefnyddir gan ein Tîm Gorfodi a Pheirianneg Sbectrwm. Arweiniodd y prosiect at ostyngiad sylweddol yn nifer y cerbydau prydles, a chyflwynwyd fflyd o gerbydau sydd 20% yn fwy effeithlon yn eu defnydd o danwydd ac sy'n darparu 30% o ostyngiad mewn allyriadau carbon.

Rydym wedi parhau i fuddsoddi yn ein cyfarpar cynadledda fideo yn ein swyddfeydd er mwyn lleihau'r angen am deithio ac i gefnogi gweithio mwy ystwyth. Yn ôl ein polisi treuliau, rhaid i gydweithwyr ystyried yr effaith ar ôl-troed carbon Ofcom cyn ystyried teithio.

## Lleihau a rheoli gwastraff

Mae gan Ofcom bolisi 'dim gwastraff i safleoedd tirlenwi' ar draws ei bortffolio eiddo. Rydym yn ailgylchu papur, cardfwrdd, caniau, plastigau, batris, cetris peiriannau argraffu a CDs. Mae'r broses o gael gwared ag unrhyw offer TGCh yn cydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Gwastraff Offer Trydanol ac Electronig (WEEE).

## Defnyddio adnoddau cyfyngedig

Mae'r defnydd o ddŵr yn dod yn bennaf o ystafelloedd ymolchi a dŵr yfed ymhob swyddfa, yn ogystal â'r cyfleusterau arlwyo yn ein swyddfa yn Llundain. Mae Ofcom yn monitro faint o ddŵr sy'n cael ei ddefnyddio'n fisol.

## Cynlluniau gweithredu bioamrywiaeth

Nid yw bioamrywiaeth yn ystyriaeth o bwys i Ofcom ac nid ydym yn casglu data yn y maes hwn.

## Caffael cynaliadwy

Mae ystyried cynaliadwyedd yn rhan greiddiol o'n prosesau caffael. Mae Ofcom yn cynnwys darpariaethau yn ei ddogfennau caffael sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyflenwyr ddangos eu hagwedd at gynaliadwyedd ac at leihau allyriadau carbon. Wedyn, mae ymatebion y cynigwyr i'r darpariaethau hyn yn cael eu hystyried fel un rhan benodol o werthuso'r tendr. Rydym hefyd yn defnyddio cytundebau fframwaith sydd gan Wasanaeth Masnachol y Goron. Mae'r fframweithiau hyn yn cynnwys manylebion ac maent yn cynnig telerau contract safonol sy'n helpu sefydliadau sy'n prynu i fonitro/leihau eu heffaith amgylcheddol a chynnwys cynaliadwyedd yn eu contractau caffael.

## Cynlluniau at y dyfodol

Yn y blynyddoedd i ddod, bydd Ofcom yn parhau i fonitro ei allyriadau carbon yn rheolaidd, gan ganolbwyntio'n benodol ar ddefnyddio ynni a rheoli gwastraff. Byddwn hefyd yn parhau i hybu ymddygiad cynaliadwy ymysg ein cydweithwyr.

Mae crynodeb o allyriadau Ofcom dros y pum mlynedd diwethaf ar gael yn Ffigur 8. Edrychwch ar yr Atodiad ar dudalennau 118 a 119 i gael rhagor o fanylion.

**Sharon White**
**Prif Weithredwr**
**a Swyddog Cyfrifyddu**
21 Mehefin 2016

**Ffigur 8: Golwg gyffredinol ar berfformiad yng nghyswllt cynaliadwyedd**

| | | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Allyriadau nwyon tŷ gwydr (Cwmpasau 1,2) | tCO2e[2] | 1,639 | 1,550 | 1,498 | 1,632 | 1,559 |
| | Gwariant | £486,769 | £457,486 | £442,226 | £475,261 | £440,044 |
| Teithiau Busnes[1] | tCO2e | 375 | 375 | 346 | 290 | 250 |
| | Gwariant | £713,021 | £705,867 | £628,340 | £596,116 | £569,099 |
| Gwastraff | Tunelli | 159 | 166 | 173 | 168 | 173 |
| | Gwariant | £53,345 | £46,068 | £60,796 | £45,500 | £32,023 |
| Defnyddio adnoddau cyfyngedig | Defnydd dŵr (m3) | 11,508 | 11,509 | 13,694 | 14,213 | 10,767 |
| | Gwariant | £22,771 | £26,610 | £20,506 | £24,931 | £16,784 |
| | Rimiau papur[3] | 9,286 | 7,623 | 7,721 | 7,880 | 7,545 |

1 Yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2014/15, cafodd data allyriadau yn ymwneud â theithiau busnes (hedfan) ei ailddatgan ar gyfer 2011/12, 2012/13 a 2013/14 ar ôl cael rhagor o ddata gan ein cwmni teithio.

2 Rydym wedi ailddatgan ein hallyriadau nwyon tŷ gwydr (tCO2e) ar gyfer 2011/12 a 2012/13 a'n ffigurau ar gyfer defnydd dŵr o 2011/12 yn dilyn esboniad o sut mae defnydd yn cael ei ddyrannu ar draws ein hystâd.

3 Rydym wedi ailddatgan y ffigur ar gyfer ein defnydd o bapur ar gyfer 2014/15 ar ôl cael esboniad gan ein cyflenwr.

C

ADRODDIAD ATEBOLRWYDD

# ADRODDIAD Y CYFARWYDDWYR

## Bwrdd Ofcom

### Y Fonesig Patricia Hodgson, DBE

Penodwyd y Fonesig Patricia Hodgson, DBE yn Aelod Anweithredol o Fwrdd Ofcom ar 1 Gorffennaf 2011, daeth yn Ddirprwy Gadeirydd ar 1 Ionawr 2012 ac yn Gadeirydd ar 1 Ebrill 2014. Roedd yn Gyfarwyddwr Polisi a Chynllunio yn y BBC (1993–2000), yn Brif Weithredwr y Comisiwn Teledu Annibynnol (2000–2003), yn gyfarwyddwr anweithredol yn y Comisiwn Cystadleuaeth (2004–2011) ac yn Aelod o Gyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr (2005–2011). Roedd yn Gadeirydd Bwrdd Adolygu Athrawon Ysgol rhwng 2012 a 2014 ac yn Aelod o Ymddiriedolaeth y BBC ers ei sefydlu tan fis Mehefin 2011. Mae'n Gadeirydd ar Bwyllgor Enwebiadau Ofcom, yn Aelod o'r Pwyllgor Taliadau ac yn Aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Risg.

### Sharon White

Daeth Sharon White yn Brif Weithredwr Ofcom ym mis Mawrth 2015. Cyn ymuno ag Ofcom, roedd Sharon wedi cael gyrfa hir yn y gwasanaeth sifil. Roedd yn ail Ysgrifennydd Parhaol yn y Trysorlys gyda chyfrifoldeb am oruchwylio cyllid cyhoeddus. Cyn hynny roedd ganddi swyddi ar lefel Bwrdd yn y Weinyddiaeth Cyfiawnder a'r Adran dros Ddatblygu Rhyngwladol ac mae wedi gweithio yn Uned Polisi'r Prif Weinidog ac yn Washington DC fel uwch economegydd ym Manc y Byd.

### Y Farwnes Noakes, DBE

Penodwyd y Farwnes Noakes i Fwrdd Ofcom ar 1 Mehefin 2014, fel Dirprwy Gadeirydd. Mae'n Gadeirydd ar Bwyllgor Archwilio a Risg a Phwyllgor Taliadau Ofcom, ac yn Aelod o Bwyllgor Enwebiadau Ofcom. Mae Sheila Noakes yn gyfrifydd siartredig ac wedi treulio 30 mlynedd yn KPMG. Mae wedi bod yn Llywydd Sefydliad y Cyfrifwyr Siartredig yng Nghymru a Lloegr. Fe'i penodwyd i Dŷ'r Arglwyddi yn 2000 fel arglwydd am oes. Mae wedi bod yn gyfarwyddwr anweithredol nifer o gwmnïau rhestredig ac ar hyn o bryd mae'n gyfarwyddwr anweithredol Royal Bank of Scotland Group plc, lle mae'n cadeirio Pwyllgor Risg y Bwrdd.

### Y Fonesig Lynne Brindley, DBE

Penodwyd y Fonesig Lynne Brindley, DBE yn Aelod Anweithredol o Fwrdd Ofcom ar 1 Medi 2011. Daeth yn Feistr Coleg Pembroke, Rhydychen yn 2013. Mae hefyd yn aelod o Gyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau, yn aelod o Fwrdd Rhwydwaith Trosglwyddo Gwybodaeth y Diwydiannau Creadigol, yn aelod o Gyngor City University ac ar Lys cwmni Goldsmiths. Mae'n Gadeirydd Pwyllgor Gwledydd Ofcom ac yn Aelod o'r Pwyllgor Taliadau, y Bwrdd Cynnwys a'r Pwyllgor Enwebiadau.

### Graham Mather

Penodwyd Graham Mather yn Aelod Anweithredol o Fwrdd Ofcom ym mis Mehefin 2014. Bu'n aelod o Banel Defnyddwyr Ofcom rhwng 2004 a 2008. Mae wedi bod yn aelod o'r Comisiwn Monopolïau a Chydsoddiadau, a rhwng 2000 a 2012, roedd hefyd yn aelod o'r Tribiwnlys Apeliadau Cystadleuaeth. Ar hyn o bryd, mae'n Llywydd y Fforwm Polisi Ewropeaidd ac yn Gadeirydd ei Grŵp Arferion Rheoleiddio Gorau. Mae'n Aelod o Bwyllgor Gwledydd Ofcom, Pwyllgorau Taliadau ac Enwebiadau Ofcom, ac fe'i penodwyd yn Aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Risg ym mis Ionawr 2016.

## Bill Emmott

Penodwyd Bill Emmott yn Aelod Anweithredol o Fwrdd Ofcom ym mis Ionawr 2016. Ar hyn o bryd, mae'n newyddiadurwr, darlledwr a gwneuthurwr ffilmiau dogfen llawrydd. Mae hefyd yn awdur ac wedi gweithio ar 'The Economist' am 26 blynedd, 13 blynedd yn Brif Olygydd, ac yn un o brif Gyfarwyddwyr y Bwrdd tan 2006. Roedd yn Gadeirydd Llyfrgell Llundain rhwng 2009 a 2015, mae'n aelod o banel ymgynghorwyr Swiss Re, yn Ymgynghorydd Economaidd Grŵp rheolwyr cyfoeth Stonehage Fleming ac yn athro gwadd ym Mhrifysgol Shujitsu yn Okayama, Japan. Mae'n Aelod o Bwyllgorau Taliadau ac Enwebiadau Ofcom, ac yn Gadeirydd Bwrdd Cynnwys Ofcom.



**Y Fonesig Patricia Hodgson,** DBE



**Sharon White**



**Y Farwnes Noakes,** DBE



**Y Fonesig Lynne Brindley,** DBE



**Graham Mather**



**Bill Emmott**



**Ben Verwaayen**



**Jonathan Oxley**



**Dr Steve Unger**

## Ben Verwaayen

Penodwyd Ben Verwaayen yn Aelod Anweithredol o Fwrdd Ofcom ym mis Ionawr 2016. Mae ganddo 30 mlynedd o brofiad yn rhedeg cwmnïau telegyfathrebiadau, technoleg a chyfryngau mawr mewn rolau gweithredol ac anweithredol. Mae'n gyn Brif Weithredwr BT, KPN yn yr Iseldiroedd ac Alcatel Lucent ac mae wedi bod yn Gadeirydd Endemol. Ar hyn o bryd mae'n Bartner Cyffredinol gyda Keen Venture Partners ac mae'n aelod o sawl Bwrdd, gan gynnwys Akamai yn yr Unol Daleithiau a'r cwmni symudol Bharti Airtel yn India. Mae'n aelod o Bwyllgorau Taliadau ac Enwebiadau Ofcom.

## Jonathan Oxley

Ymunodd Jonathan Oxley ag Ofcom fel Cyfarwyddwr y Grŵp Cystadleuaeth ym mis Tachwedd 2014 ac fe'i penodwyd i Fwrdd Ofcom ym mis Ionawr 2015. Cyn ymuno ag Ofcom, roedd yn Bartner ym mhractis Strategaeth ac Economeg PwC, yn arbenigo mewn telegyfathrebiadau, y cyfryngau a thechnoleg, ar ôl ymuno â PwC yn 1995.

## Dr Steve Unger

Steve Unger yw Cyfarwyddwr y Grŵp Strategaeth, Rhyngwladol, Technoleg ac Economegwyr, ac fe'i penodwyd i Fwrdd Ofcom ym mis Mawrth 2015 ar ôl bod yn Brif Weithredwr dros dro ers mis Ionawr 2015 nes i Sharon White gychwyn yn y swydd ym mis Mawrth 2015. Mae wedi bod gydag Ofcom o'r cychwyn ac mae wedi dal sawl uwch rôl, gan gynnwys Prif Swyddog Technoleg Ofcom.



## Cofrestr buddiannau i'w datgelu

Ni chaiff aelodau'r Bwrdd, eu partneriaid na phlant dibynnol fod â buddiannau (gan gynnwys cyfranddaliadau, cyfarwyddiaethau a swyddi) mewn cwmnïau y gallai penderfyniadau Ofcom effeithio ar eu gweithgareddau busnes craidd (ac felly pris cyfranddaliadau). Mae gan Ofcom gofrestr o fuddiannau i'w datgelu, sydd ar gael ar ein gwefan yn:

**http://www.ofcom.org.uk/about/how-ofcom-is-run/ofcom-board/members/register-of-disclosable-interests/**

## Rhwymedigaethau pensiwn

Mae gan Ofcom amryw o gynlluniau pensiwn, sy'n cynnwys cynlluniau a'r cyfraniadau wedi'u diffinio, cynlluniau â'r buddion wedi'u diffinio, a chynlluniau na chânt eu hariannu. Mae Nodyn 1 yn y Nodiadau i'r Cyfrifon yn cyfeirio at y polisi cyfrifyddu perthnasol, ac mae Nodyn 19 yn y Nodiadau i'r Cyfrifon yn rhoi manylion rhwymedigaethau buddion ymddeol Ofcom.

Mae manylion y lwfans pensiwn a dalwyd i Gyfarwyddwyr Gweithredol yn ystod 2015/16 ar gael yn yr Adroddiad Taliadau ar dudalen 64.

## Gwaith nad yw'n gysylltiedig ag archwilio'r cofnodion ariannol

Ni thalwyd dim ffioedd ar gyfer gwaith archwilio anstatudol i'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn ystod 2015/16 (ni thalwyd dim ffioedd ar gyfer gwaith archwilio anstatudol i'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn ystod 2014/15).

## Digwyddiadau'n ymwneud â data personol a ddiogelir

Ni chyflwynodd Ofcom unrhyw adroddiadau ar ddigwyddiadau'n ymwneud â data personol a ddiogelir i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn 2015/16.

## Data absenoldeb salwch

Mae adroddiad ar ddata absenoldeb salwch ar gael yn adran *Ein Gweithwyr* yr Adroddiad Blynyddol ar dudalen 47.

## Datgeliadau'r Cyfarwyddwyr

Hyd y gŵyr y Cyfarwyddwyr, nid oes dim gwybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r archwilwyr wedi cael gwybod amdani. Mae pob cam rhesymol wedi cael ei gymryd gan y Cyfarwyddwyr i wneud yn siŵr eu bod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod yr archwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth hon.

**Sharon White**
**Prif Weithredwr**
**a Swyddog Cyfrifyddu**
21 Mehefin 2016


# DATGANIAD LLYWODRAETHU

## Y strwythur llywodraethu

Bwrdd Ofcom sy'n arwain y sefydliad, gan rannu ymrwymiad i'r genhadaeth a'r gwerthoedd sydd wedi'u disgrifio ar dudalen 47. Mae ei weithgareddau craidd yn cynnwys:

- gosod y strategaeth gyffredinol ar gyfer Ofcom;
- gweithredu fel yr awdurdod sy'n gwneud y penderfyniadau terfynol;
- cael sicrwydd bod risgiau sylweddol i Ofcom yn cael eu pennu a bod systemau priodol ar gyfer rheoli risg yn bodoli er mwyn lliniaru ar risgiau o'r fath;
- diffinio archwaeth Ofcom am risg; a
- cynllunio olyniaeth y Bwrdd a rheolwyr gweithredol.

**Ffigur 9: Bwrdd a Phwyllgorau Ofcom**



## Bwrdd Ofcom

Caiff Bwrdd Ofcom ei arwain gan y Cadeirydd, sy'n rheoli'r Bwrdd i sicrhau:

- bod gan Ofcom amcanion priodol a strategaeth effeithiol;
- bod strwythur ar waith i alluogi pob Aelod i gyfrannu'n effeithiol;
- bod y Prif Weithredwr a swyddogion gweithredol eraill yn gallu rhoi'r strategaeth ar waith;
- bod Pwyllgorau'r Bwrdd yn cael eu sefydlu a'u gweithredu'n iawn, a'u bod yn cynnwys yr aelodau iawn;
- bod gweithdrefnau ar waith i hysbysu'r Bwrdd am berfformiad yn erbyn yr amcanion; a
- bod Ofcom yn gweithredu yn unol â'r safonau uchaf o lywodraethu corfforaethol.

Mae Cadeirydd ac Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom yn cael eu penodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, am gyfnod rhwng tair a phedair blynedd. Caiff Aelodau Gweithredol o'r Bwrdd eu penodi gan y Cadeirydd a'r holl Aelodau Anweithredol, ac mae penodiad y Prif Weithredwr yn galw am gymeradwyaeth gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Mae dyletswyddau a chyfrifoldebau Aelodau wedi'u rhestru yng Nghod Ymddygiad yr Aelodau, a chedwir Cofrestr o Fuddiannau'r Aelodau.  Mae'r naill a'r llall ar gael ar wefan Ofcom. At ddibenion mabwysiadu prif egwyddorion Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU:

- mae'r Bwrdd yn ystyried bod yr holl Aelodau Anweithredol yn annibynnol ar y tîm rheoli ac yn rhydd rhag unrhyw berthynas fusnes neu berthynas arall a allai amharu i raddau helaeth arnynt wrth wneud penderfyniadau. Ond, os bydd amgylchiadau arbennig yn codi, cymerir camau priodol i sicrhau bod annibyniaeth yn cael ei gynnal;
- mae'r Bwrdd o'r farn bod gan yr Aelodau, rhyngddynt, amrediad eang o brofiad sy'n sicrhau bod y Bwrdd yn effeithiol i arwain a rheoli Ofcom;
- Aelodau Anweithredol yw mwyafrif aelodau'r Bwrdd. Ystyrir mai'r Dirprwy Gadeirydd yw'r uwch Aelod Anweithredol at ddibenion Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU; a
- bydd y Bwrdd yn cwrdd yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn. Yn ystod 2015/16 cyfarfu'r Bwrdd 13 gwaith. Swyddogaeth y rheolwyr gweithredol yw gweithredu polisïau'r Bwrdd. Mae nifer o gyrff cynghori yn cyfrannu at waith y Bwrdd a'r Pwyllgor Gwaith.

> Mae cofnodion a nodiadau cyfarfodydd Bwrdd Ofcom ar gael ar y wefan yn **http://www.ofcom.org.uk/about/how-ofcom-is-run/ofcom-board/minutes-notes/**

## Pwyllgorau'r Bwrdd

Wrth arfer ei bwerau dan Ddeddf Swyddfa Gyfathrebiadau 2002, mae'r Bwrdd yn dirprwyo rhai o'i gyfrifoldebau i'r Rheolwyr Gweithredol yn Ofcom a rhai i Bwyllgorau'r Bwrdd sydd ag awdurdodaeth a chylch gorchwyl wedi'i ddiffinio'n glir (gweler Ffigur 10). Disgrifir gweithgareddau a phrif swyddogaethau'r pwyllgorau pwysicaf hyn isod. Mae gan Ofcom nifer o bwyllgorau arbenigol eraill sydd â swyddogaeth lywodraethu neu swyddogaeth gynghori i'r Bwrdd. Fe'u disgrifir yn yr Atodiad ar dudalennau 103 a 104.

## Y Pwyllgor Enwebiadau

Mae'r Pwyllgor Enwebiadau yn cynnwys holl Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom. Y Pwyllgor sy'n gyfrifol am adolygu strwythur, maint a chyfansoddiad Bwrdd Ofcom yn ogystal â goruchwylio'r cynllun olyniaeth ar gyfer holl aelodau gweithredol y Bwrdd a'r Uwch Dîm Rheoli. Mae'r Cadeirydd yn gweithio gyda'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) ar y broses o ddewis Aelodau Anweithredol ar gyfer Bwrdd Ofcom (a, lle bo'n briodol, eu hailethol) ac yn sicrhau bod safbwyntiau'r Pwyllgor yn cael eu clywed gan DCMS, sy'n gwneud y penodiadau. Mae'r gwaith o benodi Aelodau Gweithredol i'r Bwrdd yn cael ei wneud gan holl Aelodau Anweithredol y Bwrdd ar argymhelliad y Pwyllgor.

## Y Pwyllgor Taliadau

Mae'r Pwyllgor Taliadau yn cynnwys holl Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom. Mae'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol yn mynychu cyfarfodydd ar wahoddiad y Pwyllgor Taliadau.

Mae'r Pwyllgor yn cynghori Ofcom ynghylch y taliadau i'r Prif Weithredwr, Aelodau Gweithredol eraill y Bwrdd a'r Uwch Dîm Rheoli, yn ogystal ag ynghylch eu telerau ac amodau gwasanaeth. Mae'r Pwyllgor hefyd yn cynghori Ofcom ar delerau ac amodau aelodau rhan-amser y Bwrdd Cynnwys, y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau, y Pwyllgor Ymgynghorol ar Bobl Hŷn a Phobl Anabl, y pedwar Pwyllgor Ymgynghorol Cenedlaethol ac Aelodau Anweithredol eraill o gyrff eraill yn strwythur llywodraethu Ofcom.

Mae'r Pwyllgor yn goruchwylio'r broses ar gyfer pennu telerau ac amodau holl gydweithwyr eraill Ofcom. Mae'r Pwyllgor hefyd yn goruchwylio ac yn penderfynu ar faterion sy'n ymwneud â'r trefniadau pensiwn a sefydlwyd gan Ofcom ar gyfer holl gydweithwyr Ofcom.

Mae taliadau Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom yn cael eu pennu gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Petai angen i Ofcom ystyried unrhyw agwedd ar daliadau Aelodau Anweithredol, mae Pwyllgor Taliadau Aelodau Anweithredol wedi'i sefydlu sy'n cynnwys y Cyfarwyddwr Cyllid, y Cyfarwyddwr

Adnoddau Dynol ac Ysgrifennydd y Gorfforaeth, a fydd yn cwrdd ac yn adrodd yn uniongyrchol i'r Ysgrifennydd Gwladol, fel y bo'n briodol. O ganlyniad, nid oes dim un Aelod Bwrdd yn rhan o'r broses o bennu ei daliadau ei hun.

## Y Pwyllgor Archwilio a Risg

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn cynnwys tri o Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom. Gwahoddir y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Grŵp – Gwasanaethau Corfforaethol, y Cyfarwyddwr Cyllid a'r Rheolydd Cyllid, yn ogystal â'r archwilwyr mewnol ac allanol, i fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor.

Rôl y Pwyllgor Archwilio a Risg yw rhoi sicrwydd i'r Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu am briodoldeb ac effeithiolrwydd prosesau rheoli risg Ofcom a'r fframwaith rheolaeth fewnol, a rhoi cyngor ynghylch polisïau cyfrifyddu a'r broses ar gyfer adolygu'r adroddiad blynyddol a'r cyfrifon ariannol blynyddol drafft a'u cynnwys. Mae'r Pwyllgor hefyd yn gyfrifol am oruchwylio'r gwaith o benodi'r archwilwyr mewnol a'r gwaith a wneir gan yr archwilwyr mewnol ac allanol. Mae hyn yn cynnwys cymeradwyo'r cynllun archwilio mewnol blynyddol. Caiff swyddogaethau'r Pwyllgor eu disgrifio'n llawn yn ei gylch gorchwyl, sydd ar gael ar wefan Ofcom.

Mae Ofcom yn rhoi'r swyddogaeth archwilio mewnol i'r cwmni allanol KPMG. Nid yw darparu gwasanaethau eraill gan KPMG i Ofcom yn cael ei ganiatáu os bydd yn bygwth annibyniaeth y broses archwilio mewnol, a gwneir penderfyniadau fesul achos. Cyflawnir y swyddogaeth archwilio allanol gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar ran y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

## Y Bwrdd Cynnwys

Mae'r Bwrdd Cynnwys yn un o bwyllgorau prif Fwrdd Ofcom, gyda chyfrifoldeb cynghori a dirprwyedig dros ystod eang o faterion sy'n ymwneud â chynnwys, gan ddelio'n bennaf â darlledu. Mae wedi'i sefydlu o dan statud, yn benodol adran 12(1) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003.

Gall Bwrdd Ofcom ofyn am gyngor ac argymhellion gan y Bwrdd Cynnwys ar unrhyw agweddau ar benderfyniadau sy'n ymwneud â chynnwys y mae wedi'u cadw iddo ef ei hun.

Y Bwrdd Cynnwys yw prif fforwm Ofcom ar gyfer rheoleiddio ansawdd a safonau teledu a radio. Mae'n gyfrifol am ddeall, dadansoddi a hyrwyddo lleisiau a buddiannau'r gwylwyr, y gwrandawyr a dinasyddion.

**Ffigur 10: Bwrdd Ofcom a Phwyllgorau'r Bwrdd**

| | Bwrdd Ofcom | Pwyllgor Taliadau | Pwyllgor Archwilio a Risg | Pwyllgor Enwebiadau | Bwrdd Cynnwys | Pwyllgor Darlledu Trwyddedu[5] | Pwyllgor Gwledydd | Pwyllgor Etholiadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Nifer y cyfarfodydd** | **13** | **5** | **5** | **1** | **5** | **7** | **4** | **0** |
| **Presenoldeb** | | | | | | | | |
| Y Fonesig Patricia Hodgson, DBE | 13 | 5 | 5 | 1 | – | – | – | – |
| Sharon White | 13 | 5 | 5 | – | – | – | – | – |
| Y Farwnes Noakes, DBE | 13 | 5 | 5 | 1 | – | – | – | – |
| Y Fonesig Lynne Brindley, DBE | 13 | 4 | – | 1 | 5 | – | 4 | – |
| Tim Gardam[1] | 9 | 4 | – | 1 | 4 | 6 | – | – |
| Stephen Hill[2] | 6 | 1 | – | – | – | – | – | – |
| Graham Mather[3] | 13 | 5 | 1 | 1 | – | – | 3 | – |
| Mike McTighe[1] | 9 | 4 | 4 | 1 | – | – | – | – |
| Jonathan Oxley | 13 | – | – | – | – | – | – | – |
| Dr Stephen Unger | 13 | – | – | – | – | – | – | – |
| Bill Emmott[4] | 4 | 1 | – | – | 1 | – | – | – |
| Ben Verwaayen[4] | 4 | 1 | – | – | – | – | – | – |

1 Ymddeolodd Tim Gardam a Mike McTighe o fod yn Aelodau Anweithredol o'r Bwrdd, yn weithredol o 31 Rhagfyr 2015.
2 Ymddeolodd Stephen Hill o fod yn Aelod Anweithredol o'r Bwrdd, yn weithredol o 11 Tachwedd 2015.
3 Penodwyd Graham Mather yn aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Risg ym mis Ionawr 2016.
4 Penodwyd Bill Emmott a Ben Verwaayen yn Aelodau Anweithredol o'r Bwrdd, yn weithredol o 1 Ionawr 2016.
5 Yng nghyfarfod y Bwrdd ar 15 Mawrth 2016, cytunwyd i fabwysiadu dull gwahanol yng nghyswllt gwneuthurwyr penderfyniadau ar gyfer penderfyniadau yn ymwneud â thrwyddedau darlledu. Daeth y Pwyllgor Trwyddedu Darlledu i ben o'r dyddiad hwn ymlaen.

## Y Bwrdd Gweithrediadau a'r Bwrdd Rheoli a Pholisi

Mae aelodau'r Bwrdd Rheoli a Pholisi yn cynnwys yr Uwch Dîm Rheoli a'r Prif Economegydd. Mae'r Cyfarwyddwr Cyllid, y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol, Ysgrifennydd y Gorfforaeth, y Cyfarwyddwr Cyfathrebiadau ac uwch swyddogion gweithredol eraill yn mynychu drwy wahoddiad. Mae'r Bwrdd yn darparu fforwm mewnol lle gall uwch swyddogion gweithredol oruchwylio a chraffu ar ddatblygiad mewnol agenda polisi Ofcom, yn ogystal â goruchwylio rheolwyr Ofcom.

Y Bwrdd Gweithrediadau sy'n gyfrifol am oruchwylio cynlluniau gweithredol mewnol Ofcom i sicrhau eu bod yn cyfrannu at gyflawni cylch gwaith Ofcom yn effeithiol. Cadeirir y Bwrdd gan y Cyfarwyddwr Grŵp – Gwasanaethau Corfforaethol ac mae'r aelodau'n cynnwys uwch swyddogion gweithredol o bob rhan o'r sefydliad.

**Ffigur 11: Yr Uwch Dîm Rheoli**

| Enw | Rôl |
|---|---|
| Sharon White | Prif Weithredwr |
| Philip Marnick[1] | Cyfarwyddwr Grŵp, Sbectrwm |
| Jonathan Oxley | Cyfarwyddwr Grŵp, Cystadleuaeth |
| Claudio Pollack[2] | Cyfarwyddwr Grŵp, Cynnwys, Materion Defnyddwyr ac Allanol |
| Dr Steve Unger[3] | Cyfarwyddwr Grŵp, Strategaeth, Rhyngwladol, Technoleg ac Economegwyr a Chyfarwyddwr Grŵp dros dro, Defnyddwyr a Chyfarwyddwr Grŵp dros dro, Cynnwys a Pholisi Cyfryngau |
| Alison Crosland[4] | Cyfarwyddwr Grŵp, Gwasanaethau Corfforaethol |
| Polly Weitzman | Cwnsler Cyffredinol |

1 Penodwyd Philip Marnick yn Gyfarwyddwr Grŵp dros dro ar gyfer y Grŵp Gwasanaethau Corfforaethol rhwng 28 Hydref 2014 a 10 Ionawr 2015.

2 Ymadawodd Claudio Pollack ag Ofcom ar 31 Rhagfyr 2015.

3 Daeth Dr Steve Unger yn Gyfarwyddwr Grŵp dros dro y Grŵp Defnyddwyr a Chyfarwyddwr Grŵp dros dro y Grŵp Cynnwys a Pholisi Cyfryngau ar 1 Ionawr 2016.

4 Ymunodd Alison Crosland ag Ofcom ar 11 Ionawr 2016.

## Perfformiad ac effeithiolrwydd y Bwrdd

Mae'r Bwrdd yn cwrdd yn rheolaidd; mae'n cael diweddariadau strategol rheolaidd, papurau gwybodaeth am y marchnadoedd y mae Ofcom yn eu rheoleiddio, gweithgareddau rhanddeiliaid allweddol, ac adroddiadau am weithgareddau gweithredol a pholisi Ofcom. Ar ben hynny, mae pob Aelod yn gallu mynd at Ysgrifennydd y Gorfforaeth i gael help gyda darparu gwybodaeth a llunio trefniadau ar gyfer cyfarfodydd anffurfiol gyda swyddogion gweithredol yn Ofcom i gael gwell dealltwriaeth o faterion penodol. Gwerthusodd y Bwrdd ei berfformiad yn ystod tymor yr haf 2015 gan ddefnyddio gwasanaethau'r ymgynghorwyr allanol, Condign Board Consulting.

Caiff perfformiad aelodau unigol o'r Bwrdd ei asesu gan y Cadeirydd a bydd pob aelod yn cael adolygiad blynyddol o'i berfformiad.

## Atebolrwydd

Anfonir Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol Ofcom at DCMS, sy'n gosod copïau ohono gerbron dau Dŷ'r Senedd. Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am sicrhau bod cofnodion priodol yn cael eu cadw, sy'n datgelu i raddau sy'n rhesymol gywir ar unrhyw adeg beth yw sefyllfa ariannol Ofcom, ac yn ei alluogi i sicrhau bod y Datganiad Cyfrifon yn cydymffurfio â Deddf Cyfathrebiadau 2003. Yn ogystal â hynny, mae'r Bwrdd yn gyfrifol am ddiogelu asedau Ofcom, ac felly mae'n gyfrifol am gymryd camau rhesymol i atal ac i ganfod twyll ac anghysondebau eraill.

Mae'r ffordd y mae Ofcom yn rheoli'r arian cyhoeddus y mae'n ei dderbyn, a'i berthynas â DCMS yn y cyswllt hwn, yn cael ei disgrifio mewn Memorandwm Ariannol.

## Cydymffurfio â'r Cod Llywodraethu Corfforaethol

Nid yw Ofcom yn rhwym wrth God Llywodraethu Corfforaethol y DU a gyhoeddir gan y Cyngor Adroddiadau Ariannol.

Fodd bynnag, mae egwyddorion y Cod yn rhoi meincnod defnyddiol i'r holl gyrff sy'n dymuno gwneud datganiad am eu perfformiad o ran llywodraethu corfforaethol. I'r diben hwn, bydd Ofcom yn parhau i fabwysiadu egwyddorion y Cod lle mae'n briodol gwneud hynny. I'r perwyl hwn mae Ofcom wedi cydymffurfio ag egwyddorion Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2016.

## Tryloywder

Mae Ofcom yn parhau i adolygu ei gynllun cyhoeddiadau ac yn darparu ystod ehangach o wybodaeth sydd ar gael yn hwylus ar ei wefan. Lle bo modd, rydym yn darparu'r data rydym yn ei greu a'i gasglu i'r cyhoedd gan ddilyn egwyddorion data agored. Mae ein data agored ar gael ar un porth cyhoeddus ar ein gwefan ac ar y porth data.gov.uk, ochr yn ochr â setiau data gan holl adrannau llywodraeth ganol a llawer o gyrff eraill yn y sector cyhoeddus ac awdurdodau lleol.

Yn ystod 2015/16, cafodd Ofcom 399 o geisiadau am wybodaeth o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004. Pan oedd gennym wybodaeth berthnasol, gwnaethom ddarparu'r holl wybodaeth y gofynnwyd amdani, neu ran ohoni, mewn 69% o achosion. Cedwir gwybodaeth yn ôl dim ond os yw wedi'i heithrio rhag cael ei datgelu gan ddeddfwriaeth.

Cafodd Ofcom wyth cais am wybodaeth o dan Ddeddf Diogelu Data 1998 hefyd, a phan oedd gennym wybodaeth berthnasol, darparwyd y wybodaeth y gofynnwyd amdani mewn pump o'r achosion.

## Ymgysylltu

Bydd gweithredoedd Ofcom yn effeithio ar bobl ac ar sefydliadau ledled y DU. O'r herwydd, mae'n bwysig iawn ei fod yn gwneud penderfyniadau ar yr adeg iawn ac yn y ffordd iawn. Rhaid i'r penderfyniadau hyn fod yn seiliedig ar dystiolaeth, ac wrth wneud y penderfyniadau hyn mae angen i Ofcom ystyried safbwyntiau'r rheini sydd â diddordeb yn y canlyniad.

Mae ymgynghori'n chwarae rhan bwysig er mwyn cael gafael ar y dystiolaeth hon. Mae'n rhoi cyfle i'r rheini y gallai mater penodol effeithio arnynt, neu sy'n pryderu am fater penodol, gyflwyno eu safbwyntiau i ni cyn y byddwn yn penderfynu ar gamau gweithredu.

O ganlyniad, bydd Ofcom yn ymgynghori'n gyhoeddus ynghylch ei holl brif flaenoriaethau strategol cyn gwneud penderfyniadau. Mae manylion am ddull ymgynghori Ofcom a'r ymgyngoriadau a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn ar gael ar dudalennau 38 a 39.

Bwriad aelodaeth y cyrff sy'n ffurfio'r strwythur llywodraethu yw cynnig lefelau penodol o arbenigedd er mwyn gallu profi a herio polisïau a phrosiectau Ofcom yn gadarn cyn gwneud penderfyniadau.

Mae'r Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau yn cynnwys wyth arbenigwr annibynnol, sy'n gweithio i ddiogelu a hyrwyddo buddiannau defnyddwyr, dinasyddion a busnesau bach yn y sector cyfathrebiadau. Mae Ofcom yn rhannu gwybodaeth a syniadau â'r Panel yn ystod y camau datblygu cynnar, sy'n ei alluogi i ddarparu cyngor cadarn ac annibynnol ar bolisïau i sicrhau bod buddiannau defnyddwyr yn rhan o'r broses gwneud penderfyniadau o'r cychwyn. Hefyd, mae Ofcom yn ymgysylltu â nifer o gyrff eraill sy'n ymgynghori â defnyddwyr – gan gynnwys y Fforwm Defnyddwyr ar gyfer Cyfathrebiadau rydym ni yn ei westeio – ac mae'n cynnwys cynrychiolwyr o amrywiaeth eang o gyrff sy'n eiriol ar ran defnyddwyr.


Mae'r ymgysylltu hwn yn fwyfwy pwysig yng ngwledydd datganoledig y DU, lle mae swyddogaeth aelodau gwledydd y DU ar y Bwrdd Cynnwys, y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau a'r Pwyllgorau Ymgynghorol Cenedlaethol yn eithriadol o werthfawr wrth helpu Ofcom i ystyried materion penodol wrth iddo lunio ei bolisïau a'u rhoi ar waith.

Mae Ofcom hefyd yn ymgysylltu ag awdurdodau rheoleiddio cenedlaethol eraill (gan gynnwys Rhwydwaith Rheoleiddwyr y DU), sefydliadau Ewropeaidd a chyrff byd-eang er mwyn sicrhau bod penderfyniadau sy'n cael eu gwneud mewn fforymau rhyngwladol yn ymarferol, yn gymesur ac yn adlewyrchu buddiannau dinasyddion a defnyddwyr yn y DU.

SICRHAU BOD CYFATHREBIADAU'N GWEITHIO I BAWB

- Hyrwyddo dewis
- Sicrhau safonau
- Atal niwed

**Ffigur 12: Fframwaith rheolaeth Ofcom**




## Y fframwaith risg a rheolaeth

Mae fframwaith risg a rheolaeth Ofcom yn sail i'r strwythur llywodraethu a'i fwriad yw helpu Ofcom i gyflawni ei ddyletswyddau statudol a'i amcanion gan ddiogelu arian cyhoeddus ar yr un pryd. Mae'r fframwaith rheolaeth yn canolbwyntio ar dair o elfennau cyfrifoldeb:

- rheoli a rheolaeth fewnol;
- rheoli risg; a
- sicrwydd annibynnol.

Mae pob un o'r meysydd cyfrifoldeb hyn wedi'i wreiddio ar draws y sefydliad a, gyda'i gilydd, maent yn rhoi i'r Bwrdd a'r Uwch Dîm Rheoli y sicrwydd gofynnol i allu rheoli'r busnes yn effeithiol (gweler Ffigur 12). Mae'r fframwaith risg a rheolaeth yn gyson â'r arweiniad ar gydymffurfio ag 8fed Cyfarwyddeb Cyfraith Cwmnïau'r UE a ddarperir gan FERMA (Ffederasiwn Cymdeithasau Rheoli Risg Ewrop).

## Rheoli a rheolaeth fewnol

Caiff y cyfrifoldeb dros weithredu a monitro'r system rheolaeth fewnol ei ddirprwyo gan Fwrdd Ofcom drwy Fyrddau a Phwyllgorau penodol i Gyfarwyddwyr Grŵp ac uwch reolwyr. Disgrifir y cynllun dirprwyo hwn yn y Fframwaith Awdurdodau Ariannol, a gafodd ei ddiweddaru yn ystod 2015/16 i sicrhau ei fod yn cyd-fynd â strwythur y sefydliad ac yn adlewyrchu'n briodol ei archwaeth am risg. Gofynnir i Gyfarwyddwyr Grŵp ddarparu sicrwydd bod y system o reolaeth fewnol yn gweithio'n effeithiol yn eu maes cyfrifoldeb drwy gwblhau datganiad sicrhau rheolaeth fewnol blynyddol. Ar ben hynny, ceir sicrwydd drwy'r gwaith sy'n cael ei wneud gan dimau arbenigol ar draws y sefydliad, gan gynnwys y Pwyllgor Diogelwch, y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch, y Gweithgor Amrywiaeth a Chydraddoldeb a'r Grŵp Parhad Busnes.

Drwy gynnal asesiadau effaith (fel sy'n ofynnol o dan y Ddeddf Cyfathrebiadau) sy'n gwerthuso effaith unrhyw benderfyniad rheoleiddio posibl ar draws yr ystod o randdeiliaid, mae ystyried risg wrth galon ein gweithgareddau.

Mae'r adrannau canlynol yn rhoi darlun cryno o rywfaint o'r gwaith sy'n cael ei wneud yn ystod y flwyddyn i wella rhagor ar y fframwaith rheolaeth.

## Memorandwm Ariannol

Lluniwyd ein Memorandwm Ariannol presennol gan yr Adran Busnes, Menter a Diwygio Rheoleiddio (BERR) mewn ymgynghoriad â'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) a ninnau ac mae'n disgrifio'r trefniadau ariannol rhwng Ofcom a'r Llywodraeth yng nghyswllt arian cyhoeddus a chyfrifoldebau Swyddogion Cyfrifyddu BERR (BIS) a DCMS a Phrif Weithredwr Ofcom. Llofnodwyd y Memorandwm Ariannol ym mis Ionawr 2008 a bydd yn dal mewn grym nes y cytunir ar Ddogfen Fframwaith newydd rhwng Ofcom a DCMS. Yn ystod y flwyddyn, mae'r gwaith wedi parhau gyda DCMS i gytuno ar Ddogfen Fframwaith newydd.

## Trefniadau diogelu

Oherwydd yr angen i fod yn fwy gwyliadwrus yn sgil y gred bod mwy o fygythiad terfysgol, gwnaethom gomisiynu sefydliad annibynnol sy'n cael ei gydnabod ar draws y byd i gynnal adolygiad cynhwysfawr o'r trefniadau diogelwch ffisegol yn ein holl swyddfeydd. Cwblhawyd yr adolygiad ym mis Mawrth 2015, ac yn ystod y flwyddyn rydym wedi cymryd camau i weithredu'r argymhellion yn yr adroddiad. Rydym hefyd wedi rhoi camau ar waith i wella'r trefniadau diogelwch ar gyfer cydweithwyr pan mae angen iddynt deithio. Bydd y trefniadau diogelwch ffisegol ac wrth deithio yn cael eu hadolygu'n gyson yn unol â'r bygythiad cyfredol i ddiogelwch.

Yn ystod y flwyddyn hefyd, gwnaethom gychwyn ar adolygiad cynhwysfawr ar draws y sefydliad o'n polisïau a'n gweithdrefnau diogelu gwybodaeth. Mae'r adolygiad yn cael ei arwain gan aelod o'r Uwch Dîm Rheoli ac mae'n canolbwyntio ar bum maes pwysig:

i Strategaeth diogelu gwybodaeth;
ii. Dosbarthiad ac asedau gwybodaeth;
iii. Llywodraethu a rheoli risg;
iv. Defnyddio technoleg i wella diogelwch; ac
v. Addysg ac ymwybyddiaeth.

Mae'r gweithgor sy'n arwain yr adolygiad wedi cyflwyno ei ganfyddiadau cychwynnol i'r Bwrdd Rheoli a Pholisi a'r Pwyllgor Archwilio a Risg. Mae gwaith yn cael ei wneud i roi'r argymhellion ar waith.

## Rhagor o gynlluniau

Mae nifer o gynlluniau wedi cael eu cychwyn neu eu rhoi ar waith fel rhan o'r rhaglen barhaus i adolygu a gwella'r fframwaith rheolaeth fewnol presennol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- adolygiad o Bolisi Treuliau Ofcom, a oedd yn cynnwys ymarfer i feincnodi'r polisi yn erbyn sefydliadau eraill, tebyg;
- adolygiad o'r Fframwaith Awdurdodau Ariannol ochr yn ochr ag adolygiad ehangach o awdurdodau dirprwyedig y Bwrdd;
- cwblhau prosesau tendro cystadleuol ar gyfer darparu gwasanaethau TGCh allanol, gwasanaethau archwilio mewnol, gwasanaethau brocer yswiriant a rheoli cyfleusterau. Roedd y contract rheoli cyfleusterau'n disodli oddeutu 150 o gontractau cyfleusterau unigol;
- rhoi trefniadau rheolaeth ariannol ar waith yng nghyswllt gweithgareddau rheoli arian yn ymwneud ag ysgwyddo cyfrifoldebau trwyddedu PMSE a arferai gael eu gwneud gan Arqiva;
- sefydlu gwasanaeth buddion a chyflogres newydd allanol;
- rhagor o gynnydd gydag Ymddiriedolwyr dau gynllun pensiwn Ofcom â'u buddion wedi'u diffinio o ran trefn lywodraethu mwy effeithlon; a
- y Bwrdd Rheoli a Pholisi i barhau i oruchwylio ein rhestr o fodelau hanfodol-i-fusnes ynghyd â rhagor o waith i rannu arferion gorau ar gyfer y fframweithiau sicrhau ansawdd sy'n cefnogi ein defnydd o fodelau busnes. Mae hyn yn gydnaws â'r argymhellion a wnaethpwyd yn Adroddiad Macpherson.

## Rheoli risg


Mae Ofcom yn parhau i ddangos arweinyddiaeth gref yn y ffordd mae'n rheoli risg drwy waith y Bwrdd a'i Bwyllgorau. Wrth roi cymorth i'r Bwrdd, mae'r Bwrdd Rheoli a Pholisi a'r Bwrdd Gweithrediadau yn gyfrifol am ddarparu arweiniad ar reoli risgiau sy'n codi yn sgil datblygiadau rheoleiddio a gweithredol penodol.

I sicrhau bod ein fframwaith rheoli risg yn effeithiol ac yn gydnaws â gofynion y sefydliad, mae adolygiad o'n fframwaith rheoli risg yn cael ei gynnal fel rhan o gynllun archwilio mewnol pob blwyddyn. Mae'r argymhellion sy'n deillio o'r adolygiad yn ffurfio rhan o raglen barhaus i wella ein fframwaith rheoli risg.

Mae polisi a gweithdrefnau rheoli risg Ofcom yn diffinio'n glir ei ddull o reoli risg, yn ogystal â phennu'r swyddogaethau, yr atebolrwyddau a'r cyfrifoldebau rheoli risg penodol sy'n bodoli ar draws y sefydliad.

Mae cofrestr risgiau strategol Ofcom yn cael ei hadolygu'n fisol gan y Bwrdd Rheoli a Pholisi, a bob chwarter gan y Pwyllgor Archwilio a Risg. Cyflwynir y gofrestr risg strategol yn fisol i'r prif Fwrdd er gwybodaeth. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, parhaodd y gofrestr risg strategol i esblygu, i sicrhau ei bod yn gadael i'r Bwrdd Rheoli a Pholisi ganolbwyntio ar y prif risgiau a allai danseilio gallu'r sefydliad i gyflawni ei amcanion. Caiff risgiau lefel grŵp eu hadolygu gan Gyfarwyddwyr

**Ffigur 13: Hierarchaeth risg Ofcom**




Grŵp, eu timau o uwch reolwyr a'r Rheolwr Risg ac Yswiriant fesul mis, a'u cynnwys ar y gofrestr risgiau strategol pan fo'n briodol. Mae uwch reolwyr yn gyfrifol am sicrhau bod gan gydweithwyr y sgiliau priodol i ganfod, i asesu ac i reoli risg yn unol â pholisi Ofcom i wreiddio a chefnogi diwylliant o reoli risg yn dda. Wrth gefnogi rôl uwch reolwyr yn hyrwyddo'r broses risg, mae'r Rheolwr Risg ac Yswiriant, ynghyd â thîm o Reolwyr Portffolio Grŵp, yn gweithio ar draws pob adran yn y sefydliad i hyrwyddo ac integreiddio'r broses rheoli risg, ac i gefnogi a hysbysu cydweithwyr.

Ym mis Mawrth 2015, adolygodd Bwrdd a Phwyllgor Gwaith Ofcom ddatganiadau archwaeth risg y sefydliad. Mae'r gwaith wedi parhau i wreiddio'r broses o ystyried archwaeth risg ym mhrosesau cynllunio a gwneud penderfyniadau'r sefydliad.

Mae'r tabl ar dudalen 28 yn dangos rhai o'r prif risgiau sy'n cael eu rheoli gan y sefydliad.

## Sicrwydd annibynnol

Mae Ofcom yn rhoi ei swyddogaeth archwilio mewnol ar gontract allanol i KPMG. Mae KPMG yn cyflawni ei waith yn unol â'r Cynllun Archwilio Mewnol Blynyddol, sy'n seiliedig ar asesiad o'r gofrestr risgiau strategol, trafodaethau gyda rheolwyr a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol ac ystyriaeth barhaus o'r amgylchedd y mae Ofcom yn gweithredu ynddo. Caiff y Cynllun ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio a Risg. Yn ystod 2015/16, cwblhawyd 13 archwiliad mewnol, gan gynnwys adolygiadau o iechyd a diogelwch, diogelu gwybodaeth, llywodraethu rhaglenni ar draws endidau, a chyflogres a buddion hyblyg. Lle y bo'n briodol, mae Ofcom wedi gofyn am sicrwydd annibynnol, trydydd parti ar gyfer prosesau busnes allweddol.

## Datgelu er lles y cyhoedd

Mae Deddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998 yn rhoi amddiffyniad cyfreithiol i weithwyr rhag cael eu diswyddo neu eu cosbi gan eu cyflogwyr am ddatgelu gwybodaeth sy'n cael ei hystyried yn wybodaeth sydd er lles y cyhoedd. Mae Ofcom yn 'berson rhagnodedig' fel y'i diffinnir o dan Orchymyn Datgelu er Lles y Cyhoedd (Personau Rhagnodedig) 2014. Felly, gall unigolion sy'n gweithio y tu allan i Ofcom, ond yn y sector cyfathrebiadau, gysylltu ag Ofcom os oes ganddynt bryderon bod rhywbeth o'i le yn eu sefydliad eu hunain. Yn ystod 2015/16, ni chafodd Ofcom unrhyw ddatgeliadau o dan Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998 neu fel arall.

## Datganiad y Swyddog Cyfrifyddu

Fel y Prif Weithredwr a'r Swyddog Cyfrifyddu, mae gennyf gyfrifoldeb cyffredinol dros adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Y Cyfarwyddwyr Grwpiau sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheolaeth fewnol. Y fframwaith hwn yw sail gwaith y drefn archwilio mewnol a sylwadau a wneir gan archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli ac mewn adroddiadau eraill.

Mae'r Bwrdd wedi parhau i adolygu a goruchwylio mewn modd strategol y trefniadau rheolaeth fewnol a rheoli risg drwy adroddiadau rheolaidd gan gyfarwyddwyr ar eu meysydd cyfrifoldeb a thrwy adroddiadau penodol i'w trafod gan y Pwyllgor Archwilio a Risg ac yng nghyfarfodydd y Bwrdd.

Yn ystod y flwyddyn, mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg wedi ystyried:

- adroddiadau archwilio mewnol unigol, ymatebion rheolwyr a'r cynnydd sydd wedi'i wneud yng nghyswllt unrhyw gamau a nodwyd;
- adroddiad blynyddol yr archwilydd mewnol a'i farn ar ddigonolrwydd ein system rheolaeth fewnol;
- adroddiadau ac argymhellion y Swyddfa Archwilio Genedlaethol;
- adroddiadau rheolaidd ar gofrestr risgiau strategol Ofcom, gan gynnwys pennu'r risgiau i system rheolaeth fewnol y sefydliad a gwybodaeth am y rheolaethau sydd wedi cael eu rhoi ar waith i leihau'r risgiau hyn; ac
- unrhyw adroddiadau ychwanegol am sicrwydd y mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg wedi gofyn amdanynt.

Hyd y gwn i, ac ar sail y cyngor yr wyf wedi'i dderbyn gan y rheolwyr hynny sydd â chyfrifoldebau dynodedig dros reoli risgiau a'r system rheoli risgiau, nid wyf yn ymwybodol o unrhyw ganfyddiadau o bwys yng nghyswllt rheolaeth fewnol ar gyfer 2015/16.

**Sharon White**
**Y Prif Weithredwr a'r Swyddog Cyfrifyddu**
21 Mehefin 2016



## Datganiad cyfrifoldebau

### Cyfrifoldebau'r Bwrdd

Dan delerau Deddf Swyddfa Gyfathrebiadau 2002, mae'n ofynnol i'r Bwrdd baratoi Datganiad Cyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Mae hyn yn cydymffurfio â'r Cyfarwyddyd ar Gyfrifon a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Arloesedd a Sgiliau a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Mae'r Bwrdd hefyd yn gyfrifol am anfon copi o'r Datganiad Cyfrifon at y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol.

Mae'r Datganiad Cyfrifon hwn yn cael ei baratoi, i'r graddau y mae hynny'n berthnasol, yn unol â Deddf Cwmnïau 2006 a'r Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRS) yn ogystal â'r dehongliadau a gyhoeddir gan y Pwyllgor Dadansoddi Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRIC), ar sail gronnus. Rhaid iddo roi darlun cywir a theg o gyflwr busnes Ofcom fel yr oedd ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, ac o'i incwm a'i wariant, ei enillion a'i golledion cydnabyddedig a'r llifoedd arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Mae'r Bwrdd yn cadarnhau ei fod, wrth baratoi'r Datganiad Cyfrifon hwn, wedi dilyn y gofynion perthnasol ar gyfer cyfrifyddu a datgelu, wedi defnyddio polisïau cyfrifyddu addas yn gyson, wedi rhoi barn a gwneud amcangyfrifon ar sail resymol, wedi dilyn safonau cyfrifyddu perthnasol ac wedi paratoi'r datganiad cyfrifon ar sail busnes byw.

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am sicrhau bod cofnodion priodol yn cael eu cadw, sy'n datgelu i raddau sy'n rhesymol gywir ar unrhyw adeg beth yw sefyllfa ariannol Ofcom, ac yn ei alluogi i sicrhau bod y Datganiad Cyfrifon yn cydymffurfio â Deddf Cwmnïau 2006. Yn ogystal â hynny, mae'r Bwrdd yn gyfrifol am ddiogelu asedau Ofcom, ac felly mae'n gyfrifol am gymryd camau rhesymol i atal ac i ganfod twyll ac anghysondebau eraill.

### Cyfrifoldebau'r Prif Weithredwr

Penodir y Prif Weithredwr gan y Bwrdd, sy'n dirprwyo iddi'r cyfrifoldeb dros reoli Ofcom o ddydd i ddydd. Mae'r Ysgrifennydd Parhaol dros yr Adran Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi dynodi'r Prif Weithredwr yn Swyddog Cyfrifyddu Ofcom. Mae'r penodiad yn cynnwys dyletswyddau i fod yn gyfrifol am reoleidd-dra, priodoldeb, gwerth am arian a rheolaeth ariannol dda, a diogelu arian cyhoeddus.

Mae gan y Prif Weithredwr gyfrifoldebau penodol dros sicrhau y cydymffurfir â thelerau'r Memorandwm Ariannol presennol a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol (a bydd yn parhau i wneud hynny o dan y Ddogfen Fframwaith newydd pan fydd yn dod i rym). Rhaid iddi hefyd sicrhau bod cofnodion cyfrifyddu priodol yn cael eu cadw a rhaid iddi lofnodi'r cyfrifon.



Fel Aelod o'r Bwrdd, rhaid i'r Prif Weithredwr sicrhau nad yw ei chyfrifoldebau o ran atebolrwydd yn gwrthdaro â'i chyfrifoldebau fel Aelod Bwrdd. Gall y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a phwyllgorau Seneddol eraill alw ar y Prif Weithredwr i roi tystiolaeth am y modd y mae'n cyflawni ei dyletswyddau.

SICRHAU BOD CYFATHREBIADAU'N GWEITHIO I BAWB

- Hyrwyddo dewis
- Sicrhau safonau
- Atal niwed

# ADRODDIAD TALIADAU

Wrth baratoi'r adroddiad taliadau a sefydlu ei bolisi taliadau, mae'r Bwrdd wedi ystyried darpariaethau Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU ac wedi mabwysiadu'r darpariaethau, ac yn cydymffurfio â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth, lle bo hynny'n briodol ac yn berthnasol.

Nid oes raid i Ofcom gydymffurfio ag Atodlen 8 i Reoliadau Grwpiau a Chwmnïau Mawr a Chanolig (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008 fel y'u diwygiwyd ym mis Awst 2013, ond mae wedi paratoi'r adroddiad hwn i gydymffurfio i'r graddau y mae hynny'n briodol ac yn ymarferol.

## Cyfansoddiad y Pwyllgor Taliadau

Mae cyfansoddiad y Pwyllgor Taliadau i'w weld ar dudalen 56.

### Cynghorwyr

Pan fo angen, mae'r Pwyllgor Taliadau'n cael cyngor a/neu wasanaethau gan sefydliadau allanol arbenigol.

Mae'r Pwyllgor hefyd yn cael cyngor gan Gyfarwyddwr Adnoddau Dynol Ofcom. Gan amlaf, mae'r Pwyllgor Taliadau'n gwahodd y Prif Weithredwr a Chyfarwyddwr y Grŵp Gwasanaethau Corfforaethol i fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor. Ni fydd dim un unigolyn yn bresennol ar gyfer unrhyw drafodaeth am ei dâl ei hun.

### Polisi cyffredinol

Wrth bennu polisi taliadau Ofcom, cred y Pwyllgor Taliadau y dylai Ofcom, o fewn y cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â bod yn gorff cyhoeddus, gynnig gwobrau a fydd yn denu ac yn cadw'r rheolwyr o'r safon uchaf y mae'n rhaid eu cael i alluogi Ofcom i gyflawni ei gyfrifoldebau a'i gylch gwaith statudol. Ni ddisgwylir newid yng nghyfeiriad y polisi cyffredinol dros y flwyddyn i ddod.

## Elfennau taliadau

Dyma brif elfennau taliadau'r Aelodau Gweithredol a'r Cyfarwyddwyr Grŵp:

### Cyflog a buddion hyblyg

Pennir cyflog sylfaenol Aelodau Gweithredol a Chyfarwyddwyr Grŵp drwy ystyried cyfrifoldebau, perfformiad a phrofiad pob cydweithiwr ynghyd â thueddiadau'r farchnad. Hefyd, darperir lwfans buddion hyblyg i bob Aelod Gweithredol a Chyfarwyddwr Grŵp sy'n caniatáu i'r unigolyn dan sylw brynu buddion penodol. Caiff pob cyflog sylfaenol ei adolygu'n flynyddol ar 1 Gorffennaf bob blwyddyn.

### Buddion safonol

Mae pob un o'r Aelodau Gweithredol a'r Cyfarwyddwyr Grŵp yn derbyn rhai buddion safonol: yn benodol yswiriant meddygol preifat, yswiriant bywyd, amddiffyniad incwm grŵp a'r cyfle i gael archwiliad iechyd blynyddol. Nid yw cyfanswm gwerth yr amddiffyniad incwm grŵp, yr yswiriant bywyd na'r archwiliadau iechyd blynyddol wedi cael ei ddatgelu yn y rhestri taliadau gan nad yw Cyllid a Thollau EM yn ei drin fel enillion trethadwy.

### Taliadau sy'n ymwneud â pherfformiad

Mae pob Aelod Gweithredol a Chyfarwyddwr Grŵp yn cymryd rhan mewn cynllun bonws perfformiad blynyddol, a gaiff ei gyfrifo fel canran o'r cyflog ar sail perfformiad yr unigolyn, hyd at uchafswm o 20% o'r cyflog, yn dibynnu ar yr unigolyn dan sylw. Mae hyn yn galluogi Ofcom i gydnabod cyfraniad y rheini sy'n perfformio'n arbennig o dda yn ystod unrhyw flwyddyn heb godi lefelau cyflog sylfaenol. Nid oes dim un elfen o'r bonws perfformiad yn bensiynadwy. Mae'r Pwyllgor Taliadau wedi cymeradwyo'r bonysau perfformiad a nodir ar gyfer unigolion yn ystod y cyfnod adolygu rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2016, ac maent wedi cronni ond heb gael eu talu ar ddiwedd y flwyddyn. Nid yw Ofcom yn darparu cynllun bonws perfformiad hirdymor ar gyfer ei weithwyr.

### Datgeliad cyflog teg

Rhaid i sefydliadau'r sector cyhoeddus ddatgelu'r berthynas rhwng taliadau'r cyfarwyddwr sy'n cael y tâl uchaf yn y sefydliad a thâl canolrif gweithlu'r sefydliad. Tâl y cyfarwyddwr a oedd yn cael y tâl uchaf yn Ofcom yn ystod y flwyddyn ariannol 2015/16 oedd £320,200 (£317,782 yn 2014/15). Roedd hyn 5.71 gwaith (5.79 gwaith yn 2014/15) tâl canolrif gweithlu Ofcom a oedd yn £56,085 yn 2015/16 (£54,971 yn 2014/15). Ni dderbyniodd yr un gweithiwr dâl a oedd yn fwy na'r cyfarwyddwr a gafodd y tâl uchaf. Yn 2015/16, roedd y taliadau'n amrywio rhwng £17,357 a £320,200 ac yn 2014/15 rhwng £13,401 a £317,782. Er mwyn gallu cymharu, mae cyfanswm tâl yn cynnwys cyflog sylfaenol, bonws perfformiad, buddion hyblyg a buddion o fath arall. Nid yw'n cynnwys unrhyw lwfans pensiwn, yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Trysorlys.

## Trefniadau pensiwn

Dan drefniadau pensiwn Ofcom, mae pob Aelod Gweithredol a Chyfarwyddwr Grŵp yn cael lwfans, a bennir fel canran o'r cyflog sylfaenol, y gall yr unigolyn ei gael fel cyflog ychwanegol neu ei fuddsoddi mewn cynllun pensiwn o'i ddewis.

Mae'r Cadeirydd, Patricia Hodgson, yn cael pensiwn o Gynllun Pensiwn Ofcom (ITC gynt). Ni chafodd yr un Aelod Anweithredol arall fudd pensiwn gan Ofcom yn ystod y flwyddyn dan sylw.

## Arweiniad i'r rhestri taliadau

Mae manylion y taliadau a dderbyniodd y Bwrdd, y Bwrdd Cynnwys a'r Uwch Dîm Rheoli, sydd wedi'u harchwilio gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, ar gael yn y tablau a'r nodiadau canlynol.

Mae'r rhestri hyn yn cyfeirio at daliadau yn ystod y flwyddyn ariannol. Mae'r rhestr yn adlewyrchu'r taliadau am y rhan honno o'r flwyddyn pan oedd yr unigolion un ai'n aelodau o'r Bwrdd neu'r Bwrdd Cynnwys neu'n aelodau o'r Uwch Dîm Rheoli. Roedd yr unigolion â'r nodyn '+' wrth eu henw yn y rhestri yn eu rolau am ran yn unig o 2014/15 neu 2015/16. Os yw'r unigolion yn aelodau o fwy nag un Bwrdd/Pwyllgor (fel y nodir ar dudalennau 65 a 66) dim ond unwaith y bydd eu henwau yn ymddangos yn y rhestri taliadau. Mae'r holl Aelodau Gweithredol yn cael eu rhestru o dan y Tîm Uwch Reolwyr yn Nhabl 3.

Mae'r cyfeirnodau yn y nodiadau cyfarwyddyd wrth ymyl enwau unigolion yn cyfeirio at y nodiadau ar dudalennau 66 a 67.

Oherwydd y newidiadau i'r aelodaeth yn 2014/15 ac yn 2015/16, rhoddir ffigur ar sail blwyddyn o dan bob tabl, er mwyn darparu cymhariaeth gliriach o'r cyfanswm costau.

Mae'r tablau hyn yn cael eu harchwilio.

### Tabl 1: Taliadau Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom: 2015/16

| Enw | Cyfeirnod nodyn cyfarwyddyd | Ffioedd 15/16 £ | Ffioedd 14/15 £ |
|---|---|---|---|
| Y Fonesig Lynne Brindley DBE | 1 | 42,519 | 42,519 |
| Bill Emmott + | 1,2 | 10,630 | – |
| Tim Gardam + | 1,2 | 31,889 | 42,519 |
| Stephen Hill + | 1,2 | 28,346 | 21,260 |
| Y Fonesig Patricia Hodgson DBE | 1 | 142,500 | 142,500 |
| Graham Mather + | 1,2 | 42,519 | 35,433 |
| Mike McTighe + | 1,2 | 31,889 | 42,519 |
| Y Farwnes Noakes DBE + | 1,2 | 70,000 | 58,333 |
| Ben Verwaayen + | 1,2 | 10,630 | – |
| | | **410,922** | **385,082** |

*Roedd y costau ar sail blwyddyn yn £425,095 ar gyfer 2015/16 ac yn £425,095 ar gyfer 2014/15.*

### Tabl 2: Taliadau Aelodau Anweithredol Bwrdd Cynnwys Ofcom: 2015/16

| Name | Cyfeirnod nodyn cyfarwyddyd | Ffioedd 15/16 £ | Ffioedd 14/15 £ |
|---|---|---|---|
| Andrew Chitty | 1 | 10,800 | 10,800 |
| Juan Andrew Colman | 1 | 10,800 | 10,800 |
| Aled Eirug + | 1,3 | 3,600 | – |
| Robin Foster + | 1,3 | 2,700 | – |
| Zahera Harb + | 1,3 | 3,600 | – |
| David Levy | 1 | 10,800 | 10,800 |
| Lesley Mackenzie | 1 | 10,800 | 10,800 |
| Iseabail Mactaggart+ | 1,3 | – | 2,700 |
| Glyn Mathias + | 1,3 | 7,800 | 15,900 |
| Nick Pollard + | 1,3 | 1,800 | – |
| Philip Schlesinger + | 1 | 10,800 | 3,600 |
| Mary Ann Sieghart + | 1 | 10,800 | 6,300 |
| Janey Walker | 1 | 15,900 | 20,100 |
| | | **100,200** | **91,800** |

*Roedd y costau ar sail blwyddyn yn £134,700 ar gyfer 2015/16 ac yn £91,500 ar gyfer 2014/15.*

**Tabl 3: Taliadau Uwch Dîm Rheoli ac Aelodau Gweithredol Bwrdd Cynnwys Ofcom: 2015/16**

| Enw | Cyfeirnod y Nodyn Cyfar-wyddyd | Cyflog 15/16 £ | Hawl/ Lwfans pensiwn 15/16 £ | Lwfans buddion hyblyg 15/16 £ | Buddion o fath arall 15/16 £ | Bonws Perfformiad 15/16 £ | Cyfanswm taliadau 15/16 £ | Cyfanswm taliadau 14/15 £ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Jill Ainscough + | 4,5 | – | – | – | – | – | – | 175,855 |
| Tony Close + | 3,4 | 119,083 | 17,862 | 12,500 | 2,254 | 12,000 | 163,699 | – |
| Alison Crosland + | 4,7 | 44,107 | 6,616 | 3,393 | 461 | – | 54,577 | – |
| Philip Marnick | 4,6 | 208,075 | 31,211 | 15,000 | 2,700 | 15,000 | 271,986 | 265,549 |
| Stuart McIntosh + | 4,5 | – | – | – | – | – | – | 49,804 |
| Jonathan Oxley | 4,6 | 253,750 | 38,062 | 15,000 | 2,700 | 15,000 | 324,512 | 110,984 |
| Claudio Pollack + | 4,5 | 146,300 | 21,945 | 11,250 | 2,008 | – | 181,503 | 256,445 |
| Ed Richards + | 4,5,8 | 27,185 | 5,437 | 1,817 | 446 | – | 34,885 | 376,902 |
| James Thickett | 4,6 | 157,625 | 23,644 | 15,000 | 2,700 | 10,000 | 208,969 | 206,911 |
| Steve Unger | 4,5,6 | 252,865 | 37,930 | 15,000 | 2,700 | 25,000 | 333,495 | 294,144 |
| Polly Weitzman | 4,6,9 | 229,390 | 34,408 | 15,000 | 2,700 | 25,000 | 306,498 | 305,401 |
| Sharon White + | 4,6 | 275,000 | 55,000 | 15,000 | 2,700 | 27,500 | 375,200 | 28,973 |
| | | **1,713,380** | **272,115** | **118,960** | **21,369** | **129,500** | **2,255,324** | **2,070,968** |

*Roedd y costau ar sail blwyddyn yn £2,240,611 ar gyfer 2015/16 ac yn £1,981,305 ar gyfer 2014/15.*

## Nodiadau i'r tablau taliadau

**1.** Mae'r ffioedd ar gyfer holl Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom yn cael eu pennu drwy gytundeb â'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon am gyfnod llawn eu penodiad. Mae'r ffioedd a ddangosir yn cynrychioli'r flwyddyn lawn sy'n cael ei hadolygu. Mae'r ffi sylfaenol i Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom (ac eithrio'r Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd) wedi bod yn £42,519 y flwyddyn ers 1 Ebrill 2008. Ofcom sy'n pennu ffioedd Aelodau Anweithredol y Bwrdd Cynnwys. Mae'r ffioedd a ddangosir yn cynrychioli blwyddyn gyfan neu, lle bo'n briodol, ran o'r flwyddyn, os gwnaeth yr Aelod Anweithredol perthnasol ymuno â'r Bwrdd Cynnwys neu ymddeol ohono, neu ysgwyddo rhagor o gyfrifoldebau, yn ystod y cyfnod dan sylw. £10,800 y flwyddyn yw'r ffi sylfaenol ar gyfer Aelodau'r Bwrdd Cynnwys (ac eithrio'r ffi a delir i Janey Walker sef £15,900 y flwyddyn a'r ffi a delir i Nick Pollard i adlewyrchu eu gwaith a'u cyfrifoldebau ychwanegol am waith safonau). Ni chafodd Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom nac Aelodau'r Bwrdd Cynnwys daliadau ychwanegol ar ben eu ffioedd heblaw am yr hawl – i Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom yn unig – i gael offer TG ar gyfer gweithio gartref. Ni wnaeth pob un o Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom fanteisio ar yr hawl hwn yn ystod y cyfnod dan sylw.

**2.** Ymunodd Graham Mather a'r Farwnes Noakes â Bwrdd Ofcom ar 1 Mehefin 2014 ac ymunodd Stephen Hill ar 1 Hydref 2014. Penodwyd Bill Emmott a Ben Verwaayen i Fwrdd Ofcom ar 1 Ionawr 2016. Ymddiswyddodd Stephen Hill o fwrdd Ofcom ar 11 Tachwedd 2015; ymddeolodd Mike McTighe a Tim Gardam o'r Bwrdd ar 31 Rhagfyr 2015.

**3.** Ymddiswyddodd Iseabail Mactaggart o'r Bwrdd Cynnwys ar 30 Mehefin 2014; ymddeolodd Glyn Mathias o'r Bwrdd Cynnwys ar 30 Mehefin 2015; penodwyd Zahera Harb ac Aled Eirug i'r Bwrdd Cynnwys ar 1 Rhagfyr 2015; penodwyd Robin Foster i'r Bwrdd Cynnwys ar 1 Ionawr 2016 a phenodwyd Nick Pollard i'r Bwrdd Cynnwys ar 1 Mawrth 2016. Penodwyd Tony Close yn Aelod Gweithredol o'r Bwrdd Cynnwys ar 1 Mehefin 2015, a swm cyfwerth â blwyddyn lawn ei gyflog yw £150,000.

**4.** Mae cyfanswm y taliadau blynyddol a ddangosir ar gyfer swyddogion gweithredol Ofcom, y maent neu yr oeddynt i gyd yn aelodau o'r Uwch Dîm Rheoli, heblaw am James Thickett a Tony Close sy'n Aelodau Gweithredol o'r Bwrdd Cynnwys, yn cynnwys cyflog sylfaenol, bonws perfformiad, lwfans arian ar gyfer buddion hyblyg a chanran o'r cyflog sylfaenol a delir fel lwfans pensiwn. Mae'r golofn 'buddion o fath arall'

yn adlewyrchu'r gost i Ofcom o ddarparu yswiriant meddygol preifat i bob swyddog gweithredol.

**5.** Ymddiswyddodd Ed Richards o fod yn Aelod Gweithredol o Fwrdd Ofcom ac o'r Pwyllgor Gwaith ar 31 Rhagfyr 2014 gan ymadael â'r sefydliad ar 4 Mai 2015. Swm cyfwerth â blwyddyn lawn ei gyflog yw £298,650. Ymddiswyddodd Stuart McIntosh o fod yn Aelod Gweithredol o Fwrdd Ofcom ac o'r Pwyllgor Gwaith ar 31 Mai 2014, ac ymddiswyddodd Jill Ainscough o fod yn Aelod Gweithredol o Fwrdd Ofcom ar 16 Medi 2014 ac o'r Pwyllgor Gwaith ar 27 Hydref 2014, gan ymadael â'r sefydliad ar 31 Rhagfyr 2014. Yn gynnar yn 2016, rhannwyd Grŵp Cynnwys, Defnyddwyr a Materion Allanol Ofcom yn ddau grŵp newydd - Defnyddwyr, a Pholisi Cyfryngau a Chynnwys - i sicrhau bod pob grŵp yn gallu canolbwyntio ar feysydd allweddol yng nghylch gwaith Ofcom. Oherwydd yr ailstrwythuro hwn, gadawodd Claudio Pollack Ofcom ar 31 Rhagfyr 2015 a oedd yn golygu nad oedd yn aelod o'r Uwch Dîm Rheoli nac yn Aelod o'r Bwrdd Cynnwys o'r dyddiad hwnnw. Swm cyfwerth â blwyddyn lawn ei gyflog yw £196,350. Yn unol â'i gontract cyflogaeth a pholisi dileu swyddi Ofcom, derbyniodd Claudio daliad yn lle rhybudd diswyddo o £105,675 ac mae cost ei daliad dileu swydd o £151,038 wedi'i chynnwys yn y cyfrifon am y flwyddyn. Penodwyd Steve Unger yn Aelod Gweithredol o Fwrdd Ofcom ar 23 Mawrth 2015.

**6.** Mae Sharon White, Jonathan Oxley, Philip Marnick, Steve Unger a Polly Weitzman wedi bod yn aelodau o'r Uwch Dîm Rheoli gydol y cyfnod; mae James Thickett wedi bod yn Aelod Gweithredol o'r Bwrdd Cynnwys gydol y cyfnod.

**7.** Ymunodd Alison Crosland ag Ofcom fel aelod o'r Uwch Dîm Rheoli ar 11 Ionawr 2016. Swm cyfwerth â blwyddyn lawn ei chyflog yw £195,000. Ymunodd Lindsey Fussell ag Ofcom fel aelod o'r Uwch Dîm Rheoli ar 18 Ebrill 2016, y tu allan i'r cyfnod adrodd.

**8.** Parhaodd Ed Richards i dderbyn tâl gan Ofcom am y cyfnod rhwng ymddiswyddo o Ofcom ar 31 Rhagfyr 2014 a gadael y sefydliad ar 4 Mai 2015; y cyfnod hwn oedd cyfnod y rhybudd ffurfiol ar gyfer ymadael ag Ofcom ac yn ystod y cyfnod hwn fe'i gosodwyd ar 'absenoldeb garddio'.

**9.** Mae Polly Weitzman yn cael £12,120 y flwyddyn fel Cyfarwyddwr Anweithredol Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Prifysgol Homerton; telir y ffioedd hyn yn syth i Ofcom ac nid yw Ms. Weitzman yn derbyn dim ohonynt.

**10.** Ar 31 Mawrth 2016, roedd gan yr Uwch Dîm Rheoli chwe aelod (roedd chwe aelod ar 31 Mawrth 2015).

## Contract cyflogaeth

Mae gan y Prif Weithredwr a Jonathan Oxley, Cyfarwyddwr y Grŵp Cystadleuaeth, gyfnod rhybudd o 12 mis. Nid oes gan yr un Aelod Gweithredol arall o Fwrdd Ofcom na chydweithiwr arall yn Ofcom gontract cyflogaeth sy'n cynnwys cyfnod rhybudd o fwy na naw mis.

Mae'r Aelodau Anweithredol i gyd wedi'u penodi am dymor penodol i neilltuo amser penodol i Ofcom o hyd at ddau ddiwrnod yr wythnos (heblaw am Patricia Hodgson a neilltuodd hyd at dri diwrnod yr wythnos a Sheila Noakes a neilltuodd hyd at ddau ddiwrnod a hanner yr wythnos).

Roedd un taliad dileu swydd yn ymwneud ag aelod o'r Uwch Dîm Rheoli wedi'i gynnwys yn y cyfrifon am y flwyddyn ar gyfer colli swydd yn ystod 2015/16, fel y nodir yn Nodyn 5 uchod.

## Iawndal terfynu'n gynnar

Yn achos Aelod Gweithredol o Fwrdd Ofcom, y Bwrdd Cynnwys neu aelod o'r Uwch Dîm Rheoli, y Pwyllgor Taliadau sy'n penderfynu ar y trefniadau ar gyfer terfynu contract cyflogaeth yn gynnar, ac fe'u gwneir yn unol â chontract cyflogaeth yr Aelod Gweithredol neu'r Cyfarwyddwr Grŵp perthnasol. Mae pob contract cyflogaeth yn darparu ar gyfer taliad yn lle rhybudd os terfynir contract yn gynnar fel y gwêl Ofcom yn dda.

Nid oes gan Aelodau Anweithredol hawl i iawndal os caiff contract ei derfynu'n gynnar.

## Ymgymryd â swyddogaeth cyfarwyddwr allanol

Ni chaiff unrhyw Aelod Gweithredol o Fwrdd Ofcom dderbyn penodiad anweithredol heb gael caniatâd ymlaen llaw gan y Bwrdd i sicrhau na fydd hyn yn achosi gwrthdaro rhwng buddiannau. Bydd unrhyw ffioedd a delir i Aelod Gweithredol am benodiad o'r fath yn cael ei gadw gan yr Aelod Gweithredol dim ond yn ôl disgresiwn y Pwyllgor Taliadau.

Nid oes, neu nid oedd, neb ar y Bwrdd yn dal unrhyw gyfarwyddiaethau neu fuddiannau sylweddol a oedd yn gwrthdaro â'u dyletswyddau.

Ar ran Ofcom,

**Sharon White**
**Y Prif Weithredwr a'r Swyddog Cyfrifyddu**
21 Mehefin 2016

**Y Farwnes Noakes DBE**
**Cadeirydd y Pwyllgor Taliadau**
21 Mehefin 2016

# TYSTYSGRIF AC ADRODDIAD Y RHEOLWR A'R ARCHWILYDD CYFFREDINOL I DDAU DŶ'R SENEDD

Tystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol y Swyddfa Gyfathrebiadau am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2016 o dan Ddeddf Swyddfa Gyfathrebiadau 2002. Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys: y Datganiadau Incwm a Gwariant, Sefyllfa Ariannol, Llifoedd Arian, Newidiadau mewn Ecwiti; a'r nodiadau cysylltiedig. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisïau cyfrifyddu a nodir ynddynt. Rwyf hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad Taliadau y nodir ei bod wedi'i harchwilio yn yr adroddiad hwnnw.

## Cyfrifoldebau perthnasol y Bwrdd, y Swyddog Cyfrifyddu a'r archwilydd

Fel yr eglurwyd yn fanylach yn y Datganiad Cyfrifoldebau, y Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg. Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf Swyddfa Gyfathrebiadau 2002. Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hynny'n mynnu fy mod i a'm staff yn cydymffurfio â Safonau Moesegol y Bwrdd Arferion Archwilio ar gyfer Archwilwyr.

## Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

Mae archwiliad yn golygu cael tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol sy'n ddigon i roi sicrwydd rhesymol nad oes camddatganiadau o bwys yn y datganiadau ariannol, boed hynny trwy gamgymeriad neu dwyll. Mae hyn yn cynnwys asesiad o'r canlynol: a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau'r Swyddfa Gyfathrebiadau ac a ydynt wedi cael eu rhoi ar waith yn gyson a'u datgelu'n ddigonol; pa mor rhesymol yw'r amcangyfrifon cyfrifyddu sylweddol y mae'r Swyddfa Gyfathrebiadau wedi'u gwneud; a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau ariannol. Ar ben hynny, byddaf yn darllen yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn yr Adroddiad Blynyddol er mwyn canfod anghysondebau sylweddol â'r datganiadau ariannol archwiliedig, ac i ganfod unrhyw wybodaeth sy'n sylweddol anghywir ar sail y wybodaeth a gesglais wrth i mi gyflawni'r archwiliad, neu wybodaeth sy'n sylweddol anghyson â'r wybodaeth honno. Os byddaf yn dod ar draws unrhyw gamddatganiadau neu anghysonderau sylweddol byddaf yn ystyried y goblygiadau i'm tystysgrif.

Rhaid i mi gael tystiolaeth sy'n ddigon i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm a gofnodir yn y datganiadau ariannol wedi cael eu defnyddio at y dibenion y'u bwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.



## Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ffordd o bwys mae'r gwariant a'r incwm a gofnodir yn y datganiadau ariannol wedi cael eu defnyddio at y dibenion y'u bwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.



## Barn ar y datganiadau ariannol

Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi golwg cywir a theg o gyflwr materion y Swyddfa Gyfathrebiadau ar 31 Mawrth 2016 a'r diffyg ar ôl treth am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- mae'r datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â Deddf Swyddfa Gyfathrebiadau 2002 a chyfarwyddiadau Ysgrifenyddion Gwladol a gyhoeddwyd o dan y Ddeddf.

## Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i:

- mae'r rhannau o'r Adroddiad Taliadau sydd i'w harchwilio wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a wnaethpwyd o dan Ddeddf Swyddfa Gyfathrebiadau 2002; a
- mae'r wybodaeth yn yr Adroddiad ar Berfformiad a'r Adroddiad Atebolrwydd am y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi ar ei chyfer yn gydnaws â'r datganiadau ariannol.

## Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Nid oes gennyf ddim i'w nodi yng nghyswllt y materion canlynol y byddaf yn cyflwyno adroddiad arnynt i chi os, yn fy marn i:

- na chafodd cofnodion cyfrifyddu digonol eu cadw neu na dderbyniwyd ffurflenni sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad gan y canghennau nad oedd fy staff wedi ymweld â nhw; neu
- nad yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Taliadau sydd i'w harchwilio yn cyd-fynd â'r cofnodion cyfrifyddu neu'r ffurflenni; neu
- nad wyf wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad; neu
- nad yw'r Datganiad Llywodraethu'n adlewyrchu cydymffurfiad â chyfarwyddyd Trysorlys EM.

## Adroddiad

Nid oes gennyf sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

**Syr Amyas C E Morse**

**Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol**
**27 Mehefin 2016**
Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria, Llundain SW1W 9SP

D

DATGANIAD ARIANNOL

# DATGANIAD INCWM A GWARIANT

## Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016

| | Nodiadau | 2015/16 £'000 | 2014/15 £'000 |
|---|---|---|---|
| Incwm | 3 | **114,813** | 111,208 |
| Clirio a Dyfarnu Sbectrwm | 3 | **5,911** | 4,290 |
| **Cyfanswm incwm** | | **120,724** | **115,498** |
| **Gwariant gweithredol** | | | |
| Costau staff | 4 | **(65,723)** | (62,678) |
| Costau gweithredol eraill | 6 | **(48,009)** | (49,737) |
| Clirio a Dyfarnu Sbectrwm | 4,6 | **(5,916)** | (4,054) |
| **Cyfanswm gwariant gweithredol** | | **(119,648)** | **(116,469)** |
| **Gwarged/(diffyg) gweithredol** | | **1,076** | **(971)** |
| Incwm/(cost) eiddo gwag | | **(152)** | 170 |
| Incwm cyllid | | **94** | 61 |
| Costau cyllid | | **–** | – |
| Incwm cyllid arall | 15,19 | **537** | 881 |
| **Gwarged ar weithgareddau arferol am y flwyddyn ariannol cyn treth** | | **1,555** | **141** |
| Trethiant | 7 | **–** | (46) |
| Gostyngiad yn yr asedau treth ohiriedig | 7 | **(2,415)** | – |
| **(Diffyg)/Gwarged am y flwyddyn ariannol ar ôl treth** | | **(860)** | **95** |

Mae'r polisïau a'r nodiadau cyfrifyddu ar dudalennau 74 i 101 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

# DATGANIAD AM Y SEFYLLFA ARIANNOL

## Ar 31 Mawrth 2016

| | Nodiadau | Ar 31 Mawrth 2016 £'000 | Ar 31 Mawrth 2015 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Asedau anghyfredol** | | | |
| Eiddo, peiriannau a chyfarpar | 8 | **6,166** | 6,621 |
| Asedau anniriaethol | 9 | **3,290** | 3,212 |
| Asedau treth ohiriedig | 7 | **–** | 2,415 |
| Symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill | 11 | **1,464** | 745 |
| Asedau buddion ymddeol | 19 | **15,370** | 17,200 |
| **Cyfanswm asedau anghyfredol** | | **26,290** | **30,193** |
| **Asedau cyfredol** | | | |
| Symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill | 10 | **8,194** | 6,557 |
| Arian parod a'r hyn sy'n gyfystyr ag arian parod | 12 | **11,570** | 14,279 |
| **Cyfanswm asedau cyfredol** | | **19,764** | **20,836** |
| **Cyfanswm asedau** | | **46,054** | **51,029** |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | |
| Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill | 13 | **20,232** | 19,930 |
| Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau | 15 | **68** | 204 |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol** | | **20,300** | **20,134** |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol** | | | |
| Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill | 14 | **2,381** | 4,362 |
| Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau | 15 | **274** | 466 |
| Rhwymedigaethau buddion ymddeol | 19 | **1,148** | 1,206 |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau anghyfredol** | | **3,803** | **6,034** |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau** | | **24,103** | **26,168** |
| **Asedau llai rhwymedigaethau** | | **21,951** | **24,861** |
| **Ecwiti** | | | |
| Cronfeydd wrth gefn | | **21,951** | 24,861 |
| **Cyfanswm ecwiti** | | **21,951** | **24,861** |

Mae'r polisïau a'r nodiadau cyfrifyddu ar dudalennau 74 i 101 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.
Cafodd y datganiadau ariannol hyn eu cymeradwyo gan y Bwrdd ar 21 Mehefin 2016.

**Y Fonesig Patricia Hodgson, DBE**
Cadeirydd

**Sharon White**
Prif Weithredwr a'r Swyddog Cyfrifyddu

# DATGANIAD AM NEWIDIADAU MEWN ECWITI

## Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016

| | Nodiadau | Cronfa wrth gefn £'000 |
|---|---|---|
| **Balans ar 1 Ebrill 2014** | | **31,425** |
| **Newidiadau mewn ecwiti ar gyfer 2014/15** | | |
| Ailfesur pensiynau | 19 | (6,659) |
| Gwarged ar gyfer y flwyddyn | | 95 |
| **Cyfanswm y costau a'r incwm cydnabyddedig ar gyfer 2014/15** | | **(6,564)** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2015** | | **24,861** |
| **Newidiadau mewn ecwiti ar gyfer 2015/16** | | |
| Ailfesur pensiynau | 19 | (2,050) |
| Diffyg ar gyfer y flwyddyn | | (860) |
| **Cyfanswm y costau a'r incwm cydnabyddedig ar gyfer 2015/16** | | **(2,910)** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2016** | | **21,951** |

Mae'r polisïau a'r nodiadau cyfrifyddu ar dudalennau 74 i 101 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

# DATGANIAD AM Y LLIFOEDD ARIAN PAROD

## Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016

| | Nodiadau | 2015/16 £'000 | 2014/15 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Llif arian o weithgareddau gweithredol** | | | |
| Gwarged/(diffyg) gweithredol | | **1,076** | (971) |
| Addasiadau ar gyfer trafodion anariannol | | | |
| Amorteiddio | 9 | **1,137** | 908 |
| Dibrisiant | 8 | **2,046** | 3,368 |
| (Elw)/Colled ar waredu asedau anghyfredol | 6 | **(14)** | 110 |
| Amhariad | 6 | **–** | 624 |
| (Cynnydd)/Lleihad mewn symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill | 10,11 | **(2,356)** | 4,470 |
| (Lleihad)/Cynnydd mewn symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill | 13,14 | **(1,679)** | (2,264) |
| (Lleihad)/Cynnydd mewn darpariaethau | 15 | **(490)** | (389) |
| Cynnydd/(Lleihad) mewn pensiwn ymddeol | 19 | **269** | 223 |
| **(All-lif)/mewnlif arian net o weithgareddau gweithredol** | | **(11)** | **6,079** |
| | | | |
| **Llifoedd arian o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Llog a gafwyd | | **94** | 61 |
| Prynu eiddo, peiriannau a chyfarpar | 8 | **(1,229)** | (1,002) |
| Prynu asedau anniriaethol | 9 | **(1,598)** | (1,407) |
| Elw o werthu asedau anghyfredol | | **35** | 1 |
| **All-lif arian net o weithgareddau buddsoddi** | | **(2,698)** | **(2,347)** |
| | | | |
| **Llifoedd arian o weithgareddau cyllido** | | | |
| Ad-dalu benthyciadau | | **–** | – |
| **All-lif arian net o weithgareddau cyllido** | | **–** | **–** |
| | | | |
| **(Lleihad)/Cynnydd mewn arian parod a'r hyn sy'n gyfystyr ag arian parod yn ystod y flwyddyn** | | **(2,709)** | **3,732** |
| | | | |
| **Arian parod a'r hyn sy'n gyfystyr ag arian parod ar ddechrau'r flwyddyn** | 12 | **14,279** | **10,547** |
| (Lleihad)/Cynnydd mewn arian parod a'r hyn sy'n gyfystyr ag arian parod yn ystod y flwyddyn | | **(2,709)** | 3,732 |
| **Cronfeydd net terfynol** | 12 | **11,570** | **14,279** |

Mae'r polisïau a'r nodiadau cyfrifyddu ar dudalennau 74 i 101 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

# NODIADAU I'R CYFRIFON

## Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016

### 1. Y sail dros gyflwyno a'r prif bolisïau cyfrifyddu

Mae'r **Swyddfa Gyfathrebiadau (Ofcom)** yn sefydliad sydd wedi'i leoli yn y Deyrnas Unedig, ac mae'n darparu amrywiaeth eang o wasanaethau rheoleiddio. Cafodd datganiadau ariannol y Sefydliad ar gyfer 31 Mawrth 2016 eu paratoi'n unol â'r Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRS), a gyhoeddir gan y Bwrdd Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol (IASB), yn ogystal â'r dehongliadau a gyhoeddir gan y Pwyllgor Dadansoddi Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRIC), fel y'u cymeradwywyd gan yr Undeb Ewropeaidd.

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn dan y confensiwn cost hanesyddol, a addaswyd drwy brisio rhai asedau anghyfredol, ar sail busnes byw, yn unol â'r Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRS). Paratoir y datganiadau ariannol ar sail holl ddehongliadau a safonau cyfrifyddu IFRS ac yn unol â Deddf Cwmnïau 2006 sy'n berthnasol i gwmnïau sy'n llunio adroddiadau o dan IFRS ac Erthygl 4 o Reoliad IAS yr Undeb Ewropeaidd, ac eithrio pan fydd Deddf Swyddfa Gyfathrebiadau 2002 yn eu dirymu. Paratoir y datganiadau ariannol hyn yn unol â'r cyfarwyddyd ar gyfrifon a gyhoeddwyd ar 16 Ionawr 2008 gan yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau a'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, sy'n rhan o'r Memorandwm Ariannol fel y'i cymeradwywyd gan yr adrannau hynny.

Caiff symiau yn y Datganiadau Ariannol eu datgan mewn punnoedd sterling, sef yr arian y mae'r sefydliad yn delio ag ef.

#### a) Mabwysiadu safonau newydd a diwygiedig

Mae rhai safonau newydd, dehongliadau a diwygiadau i safonau cyfredol, a restrir isod, wedi cael eu cyhoeddi ond nid ydynt yn cael effaith sylweddol ar ddatganiadau ariannol Ofcom. Bydd yr holl safonau isod yn berthnasol i gyfnodau cyfrifyddu yn y dyfodol.

- IAS 16 Property Plant and Equipment ac IAS 38 Intangible Assets (Amendment) sy'n berthnasol i gyfnodau blynyddol sy'n dechrau ar 1 Ionawr 2016 neu ar ôl hynny
- IAS 27 Separate Financial Statements (Amendment) sy'n berthnasol i gyfnodau blynyddol sy'n dechrau ar 1 Ionawr 2016 neu ar ôl hynny
- IAS 1 Presentation of Financial Statements (Amendment) sy'n berthnasol i gyfnodau blynyddol sy'n dechrau ar 1 Ionawr 2016 neu ar ôl hynny
- Gwelliannau blynyddol i gylch 2012-2014 yr IFRS (Mae mân newidiadau i'r safonau canlynol yn berthnasol i gyfnodau blynyddol sy'n dechrau ar 1 Ionawr 2016 neu ar ôl hynny). Y safonau hyn yw IFRS 5 Non-current Assets Held for Sale and Discontinued Operations, IFRS 7 Financial Instruments: Disclosures, IAS 19 Employee Benefits, IAS 34 Interim Financial Reporting.

#### b) Cydnabod incwm

Mae incwm yn cynnwys gwerth teg y gydnabyddiaeth a dderbyniwyd neu sydd i'w derbyn yn ystod gweithgarwch arferol Ofcom. Dangosir incwm yn net o dreth ar werth, enillion, ad-daliadau a gostyngiadau.

Mae Ofcom yn cydnabod incwm pan fydd yr incwm yn gallu cael ei fesur yn ddibynadwy a'i bod yn debygol y bydd buddion economaidd yn llifo i'r endid yn y dyfodol.

**Cymorth grant**

Mae'r incwm hwn yn cynnwys cymorth grant gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i dalu costau rheoli sbectrwm, dyfarnu a chlirio sbectrwm, gorfodi cyfraith cystadleuaeth, profion budd y cyhoedd, asesiadau cyfryngau lleol, rhwystro gwefannau, cyd-fentrau, galwadau niwsans ac amddiffyn defnyddwyr. Caiff cymorth grant a geir gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ei ddyrannu a'i gyfateb i'r costau yn y flwyddyn sy'n berthnasol iddo.

Mae'r rhaglen glirio 700MHz yn goruchwylio'r gwaith o glirio'r band UHF 700MHz (gan gynnwys lleihau unrhyw ymyriant posibl). Caiff y gwaith clirio ei wneud gan drydydd partïon sy'n cael eu talu drwy grantiau cyfalaf sydd wedi cael eu hystyried a'u cymeradwyo mewn egwyddor gan Fwrdd Rheoli'r Rhaglen Clirio a Dyfarnu Sbectrwm, cyn cael eu cymeradwyo'n derfynol gan Drysorlys EM. Mae'r rhaglen yn cael ei hariannu gan grant.

Mae'r rheini sy'n cael grantiau ar gyfer y rhaglen yn gofyn am gyllid gan Ofcom unwaith y bydd amodau'r grant wedi cael eu bodloni. O ran y grantiau a ddyfarnwyd, dim ond am y costau gwirioneddol sydd wedi codi y bydd Ofcom yn talu, a bydd yn cydnabod y costau wrth gytuno i dalu'r arian y gofynnwyd amdano i'r derbynnydd.

### Ffioedd gweinyddu gwasanaethau, rhwydweithiau a gwasanaethau post

Rhoddir cyfrif am incwm sy'n cynnwys ffioedd gweinyddol a anfonebwyd gan Ofcom ar sail gronnus. Caiff incwm sy'n uwch na chostau arian gwasanaethau a rhwydweithiau a gwasanaethau post ei nodi fel incwm gohiriedig ar y Datganiad am y Sefyllfa Ariannol. Caiff costau arian sy'n fwy na'r incwm a gafwyd eu trin fel symiau derbyniadwy ar ddiwedd y cyfnod adrodd.

### Ffioedd trwyddedau darlledu

Mae incwm o ffioedd trwyddedau darlledu'n cynrychioli'r swm a anfonebwyd i'r rheini sy'n dal trwyddedau, a rhoddir cyfrif amdano ar sail gronnus. Caiff incwm sy'n uwch na chostau arian darlledu ei drin fel incwm gohiriedig ar y Datganiad am y Sefyllfa Ariannol. Caiff costau arian sy'n fwy na'r incwm a gafwyd eu trin fel symiau derbyniadwy ar ddiwedd y cyfnod adrodd.

### Ffioedd ymgeisio

Ni ellir ad-dalu ffioedd ymgeisio ar gyfer darlledu a rhwydweithiau na gwasanaethau un-tro, ac felly cânt eu cofnodi fel incwm adeg derbyn cais y rhanddeiliad.

### Incwm arall

Rhoddir cyfrif am incwm arall ar sail gronnus, a chaiff ei gyfateb i'r gwariant y mae'n cyfrannu ato.

## c) Derbyniadau a gasglwyd gan Ofcom o fewn cwmpas Adran 400 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003

Yn unol ag Adran 400 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003, bydd Taliadau Ychwanegol dan y Ddeddf Darlledu, derbyniadau Rhifau Daearyddol a Chosbau Ariannol y mae Ofcom yn eu codi yn cael eu had-dalu i'r Gronfa Gyfunol. Hefyd, caiff ffioedd trwyddedau y mae Ofcom yn eu codi, sy'n deillio o gyhoeddi neu adnewyddu trwyddedau dan y Deddfau Telegraffiaeth Ddi-wifr, eu had-dalu i'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i'w talu i'r Gronfa Gyfunol.

Ni wneir unrhyw gofnodion yn y Datganiadau Ariannol hyn o ran trafodion sy'n gysylltiedig ag Adran 400, onid yw'r taliadau a'r ffioedd wedi'u casglu a'u rhoi ym mhrif gyfrif banc Ofcom ar ddiwedd y cyfnod adrodd. Dangosir y rhain fel symiau sy'n ddyledus i'r Gronfa Gyfunol o dan Arian parod a'r hyn sy'n gyfystyr ag arian parod.

Mae Ofcom yn paratoi set o gyfrifon ariannol ar wahân hyd at 31 Mawrth bob blwyddyn at ddibenion Adran 400 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003. Caiff y rhain eu cyflwyno gerbron y Senedd.

## d) Lesoedd

Bydd lesoedd lle bydd y lesddaliwr yn agored i gyfran sylweddol o'r risgiau a'r manteision sydd ynghlwm wrth berchnogaeth yn cael eu trin fel lesoedd gweithredol. Caiff taliadau a wnaed ac a gafwyd dan lesoedd gweithredol eu cydnabod fel Incwm neu Wariant ar sail llinell syth dros gyfnod y les. Caiff cymhellion lesoedd eu cydnabod fel rhan greiddiol o gyfanswm gwerth y les, dros gyfnod y les pan na ellir ei chanslo.

## e) Eiddo, peiriannau a chyfarpar

Mae eiddo, peiriannau a chyfarpar yn cynnwys prynu asedau newydd ac ymestyn, datblygu neu ddisodli'r asedau presennol.

Y trothwy cyfalaf lleiaf yw £2,500 a chaiff eiddo, peiriannau a chyfarpar eu cofnodi ar sail cost neu gost dybiedig, llai dibrisiant cronedig ac unrhyw golledion amhariad. Mae arweiniad gan y Trysorlys ar eiddo, peiriannau a chyfarpar yn caniatáu i Ofcom ddefnyddio costau hanesyddol dibrisiedig i gynrychioli gwerth presennol asedau nad ydynt yn eiddo sydd ag oes ddefnyddiol fer neu werth isel. Mae holl asedau Ofcom yn perthyn i'r categori hwn.

Dim ond pan fydd yn debygol y bydd buddion economaidd sy'n gysylltiedig â'r eitem yn llifo i Ofcom yn y dyfodol, ac y gellir mesur cost yr eitem yn ddibynadwy, y caiff costau dilynol eu cynnwys yng ngwerth llyfr yr ased neu eu cydnabod fel ased ar wahân, fel y bo'n briodol. Caiff gwerth llyfr y darn a ddisodlir ei ddadgydnabod.

Caiff eiddo, peiriannau a chyfarpar eu dibrisio fel a ganlyn, ar sail llinell syth, ar gyfraddau a amcangyfrifwyd i ddiddymu eu gwerth llyfr dros eu hamcan oes ddefnyddiol:

| | |
|---|---|
| Gosodiadau a Ffitiadau – Gwelliannau Les | Cyfnod y les |
| Gosodiadau a Ffitiadau – Dodrefn | 7 mlynedd |
| Cyfarpar Swyddfa a Maes | 4 i 7 mlynedd |
| Caledwedd Cyfrifiadurol | 3 i 5 mlynedd |
| Cerbydau Modur | 5 mlynedd |

Caiff dibrisiant ei gyfrifo o'r mis yn dilyn y mis lle mae ased yn cael ei roi ar waith.

Caiff oes ddefnyddiol a gwerthoedd gweddilliol yr asedau eu hadolygu, a'u haddasu os yw'n briodol, ar ddiwedd pob cyfnod adrodd.

Mae enillion a cholledion ar yr hyn a werthir yn cael eu cydnabod yn 'Colledion/(Elw) ar waredu asedau anghyfredol' yn yr adran 'Costau gweithredol eraill' yn y Datganiad Incwm a Gwariant.

## f) Asedau anniriaethol

Nodir asedau anniriaethol ar yr union gost, llai amorteiddiad cronedig, gan ddefnyddio'r model ailbrisio lle caiff yr ailbrisiad effaith sylweddol. Cânt eu hadolygu'n flynyddol i weld a oes amhariad yn unol ag IAS 38 Intangible Assets. Mae'r gwariant a gyfalafwyd yn cynnwys costau rhaglenni meddalwedd a'r gwaith o'u datblygu ynghyd â ffioedd trwyddedau cysylltiedig. Y trothwy cyfalaf lleiaf yw £2,500.

Caiff asedau anghyfredol, anniriaethol, a gynhyrchwyd yn fewnol, megis meddalwedd cyfrifiadurol, eu cydnabod dim ond os gellir adnabod yr ased a grëwyd. Os na ellir cydnabod ased anniriaethol a gynhyrchwyd yn fewnol, caiff gwariant datblygu ei gofnodi fel cost yn y cyfnod y wynebwyd y gwariant.

Caiff amorteiddiad ar gostau datblygu a gyfalafwyd ei godi ar y datganiad incwm ar sail llinell syth, o'r mis yn dilyn y mis lle mae ased yn cael ei roi ar waith, dros amcan oes ddefnyddiol yr ased o 3 - 5 mlynedd.

Mae technoleg gwybodaeth yn ymwneud â datblygu ein systemau craidd, ac mae systemau sydd wrthi'n cael eu datblygu yn cynnwys costau a geir wrth ddatblygu systemau cyfrifiadurol a fydd yn disodli rhai o'r rhaglenni presennol. Nid yw amorteiddiad yn effeithio ar yr asedau hyn sydd wrthi'n cael eu datblygu neu eu hadeiladu. Caiff gwariant ar ymchwil ei ddiddymu fel gwariant a godir ar y Datganiad Incwm a Gwariant.

## g) Amhariad ar asedau

Ar bob dyddiad adrodd, caiff gwerth llyfr asedau anghyfredol ei adolygu i weld a oes unrhyw arwydd bod amhariad wedi digwydd i werth llyfr yr asedau, yn unol ag IAS 36 Impairment of Assets.

Caiff gwerth llyfr ased ei briodoli'n syth, fel colled amhariad, i'w swm adferadwy os yw gwerth llyfr yr ased yn fwy na'i swm adferadwy amcangyfrifiedig.

Caiff amhariadau sylweddol eu datgelu ar wahân yn y nodiadau i'r Datganiad Incwm a Gwariant a'r Datganiad am y Sefyllfa Ariannol. Caiff asedau sydd wedi bod yn destun amhariad eu hadolygu ar bob dyddiad adrodd i weld a ellir gwrthdroi'r amhariad.

## h) Symiau masnach derbyniadwy

Symiau masnach derbyniadwy yw'r arian sy'n ddyledus gan randdeiliaid am drwyddedau, ffioedd a thaliadau. Os disgwylir i'r arian gael ei gasglu mewn blwyddyn neu lai (neu yng nghylch gweithredu arferol y busnes os yw hynny'n hwy), cânt eu trin fel asedau cyfredol. Os na, cânt eu cyflwyno fel asedau anghyfredol.

Caiff symiau masnach derbyniadwy eu cydnabod i gychwyn yn ôl eu gwerth teg llai darpariaeth ar gyfer amhariad.

## i) Arian parod a'r hyn sy'n gyfystyr ag arian parod

Mae arian parod a'r hyn sy'n gyfystyr ag arian parod yn cynnwys arian mewn llaw, arian ar gadw mewn banciau, taliadau rhent a symiau sy'n ddyledus i'r Gronfa Gyfunol.

## j) Symiau masnach taladwy

Ystyr symiau masnach taladwy yw rhwymedigaethau i dalu am nwyddau neu wasanaethau a gafwyd gan gyflenwyr fel rhan o drefniadau busnes arferol. Caiff cyfrifon taladwy eu trin fel rhwymedigaethau cyfredol os yw'r taliad yn ddyledus o fewn blwyddyn neu lai (neu yng nghylch gweithredu arferol y busnes os yw hynny'n hwy). Os na, cânt eu cyflwyno fel rhwymedigaethau anghyfredol.

## k) Buddion gweithwyr

### Cynlluniau Pensiwn

Mae gan Ofcom amryw o gynlluniau pensiwn, sy'n cynnwys cynllun â'r cyfraniadau wedi'u diffinio, dau gynllun â'r buddion wedi'u diffinio, a chynllun nad yw'n cael ei ariannu.

### Cynllun â'r cyfraniadau wedi'u diffinio

Cynllun buddion ar ôl cyflogaeth yw cynllun â'r cyfraniadau wedi'u diffinio, lle mae Ofcom yn talu cyfraniadau i endid ar wahân ac nid oes ganddo rwymedigaeth gyfreithiol nac adeiladol i dalu symiau ychwanegol.

Mae'r rhwymedigaethau o dan gynllun cyfraniadau wedi'u diffinio Ofcom yn cael eu cydnabod o fewn costau staff fel gwariant yn y Datganiad Incwm a Gwariant fel y'u hwynebwyd.

Gall staff newydd ymuno â chynllun pensiwn cyfranddeiliaid, sy'n gynllun â'r cyfraniadau wedi'u diffinio.

### Cynlluniau â'r buddion wedi'u diffinio

Cynllun buddion ar ôl cyflogaeth yw cynllun â'r buddion wedi'u diffinio lle mae'r buddion y bydd gan aelodau hawl iddynt yn cael eu pennu ymlaen llaw gan fformiwla. Mae rhwymedigaeth net Ofcom yng nghyswllt cynlluniau pensiwn â'r buddion wedi'u diffinio yn cael ei chyfrifo ar wahân ar gyfer pob cynllun drwy amcangyfrif faint o fudd ar gyfer y dyfodol y mae gweithwyr wedi'i ennill tra oeddent yn aelodau o'r cynllun. Mae'r budd hwnnw'n cael ei ddisgowntio i bennu ei werth presennol ac mae gwerth teg asedau'r cynllun yn cael ei ddidynnu. Y gyfradd ddisgownt yw'r arenillion ar y dyddiad adrodd ar y bondiau ansawdd uchel sydd â dyddiadau aeddfedu sy'n debyg i delerau rhwymedigaethau Ofcom ac sydd wedi'u trosi i'r un math o arian cyfred y disgwylir talu'r buddion ynddo. Gwneir y cyfrifiad yn flynyddol gan actiwari cymwys, gan ddefnyddio'r dull credydu unedau rhagamcanol.

Pan fydd y cyfrifo yn dwyn budd i Ofcom, mae'r ased cydnabyddedig yn cael ei gyfyngu i werth presennol unrhyw ad-daliadau yn y dyfodol. Caiff colledion ac enillion actiwaraidd eu cydnabod yn llawn yn y Datganiad Newidiadau mewn Ecwiti yn y cyfnod y byddant yn codi. Mae costau ac incwm llog, a chostau gweinyddu'r cynlluniau â'r buddion wedi'u diffinio, yn cael eu cydnabod yn y Datganiad Incwm a Gwariant yn y cyfnod cyfredol.

Mae Ofcom yn cymryd rhan mewn dau gynllun pensiwn â'r buddion wedi'u diffinio sy'n gysylltiedig â staff a symudodd i Ofcom o sefydliadau blaenorol. Mae'r cynlluniau hyn wedi cael eu cau i aelodau newydd, ac ar ôl

ymgynghori ag aelodau'r Cynllun mae wedi cael ei gau ar gyfer croniadau i'r dyfodol er 1 Mehefin 2011.

Mae Cynllun Pensiwn â'r Buddion wedi'u Diffinio Ofcom yn darparu buddion sy'n gyfwerth fwy neu lai â Phrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Yr ail gynllun yw Cynllun Pensiwn Staff Ofcom (ITC gynt). Mae hwn yn gynllun ar gyfer sawl cyflogwr, a'r cyflogwyr sy'n cyfrannu yw Ofcom, ASA ac S4C. Caiff asedau'r ddau gynllun eu dal mewn ymddiriedolaethau a weinyddir ar wahân.

Mae'n ofynnol dan IAS 19, lle bydd cynllun mewn gwarged yn ôl rhagdybiaethau IAS 19, na ellir cydnabod y gwarged ar y Datganiad am Sefyllfa Ariannol Ofcom oni bai fod budd economaidd "ar gael" iddo yn sgil y gwarged.

#### Cynlluniau heb eu cyllido

Mae gan Ofcom rwymedigaethau hefyd o ran taliadau pensiwn i ddau gyn-Gadeirydd y Comisiwn Teledu Annibynnol, dau gyn-Gadeirydd yr Awdurdod Radio, dau gyn-Gyfarwyddwr Cyffredinol y Swyddfa Telegyfathrebiadau a dau gyn-Gadeirydd Postcomm. Rhoddir cyfrif am y buddion hyn nad ydynt yn cael eu hariannu o dan IAS 19 Employee Benefits drwy ddarpariaeth yn y Datganiad am Sefyllfa Ariannol Ofcom sydd yr un fath â gwerth actiwaraidd y rhwymedigaethau hyn.

#### Buddion eraill gweithwyr

#### Costau ymddeol yn gynnar

Mae'r taliad iawndal blynyddol yn rhan o'r pecyn diswyddo ar gyfer rhai cydweithwyr a symudodd i Ofcom ar eu hen delerau ac amodau cyflogaeth fel rhan o'r Gwasanaeth Sifil. O'r dyddiad ymddeol yn gynnar hyd at yr oed ymddeol, bydd y cydweithiwr yn derbyn tâl iawndal blynyddol sydd yr un faint â'r pensiwn a gedwir. Caiff hwn ei dalu bob mis mewn ôl-daliadau, yn yr un modd â phensiwn. Mae'n dechrau cronni ar y diwrnod ar ôl y dyddiad ymddeol, ac yn parhau i gronni nes bydd y pensiwn sydd wedi'i gadw yn cael ei dalu, a bydd yn dod i ben bryd hynny.

#### Rhwymedigaeth yng nghyswllt gwyliau gweithwyr

Dan IAS 19 Employee Benefits, rhaid i'r holl gostau gael eu cofnodi fel gwariant cyn gynted â chyfyd y rhwymedigaeth i dalu gweithwyr. Mae hyn yn cynnwys costau unrhyw wyliau heb eu cymryd ar ddiwedd y flwyddyn.

Mae gan gydweithwyr sydd wedi cwblhau pum mlynedd o wasanaeth di-dor hawl i gael cyfnod sabothol â thâl o hyd at bum wythnos ac wedyn cronni un wythnos ar gyfer pob blwyddyn ychwanegol o wasanaeth hyd at uchafswm o ddeg wythnos. Caiff croniad, sy'n seiliedig ar amcangyfrifon gorau'r rheolwyr gan ddefnyddio data cyfredol ar gyflog a chyfraddau trosiant (churn rates), ei gynnwys fel rhan o'r croniadau. O 1 Ionawr 2008 ymlaen, diddymwyd y budd hwn ar gyfer gweithwyr newydd.

### l) Darpariaethau

Caiff darpariaethau ar gyfer ymddeol yn gynnar, darpariaethau cyfreithiol ac eiddo gwag eu cydnabod: pan fo gan Ofcom rwymedigaeth adeiladol neu gyfreithiol gyfredol yn sgil digwyddiadau yn y gorffennol; pan fo'n debygol y bydd angen all-lif o adnoddau i setlo'r rhwymedigaeth; a phan gafwyd amcangyfrif dibynadwy o'r swm. Ni chaiff darpariaethau eu cydnabod ar gyfer colledion gweithredol yn y dyfodol.

Mae Ofcom yn darparu ar gyfer rhwymedigaethau sy'n ymwneud â lle dros ben yn ei eiddo y mae'n ei lesio, llai cyfraddau disgownt priodol y farchnad. Mae'r darpariaethau'n cynrychioli gwerth presennol net amcan gostau yn y dyfodol ar ôl cydnabod yr incwm rhent eithaf sicr yn y dyfodol. Wrth i'r disgownt ddirwyn i ben, mae hwn wedi'i gynnwys o fewn y costau cyllid eraill yn y datganiad Incwm a Gwariant.

### m) Setlo hawliadau

Gwneir darpariaeth ar gyfer iawndal ac amcan gostau cyfreithiol trydydd parti o ran herio penderfyniadau rheoleiddiol Ofcom os bernir ei bod yn debygol y bydd y rhain yn daladwy.

### n) Cyfnewid arian tramor

Caiff trafodion a ddynodir mewn arian tramor eu trosi'n sterling yn ôl y gyfradd gyfnewid sydd mewn grym ar ddyddiad y trafodyn. Caiff asedau a rhwymedigaethau ariannol a ddynodir mewn arian tramor eu trosi yn ôl y cyfraddau sydd mewn grym ar y dyddiad adrodd a chydnabyddir yr elw neu'r golled ddilynol yn y Datganiad Incwm a Gwariant ar gyfer y flwyddyn.

### o) Offerynnau ariannol a risg credyd

#### Arian parod a'r hyn sy'n gyfystyr ag arian parod

Mae arian parod a'r hyn sy'n gyfystyr ag arian parod yn cynnwys arian mewn llaw, arian ar gadw mewn banciau, taliadau rhent a symiau sy'n ddyledus i'r Gronfa Gyfunol. Caiff incwm llog sydd i'w dderbyn ar arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod ei gydnabod wrth iddo gael ei ennill.

#### Symiau masnach derbyniadwy

Ni cheir llog ar symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill, ac fe'u nodir ar eu gwerth teg. Gwneir darpariaeth os oes tystiolaeth na chaiff yr arian sy'n weddill ei dalu'n llawn.

#### Symiau masnach taladwy

Ni cheir llog ar symiau masnach taladwy, ac fe'u nodir ar eu gwerth teg.

## p) Treth gyfredol a gohiriedig

Mae Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi wedi barnu nad yw swyddogaethau rheoleiddio Ofcom yn golygu ei fod yn fusnes sy'n masnachu. O'r herwydd, ni all Ofcom adennill TAW ar wariant a wynebir fel rhan o'i weithgareddau rheoleiddio.

Gellir asesu Treth Gorfforaeth ar log a dderbynnir, ac yng nghyswllt incwm rhent net ar ôl talu treuliau, sy'n deillio o osod eiddo dros ben.

Ar y dyddiad adrodd, yr oedd gan Ofcom golledion treth heb eu defnyddio i'w gosod yn erbyn incwm trethadwy o £12,104k (2015: £12,067k) yn y dyfodol. Daw'r colledion hyn o ganlyniad i ddarpariaethau les beichus ar eiddo a etifeddwyd oddi wrth gyrff blaenorol nad oedd mo'u hangen pan ymgorfforwyd Ofcom.

### Treth ohiriedig

Darperir treth ohiriedig, gan ddefnyddio'r dull rhwymedigaeth, ar bob gwahaniaeth dros dro ar y dyddiad adrodd rhwng sylfaen trethi asedau a rhwymedigaethau sy'n berthnasol i weithgareddau trethadwy, a'u gwerth llyfr at ddibenion adroddiadau ariannol.

Cydnabyddir asedau treth ohiriedig ar gyfer yr holl golledion treth heb eu defnyddio, i'r graddau y mae'n debygol y bydd elw trethadwy ar gael yn y dyfodol y gellir ei ddefnyddio yn eu herbyn.

## q) Dadansoddiad fesul segment

Ystyr segment yw elfen amlwg yn y sefydliad sy'n ymwneud â naill ai darparu cynnyrch neu wasanaethau (segment busnes), neu ddarparu cynnyrch neu wasanaethau mewn amgylchedd economaidd penodol (segment daearyddol), ac mae'n agored i risgiau a buddion gwahanol i segmentau eraill. Ni chyflwynwyd dadansoddiad o drosiant Ofcom o weithgarwch mewn segment daearyddol na segment busnes, gan y cynhelir holl weithgarwch Ofcom yn y DU ac yn y sector rheoleiddio. Fodd bynnag, er mwyn bodloni gofynion Deddf Cyfathrebiadau 2003 i ddarparu gwybodaeth am gostau a ffioedd, mae Nodyn 2 y datganiadau ariannol hyn yn cyflwyno'r datganiad Incwm a Gwariant ar gyfer y flwyddyn dan sylw fesul sector.

## r) Meysydd y rhoddir barn arnynt a phrif ffynonellau ansicrwydd ynghylch amcangyfrifon

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae gofyn i'r rheolwyr wneud amcangyfrifon a rhagdybiaethau sy'n effeithio ar yr asedau a'r rhwymedigaethau a gofnodwyd, datgeliadau o ran rhwymedigaethau ac asedau wrth gefn, a'r refeniw a'r treuliau a gofnodwyd yn ystod y cyfnod adrodd. Gallai'r canlyniadau gwirioneddol fod yn wahanol i'r amcangyfrifon hyn. Ceir gwybodaeth am farnau ac amcangyfrifon o'r fath yn y polisïau cyfrifyddu neu'r nodiadau i'r datganiadau ariannol, a cheir crynodeb o'r prif feysydd isod.

Dyma'r meysydd y rhoddir barn arnynt sy'n effeithio fwyaf ar y symiau a gydnabyddir yn y datganiadau ariannol:

- Cydnabod refeniw ac asesu refeniw heb ei filio – polisi cyfrifyddu (b)
- Defnyddio asedau treth ohiriedig o ran elw trethadwy a fydd ar gael yn y dyfodol – polisi cyfrifyddu (p)

Dyma'r ffynonellau lle ceir ansicrwydd ynghylch amcangyfrifon a allai achosi addasiad sylweddol i werth llyfr asedau a rhwymedigaethau yn y flwyddyn ariannol nesaf:

- Amcangyfrifon o rwymedigaethau ar gyfer pensiwn a buddion eraill ar ôl ymddeol – polisi cyfrifyddu (k)

## 2. Dadansoddiad Sectoraidd

Mae'r dadansoddiad isod yn cyfeirio at incwm fesul sector am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2016, ynghyd â'r costau a briodolir iddynt.

Paratoir hwn yn unol â Deddf Cyfathrebiadau 2003 a Deddf Gwasanaethau Post 2011 ac nid yng nghyswllt Adroddiad Segmentaidd IFRS 8, yn unol â pholisi cyfrifyddu 1 (q).

| | Rheoli sbectrwm £'000 | Clirio sbectrwm £'000 | Dyfarnu sbectrwm £'000 | Rhwydweithiau gwasanaethau £'000 | Darlledu £'000 | Rheoleiddio Post £'000 | Incwm arall £'000 | 2015/16 Cyf'swm £'000 | 2014/15 Cyf'swm £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Refeniw** | | | | | | | | | |
| Ffioedd trwyddedau a gweinyddu | – | – | – | 36,438 | 17,913 | 5,145 | – | **59,496** | 58,716 |
| Ffioedd ymgeisio | – | – | – | 10 | 619 | – | – | **629** | 1,003 |
| Cymorth grant | 50,744 | 7,432 | 963 | – | – | – | 3,441 | **62,580** | 61,924 |
| Incwm arall | – | – | – | – | – | – | 330 | **330** | 330 |
| Incwm Cronedig/ (Gohiriedig) | 90 | (2,386) | (98) | 1,858 | (1,945) | (178) | (58) | **(2,717)** | (6,769) |
| **Cyfanswm refeniw** | **50,834** | **5,046** | **865** | **38,306** | **16,587** | **4,967** | **3,713** | **120,318** | **115,204** |
| Rhent ac Incwm arall | 181 | – | – | 136 | 59 | 18 | 12 | **406** | 294 |
| **Incwm Gweithredol** | **51,015** | **5,046** | **865** | **38,442** | **16,646** | **4,985** | **3,725** | **120,724** | **115,498** |
| Llog derbyniadwy | 42 | – | – | 31 | 14 | 4 | 3 | **94** | 61 |
| **Cyfanswm incwm** | **51,057** | **5,046** | **865** | **38,473** | **16,660** | **4,989** | **3,728** | **120,818** | **115,559** |
| Eiddo beichus ac incwm rhent cronedig | 1,266 | – | – | 954 | 413 | 123 | 85 | **2,841** | 2,507 |
| **Incwm ariannol** | **52,323** | **5,046** | **865** | **39,427** | **17,073** | **5,112** | **3,813** | **123,659** | **118,066** |
| **Cyfanswm costau** | **(52,323)** | **(5,046)** | **(865)** | **(39,427)** | **(17,073)** | **(5,112)** | **(3,813)** | **(123,659)** | **(118,066)** |
| **Gwarged ar sail cost ariannol** | **–** | **–** | **–** | **–** | **–** | **–** | **–** | **–** | **–** |
| Costau cymharol fesul sector | | | | | | | | | |
| **Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016** | **(52,323)** | **(5,046)** | **(865)** | **(39,427)** | **(17,073)** | **(5,112)** | **(3,813)** | **(123,659)** | |
| Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015 | (52,811) | (2,658) | (1,632) | (35,072) | (17,104) | (4,860) | (3,929) | **(118,066)** | |

Mae incwm arall yn cynnwys:

- cymorth grant yn ymwneud â gwariant yng nghyswllt dyletswyddau ar gyfer ymholiadau cystadleuaeth, gwaith llythrennedd yn y cyfryngau, gweithgarwch profion lles y cyhoedd, asesiadau cyfryngau lleol, galwadau niwsans, diogelu defnyddwyr a mentrau ar y cyd;
- gwaith yn ymwneud â thorri hawlfraint ar-lein a ariennir drwy gymorth grant;
- incwm dyfarnwyr;
- gweithgareddau masnachol, gan gynnwys gwaith ymyriant sbectrwm; ac
- incwm rhent drwy is-osod gofod mewn eiddo gwag.

Yn unol â pholisïau cyfrifyddu Ofcom, fel y nodir yn nodyn 1(b) y cyfrifon hyn, rhoddir cyfrif am gymorth grant yn y cyfnod y'i derbynnir.

Cafodd y tabl uchod ei baratoi ar sail arian wedi'i addasu (adjusted cash basis), sy'n cynnwys gwariant cyfalaf a chyfraniadau gwirioneddol i gynlluniau pensiwn, ond nid yw'n cynnwys dibrisiant.

Mae ffioedd gweinyddol a thrwyddedau Ofcom yn seiliedig ar amcangyfrif o'r costau arian yn unol â'i Ddatganiad Egwyddorion Codi Tâl. Pan geir mwy o incwm na gwariant yn y flwyddyn gyfredol, bydd y gwarged yn cael ei ad-dalu i'r rhanddeiliaid perthnasol ac yn unol â Datganiad Egwyddorion Codi Tâl Ofcom.  Pan geir mwy o wariant nag incwm yn y flwyddyn gyfredol, caiff y diffyg ei gasglu oddi wrth y rhanddeiliaid perthnasol, yn unol â Datganiad Egwyddorion Codi Tâl Ofcom.

### Cysoni'r gwariant gweithredol â'r alldro gweithredol gwirioneddol

| | Nodiadau | 2015/16 £'000 | 2014/15 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Gwariant gweithredol - Datganiad Incwm a Gwariant** | | **119,648** | **116,469** |
| Addasiadau o ran atebolrwydd ac asedau pensiwn | | **(351)** | (305) |
| Costau eiddo gwag | 15 | **401** | 379 |
| Gwariant cyfalaf llai dibrisiant | | **(356)** | (1,867) |
| Taliadau rhent gwirioneddol llai gwariant | | **1,286** | 1,262 |
| Addasiadau eraill | | **3,031** | 2,128 |
| **Gwariant gweithredol - arian** | | **123,659** | **118,066** |
| Clirio sbectrwm | | **(5,046)** | (2,658) |
| Dyfarnu sbectrwm | | **(865)** | (1,632) |
| Incwm anweithredol | | **(3,640)** | (3,061) |
| **Alldro costau gweithredol gwirioneddol** | | **114,108** | **110,715** |

## 3. Incwm

| | Ofcom £'000 | Clirio a Dyfarnu Sbectrwm £'000 | Cyfanswm 2015/16 £'000 | Ofcom £'000 | Clirio a Dyfarnu Sbectrwm £'000 | Cyfanswm 2014/15 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cymorth Grant DCMS** | | | | | | |
| Rheoli sbectrwm | 50,834 | – | **50,834** | 50,637 | – | 50,637 |
| Dyfarnu sbectrwm | – | 865 | **865** | – | 1,632 | 1,632 |
| Clirio sbectrwm | – | 5,046 | **5,046** | – | 2,658 | 2,658 |
| Gorfodi'r gyfraith cystadleuaeth | 2,450 | – | **2,450** | 2,459 | – | 2,459 |
| Galwadau niwsans | 921 | – | **921** | 1,090 | – | 1,090 |
| Amddiffyn defnyddwyr | 44 | – | **44** | 87 | – | 87 |
| **Cymorth grant Llywodraeth yr Alban** | | | | | | |
| Gemau'r Gymanwlad | – | – | **–** | 844 | – | 844 |
| **Cyfanswm cymorth grant gan y llywodraeth** | **54,249** | **5,911** | **60,160** | **55,117** | **4,290** | **59,407** |
| | | | | | | |
| **Incwm rhanddeiliaid** | | | | | | |
| Ffioedd gweinyddol a ffioedd gwneud cais ar gyfer rhwydweithiau a gwasanaethau | 38,306 | – | **38,306** | 34,188 | – | 34,188 |
| Ffioedd trwyddedu a ffioedd gwneud cais yng nghyswllt y Ddeddf Darlledu | 16,587 | – | **16,587** | 16,673 | – | 16,673 |
| Rheoleiddio gwasanaethau post | 4,967 | – | **4,967** | 4,737 | – | 4,737 |
| Incwm arall | 704 | – | **704** | 493 | – | 493 |
| **Cyfanswm incwm rhanddeiliaid** | **60,564** | **–** | **60,564** | **56,091** | **–** | **56,091** |
| | | | | | | |
| **Cyfanswm incwm** | **114,813** | **5,911** | **120,724** | **111,208** | **4,290** | **115,498** |

Mae incymau Clirio a Dyfarnu Sbectrwm wedi'u cyflwyno ar wahân i incwm craidd Ofcom er mwyn rhoi cymhariaeth fwy ystyrlon rhwng y blynyddoedd.

## 4. Costau staff

| | Ofcom<br>£'000 | Clirio a Dyfarnu Sbectrwm<br>£'000 | Cyfanswm 2015/16<br>£'000 | Ofcom<br>£'000 | Clirio a Dyfarnu Sbectrwm<br>£'000 | Cyfanswm 2014/15<br>£'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Yr oedd y costau staff, gan gynnwys y ffioedd a dalwyd i Aelodau'r Bwrdd, fel a ganlyn:** | | | | | | |
| Cyflogau a buddion | 52,601 | 542 | **53,143** | 50,562 | 896 | 51,458 |
| Costau Yswiriant Gwladol | 6,042 | 63 | **6,105** | 6,007 | 105 | 6,112 |
| Costau pensiwn | 5,583 | 46 | **5,629** | 5,375 | 79 | 5,454 |
| Costau ailstrwythuro | 1,497 | – | **1,497** | 734 | – | 734 |
| **Cyfanswm costau staff** | **65,723** | **651** | **66,374** | **62,678** | **1,080** | **63,758** |

Mae'r costau ailstrwythuro yn 2016 yn ymwneud â gweithgareddau ailstrwythuro a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn, ac yn cynnwys croniad ar gyfer y costau hynny nad ydynt wedi'u talu ar ddiwedd y flwyddyn yn ymwneud â chwech (2015: 2) o weithwyr.

Mae gwybodaeth fanylach yng nghyswllt taliadau a hawliau pensiwn y cyfarwyddwyr a'r uwch swyddogion gweithredol ar gael yn yr adroddiad taliadau ar dudalennau 64 i 67.

Yn ystod y flwyddyn, cafodd saith (2015: 7) o weithwyr eu secondio i sefydliadau eraill, felly mae'r credyd hwn wedi'i gynnwys ar y llinell costau staff yn y tabl uchod.

Mae'r costau Clirio a Dyfarnu Sbectrwm wedi'u cyflwyno ar wahân i gostau staff craidd Ofcom er mwyn rhoi cymhariaeth fwy ystyrlon rhwng y blynyddoedd.

## 5. Nifer y gweithwyr

| | 2015/16 | 2014/15 |
|---|---|---|
| **Nifer y gweithwyr ar gyfartaledd (cyfwerth ag amser llawn)** | **795** | **787** |

Ar 31 Mawrth 2016, roedd gan Ofcom 799 o weithwyr (2015: 783).

Nid yw nifer y gweithwyr yn cynnwys Aelodau Anweithredol o Fwrdd Ofcom, y Bwrdd Cynnwys, y Pwyllgorau Ymgynghorol na gweithwyr sydd wedi'u secondio i Ofcom.

## 6. Costau gweithredol eraill

| | Ofcom £'000 | Clirio a Dyfarnu Sbectrwm £'000 | Cyfanswm 2015/16 £'000 | Ofcom £'000 | Clirio a Dyfarnu Sbectrwm £'000 | Cyfanswm 2014/15 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Talu archwilwyr – ffioedd archwilio statudol | 76 | – | **76** | 76 | – | 76 |
| Talu archwilwyr – Adran 400 | 13 | – | **13** | 13 | – | 13 |
| Ffioedd proffesiynol | 5,538 | 988 | **6,526** | 5,832 | 588 | 6,420 |
| Gwasanaethau a ddarperir yn allanol | 10,177 | 19 | **10,196** | 12,146 | 60 | 12,206 |
| Ymchwil i'r gynulleidfa a'r defnyddwyr | 5,759 | 150 | **5,909** | 5,273 | – | 5,273 |
| Ymchwil technolegol a phrosiectau effeithlonrwydd sbectrwm | 646 | 14 | **660** | 1,007 | 1,586 | 2,593 |
| Cynllun clirio sbectrwm | – | 3,852 | **3,852** | – | 47 | 47 |
| Staff dros dro a recriwtio | 4,061 | 156 | **4,217** | 3,126 | 499 | 3,625 |
| Teithio a chynhaliaeth | 1,042 | 24 | **1,066** | 1,178 | 51 | 1,229 |
| Costau eiddo | 7,294 | 13 | **7,307** | 5,914 | 15 | 5,929 |
| Costau gweinyddol a chostau swyddfa | 6,340 | 26 | **6,366** | 6,433 | 122 | 6,555 |
| Costau technoleg a gwybodaeth | 3,774 | 15 | **3,789** | 3,350 | 3 | 3,353 |
| Cerbydau | 247 | – | **247** | 273 | – | 273 |
| Dyledion gwael ac amheus | (119) | – | **(119)** | 109 | – | 109 |
| Amorteiddio | 1,137 | – | **1,137** | 908 | – | 908 |
| Dibrisiant | 2,038 | 8 | **2,046** | 3,365 | 3 | 3,368 |
| (Elw)/Colled ar waredu asedau anghyfredol | (14) | – | **(14)** | 110 | – | 110 |
| Amhariad | – | – | **–** | 624 | – | 624 |
| **Cyfanswm costau gweithredol eraill** | **48,009** | **5,265** | **53,274** | **49,737** | **2,974** | **52,711** |
| Mae'r costau uchod yn cynnwys: | | | | | | |
| Lesoedd gweithredol – tir ac adeiladau | 5,387 | – | **5,387** | 4,737 | – | 4,737 |
| Lesoedd gweithredol – cerbydau | 117 | - | **117** | 136 | – | 136 |
| Lesoedd gweithredol – arall | 245 | – | **245** | 246 | – | 246 |

Mae'r costau Clirio a Dyfarnu Sbectrwm wedi'u cyflwyno ar wahân i gostau gweithredu craidd Ofcom er mwyn rhoi cymhariaeth fwy ystyrlon rhwng y blynyddoedd.

## 7. Trethiant

| | 2015/16 £'000 | 2014/15 £'000 |
|---|---|---|
| **(Tâl)/credyd treth am y flwyddyn** | | |
| Tâl treth ohiriedig | – | (46) |
| **Trethiant** | **–** | **(46)** |

| | 2015/16 £'000 | 2014/15 £'000 |
|---|---|---|
| **Gostyngiad yn yr asedau treth ohiriedig** | **(2,415)** | **–** |

| Cysoni'r tâl treth | 2015/16 £'000 | 2014/15 £'000 |
|---|---|---|
| Gwarged cyn treth | **1,555** | 141 |
| Treth ar elw ar gyfradd safonol Treth Gorfforaeth y DU, sef 20% (2015: 20%) | **311** | 28 |
| Effaith treth: | | |
| Incwm na thelir treth arno | **(24,141)** | (23,100) |
| Costau na thelir treth arnynt | **23,822** | 23,118 |
| Tâl treth ohiriedig | **–** | (46) |
| Cynnydd yn y colledion treth a ddygwyd ymlaen | **8** | – |
| **Costau treth** | **–** | **–** |

| Treth ohiriedig | Tax losses £'000 |
|---|---|
| Dadansoddi newidiadau yn y balans treth ohiriedig net yn ystod y flwyddyn | |
| **Ased treth ohiriedig ar 1 Ebrill 2014** | **2,461** |
| Defnyddio colledion treth a ddygwyd ymlaen | (46) |
| **Ased treth ohiriedig ar 31 Mawrth 2015** | **2,415** |
| Gostyngiad yn yr asedau treth ohiriedig | (2,415) |
| **Ased treth ohiriedig ar 31 Mawrth 2016** | – |
| | |
| Ased treth ohiriedig i'w adfer o fewn 12 mis | – |
| Ased treth ohiriedig i'w adfer ar ôl mwy na 12 mis | – |
| | **–** |

Yn unol ag IAS 12, yn dilyn adolygiad, nid oes gan Ofcom ddigon o elw trethadwy a fydd ar gael yn y dyfodol i ddefnyddio'r ased treth hwn ac felly mae wedi addasu'r ased treth ohiriedig yn unol â hynny.

## 8. Eiddo, peiriannau a chyfarpar

| | Gwelliannau lesddaliad £'000 | Gosodiadau a ffitiadau £'000 | Cyfarpar swyddfa a maes £'000 | Caledwedd cyfrifiadurol £'000 | Cerbydau modur £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cost** | | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2014** | **14,570** | **842** | **14,918** | **6,858** | **409** | **37,597** |
| Ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn | – | 282 | 595 | 125 | – | 1,002 |
| Amhariad | – | – | – | – | – | – |
| Gwaredu | (384) | (109) | (1,907) | (137) | (11) | (2,548) |
| Trosglwyddo | – | – | – | 396 | – | 396 |
| **Ar 31 Mawrth 2015** | **14,186** | **1,015** | **13,606** | **7,242** | **398** | **36,447** |
| Ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn | 4 | 57 | 955 | 54 | 159 | 1,229 |
| Amhariad | – | – | – | – | – | – |
| Gwaredu | (44) | (66) | (566) | (200) | – | (876) |
| Trosglwyddo | – | – | 131 | 251 | – | 382 |
| **Cost ar 31 Mawrth 2016** | **14,146** | **1,006** | **14,126** | **7,347** | **557** | **37,182** |
| **Dibrisiant** | | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2014** | **11,057** | **596** | **11,836** | **5,276** | **130** | **28,895** |
| Taliadau ar gyfer y flwyddyn | 814 | 82 | 813 | 1,594 | 65 | 3,368 |
| Amhariad | – | – | – | – | – | – |
| Gwaredu | (303) | (87) | (1,899) | (137) | (11) | (2,437) |
| Trosglwyddo | – | – | – | – | – | – |
| **Ar 31 Mawrth 2015** | **11,568** | **591** | **10,750** | **6,733** | **184** | **29,826** |
| Taliadau ar gyfer y flwyddyn | 670 | 101 | 901 | 308 | 66 | 2,046 |
| Amhariad | – | – | – | – | – | – |
| Gwaredu | (28) | (64) | (563) | (200) | – | (855) |
| Trosglwyddo | – | – | – | (1) | – | (1) |
| **Dibrisiad cronedig ar 31 Mawrth 2016** | **12,210** | **628** | **11,088** | **6,840** | **250** | **31,016** |
| **Gwerth net ar bapur 31 Mawrth 2016** | **1,936** | **378** | **3,038** | **507** | **307** | **6,166** |
| Gwerth net ar bapur 31 Mawrth 2015 | 2,618 | 424 | 2,856 | 509 | 214 | 6,621 |

Mae cyfarpar a brynwyd ar gyfer y rhaglen Clirio a Dyfarnu Sbectrwm wedi'u cynnwys yng nghofrestri asedau Ofcom o dan Cyfarpar Maes.

## 9. Asedau anniriaethol

| | Trwyddedau meddalwedd £'000 | Technoleg Gwybodaeth £'000 | Systemau sy'n cael eu datblygu £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Cost** | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2014** | **4,893** | **24,190** | **2,125** | **31,208** |
| Ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn | 594 | 184 | 629 | 1,407 |
| Amhariad | (624) | – | – | (624) |
| Gwaredu | – | – | – | – |
| Trosglwyddo | 1,083 | – | (1,479) | (396) |
| **Ar 31 Mawrth 2015** | **5,946** | **24,374** | **1,275** | **31,595** |
| Ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn | 1,321 | – | 277 | 1,598 |
| Amhariad | – | – | – | – |
| Gwaredu | (125) | (102) | – | (227) |
| Trosglwyddo | 20 | 18 | (420) | (382) |
| **Cost ar 31 Mawrth 2016** | **7,162** | **24,290** | **1,132** | **32,584** |
| **Amorteiddio** | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2014** | **4,789** | **22,686** | **–** | **27,475** |
| Taliadau ar gyfer y flwyddyn | 216 | 692 | – | 908 |
| Amhariad | – | – | – | – |
| Gwaredu | – | – | – | – |
| Trosglwyddo | – | – | – | – |
| **Ar 31 Mawrth 2015** | **5,005** | **23,378** | **–** | **28,383** |
| Taliadau ar gyfer y flwyddyn | 481 | 656 | – | 1,137 |
| Amhariad | – | – | – | – |
| Gwaredu | (125) | (102) | – | (227) |
| Trosglwyddo | 1 | – | – | 1 |
| **Amorteiddiad cronedig ar 31 Mawrth 2016** | **5,362** | **23,932** | **–** | **29,294** |
| **Gwerth net ar bapur 31 Mawrth 2016** | **1,800** | **358** | **1,132** | **3,290** |
| Gwerth net ar bapur 31 Mawrth 2015 | 941 | 996 | 1,275 | 3,212 |

## 10. Symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill – symiau sy'n dod yn dderbyniadwy o fewn blwyddyn

| | Ar 31 Mawrth 2016 £'000 | Ar 31 Mawrth 2015 £'000 |
|---|---|---|
| Symiau masnach derbyniadwy | **584** | 617 |
| Symiau derbyniadwy eraill | **24** | 20 |
| Rhagdaliadau | **5,776** | 5,372 |
| Benthyciadau a blaendaliadau staff | **246** | 236 |
| Incwm cronedig | **1,400** | 300 |
| Incwm cronedig (Cymorth Grant DCMS) | **164** | 12 |
| **Cyfanswm symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill – symiau sy'n dod yn dderbyniadwy o fewn blwyddyn** | **8,194** | **6,557** |

Mae benthyciadau staff yn ymwneud â 167 (2015:165) o fenthyciadau tocyn tymor i gydweithwyr i'w talu'n ôl dros 12 mis.

## 11. Symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill – symiau sy'n dod yn dderbyniadwy ar ôl mwy na blwyddyn

| | Ar 31 Mawrth 2016 £'000 | Ar 31 Mawrth 2015 £'000 |
|---|---|---|
| Rhagdaliadau | **–** | 13 |
| Incwm cronedig | **1,464** | 732 |
| **Cyfanswm symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill – symiau sy'n dod yn dderbyniadwy ar ôl mwy na blwyddyn** | **1,464** | **745** |

## 12. Arian parod a'r hyn sy'n gyfystyr ag arian parod

| | Ar 31 Mawrth 2016 £'000 | Ar 31 Mawrth 2015 £'000 |
|---|---|---|
| Banciau masnachol ac arian mewn llaw | **11,570** | 14,279 |
| Balans cronfeydd sy'n gysylltiedig ag Adran 400 – yn ddyledus i'r Gronfa Gyfunol | **–** | – |
| **Cyfanswm arian parod a'r hyn sy'n gyfystyr ag arian parod** | **11,570** | **14,279** |

Mae'r holl weithgareddau a'r balansau ariannol sy'n gysylltiedig â Chosbau a Ffioedd Trwyddedau ar wahân i gyfrifon Ofcom, ac yn cael eu datgelu yng nghyfrifon Adran 400.

## 13. Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill – symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn

| | Ar 31 Mawrth 2016 £'000 | Ar 31 Mawrth 2015 £'000 |
|---|---|---|
| Symiau masnach taladwy | **796** | 2,060 |
| Nawdd cymdeithasol a threth arall | **–** | – |
| Symiau taladwy eraill | **100** | 171 |
| Treth ar Werth sy'n daladwy | **42** | 55 |
| Cymorth Grant DCMS | **2,594** | 2,539 |
| Croniadau | **12,315** | 9,818 |
| Croniad cymhellion les | **1,291** | 1,289 |
| Incwm gohiriedig | **3,094** | 3,998 |
| **Cyfanswm symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill – symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn** | **20,232** | **19,930** |

Targed y Llywodraeth ar gyfer talu i gyflenwyr yw pum diwrnod. Yn ogystal â chyflenwyr bach a chanolig, mae Ofcom hefyd yn cynnwys cyflenwyr mawr yn y cynllun hwn er mwyn eu hannog i dalu'r busnesau bach sy'n eu cyflenwi nhw o fewn cyfnod llai.

O ran perfformiad Ofcom yng nghyswllt y targedau hyn yn 2015/16, llwyddwyd i gyrraedd 93.06% ar gyfartaledd (2014/15: 93.79%).

## 14. Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill – symiau sy'n dod yn ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn

| | Ar 31 Mawrth 2016 £'000 | Ar 31 Mawrth 2015 £'000 |
|---|---|---|
| Croniad cymhellion les | **1,936** | 3,224 |
| Incwm gohiriedig | **445** | 1,138 |
| **Cyfanswm symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill – symiau sy'n dod yn ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn** | **2,381** | **4,362** |

## 15. Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

| | Ymddeol yn gynnar £'000 | Eiddo gwag £'000 | Cyfreithiol £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Ar 1 Ebrill 2014** | **311** | **892** | **–** | **1,203** |
| Disgownt wedi'i ddad-ddirwyn yn ystod y flwyddyn | 5 | 5 | – | 10 |
| Defnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | (70) | (379) | – | (449) |
| Darpariaeth wedi'i chynyddu/ (wedi'i rhyddhau) | 16 | (170) | 60 | (94) |
| **Ar 31 Mawrth 2015** | **262** | **348** | **60** | **670** |
| Disgownt wedi'i ddad-ddirwyn yn ystod y flwyddyn | 3 | 2 | – | 5 |
| Defnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | (29) | (401) | – | (430) |
| Darpariaeth wedi'i chynyddu/ (wedi'i rhyddhau) | 5 | 152 | (60) | 97 |
| **Cyfanswm darpariaethau ar 31 Mawrth 2016** | **241** | **101** | **–** | **342** |

Cyfrifir y darpariaethau yn unol â gofynion IAS 37. Bydd disgownt o 1.37% (2015: 1.3%) ar y darpariaethau ymddeol yn gynnar y flwyddyn yn unol â chyfarwyddyd Trysorlys Ei Mawrhydi; bydd pob darpariaeth arall sydd â therfyn amser o 0 i 5 mlynedd yn destun disgownt yn ôl y gyfradd ddisgownt tymor byr o 0.70% (2015: 0.58%) ac ar gyfer darpariaethau â therfyn amser o 5 i 10 mlynedd, bydd y gyfradd tymor canolig o 1.60% (2015: 2.18%) yn berthnasol.

| Dadansoddiad o amseru disgwyliedig y llifoedd arian | Ymddeol yn gynnar £'000 | Eiddo gwag £'000 | Cyfreithiol £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfredol** | | | | |
| Ddim hwyrach na blwyddyn | 29 | 39 | – | **68** |
| | **29** | **39** | **–** | **68** |
| **Anghyfredol** | | | | |
| Hwyrach na blwyddyn ond ddim hwyrach na phum mlynedd | 97 | 62 | – | **159** |
| Hwyrach na phum mlynedd | 115 | – | – | **115** |
| | **212** | **62** | **–** | **274** |
| **Cyfanswm darpariaethau ar 31 Mawrth 2016** | **241** | **101** | **–** | **342** |

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer ymddeol yn gynnar, sef £241k (2015: £262k), ar gyfer Taliadau Iawndal Blynyddol. Mae'r taliadau iawndal blynyddol yn rhan o'r pecyn diswyddo ar gyfer rhai cydweithwyr a symudodd i Ofcom ar eu hen delerau ac amodau cyflogaeth fel rhan o'r Gwasanaeth Sifil.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer eiddo gwag yn berthnasol i un eiddo sydd, er ei fod yn cael ei ddefnyddio gan Ofcom, yn cynnwys lle nad oes mo'i angen. Cymerwyd cyngor proffesiynol wrth farchnata eiddo gwag, a bydd llifoedd incwm y dyfodol yn cael eu cydnabod pan fydd yr eiddo yn eithaf sicr o gael ei is-osod. Y ddarpariaeth yw gwerth cyfredol net yr all-lif arian disgwyliedig a gyfrifir hyd at yr egwyl nesaf yn y les, net o werth gostyngedig llifoedd incwm y dyfodol a gaiff eu sicrhau o gytundebau is-osod ar gyfer y dyfodol yr ymrwymir iddynt neu gytundebau is-osod sy'n eithaf sicr o ddigwydd.

## 16. Ymrwymiadau dan lesoedd gweithredol

| | Adeiladau £'000 | Cerbydau £'000 | Arall £'000 | Ar 31 Mawrth 2016 Cyfanswm £'000 | Adeiladau £'000 | Cerbydau £'000 | Arall £'000 | Ar 31 Mawrth 2015 Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dyma gyfanswm y taliadau les lleiaf dan lesoedd gweithredol yn y dyfodol:** | | | | | | | | |
| Ddim hwyrach na blwyddyn | 8,802 | 28 | 112 | **8,942** | 8,787 | 22 | 67 | **8,876** |
| Hwyrach na blwyddyn ond ddim hwyrach na phum mlynedd | 13,514 | – | 180 | **13,694** | 21,969 | – | 1 | **21,970** |
| Hwyrach na phum mlynedd | 512 | – | – | **512** | 616 | – | – | **616** |
| **Cyfanswm ymrwymiadau dan lesoedd gweithredol** | **22,828** | **28** | **292** | **23,148** | **31,372** | **22** | **68** | **31,462** |

Mae cytundeb les Riverside House yn para tan fis Medi 2022, gydag opsiwn i aildrafod y les ym mis Medi 2018.

## 17. Symiau derbyniadwy dan lesoedd gweithredol

| | Ar 31 Mawrth 2016 Adeiladau £'000 | Ar 31 Mawrth 2015 Adeiladau £'000 |
|---|---|---|
| **Dyma'r taliadau les lleiaf sy'n dderbyniadwy dan lesoedd gweithredol na ellir eu canslo yn y dyfodol:** | | |
| Ddim hwyrach na blwyddyn | **2,338** | 2,297 |
| Hwyrach na blwyddyn ond ddim hwyrach na phum mlynedd | **3,514** | 6,861 |
| Hwyrach na phum mlynedd | – | – |
| **Cyfanswm symiau derbyniadwy dan lesoedd gweithredol** | **5,852** | **9,158** |

Mae Ofcom wedi llunio contractau is-les o ran swyddfeydd nad oes mo'u hangen yn adeilad ei brif swyddfa.

## 18. MG Alba

Yn unol ag Adran 210 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 ac Adran 183 o Ddeddf Darlledu 1990, talodd Gweinidogion yr Alban £10,225k (2015: £12,870k) i Ofcom. Hefyd, talodd yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon £1,000k (2015: £1,000k) i Ofcom. Nid yw'r symiau hyn wedi'u hadlewyrchu yn y cyfrifon hyn ond fe'u talwyd gan Ofcom i'r Gronfa Darlledu Gaeleg dan reolaeth Seirbheis nam Meadhanan Gàidhlig (MG Alba). Mae MG Alba yn paratoi cyfrifon ac adroddiadau ar wahân ar gyfer hyd at 31 Mawrth bob blwyddyn. Bydd Ofcom yn anfon y rhain at Ysgrifennydd Gwladol yr Alban ac at Weinidogion yr Alban i'w cyflwyno gerbron Senedd yr Alban.

## 19. Rhwymedigaethau buddion ymddeol

Mae gan Ofcom amryw o gynlluniau pensiwn, sy'n cynnwys cynllun â'r cyfraniadau wedi'u diffinio, cynlluniau â'r buddion wedi'u diffinio, a chynlluniau heb eu hariannu.

### A) Cynllun â'r cyfraniadau wedi'u diffinio – cynllun pensiwn cyfranddeiliaid

Prif ffordd Ofcom o ddarparu buddion pensiwn i'w gydweithwyr yw drwy gyfrannu at gynllun pensiwn cyfranddeiliaid. Cyfrannodd y cyflogwr £4,903k yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2016 (2015: £4,774k). Mae adran cyfraniadau wedi'u diffinio hefyd yng Nghynllun Pensiwn â'r Buddion wedi'u Diffinio Ofcom. Ond, mae wedi cau bellach ac nid oes dim mwy o gyfraniadau'n cael eu gwneud i'r trefniant hwn.

### B) Cynlluniau pensiwn â'r buddion wedi'u diffinio

Mae gan Ofcom ddau gynllun pensiwn â'r buddion wedi'u diffinio, er i'r ddau gau i groniadau yn y dyfodol ar 1 Mehefin 2011:

- Sefydlwyd Cynllun Pensiwn â'r Buddion wedi'u Diffinio Ofcom ar 29 Rhagfyr 2003. Cyfraniad y cyflogwr i Gynllun Pensiwn â'r Buddion wedi'u Diffinio Ofcom am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2016 oedd £366k yng nghyswllt costau'r Cynllun (2015: £365k). Ni throsglwyddwyd arian o gyfrif yr Ymddiriedolaeth Bwydo i'r Cynllun hwn yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2016 (2015: £0k); a
- Chynllun Pensiwn Ofcom (cynllun ITC gynt), y mae Ofcom yn rhan ohono ar y cyd â thri sefydliad arall, sef S4C, S4C Masnachol a'r Awdurdod Safonau Hysbysebu. Cyfraniad y cyflogwr i Gynllun Pensiwn Ofcom (ITC gynt) am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2016 oedd £9k yng nghyswllt costau'r Cynllun (2015: £10k). Cafodd cyfraniadau cyflogwr o £180k eu trosglwyddo o gyfrif yr Ymddiriedolaeth Bwydo i Gynllun Pensiwn Ofcom (cynllun ITC gynt) yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2016 (2015: £8,042k).

Rheolir y ddau Gynllun hyn gan Fwrdd Ymddiriedolwyr sy'n annibynnol ar Ofcom.

Pennir cyfraniadau arian Ofcom i'r ddau gynllun hyn yn unol â Deddf Pensiynau 2004. O dan y ddeddf rhaid bod yn llawer mwy darbodus wrth fesur y rhwymedigaethau nag o dan IFRS. Cafodd prisiadau ariannu o dan y Ddeddf Pensiynau – a oedd yn dod i rym ar 31 Mawrth 2012 – eu cwblhau ar gyfer y ddau gynllun â'r buddion wedi'u diffinio ac, yn wahanol i IFRS, roedd yn dangos diffyg cyfun sylweddol o £5,218k.

Cytunwyd ar amserlenni cyfraniadau gydag Ymddiriedolwr y ddau gynllun oherwydd y prisiadau hyn. Dan yr amserlenni presennol, byddai Ofcom yn disgwyl cyfrannu £540k i'r ddau gynllun â'r buddion wedi'u diffinio dros y 12 mis nesaf ar gyfer talu costau'r Cynlluniau. Talwyd £555k yn ystod y flwyddyn i 31 Mawrth 2016 (gan gynnwys y cyfraniad a dalwyd o'r Ymddiriedolaeth Bwydo).

Mae prisiadau ariannu 31 Mawrth 2015 wrthi'n cael eu cwblhau. Ni ddisgwylir y bydd cyfraniadau Ofcom i'r ddau gynllun hyn yn arwain at newid o bwys ar ôl i brisiadau ariannu 2015 gael eu cwblhau.

Mae gan Ofcom gyfrif Ymddiriedolaeth Bwydo sydd wedi'i ymgorffori yn Asedau'r Cynllun Pensiwn. Dim ond i un o'r ddau Gynllun Pensiwn â'r Buddion wedi'u Diffinio y ceir talu arian a drosglwyddir i'r cyfrif ymddiriedolaeth ac a gedwir ynddo, ac ni cheir ei ddefnyddio at unrhyw ddiben arall.

Nid yw Ofcom wedi gwneud unrhyw gyfraniad yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2016 i'r Ymddiriedolaeth Bwydo (2015: £0k). Balans yr Ymddiriedolaeth Bwydo ar 31 Mawrth 2016 oedd £8,369k (2015: £8,505k).

Mae Ofcom hefyd yn gyfrifol am gyflawni rhwymedigaethau pensiwn na chânt eu hariannu ar ran cyn-Gadeiryddion y Comisiwn Teledu Annibynnol, yr Awdurdod Radio a Postcomm, ynghyd â chyn-Gyfarwyddwyr Cyffredinol Telegyfathrebiadau. Ni chaiff y ddarpariaeth pensiynau ei hariannu, ac mae'r buddion yn cael eu talu wrth iddynt ddod yn ddyledus a chael eu gwarantu gan Ofcom. Nid oes cronfa, ac felly nid oes gwarged na diffyg. Ceisiwyd cyngor actiwari er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth wedi'i phennu ar lefel realistig.

## Crynodeb o rwymedigaethau pensiynau â'r buddion wedi'u diffinio Ofcom

Dyma'r symiau a gydnabyddir yn y Datganiad Sefyllfa Ariannol:

| | Pensiynau â'r buddion wedi'u diffinio a ariennir | Rhwymedig-aethau pensiwn na chânt eu hariannu | Cyfanswm buddion ymddeol | Pensiynau â'r buddion wedi'u diffinio a ariennir | Rhwymedig-aethau pensiynau na chânt eu hariannu | Cyfanswm buddion ymddeol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 31 Mawrth 2016 £'000 | 31 Mawrth 2016 £'000 | 31 Mawrth 2016 £'000 | 31 Mawrth 2015 £'000 | 31 Mawrth 2015 £'000 | 31 Mawrth 2015 £'000 |
| Statws ariannu, diwedd y flwyddyn | | | | | | |
| - rhwymedigaeth o ran buddion yng nghyswllt aelodau gohiriedig | (71,806) | – | **(71,806)** | (83,200) | – | **(83,200)** |
| - rhwymedigaeth o ran buddion yng nghyswllt aelodau sy'n bensiynwyr | (170,811) | (1,148) | **(171,959)** | (172,164) | (1,206) | **(173,370)** |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau buddion** | **(242,617)** | **(1,148)** | **(243,765)** | **(255,364)** | **(1,206)** | **(256,570)** |
| Gwerth teg asedau'r cynllun | 257,987 | – | **257,987** | 272,564 | – | **272,564** |
| **Statws ariannu** | **15,370** | **(1,148)** | **14,222** | **17,200** | **(1,206)** | **15,994** |
| Swm heb ei gydnabod oherwydd terfyn asedau * | – | – | – | – | – | – |
| **Statws ariannu net** | **15,370** | **(1,148)** | **14,222** | **17,200** | **(1,206)** | **15,994** |

* Mae'n ofynnol dan IAS19, lle bydd cynllun mewn gwarged yn ôl tybiaethau IAS19, na ellir cydnabod y gwarged ar Ddatganiad Sefyllfa Ariannol Ofcom oni bai fod budd economaidd "ar gael" iddo yn sgil hynny. Mae gwerth economaidd i'r gwarged yn y Cynllun Buddion wedi'u Diffinio a'r Cyfrif Bwydo, gan fod modd i Ofcom ei adennill. Fodd bynnag, nid yw Rheolau a Gweithred Ymddiriedolaeth Cynllun Ofcom (cynllun ITC gynt) yn caniatáu adennill ased gwarged yn y Cynllun hwn.

## Newidiadau yn ystod y flwyddyn i 31 Mawrth 2016

| | Rhwymedigaeth o ran buddion wedi'u diffinio £'000 | Asedau £'000 | Terfyn asedau £'000 | Cynllun pensiwn a ariennir £'000 | Pensiynau na chânt eu hariannu £'000 | Cyfanswm pensiwn £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwerth agoriadol** | **(255,364)** | **272,564** | **–** | **17,200** | **(1,206)** | **15,994** |
| Costau gweinyddu | – | (726) | – | (726) | – | (726) |
| **Cyfanswm cost y gwasanaeth** | **–** | **(726)** | **–** | **(726)** | **–** | **(726)** |
| **Incwm/(cost) llog** | **(8,608)** | **9,195** | **–** | **587** | **(40)** | **547** |
| Cyfraniadau cyflogwr | – | 375 | – | 375 | – | 375 |
| **Cyfanswm cyfraniadau cyflogwr** | **–** | **375** | **–** | **375** | **–** | **375** |
| Buddion a dalwyd o asedau'r cynllun | 11,845 | (11,845) | – | – | – | – |
| Buddion a dalwyd yn uniongyrchol gan Ofcom | – | – | – | – | 82 | 82 |
| **Cyfanswm y buddion a dalwyd** | **11,845** | **(11,845)** | **–** | **–** | **82** | **82** |
| **Ailfesuriadau** | | | | | | |
| **Enillion/(colledion) actiwaraidd** | **9,510** | **(11,576)** | **–** | **(2,066)** | **16** | **(2,050)** |
| **Gwerth terfynol** | **(242,617)** | **257,987** | **–** | **15,370** | **(1,148)** | **14,222** |

## Newidiadau yn ystod y flwyddyn i 31 Mawrth 2015

| | Rhwymedigaeth o ran buddion wedi'u diffinio £'000 | Asedau £'000 | Terfyn asedau £'000 | Cynllun pensiwn a ariennir £'000 | Pensiynau na chânt eu hariannu £'000 | Cyfanswm pensiwn £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwerth agoriadol** | **(232,238)** | **264,012** | **(8,628)** | **23,146** | **(1,177)** | **21,969** |
| Costau gweinyddu | – | (680) | – | (680) | – | (680) |
| **Cyfanswm cost y gwasanaeth** | **–** | **(680)** | **–** | **(680)** | **–** | **(680)** |
| **Incwm/(cost) llog** | **(10,091)** | **11,433** | **(384)** | **958** | **(51)** | **907** |
| Cyfraniadau cyflogwr | – | 375 | – | 375 | – | 375 |
| **Cyfanswm cyfraniadau cyflogwr** | **–** | **375** | **–** | **375** | **–** | **375** |
| Buddion a dalwyd o asedau'r cynllun | 11,080 | (11,080) | – | – | – | – |
| Buddion a dalwyd yn uniongyrchol gan Ofcom | – | – | – | – | 82 | 82 |
| **Cyfanswm y buddion a dalwyd** | **11,080** | **(11,080)** | **–** | **–** | **82** | **82** |
| **Ailfesuriadau** | | | | | | |
| **Enillion/(colledion) actiwaraidd** | **(24,115)** | **8,504** | **9,012** | **(6,599)** | **(60)** | **(6,659)** |
| **Gwerth terfynol** | **(255,364)** | **272,564** | **–** | **17,200** | **(1,206)** | **15,994** |

| 31 Mawrth 2016 | Asedau a rhwymedigaethau'r pensiynau a ariennir cyn y terfyn asedau £'000 | Terfyn asedau £'000 | Cynllun pensiwn a ariennir £'000 | Pensiynau na chânt eu hariannu £'000 | Cyfanswm pensiwn £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Dyma'r symiau a gaiff eu cydnabod yn y Datganiad Incwm a Gwariant:** | | | | | |
| **Cost gwasanaeth** | **–** | **–** | **–** | **–** | **–** |
| Credyd/(cost) llog net | 587 | – | 587 | (40) | 547 |
| **Credyd/(cost) y buddion wedi'u diffinio a gydnabyddir o dan incwm a gwariant** | **587** | **–** | **587** | **(40)** | **547** |
| Costau gweinyddu | (726) | – | (726) | – | (726) |
| **Incwm/(cost) a gydnabyddir o dan incwm a gwariant** | **(139)** | **–** | **(139)** | **(40)** | **(179)** |

| 31 Mawrth 2016 | Asedau a rhwymedigaethau'r pensiynau a ariennir cyn y terfyn asedau £'000 | Terfyn asedau £'000 | Cynllun pensiwn a ariennir £'000 | Pensiynau na chânt eu hariannu £'000 | Cyfanswm pensiwn £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Dyma'r symiau a gaiff eu cydnabod fel Incwm Cynhwysfawr Arall:** | | | | | |
| Enillion/(colledion) ar rwymedigaethau buddion oherwydd newidiadau yn y rhagdybiaethau ariannol | (1,762) | – | (1,762) | (5) | **(1,767)** |
| Enillion/(colledion) ar rwymedigaethau buddion oherwydd newidiadau yn y rhagdybiaethau demograffig | 3,378 | – | 3,378 | 18 | **3,396** |
| Enillion/(colledion) ar rwymedigaethau buddion oherwydd profiad aelodau | 7,894 | – | 7,894 | 3 | **7,897** |
| **Cyfanswm enillion/(colledion) ar rwymedigaethau buddion** | **9,510** | **–** | **9,510** | **16** | **9,526** |
| Enillion/(colledion) ar asedau'r cynlluniau | (11,576) | – | (11,576) | – | **(11,576)** |
| Enillion/(colledion) oherwydd newid yn y terfyn asedau | – | – | – | – | – |
| **Enillion/(colledion) net** | **(2,066)** | **–** | **(2,066)** | **16** | **(2,050)** |

Mae Ofcom ac Ymddiriedolwyr y Cynlluniau wedi rhoi nifer o gamau ar waith er mwyn gwarchod rhag digwyddiadau sy'n cael effaith negyddol ar sefyllfaoedd ariannol. Yn benodol, mae polisïau blwydd-dal yn diwallu taliadau buddion aelodau'r ddau Gynllun sy'n bensiynwyr a'r holl aelodau nad ydynt yn bensiynwyr yn y Cynllun ITC. Fodd bynnag, mae newidiadau yn amodau'r farchnad yn dal yn gallu effeithio ar y sefyllfaoedd ariannol, yn enwedig y Cynllun Buddion wedi'u Diffinio.

| 31 Mawrth 2015 | Asedau a rhwymedigaethau pensiynau a ariennir cyn y terfyn asedau £'000 | Terfyn asedau £'000 | Pensiwn a ariennir £'000 | Pensiwn nad yw'n cael ei ariannu £'000 | Cyfanswm pensiynau £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Dyma'r symiau a gaiff eu cydnabod yn y Datganiad Incwm a Gwariant:** | | | | | |
| **Cost Gwasanaeth** | **–** | **–** | **–** | **–** | **–** |
| Credyd/(cost) llog net | 1,342 | (384) | 958 | (51) | 907 |
| **Credyd/(cost) y buddion wedi'u diffinio a gydnabyddir o dan incwm a gwariant** | **1,342** | **(384)** | **958** | **(51)** | **907** |
| Costau gweinyddu | (680) | – | (680) | – | (680) |
| **Incwm/(cost) a gydnabyddir o dan incwm a gwariant** | **662** | **(384)** | **278** | **(51)** | **227** |

| 31 Mawrth 2015 | Asedau a rhwymedigaethau pensiynau a ariennir cyn y terfyn asedau £'000 | Terfyn asedau £'000 | Pensiwn a ariennir £'000 | Pensiwn nad yw'n cael ei ariannu £'000 | Cyfanswm pensiynau £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Dyma'r symiau a gaiff eu cydnabod fel Incwm Cynhwysfawr Arall:** | | | | | |
| Enillion/(colledion) ar rwymedigaethau buddion oherwydd newidiadau yn y rhagdybiaethau ariannol | (25,557) | – | (25,557) | (73) | (25,630) |
| Enillion/(colledion) ar rwymedigaethau buddion oherwydd newidiadau yn y rhagdybiaethau demograffig | – | – | – | – | – |
| Enillion/(colledion) ar rwymedigaethau buddion oherwydd profiad aelodau | 1,442 | – | 1,442 | 13 | 1,455 |
| **Cyfanswm enillion/(colledion) ar rwymedigaethau buddion** | **(24,115)** | **–** | **(24,115)** | **(60)** | **(24,175)** |
| Enillion/(colledion) ar asedau'r cynlluniau | 8,504 | – | 8,504 | – | 8,504 |
| Enillion/(colledion) oherwydd newid yn y terfyn asedau | – | 9,012 | 9,012 | – | 9,012 |
| **Enillion/(colledion) net** | **(15,611)** | **9,012** | **(6,599)** | **(60)** | **(6,659)** |

Mae Ofcom ac Ymddiriedolwyr y Cynlluniau wedi rhoi nifer o gamau ar waith er mwyn gwarchod rhag digwyddiadau sy'n cael effaith negyddol ar sefyllfaoedd ariannol. Yn benodol, mae polisïau blwydd-dal yn diwallu taliadau buddion aelodau'r ddau Gynllun sy'n bensiynwyr a'r holl aelodau nad ydynt yn bensiynwyr yn y Cynllun ITC. Fodd bynnag, mae newidiadau yn amodau'r farchnad yn dal yn gallu effeithio ar y sefyllfaoedd ariannol, yn enwedig y Cynllun Buddion wedi'u Diffinio.

### Dyma brif gategorïau asedau'r cynlluniau fel canran o gyfanswm asedau'r cynlluniau:

| | 31 Mawrth 2016 (%) Cyfanswm | 31 Mawrth 2015 (%) Cyfanswm |
|---|---|---|
| Ecwitïau'r DU | 4 | 3 |
| Ecwitïau Tramor | 3 | 3 |
| Bondiau corfforaethol | 3 | 3 |
| Bondiau mynegrifol | 7 | 6 |
| Bondiau llog sefydlog y llywodraeth | 1 | 2 |
| Blwydd-daliadau | 78 | 80 |
| Arian/llog ar arian yn y banc | 4 | 3 |
| **Cyfanswm** | **100** | **100** |

Mae Ofcom ac Ymddiriedolwyr y Cynlluniau wedi rhoi nifer o gamau ar waith i leihau lefel y risg o fuddsoddi. Yn benodol, mae gan y ddau brif gynllun â'r buddion wedi'u diffinio bolisïau blwydd-dal sy'n dileu'r risg fwy neu lai yng nghyswllt y rhan fwyaf o'r aelodau ac mae gan Gynllun Pensiwn â'r Buddion wedi'u Diffinio Ofcom strategaeth ar waith a fydd yn cynyddu'r hyn a ddyrennir i asedau risg is sy'n fwy cydnaws â'r rhwymedigaethau, megis giltiau a bondiau, pan y gellir fforddio gwneud hynny.

### Y prif ragdybiaethau economaidd ar ddyddiad y Datganiad am y Sefyllfa Ariannol:

| | 31 Mawrth 2016 (%) Cyfanswm | 31 Mawrth 2015 (%) Cyfanswm |
|---|---|---|
| Cyfradd ddisgownt | 3.40 | 3.45 |
| Chwyddiant Prisiau Manwerthu | 3.10 | 3.10 |
| - Cynnydd mewn pensiynau yn y dyfodol (RPI) | 3.10 | 3.10 |
| - Cynnydd mewn pensiynau yn y dyfodol (CPI uchafswm 3%) | 1.85 | 1.85 |

### Mae gan gynllun pensiwn Ofcom ddau gynllun ar wahân ac mae'r prif ragdybiaethau demograffig ar ddyddiad y Datganiad am y Sefyllfa Ariannol fel a ganlyn:

| | y Cynllun Buddion wedi'u Diffinio | y Cynllun Buddion wedi'u Diffinio | y Cynllun ITC | y Cynllun ITC |
|---|---|---|---|---|
| Oes ddisgwyliedig aelod 60 oed sy'n... | **40 oed ar hyn o bryd** | **60 oed ar hyn o bryd** | **40 oed ar hyn o bryd** | **60 oed ar hyn o bryd** |
| - Gwryw | 29 | 27 | 30 | 28 |
| - Benyw | 32 | 30 | 33 | 31 |

## Sensitifrwydd i newidiadau yn y prif ragdybiaethau a ddefnyddiwyd

| Newid mewn rhagdybiaethau | Effaith ar | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | y Cynllun Buddion wedi'u Diffinio | | | y Cynllun ITC | | |
| | Rhwymedig-aethau o ran y buddion wedi'u diffinio £'000 | Asedau £'000 | Gwarged statws ariannu £'000 | Rhwymedig-aethau o ran y buddion wedi'u diffinio £'000 | Asedau £'000 | Gwarged statws ariannu £'000 |
| **Cyfradd ddisgownt** | | | | | | |
| Yn codi 0.50% | gostyngiad o £4,732 | gostyngiad o £1,230 | codiad o £3,502 | gostyngiad o £11,857 | gostyngiad o £11,851 | codiad o £6 |
| Yn gostwng 0.50% | codiad o £6,680 | codiad o £1,571 | gostyngiad o £5,109 | codiad o £12,727 | codiad o £12,720 | gostyngiad o £7 |
| **Chwyddiant Prisiau Manwerthu** | | | | | | |
| Yn codi 0.50% | codiad o £6,593 | codiad o £4,483 | gostyngiad o £2,110 | codiad o £9,898 | codiad o £9,893 | gostyngiad o £5 |
| Yn gostwng 0.50% | gostyngiad o £4,705 | gostyngiad o £3,666 | codiad o £1,039 | gostyngiad o £9,443 | gostyngiad o £9,438 | codiad o £5 |
| **Oes ddisgwyliedig aelod 60 oed** | | | | | | |
| Yn codi - blwyddyn | codiad o £1,916 | codiad o £492 | gostyngiad o £1,424 | codiad o £5,650 | codiad o £5,647 | gostyngiad o £3 |
| Yn gostwng - blwyddyn | gostyngiad o £1,680 | gostyngiad o £432 | codiad o £1,248 | gostyngiad o £5,626 | gostyngiad o £5,623 | codiad o £3 |


### Proffil rhwymedigaethau cynlluniau â'r buddion wedi'u diffinio

Mae'r siartiau isod yn dangos y buddion y disgwylir eu talu dan y Cynlluniau perthnasol adeg y prisiad actiwaraidd mwyaf diweddar (Mawrth 2015) dros yr 80 mlynedd nesaf.

Cyfrifir y taliadau buddion a ddisgwylir yn y dyfodol ar sail nifer o ragdybiaethau gan gynnwys chwyddiant yn y dyfodol, oedrannau ymddeol, yr opsiynau a ddewisir yng nghyswllt y buddion a disgwyliad oes, ac felly maent yn siŵr o fod yn ansicr. Gall y gwir daliadau o ran y buddion mewn blwyddyn benodol fod yn uwch neu'n is, er enghraifft, os bydd aelodau'n ymddeol yn gynt neu'n hwyrach na'r hyn a ragdybiwyd, neu'n cymryd mwy neu lai o gyfandaliad arian wrth ymddeol.


**Cynllun Pensiwn â'r Buddion wedi'u Diffinio Ofcom**

Hyd rhwymedigaethau'r Cynllun (y cyfnod cyfartalog i dalu) yw 20 mlynedd




**Cynllun Pensiwn Ofcom (ITC gynt)**

Hyd rhwymedigaethau'r Cynllun (y cyfnod cyfartalog i dalu) yw 14 blynedd



## 20. Partïon cysylltiedig

Nid yw Ofcom o'r farn bod ei swyddogaeth reoleiddio a thrwyddedu'n creu perthynas parti cysylltiedig rhyngddo ef ei hun a deiliaid trwyddedau, fel y caiff ei ddiffinio gan IAS 24, Related Party Disclosures.

Mae Aelodau'r Bwrdd yn cyflwyno datganiad blynyddol yn cadarnhau nad oes ganddynt fuddiannau a fyddai'n dylanwadu ar eu swyddogaeth fel Aelod o Ofcom. Ni chafwyd trafodion rhwng Ofcom a'i Aelodau heblaw am daliadau a gafodd eu datgelu ar wahân yn yr adroddiad taliadau.

Ystyrir mai Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau (BIS) ac Ysgrifennydd Gwladol yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) yw'r partïon cysylltiedig sy'n rheoli Ofcom dan delerau Deddf Swyddfa Gyfathrebiadau 2002.

Darperir manylion yr holl incwm grant gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn Nodyn 2, 3, 10 ac 13 y datganiadau ariannol hyn.

Gweithredir cynllun pensiwn â'r cyfraniadau wedi'u diffinio a dau gynllun â'r buddion wedi'u diffinio. Mae gan un o'r ddau gynllun â'r buddion wedi'u diffinio (y ddau wedi cau i groniadau yn y dyfodol) barti cysylltiedig, S4C. Dylid cyfeirio at Nodyn 19 am ddatgeliad pellach.

Ar 31 Mawrth 2016, roedd y symiau taladwy canlynol gan Ofcom yng nghyswllt cymorth grant a oedd yn ddyledus gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon:

- Clirio a dyfarnu sbectrwm – £2,484k (2015: £1,208k);
- Sectorau eraill (swyddogaethau nad oes modd eu cyllido drwy ffioedd a thaliadau a bennir o dan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003) – £27k (2015: £272k).

Ar 31 Mawrth 2016, roedd y symiau derbyniadwy canlynol gan Ofcom yng nghyswllt cymorth grant a oedd yn ddyledus gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon:

- Rheoli sbectrwm – £110k (2015: £1,035k o symiau taladwy),

Ni chafwyd dim trafodion partïon cysylltiedig eraill yn ystod y flwyddyn ariannol.

## 21. Offerynnau ariannol

Nid yw Ofcom yn agored iawn i beryglon o ran hylifedd, cyfraddau llog ac arian cyfred. Mae IAS 32, Financial Instruments: Presentation yn gofyn bod endid yn datgelu'r rôl y mae offerynnau ariannol wedi'i chwarae yn ystod y flwyddyn o ran creu neu newid y risgiau a wynebir ganddo wrth gyflawni ei weithgareddau. Oherwydd natur gweithgareddau Ofcom, ac oherwydd y modd y caiff ei ariannu, nid yw'n agored i'r un risgiau ariannol a wynebir gan endidau busnes.

Hefyd, mae offerynnau ariannol yn chwarae rôl gyfyngedig o ran creu neu newid risg o'i gymharu â chwmnïau rhestredig y mae IAS 32 yn bennaf berthnasol iddynt. Ychydig iawn o bwerau sydd gan Ofcom i fenthyg neu i fuddsoddi gwargedion o gronfeydd. Nid yw asedau a rhwymedigaethau ariannol a gynhyrchir gan weithgareddau gweithredol beunyddiol yn newid y risgiau y mae Ofcom yn eu hwynebu wrth gyflawni ei weithgareddau.

Nid oes gwahaniaeth o bwys rhwng gwerth teg a gwerth llyfr y rhwymedigaethau a'r asedau ariannol ar y dyddiad adrodd.

Fel y caniateir gan IAS 32, caiff symiau derbyniadwy a thaladwy sy'n aeddfedu neu sy'n dod yn daladwy cyn pen 12 mis ar ôl y dyddiad adrodd eu hepgor o'r asesiad hwn.

## 22. Ymrwymiadau cyfalaf

Ar 31 Mawrth 2016 roedd ymrwymiadau cyfalaf o £113k (2015: £0k).

## 23. Derbyniadau a drosglwyddwyd i'r Gronfa Gyfunol

Yn unol ag Adran 400 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003, anfonodd Ofcom £4,444k (2015: £3,237k) o Ddirwyon a Thaliadau Ychwanegol yn ymwneud â'r Ddeddf Darlledu a Rhifau Daearyddol i'r Gronfa Gyfunol.

Cafodd £265,571k (2015: £269,378k) o ffioedd trwyddedau'r Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr eu hanfon i'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i'w trosglwyddo i'r Gronfa Gyfunol. Datgelir manylion y symiau sy'n ddyledus i'r Gronfa Gyfunol ar 31 Mawrth 2016 yn Nodyn 12 y datganiadau ariannol hyn.

## 24. Rhwymedigaethau wrth gefn

Efallai y bydd Ofcom yn wynebu apeliadau yng nghyswllt penderfyniadau a wneir wrth iddo gyflawni ei swyddogaethau fel rheoleiddiwr y sector cyfathrebiadau. Gallai apeliadau yn erbyn penderfyniadau Ofcom arwain at rwymedigaethau ar gyfer costau cyfreithiol. Bydd Ofcom yn gwneud darpariaeth yn y datganiadau ariannol am gostau i'r graddau eu bod yn debygol ac yn fesuradwy.

## 25. Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Rhwng y dyddiad adrodd a'r dyddiad y cafodd y cyfrifon eu hardystio, ymrwymodd Ofcom i ddau gytundeb les newydd ar gyfer dwy swyddfa. Mae'r rhain yn ddigwyddiadau lle nad oes angen addasu ar ôl i'r cyfnod adrodd ddod i ben.

Ar 29 Ebrill 2016, ymrwymodd Ofcom i les ar gyfer swyddfa newydd yn Warrington gyda les rhwng 29 Gorffennaf 2016 a 28 Gorffennaf 2026 am £92k y flwyddyn heb gynnwys TAW, ar ôl cyfnod trosiannol a heb rent.

Ar 23 Mai 2016, mae Ofcom hefyd wedi llofnodi cytundeb les newydd ar gyfer ei brif swyddfa yn Llundain. Bydd yn dod yn weithredol ar 23 Mehefin 2017 ac yn para tan 28 Medi 2030, gyda'r rhent newydd yn dechrau ar £4,803k y flwyddyn heb gynnwys TAW. Mae'r les newydd a sicrhawyd yn llai o le swyddfa na'r brif swyddfa bresennol.

Yn unol â gofynion IAS 10 Events after the Reporting Period, bydd digwyddiadau ar ôl diwedd y flwyddyn yn cael eu hystyried hyd at ddyddiad awdurdodi'r cyfrifon i'w cyhoeddi. Dehonglir hyn fel dyddiad Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol.

# E

ATODIAD

# BYRDDAU A PHWYLLGORAU OFCOM

## Pwyllgorau'r Bwrdd


### Y Bwrdd Cynnwys

Mae rhagor o fanylion am y Bwrdd Cynnwys ar gael ar dudalen 57.

| | |
|---|---|
| **Aelodau** | Zahera Harb[3] |
| Bill Emmott (Cadeirydd)[1] | Dr David Levy |
| Y Fonesig Lynne Brindley, DBE | Lesley MacKenzie |
| Andrew Chitty | Nick Pollard[5] |
| Tony Close[2] | James Thickett |
| Andrew Colman | Philip Schlesinger |
| Aled Eirug[3] | Mary Ann Sieghart |
| Robin Foster[4] | Janey Walker |

[1] Penodwyd Bill Emmott i'r Bwrdd Cynnwys ar 1 Ionawr 2016.
[2] Penodwyd Tony Close yn Aelod Gweithredol o'r Bwrdd Cynnwys ar 1 Mehefin 2015.
[3] Penodwyd Aled Eirug a Zahera Harb i'r Bwrdd Cynnwys ar 1 Rhagfyr 2015.
[4] Penodwyd Robin Foster i'r Bwrdd Cynnwys ar 1 Ionawr 2016.
[5] Penodwyd Nick Pollard i'r Bwrdd Cynnwys ar 1 Mawrth 2016.

Ymddeolodd Glyn Mathias o'r Bwrdd Cynnwys ar 30 Mehefin 2015, ymddeolodd Tim Gardam o'r Bwrdd Cynnwys ar 31 Rhagfyr 2015 ac roedd yn Gadeirydd tan 31 Rhagfyr 2015. Ymddiswyddodd Claudio Pollack fel Aelod Gweithredol o'r Bwrdd Cynnwys ar 31 Rhagfyr 2015.



## Panel y Gronfa Radio Cymunedol

Mae Adran 359 o'r Ddeddf Cyfathrebiadau yn caniatáu i gronfa gael ei sefydlu ar gyfer gweithredwyr radio cymunedol, a bod Ofcom yn gweinyddu'r gronfa honno gan "roi grantiau y mae'n eu hystyried sy'n briodol" i ddeiliaid trwyddedau radio cymunedol. Mae'r Panel yn cwrdd yn ôl y gofyn i drin a thrafod ceisiadau ac i roi cyfraniadau o'r Gronfa. Mae'n annibynnol ar y Pwyllgor Trwyddedu Darlledu, sy'n dyfarnu trwyddedau radio cymunedol.

**Aelodau**

Wendy Pilmer (Cadeirydd)

Richard Hilton

Fiona Lennox

## Pwyllgor Etholiadau

Mae Adran 333 o'r Ddeddf Cyfathrebiadau yn mynnu bod Ofcom yn sicrhau bod darllediadau gwleidyddol (gan gynnwys darllediadau gwleidyddol etholiadau) a darllediadau ymgyrchoedd refferendwm yn cael eu cynnwys yng ngwasanaethau rhanbarthol ITV, Channel 4, Five, Classic FM, talkSPORT a Virgin 1215. Os bydd unrhyw anghydfod heb ei ddatrys rhwng unrhyw un sy'n dal trwydded ac unrhyw blaid wleidyddol ynghylch hyd, amlder, dyraniad neu amseriad darllediadau, caiff yr anghydfod hwnnw ei gyflwyno i Ofcom i'w ddatrys. Mae Bwrdd Ofcom wedi dirprwyo'r gwaith o ddyfarnu ynghylch unrhyw anghydfod o'r fath i'r Pwyllgor Etholiadau. Mae'r Pwyllgor yn cwrdd yn ôl y galw ac mae'n cynnwys aelodau o Fwrdd Ofcom, y Bwrdd Cynnwys a Phwyllgor Gwaith Ofcom.

## Pwyllgor Gwledydd

Mae'r Pwyllgor Gwledydd yn un o Bwyllgorau uniongyrchol Bwrdd Ofcom. Mae ei rôl yn cynnwys: deall deinameg gwleidyddol pob gwlad yn y DU a chynghori ar ymwneud Ofcom ymhob gwlad; cytuno ar brosesau priodol ar gyfer ymgysylltiad Ofcom â phob un o'r Pwyllgorau Ymgynghorol Cenedlaethol; monitro digwyddiadau rhanddeiliaid ymhob gwlad a goruchwylio cyfraniad ac ymgysylltiad Bwrdd Ofcom ymhob gwlad. Mae ei aelodau'n cynnwys dau Aelod Anweithredol o Fwrdd Ofcom a Chadeiryddion y Pwyllgorau Ymgynghorol Cenedlaethol. Mae Cyfarwyddwyr Gweithredol pob gwlad, ynghyd ag uwch swyddogion gweithredol eraill Ofcom, yn cael eu gwahodd i fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Gwledydd.

## Pwyllgorau Ymgynghorol y Gwledydd

Mae Adran 20 o'r Ddeddf Cyfathrebiadau yn mynnu bod Ofcom yn sefydlu Pwyllgorau Ymgynghorol ar gyfer pob un o wledydd y DU. Swyddogaeth pob Pwyllgor yw darparu cyngor i Ofcom am fuddiannau a safbwyntiau pobl, mewn perthynas â materion cyfathrebiadau a materion post, sy'n byw yn y rhan o'r DU a wasanaethir gan y Pwyllgor. Yn ychwanegol at aelodau penodedig y Pwyllgorau Ymgynghorol Cenedlaethol, mae'r aelod o'r Bwrdd Cynnwys a'r aelod o Banel Defnyddwyr Cyfathrebiadau y gwledydd yn cael gwahoddiad i wylio cyfarfodydd y Pwyllgor Ymgynghorol.

## Aelodau Pwyllgorau Ymgynghorol y Gwledydd

| | Lloegr | Yr Alban | Cymru | Gogledd Iwerddon |
|---|---|---|---|---|
| **Cadeirydd** | John Varney | Laura Alexander | John Davies | Maureen Edmondson OBE |
| **Aelodau** | Barnie Choudhury | Amanda Bryan[1] | Nerys Evans | Fiona Boyle |
| | Graham Creelman OBE | Stuart Gibson[3] | Karen Lewis[2] | Fiona MacMillan |
| | Andrew Davis | Liz Leonard | Glyn Mathias[2] | Brendan Mulgrew |
| | Becky Hogge | Ian McKay | Huw Roberts | Sharon O'Connor |
| | Duncan Ingram | Peter Peacock CBE | Hywel Wiliam | Paul Wilson |
| | | John Trower[1] | | |

# Pwyllgorau Heblaw Rhai'r Bwrdd

## Y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau

Mae Adran 16 o'r Ddeddf Cyfathrebiadau yn ei gwneud yn ofynnol i Ofcom sefydlu Panel Defnyddwyr. Mae'r Panel yn gweithredu fel 'ffrind beirniadol' i Ofcom, gan ddarparu cyngor cadarn ac annibynnol, ond sydd hefyd yn adeiladol a phragmataidd.

Mae'r Panel yn annibynnol ar Ofcom, ac mae'n cynnwys arbenigwyr annibynnol, gan gynnwys cynrychiolwyr o'r Alban, Cymru, Gogledd Iwerddon a Lloegr, ac mae ganddynt brofiad mewn amryw o wahanol feysydd. Ceir rhagor o wybodaeth am y Panel yn **www.communicationsconsumerpanel.org.uk**

**Aelodau**

Dr Jo Connell OBE (Cadeirydd)
Jaya Chakrabarti MBE
Rhys Evans
Rick Hill MBE
Chris Holland
Mairi Macleod
Craig Tillotson
Bob Twitchin MBE

## Y Pwyllgor Ymgynghorol ar Bobl Hŷn a Phobl Anabl

Mae Adran 21(1) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 yn ei gwneud yn ofynnol i Ofcom sefydlu Pwyllgor i gynghori Ofcom ar faterion yn y sector cyfathrebiadau sy'n effeithio ar bobl hŷn a phobl anabl yn arbennig. Er mwyn manteisio ar y synergedd rhwng y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau a'r Pwyllgor Ymgynghorol ar Bobl Hŷn a Phobl Anabl, ac er mwyn osgoi unrhyw ddyblygu posibl, sefydlwyd bod aelodau'n perthyn i'r naill gorff a'r llall yn ystod 2012. Nid yw cylchoedd gwaith y cyrff wedi newid.

**Aelodau**

Dr Jo Connell, OBE (Cadeirydd)
Jaya Chakrabarti MBE
Rhys Evans
Rick Hill [MBE]
Chris Holland
Mairi Macleod
Craig Tillotson
Bob Twitchin MBE

## Bwrdd Ymgynghorol Ofcom ar Faterion Sbectrwm

Sefydlwyd Bwrdd Ymgynghorol Ofcom ar Faterion Sbectrwm yn 2004 i roi cyngor annibynnol i Ofcom ar faterion strategol sy'n ymwneud â rheoli sbectrwm. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan y Bwrdd yn **www.osab.org.uk**

**Aelodau**

David Meyer (Cadeirydd)
Mischa Dohler[4]
Professor Linda Doyle
John Fuller (DCMS) (ex officio)[4]
Philippa Marks
Dr Robert Pepper
Jean-Jacques Sahel
Mike Walker
Gavin Young
David Harrison (ex officio)[5]
David Hendon (ex officio)[5]
Chris Pook (DCMS) (ex officio)[4]
Greg Bensberg
Niall Murphy

[1] Penodwyd Amanda Bryan a John Trower i Bwyllgor Ymgynghorol yr Alban ar 1 Medi 2015.

[2] Penodwyd Karen Lewis i Bwyllgor Ymgynghorol Cymru ar 1 Medi 2015. Bu Glyn Mathias yn gwylio Pwyllgor Ymgynghorol Cymru rhwng 1 Ebrill 2015 a 30 Mehefin 2015 yn rhinwedd ei rôl fel aelod o Fwrdd Cynnwys Cymru. Daeth yn aelod o Bwyllgor Ymgynghorol Cymru ar 1 Gorffennaf 2015.

[3] Ymddeolodd Stuart Gibson o Bwyllgor Ymgynghorol yr Alban ar 31 Mai 2016.

[4] Ymunodd Mischa Dohler â'r Bwrdd Ymgynghorol ar Faterion Sbectrwm ar 1 Ionawr 2016, ac mae Nick Munn o'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi bod yn mynychu'r Bwrdd Ymgynghorol ar Faterion Sbectrwm drwy gydol 2015/16 fel dirprwy ar ran John Fuller a Chris Pook.

[5] Mae David Harrison a David Hendon ill dau yn cael eu cyflogi gan Ofcom.

# DATGANIADAU RHEOLEIDDIO

## Rhestr o'r datganiadau a gyhoeddwyd yn 2015/16 gan gynnwys yr effaith reoleiddio ar randdeiliaid

| |
|---|
| **Cyfrannu at bolisi cyhoeddus a ddiffinnir gan y Senedd, a'i roi ar waith** |
| **Maes Gwaith Sylweddol: Cwblhau adolygiad Ofcom o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus** |
| Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus yn oes y Rhyngrwyd |
| Adolygiad o Channel 4 – Perfformiad Corfforaeth Channel 4 wrth gyflawni ei dyletswyddau mewn perthynas â chynnwys cyfryngau |
| **Maes Gwaith Sylweddol: Datblygu fframwaith ar gyfer mesur lluosogrwydd yn y cyfryngau** |
| Fframwaith Mesur ar gyfer Lluosogrwydd yn y Cyfryngau: Cyngor Ofcom i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon |
| **Cynnal hyder cynulleidfaoedd mewn cynnwys a ddarlledir** |
| **Blaenoriaeth: Hybu diogelwch a ffydd y gynulleidfa mewn amgylcheddau traddodiadol ac amgylcheddau ar-lein** |
| Rheoleiddio Gwasanaethau Rhaglenni Ar-alwad yn y Dyfodol |
| **Maes Gwaith Sylweddol: Cwblhau ein hadolygiad o reoleiddio fformatau cerddoriaeth ar y radio** |
| Adolygiad o Gerddoriaeth mewn Fformatau Radio |
| **Maes Gwaith Sylweddol: Datblygu cynlluniau ar gyfer gweithredu a thrwyddedu DAB ar raddfa fach** |
| Dyfarnu Trwyddedau Treialon DAB Graddfa Fach |
| **Rhaglennol: Aseinio trwyddedau darlledu, gan gynnwys trwyddedau ar gyfer gorsafoedd teledu lleol, a hyrwyddo amrywiaeth a chyfle cyfartal ym maes darlledu** |
| Datganiad ar Geisiadau i Newid Fformat Radio City 2 a City Talk (Lerpwl) |
| Datganiad ar gais Blast 106 Limited i newid Prif Ymrwymiadau Blast 106 (Belfast) |
| Datganiad ar gais Chorley FM Limited i newid ei Brif Ymrwymiadau (1) |
| Datganiad ar gais Chorley FM Limited i newid ei Brif Ymrwymiadau (2) |
| Adolygiad o Brif Ymrwymiadau Radio Cymunedol |
| Datganiad ar gais ESTV i Newid Ymrwymiadau i Raglenni |
| **Rhaglennol: Sicrhau bod safonau rhaglenni'n cael eu gorfodi'n effeithlon ac effeithiol** |
| Cod Darlledu Ofcom (Ymgorffori'r Cod Croes-hyrwyddo) |
| Newidiadau i'r Trefniadau Arwyddo ar gyfer Sianeli Teledu Domestig Perthnasol |
| Trefniadau Rhwydweithio Channel 3: Adolygiad 2015 |
| Sianeli teledu annomestig: Ymestyn Cytundebau Arwyddo Trosiannol |
| Amserlennu Hysbysebion Teledu |
| Adolygu Rhestr Ofcom o'r Pleidiau Mwy ar gyfer Etholiadau a gynhelir ar 5 Mai 2016 |

Mwy o reoleiddio/rheoleiddio newydd — Cymysg/dim newid/parhaus — Wedi symleiddio/cyd-reoleiddio — Llai o reoleiddio

## Hybu cystadleuaeth effeithiol a dewis gwybodus

**Blaenoriaeth: Sicrhau cystadleuaeth effeithiol wrth ddarparu gwasanaethau cyfathrebiadau ar gyfer busnesau**

- Cais gan BT am Eithriad o'r Ymgymeriadau ar gyfer y gwasanaeth MDA (Microconnect Distributed Antenna)
- Adolygiad o’r Farchnad Cysylltedd Busnes – datganiad drafft
- Gwasanaethau band eang ar gyfer busnesau bach a chanolig: Asesiad a Chynllun Gweithredu

**Blaenoriaeth: Gwella’r broses o newid darparwyr ar gyfer defnyddwyr**

- Defnyddwyr yn newid rhwng Darparwyr: Datganiad ar addasiadau i’r Amodau Cyffredinol er mwyn gwneud newidiadau i’r prosesau newid ar gyfer band eang a llais sefydlog ar rwydwaith mynediad KCOM

**Blaenoriaeth: Cyflawni Adolygiad Strategol o Gyfathrebiadau Digidol**

- Sicrhau bod cyfathrebiadau’n gweithio i bawb: Casgliadau cychwynnol yr Adolygiad Strategol o Gyfathrebiadau Digidol

**Maes Gwaith Sylweddol: Cychwyn ar yr adolygiadau o’r farchnad band cul a mynediad sefydlog**

- Canllawiau Atodol ar Asesu’r bwlch VULA

**Maes Gwaith Sylweddol: Cynnal Asesiad o’r Effaith ar y Farchnad i gefnogi Profion Gwerth Cyhoeddus gan Ymddiriedolaeth y BBC**

- Asesiad o effaith y newidiadau arfaethedig i BBC Three, BBC iPlayer, BBC One a CBBC ar y farchnad
- Prawf Arwyddocâd Ymddiriedolaeth y BBC – cynigion BBC Radio 5 live Sports Extra

**Maes Gwaith Sylweddol: Gweithio i sicrhau y ceir cystadleuaeth deg ac effeithiol mewn gwasanaethau darlledu**

- Adolygiad o’r rhwymedigaeth ‘rhaid cynnig yn gyfanwerthol’ ar gyfer teledu talu

**Rhaglennol: Rhoi mesurau ar waith i sicrhau bod rhifau daearyddol ar gael, a gwneud gwaith pellach yn ôl yr angen ar rifau nad ydynt yn rhai daearyddol**

- Rhif tri digid ar gyfer Gwasanaeth Diogelwch Cenedlaethol y Rhwydwaith Trydan a Thoriadau yn y Pŵer
- Ffurflen Gais Rhifau Ffôn
- Defnyddio rhifau nad ydynt yn rhai daearyddol yn y maes darlledu

## Hyrwyddo cyfleoedd i gyfranogi

**Blaenoriaeth: Hyrwyddo darpariaeth well o ran gwasanaethau sefydlog a symudol i ddefnyddwyr preswyl a busnes**

- Gwella’r Ddarpariaeth Symudol – Sicrhau buddiannau cyfarpar mwyhau symudol a osodir gan y defnyddiwr

**Blaenoriaeth: Adolygu’r ffactorau a allai effeithio ar gynaliadwyedd y gwasanaeth post cyffredinol**

- Eithriad i Rwymedigaethau Gwasanaeth Cyffredinol y Post Brenhinol – Does dim rhaid danfon a chasglu post pan fydd 26 Rhagfyr ar ddydd Sadwrn
- Addasu Amod Diogelu Defnyddwyr 1 – Casglu treuliau cymwys defnyddwyr ar gyfer cyrff eiriolaeth defnyddwyr

**Maes Gwaith Sylweddol: Gwneud gwaith arall yn unol â’n dyletswydd i sicrhau bod y gwasanaeth post cyffredinol yn cael ei ddarparu**

- Adolygiad Ofcom o brosesau delio â chwynion a gwneud iawn yn y farchnad bost

**Maes Gwaith Sylweddol: Deall a hyrwyddo buddiannau defnyddwyr a dinasyddion bregus**

- Rheidrwydd ar sianeli teledu i ddarparu gwasanaethau mynediad ar gyfer teledu yn 2016

**Rhaglennol: Cynnal a chyhoeddi ymchwil marchnad a defnyddwyr**

- Adrodd am Gydymffurfiaeth Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus y Gwledydd a’r Rhanbarthau, 2014

## Diogelu defnyddwyr rhag niwed

**Blaenoriaeth: Diogelu defnyddwyr rhag niwed mewn amrywiaeth o feysydd blaenoriaeth, gan gynnwys galwadau niwsans**

- Cymeradwyo Cod Ymarfer PhonepayPlus (trydydd Argraffiad ar ddeg)
- Delio â negeseuon a galwadau niwsans: Y wybodaeth ddiweddaraf am y cynllun gweithredu ar y cyd rhwng Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth ac Ofcom
- Logo Cymeradwyo ar gyfer Bilio a Mesur

**Maes Gwaith Sylweddol: Sicrhau bod defnyddwyr yn gallu cael iawndal am fethiannau mewn gwasanaeth ac am wasanaeth o ansawdd gwael**

- Cod Ymarfer Gwirfoddol 2015: Cyflymder Band Eang

Mwy o reoleiddio/rheoleiddio newydd | Cymysg/dim newid/parhaus | Wedi symleiddio/cyd-reoleiddio | Llai o reoleiddio

## Sicrhau y gwneir y defnydd gorau posibl o sbectrwm

**Blaenoriaeth: Gweithio at ryddhau sbectrwm yn amserol a'i ddyfarnu'n effeithiol**

- Sbectrwm radio VHF ar gyfer y Rhyngrwyd Pethau
- Rhyddhau Sbectrwm y Sector Cyhoeddus: Dyfarnu'r bandiau sbectrwm 2.3 a 3.4GHz
- Rhyddhau Sbectrwm y Sector Cyhoeddus – Materion yn ymwneud â chystadleuaeth a chynllun arwerthiant ar gyfer dyfarnu sbectrwm 2.3 a 3.4 GHz, gan gynnwys prisiau cadw

**Blaenoriaeth: Cynrychioli'r DU mewn trafodaethau rhyngwladol i gytuno ar y ffordd orau o ddefnyddio sbectrwm yn effeithiol**

- Safbwyntiau terfynol y DU ar faterion allweddol ar gyfer Cynhadledd Radiogyfathrebu'r Byd 2015

**Maes Gwaith Sylweddol: Cwblhau ein hadolygiad o'r gofynion sbectrwm ar gyfer y sector gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig**

- Sbectrwm Newydd ar gyfer PMSE Sain

**Maes Gwaith Sylweddol: Ffioedd trwyddedau blynyddol ar gyfer y sbectrwm 900 MHz a 1800 MHz**

- Ffioedd trwyddedau blynyddol ar gyfer y sbectrwm 900 MHz a 1800 MHz

**Maes Gwaith Sylweddol: Archwilio cyfleoedd i rannu sbectrwm a'u rhoi ar waith**

- Trwyddedu dyfeisiau bylchau gwyn y gellir eu ffurfweddu â llaw
- Penderfyniad i wneud Rheoliadau Telegraffiaeth Ddi-wifr (Dyfeisiau Bylchau Gwyn) (Esemptiad) 2015

**Rhaglennol: Cynllunio aseiniadau sbectrwm a dyfarnu trwyddedau**

- Penderfyniad i wneud Gorchymyn Telegraffiaeth Ddi-wifr (Cyfyngiadau ar nifer y Trwyddedau) (Diwygio)
- Penderfyniad i wneud Rheoliadau Telegraffiaeth Ddi-wifr (Ffioedd Trwyddedau) (Diwygio) 2015
- Esemptiad Trwydded Dyfeisiau Telegraffiaeth Ddi-wifr: Ymgeiswyr 2015
- Penderfyniad i wneud Rheoliadau Telegraffiaeth Ddi-wifr (Gweithdrefnau Trwyddedu) (Diwygio) 2016
- Amrywio'r drwydded Mynediad Sbectrwm ar gyfer 1452-1492 MHz a newidiadau ar gyfer defnydd cysylltiadau sefydlog yn y bandiau cyplysedig 1350-1375 MHz a 1492-1517 MHz
- Cynnwys y bandiau 1452-1492 MHz, 2350-2390 MHz a 3410-3600 MHz yn y Rheoliadau Masnachu Symudol
- Symud amleddau yn y band 1452-1492 MHz oddi wrth Qualcomm UK Spectrum Ltd i Vodafone Limited a Hutchison 3G UK Limited
- Ffioedd Trwyddedau Mynediad Sbectrwm ar gyfer 28 GHz
- Mynediad Sbectrwm Cydnabyddedig ar gyfer Gorsafoedd Daear Derbyn yn Unig – Datganiad

**Rhaglennol: Rhoi cyngor a chymorth ar gyfer achosion o ymyrraeth, a chymryd camau gorfodi pan fo hynny'n briodol**

- Gweithdrefnau ar gyfer rheoli ffeiliau lloerennau – y wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa o ran newidiadau arfaethedig ar gyfer aseiniadau amleddau i orsafoedd systemau lloeren mewn orbit heb fod yn ddaearsefydlog
- Gweithdrefnau ar gyfer rheoli ffeiliau lloerennau: Datganiad ar welliannau i'r Gweithdrefnau
- Penderfyniad i wneud Rheoliadau Telegraffiaeth Ddi-wifr (Rheoli Ymyriant oddi wrth Gyfarpar) 2016

## Arall

- Cynllun Blynyddol 2016/17
- Diwygio'r Canllawiau Cosbau

Mwy o reoleiddio/rheoleiddio newydd | Cymysg/dim newid/parhaus | Wedi symleiddio/cyd-reoleiddio | Llai o reoleiddio

| Datganiadau Ofcom a gyhoeddwyd yn 2015/16 lle'r oedd yr ymgynghoriad cynharach yn cynnwys asesiad o effaith |
|---|
| Cais gan BT am eithriad o'r Ymgymeriadau ar gyfer y gwasanaeth MDA (Microconnect Distributed Antenna) |
| Defnyddio rhifau nad ydynt yn rhai daearyddol yn y maes darlledu – Datganiad |
| Newidiadau i'r trefniadau arwyddo ar gyfer sianeli teledu domestig perthnasol |
| Rhyddhau Sbectrwm y Sector Cyhoeddus: Dyfarnu'r bandiau sbectrwm 2.3 a 3.4GHz |
| Amrywio'r drwydded Mynediad Sbectrwm ar gyfer 1452-1492 MHz a newidiadau ar gyfer defnydd cysylltiadau sefydlog yn y bandiau cyplysedig 1350-1375 MHz a 1492-1517 MHz |
| Penderfyniad i wneud Rheoliadau Telegraffiaeth Ddi-wifr (Ffioedd Trwyddedau) (Diwygio) 2015 |
| Rhif tri digid ar gyfer gwasanaeth diogelwch cenedlaethol y rhwydwaith trydan a thoriadau yn y pŵer |
| Mynediad Sbectrwm Cydnabyddedig ar gyfer Gorsafoedd Daear Derbyn yn Unig – Datganiad |
| Adolygiad o gerddoriaeth mewn fformatau radio: Datganiad |
| Ffurflen gais rhifau ffôn |
| Cymeradwyo Cod Ymarfer PhonepayPlus (trydydd argraffiad ar ddeg) – Datganiad Terfynol |
| Amserlennu Hysbysebion Teledu – Datganiad |
| Canllawiau atodol ar asesu'r bwlch VULA |
| Trwyddedu dyfeisiau bylchau gwyn y gellir eu ffurfweddu â llaw |
| Eithriad i rwymedigaethau gwasanaeth cyffredinol y Post Brenhinol – nid oes rhaid danfon a chasglu post pan fydd 26 Rhagfyr ar ddydd Sadwrn – Datganiad |
| Esemptiad Trwydded Dyfeisiau Telegraffiaeth Ddi-wifr: Ymgeiswyr 2015 |
| Diwygio'r canllawiau cosbau – Datganiad |
| Ffioedd Trwyddedau Mynediad Sbectrwm ar gyfer 28 GHz |
| Sianeli teledu annomestig: ymestyn trefniadau arwyddo trosiannol – Datganiad |
| Sbectrwm Newydd ar gyfer PMSE Sain |

| Datganiadau Ofcom a gyhoeddwyd yn 2015/16 lle'r oedd yr ymgynghoriad cynharach yn cynnwys asesiad o effaith |
|---|
| Adolygu rhestr Ofcom o'r pleidiau mwy ar gyfer etholiadau a gynhelir ar 5 Mai 2016 |
| Adolygiad o'r Farchnad Cysylltedd Busnes – Datganiad Drafft |
| Penderfyniad i wneud Rheoliadau Telegraffiaeth Ddi-wifr (Gweithdrefnau Trwyddedu) (Diwygio) 2016 |
| Sbectrwm radio VHF ar gyfer y Rhyngrwyd Pethau |
| Penderfyniad i wneud Rheoliadau Telegraffiaeth Ddi-wifr (Rheoli Ymyriant oddi wrth Gyfarpar) 2016 |
| Gweithdrefnau ar gyfer rheoli ffeiliau lloerennau: Datganiad ar welliannau i'r Gweithdrefnau |
| Rheoleiddio gwasanaethau rhaglenni ar-alwad yn y dyfodol |
| Ymgyngoriadau Ofcom a gyhoeddwyd yn 2015/16 a oedd yn cynnwys asesiad o effaith a lle nad oedd datganiad wedi cael ei gyhoeddi erbyn 31 Mawrth 2016 |
| Adolygiad o'r Farchnad Cysylltedd Busnes: Llinellau les lled band isel iawn |
| Adolygiad o'r Farchnad Cysylltedd Busnes: Rheolaethau ffioedd llinellau les a phrisiau ffibr tywyll |
| Adolygiad o fethodolegau BT ar gyfer priodoli costau (2 ymgynghoriad) |
| What's on the telly? Gwelliannau arfaethedig i hygyrchedd Rhestrau Electronig o Raglenni ar gyfer pobl â nam ar eu golwg |
| Clirio 700MHz – Rheoli materion yn ymwneud â darpariaeth drosiannol: Ymgynghoriad ar ddiweddariadau i'r Cod Ymarfer ar Newidiadau i'r Trefniadau Derbyniad a Throsglwyddo Presennol |
| Adolygiad o sut rydym yn defnyddio ein pwerau camddefnyddio cyson: Canolbwyntio ar alwadau mud a galwadau sy'n cael eu gadael |
| Adolygiad o'r Cod Darlledu – Adran Tri: Troseddu |
| Awdurdodi rhwydweithiau symudol daearol sy'n cyd-fynd â Gwasanaeth Lloeren Symudol (MSS) 2 GHZ – Ymgynghoriad ar drwyddedu Cydrannau Ategol ar y Ddaear (CGC) MSS 2 GHz at ddefnydd awyrofod |
| Sicrhau'r manteision gorau posib yn sgil clirio 700MHz |
| Cymeradwyo Cod Ymarfer PhonepayPlus (pedwerydd Argraffiad ar ddeg) |
| Defnyddwyr yn newid rhwng Darparwyr: Cynigion i ddiwygio'r prosesau newid ar gyfer gwasanaethau cyfathrebiadau symudol |
| Gwasanaethau Trawsyrru ar gyfer Darlledu: adolygiad o'r farchnad |

# RHAGLEN YMCHWILIADAU

Mae rhaglen ymchwiliadau Ofcom yn ymwneud â chwynion am ymddygiad gwrth-gystadleuol, torri rheolau rheoleiddio penodol ac anghydfodau ynghylch rheoleiddio. Mae'r tabl canlynol yn dangos gweithgareddau Ofcom o ran cynnal ymholiadau ac ymchwiliadau yn ystod 2015/16 a sut yr ydym wedi perfformio o'i gymharu â'n targedau statudol a chyhoeddedig. Mae hyn yn adlewyrchu'r darlun fel yr oedd ar 31 Mawrth 2016.

Dylid nodi bod nifer yr achosion a gofnodir yn y tabl yn tueddu i fod yn fach ac y gall y dangosyddion perfformiad yr adroddir arnynt fod yn gyfnewidiol yn sgîl hynny. Ceir rhagor o wybodaeth am y rhaglen ymchwiliadau yn ein hadroddiadau chwe-misol: Gweithgarwch Ymchwiliadau Ofcom **(http://stakeholders.ofcom.org.uk/enforcement/competition-bulletins/six-monthly-roundup-complaints/).**

Mae'r data yn y tabl isod yn ymdrin â pherfformiad Tîm Ymchwiliadau'r Grŵp Cystadleuaeth a'r Tîm Diogelu Defnyddwyr.

| **Gweithgarwch a tharged** | **Perfformiad yn erbyn targedau** | | | | | **Gweithgarwch parhaus (ar 31/3/2016)** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfanswm sydd wedi cael sylw | Cyfanswm wedi'u derbyn i'w hymchwilio | Cyfanswm heb eu derbyn i'w hymchwilio | Cyfanswm wedi'u dirwyn i ben | | |
| | | | | o fewn y targed | y tu allan i'r targed | |
| **Ymholiadau** | | | | | | |
| Anghydfodau *(ex ante)* 15 diwrnod gwaith | 7 | 2 | 4 | 6 | 0 | 1 |
| Cyfraith cystadleuaeth *(ex post)* 8 wythnos | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cwynion *(ex ante)* 15 diwrnod gwaith | 1 | 0 | 1 | 0 | 1 | 0 |
| Liwt ein hunain *(ex ante)* 15 diwrnod gwaith | 4 | 2 | 2 | 0 | 4 | 0 |

| | Cyfanswm sydd wedi cael sylw | Cyfanswm a agorwyd | Y cyfanswm sy'n parhau ers y cyfnod adrodd blaenorol | Cyfanswm wedi'u dirwyn i ben | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | o fewn y targed | y tu allan i'r targed | |
| **Anghydfodau** | | | | | | |
| Cwblhau o fewn 4 mis *(ex ante)* | 2 | 2 | 0 | 2 | 0 | 0 |
| **Ymchwiliadau yng nghyswllt cyfraith cystadleuaeth** | | | | | | |
| Dim targed penodol 'un ateb i bawb' *(ex post)* | 3 | 0 | 2 | 1 | | 2 |
| **Rhaglenni gorfodi ac ymchwiliadau eraill *(ex ante)*** | | | | | | |
| Mae gan ymchwiliadau unigol darged cwblhau (h.y. cyhoeddi hysbysiad cyntaf neu ddirwyn i ben) o fewn chwe mis.<br>Nid oes targedau amser ar gyfer rhaglenni gorfodi. *(ex ante)* | 12 ymchwiliad 11 rhaglen orfodi | 10 ymchwiliad 3 rhaglen orfodi | 2 ymchwiliad, 8 rhaglen orfodi | 2 ymchwiliad<br>5 rhaglen orfodi | 2 ymchwiliad | 8 ymchwiliad 6 rhaglen orfodi |

# SAFONAU DARLLEDU



## Cwynion, achosion a sancsiynau darlledu

Mae gan Ofcom ddyletswydd statudol o dan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 i sefydlu gweithdrefnau ar gyfer delio â chwynion gan wrandawyr a gwylwyr, a'u datrys, am raglenni radio a theledu sy'n cael eu darlledu ar wasanaethau sydd wedi'u trwyddedu gan Ofcom, a'r BBC ac S4C (gyda rhai eithriadau).

Mae pob cwyn yn bwysig i Ofcom gan eu bod yn ein helpu i ddeall a yw darledwr yn cydymffurfio neu beidio â rheolau'r Cod Darlledu[10], neu godau eraill Ofcom. Caiff Ofcom lansio ymchwiliadau ei hun yn ogystal â lansio ymchwiliadau ar ôl i gwynion gael eu hasesu. Mae Ofcom yn delio ag ymchwiliadau yn sgîl cwynion ac ymchwiliadau a roddwyd ar waith gan Ofcom ei hun dan yr un gweithdrefnau.

Mae cwynion unigol y mae Ofcom yn eu cael yn cael eu haseinio i achosion. Agorir achos pan fydd Ofcom yn asesu mater neu raglen benodol, a gall gynnwys un gŵyn neu ragor. Caewyd cyfanswm o 7,285 o achosion (23,625 o gwynion) yn y cyfnod dan sylw.

## Safonau cynnwys

### Asesiad cychwynnol o gwynion

Mae'r holl gwynion am safonau cynnwys yn cael sylw o dan weithdrefnau Ofcom ar gyfer ymchwilio i achosion o dorri safonau cynnwys ar gyfer teledu a radio[11].

Bydd Ofcom yn asesu pob cwyn a gaiff. Ar sail asesiad cychwynnol o'r gŵyn ac ar ôl ystyried y cynnwys teledu neu radio perthnasol, bydd Ofcom yn ystyried a yw amodau'r Cod Darlledu (neu godau eraill Ofcom) wedi cael eu torri. Os na, bydd Ofcom yn penderfynu peidio ag ymchwilio ymhellach a bydd yn cyhoeddi'r penderfyniad hwn yn ei Fwletin Darlledu a Gwasanaethau Ar-alwad[12].

Aseswyd 7,080 o achosion (23,420 o gwynion) yn y ffordd hon yn ystod y cyfnod adrodd. Canfu Ofcom:

- fod 222 o achosion (2,236 o gwynion) wedi codi materion sylweddol a oedd yn galw am ymchwiliad pellach; a
- bod 6,858 o achosion (21,184 o gwynion) nad oedd angen ymchwilio ymhellach iddynt neu a oedd y tu allan i gylch gwaith Ofcom.

Mae Ofcom yn ceisio gwneud asesiad cychwynnol o bob cwyn cyn pen 15 diwrnod gwaith. Yn y cyfnod rhwng 01 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2016, asesodd Ofcom gwynion cyn pen 5.57 diwrnod gwaith ar gyfartaledd.

### Ymchwiliadau

Os bydd achos yn codi materion a allai fod yn sylweddol, bydd Ofcom yn ymchwilio ymhellach i'r mater i benderfynu a yw amodau'r Cod Darlledu (neu un o godau eraill Ofcom) wedi cael eu torri. Gall ymchwiliad gynnwys un neu ragor o achosion cysylltiedig yn cynnwys yr un darlledwr.

Cafodd cyfanswm o 205 o achosion ymchwilio eu cwblhau rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2016. Canfu Ofcom:

- fod 127 o achosion yr ymchwiliwyd iddynt wedi arwain at gofnodi bod amodau'r Cod Darlledu (neu un o godau eraill Ofcom) wedi cael eu torri;
- bod 17 o achosion yr ymchwiliwyd iddynt wedi cael eu datrys; ac
- nad oedd 61 o achosion yr ymchwiliwyd iddynt wedi torri amodau'r codau neu na pharhawyd â hwy.

[10] Ar gael yn: http://stakeholders.ofcom.org.uk/broadcasting/broadcast-codes/broadcast-code/
[11] Ar gael yn: http://stakeholders.ofcom.org.uk/broadcasting/guidance/complaints-sanctions/standards/
[12] Ar gael yn: http://stakeholders.ofcom.org.uk/enforcement/broadcast-bulletins/

Mae Ofcom yn ceisio cwblhau'r achosion hynny y bydd yn penderfynu ymchwilio iddynt cyn pen 50 diwrnod gwaith. Yn y cyfnod rhwng 01 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2016, cwblhaodd Ofcom ymchwiliadau cyn pen 49.7 diwrnod gwaith ar gyfartaledd.

## Tegwch a Phreifatrwydd

Mae cwynion Tegwch a Phreifatrwydd yn gwynion am driniaeth annheg neu anghyfiawn mewn rhaglenni neu am darfu'n ddiangen ar breifatrwydd mewn rhaglenni (neu yng nghyswllt cael y deunyddiau sydd ynddynt). Fel rheol bydd y cwynion hyn yn cael eu gwneud gan unigolion neu sefydliadau sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni a ddarlledir, neu a oedd yn rhan o wneud rhaglenni, neu y mae'r rhaglenni hynny'n effeithio arnynt yn uniongyrchol.

Cafodd cyfanswm o 205 o gwynion a oedd yn ymwneud â Thegwch a Phreifatrwydd eu cau.

### Asesu a phwyso a mesur (entertainment)

Mae Ofcom yn asesu pob cwyn Tegwch a Phreifatrwydd mae'n ei chael i benderfynu a ddylid pwyso a mesur y gŵyn. Mae'r asesiad hwn yn seiliedig ar y canlynol: ai'r achwynydd yw'r "sawl yr effeithir arno" ac a yw'n gallu cwyno; a yw'r mater y cwynir amdano yn destun achos mewn llys barn yn y DU; neu a yw'r gŵyn yn ddisylwedd.

Cafodd cyfanswm o 205 o gwynion Tegwch a Phreifatrwydd eu hasesu yn y cyfnod rhwng 01 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2016. Penderfynodd Ofcom:

- fod 60 achos wedi'u derbyn i'w pwyso a'u mesur; ac
- yng nghyswllt 145 o gwynion, penderfynwyd peidio â'u pwyso a'u mesur neu ni fwriwyd ymlaen â hwy cyn eu pwyso a'u mesur.

Mae Ofcom yn ceisio asesu a phenderfynu a yw am bwyso a mesur cwynion Tegwch a Phreifatrwydd ai peidio cyn pen 25 diwrnod gwaith o gael y gŵyn, ac unrhyw wybodaeth bellach y gofynnir amdani gan y sawl sy'n cwyno. Yn y cyfnod rhwng 01 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2016, asesodd a phenderfynodd Ofcom a ddylid pwyso a mesur cwynion Tegwch a Phreifatrwydd cyn pen 17.1 diwrnod gwaith ar gyfartaledd.

### Dyfarniadau

Os caiff cwyn Tegwch a Phreifatrwydd ei phwyso a'i mesur gan Ofcom, bydd yn ymchwilio i'r mater ymhellach i benderfynu a gafodd amodau'r Cod Darlledu eu torri ac, os felly, bydd yn cadarnhau'r gŵyn. Bydd Ofcom wedyn yn gwneud ei ddyfarniad terfynol.

Dyfarnwyd ar gyfanswm o 60 o gwynion yn y cyfnod dan sylw. Penderfynodd Ofcom:

- fod 16 o gwynion (pedair o'r rheini'n rhannol) wedi'u cadarnhau;
- bod 40 o gwynion heb eu cadarnhau;
- bod dwy gŵyn wedi'u datrys (ar ôl i'r darlledwr gymryd camau priodol); ac
- ni fwriwyd ymlaen â dwy gŵyn ar ôl eu pwyso a'u mesur.

Canfu Ofcom hefyd nad oedd ymchwiliad tegwch a phreifatrwydd a roddwyd ar waith gan Ofcom ei hun yn torri amodau'r Cod Darlledu[13].

Mae Ofcom yn ceisio cwblhau'r gwaith o ystyried cwynion Tegwch a Phreifatrwydd, a dyfarnu arnynt, cyn pen 90 diwrnod gwaith i bwyso a mesur y gŵyn. Yn y cyfnod rhwng 01 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2016, cwblhaodd Ofcom y gwaith o ystyried cwynion Tegwch a Phreifatrwydd, a dyfarnu arnynt, cyn pen 89.3 diwrnod gwaith ar gyfartaledd.

## Sancsiynau

Pan fydd Ofcom yn penderfynu bod darlledwr wedi torri amodau'r Cod Darlledu neu un o godau eraill perthnasol Ofcom, ac yn credu bod yr achos hwnnw'n ddifrifol, yn fwriadol, wedi'i ailadrodd a/neu'n ddi-hid, gall ystyried a yw am roi sancsiwn statudol i'r darlledwr.

Mae'r sancsiynau sydd ar gael i Ofcom yn cynnwys: cyhoeddi cyfarwyddyd i beidio ag ailddarlledu rhaglen neu hysbyseb; cyhoeddi cyfarwyddyd i ddarlledu cywiriad neu ddatganiad am ganfyddiadau Ofcom; rhoi cosb ariannol[14]; cwtogi trwydded neu ei hatal; a diddymu trwydded (nid yw hyn yn berthnasol i'r BBC, S4C na Channel 4).

Yn ystod y cyfnod rhwng 01 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2016, penderfynodd Ofcom roi'r sancsiynau statudol canlynol:

- Asia TV Limited yng nghyswllt ei wasanaeth Lamhe TV – £25,000
- DM Global Media Limited yng nghyswllt ei wasanaeth DM News Plus – £25,000
- International Television Channel Europe Limited yng nghyswllt ei wasanaeth NTV – £20,000
- Leith Community Mediaworks Ltd yng nghyswllt ei wasanaeth Castle FM – £850.

[13] Mae Penderfyniad Ofcom yng nghyswllt yr ymchwiliad hwn i'w weld yn llawn yn rhifyn 295 o'i Fwletin Darlledu, sydd ar gael yn: http://stakeholders.ofcom.org.uk/enforcement/broadcast-bulletins/obb295/

[14] Caiff yr holl gosbau ariannol a roddir gan Ofcom eu dal mewn cyfrif gyda Gwasanaethau Bancio'r Llywodraeth (GBS) er budd y Trysorlys. Caiff cronfeydd eu trosglwyddo i gyfrif GBS Trysorlys EM i'w defnyddio'n uniongyrchol gan y Trysorlys, neu eu dosbarthu i Gronfeydd Cyfunol perthnasol. Nid yw Ofcom yn defnyddio nac yn cael buddion ariannol o unrhyw gosbau ariannol a geir.

# GORFODI A PHEIRIANNEG SBECTRWM

## Gorfodi a pheirianneg sbectrwm

### Dangosyddion perfformiad allweddol

#### Prif Weithgareddau

| Gweithgarwch rhaglen waith/digwyddiad[1] | Ebrill 15 – Mawrth 16 | Ebrill 14 – Mawrth 15 |
|---|---|---|
| Cwynion a gafwyd am Ymyriant[2] | 1,933 | 1,954 |
| Gwirio cydymffurfiad â thrwyddedau systemau radio[3] | 3,873 | 3,850 |
| Hysbysiadau cosb benodedig a roddwyd[4] | 66 | 67 |
| Erlyniadau am weithgarwch troseddol yng nghyswllt sbectrwm[5] | 19 | 19 |

#### Targedau ansawdd gwasanaeth ar gyfer cwynion a gafwyd am ymyriant

| Dangosydd perfformiad allweddol | Blaenoriaeth Achos | Targed | Targed wedi'i gyflawni | |
|---|---|---|---|---|
| | | | Ebrill 15 – Mawrth 16 | Ebrill 14 – Mawrth 15 |
| **Amser cyn yr ymweliad cyntaf:** Yr amser rhwng rhoi gwybod am gŵyn ynghylch ymyriant a'r amser y bydd ein peiriannwr yn cyrraedd ar y safle i ganfod y broblem (ar gyfer yr achosion hynny pan fydd angen ymweliad maes). | 1 | 8 awr | 100% | 100% |
| | 2 | 18 awr | 100% | 100% |
| | 3 | 2 diwrnod gwaith | 97% | 96% |
| | 4 | 5 diwrnod gwaith | 99% | 99% |
| | 5 | 15 diwrnod gwaith | 99% | 99% |
| | 6 | Dim targed | – | – |
| **Datrysiad:** Yr amser rhwng rhoi gwybod am gŵyn ynghylch ymyriant a'r amser y bydd y cwsmer yn cael gwybod bod yr achos wedi'i ddatrys. | 1 | 2 diwrnod calendr | 100% | 100% |
| | 2 | 3 diwrnod calendr | 100% | 100% |
| | 3 | 6 diwrnod gwaith | 93% | 89% |
| | 4 | 20 diwrnod gwaith | 96% | 94% |
| | 5 | 40 diwrnod gwaith | 98% | 95% |
| | 6 | 60 diwrnod gwaith | 96% | 94% |

1 Cafodd y prosesau ar gyfer rheoli digwyddiadau a gweithgareddau eu hadolygu yn 2014-15, ac adlewyrchir hyn yn fformat y tabl newydd.

2 Achosion ymyriant a nodwyd gan y cyhoedd a busnesau.

3 Gwaith gan Ofcom i sicrhau y cydymffurfir ag amodau trwyddedau neu nad oes defnydd didrwydded yn digwydd.

4 Fel arfer rhoddir Hysbysiadau Cosb Benodedig os yw rhybudd cychwynnol gan Ofcom yn cael ei anwybyddu. Gall peidio â thalu hysbysiad cosb benodedig arwain at gymryd camau cyfreithiol.

5 Erlyniadau yng nghyswllt gorsafoedd radio anghyfreithlon neu fethiant i dalu Hysbysiadau Cosb Benodedig.

# TRWYDDEDU SBECTRWM

## Categori A

| **Trwyddedau lle nad oes gofyn aseinio amledd, clirio safle na chydlynu rhyngwladol** | **Trwyddedau a roddwyd Ebrill 15 – Mawrth 16** | **Trwyddedau a roddwyd Ebrill 14 – Mawrth 15** | **Cyfanswm y trwyddedau a roddwyd erbyn 31 Mawrth 16** | **Cyfanswm y trwyddedau a roddwyd erbyn 31 Mawrth 15** |
|---|---|---|---|---|
| Radio Busnes Ysgafn – Syml DU (dim gorsaf ganolog) | 1,777 | 1786 | 12,215 | 11,455 |
| Business Radio Simple Site | 922 | 985 | 7,905 | 7907 |
| Business Radio Suppliers Light | 99 | 94 | 826 | 751 |
| Mynediad Di-wifr Sefydlog (5.8 GHz) | 71 | 82 | 424 | 403 |
| Cyfarpwr mwyhau GNSS | 25 | 120 | 206 | 181 |
| Heddlu a Thân | 1 | 0 | 124 | 124 |
| **Is gyfanswm ar gyfer cynnyrch Radio Busnes** | **2,895** | **3,067** | **21,700** | **20,821** |
| Medrydd Lefel Radar | 0 | 0 | 124 | 124 |
| Amatur a Morol[1] | 82,312 | 58,058 | 232,743 | 224,372 |
| **Cyfanswm ar gyfer Categori A** | **85,207** | **61,125** | **254,567** | **245,317** |
| DPA ar gyfer Categori A (100% mewn 7 niwrnod) | 100% | 100% | – | – |
| DPA ar gyfer Categori A (Amatur a Morol) (100% mewn 10 diwrnod) | 100% | 100% | – | – |

## Categori B

| **Trwyddedau lle mae gofyn aseinio amledd, ond nad oes angen clirio safle na chydlynu rhyngwladol** | **Trwyddedau a roddwyd Ebrill 15 – Mawrth 16** | **Trwyddedau a roddwyd Ebrill 14 – Mawrth 15** | **Cyfanswm y trwyddedau a roddwyd erbyn 31 Mawrth 16** | **Cyfanswm y trwyddedau a roddwyd erbyn 31 Mawrth 15** |
|---|---|---|---|---|
| System Adnabod Awtomatig | 53 | 14 | 262 | 210 |
| Radio Gorsaf y Glannau (Rhyngwladol) | 10 | 1 | 405 | 411 |
| Radio Gorsaf y Glannau (DU) | 15 | 16 | 377 | 373 |
| Radio Gorsaf y Glannau (Marina) | 16 | 22 | 421 | 436 |
| Radio Gorsaf y Glannau (Ysgol Hyfforddi) | 19 | 29 | 349 | 330 |
| Radio Morol (Cyflenwyr ac Arddangos) | 4 | 1 | 94 | 90 |
| Cynnyrch Cymorth Llywio Morol a Radar | 4 | 17 | 140 | 142 |
| System Lleoli Byd-eang Wahaniaethol (DGPS) | 0 | 0 | 5 | 5 |
| **Is gyfanswm ar gyfer dadreoleiddio a gosod cynnyrch dan gontract** | **121** | **100** | **2,042** | **1,997** |
| Radio Busnes wedi'i Aseinio'n Dechnegol | 2,542 | 2,272 | 27,302 | 27,202 |
| Radio Busnes wedi'i Aseinio fesul Ardal | 40 | 37 | 261 | 245 |
| Radio Gorsaf y Glannau (DU) wedi'i diffinio fesul Ardal | 0 | 9 | 2 | 2 |
| Radio Gorsaf y Glannau (Rhyngwladol) wedi'i diffinio fesul Ardal | 2 | 2 | 8 | 7 |
| Radar Profi'r Tir | 27 | 26 | 186 | 173 |
| Telemetreg Sganio | 3 | 1 | 33 | 32 |
| Cysylltiadau hunangydlynol | 34 | 28 | 107 | 79 |
| **Is gyfanswm ar gyfer cynnyrch Radio Busnes** | **2,648** | **2,375** | **27,899** | **27,740** |
| **Cyfanswm ar gyfer Categori B** | **2,769** | **2,475** | **29,952** | **29,737** |
| **DPA ar gyfer Categori B** – **90% mewn 21 diwrnod** | **98%** | **98%** | **–** | **–** |
| **DPA ar gyfer Categori B** – **100% mewn 42 diwrnod** | **99%** | **99%** | **–** | **–** |

## Categori C

| Trwyddedau lle mae gofyn aseinio amledd, clirio safle a/neu gydlynu rhyngwladol | | Trwyddedau a roddwyd Ebrill 15 – Mawrth 16 | Trwyddedau a roddwyd Ebrill 14 – Mawrth 15 | Cyfanswm y trwyddedau a roddwyd erbyn 31 Mawrth 16 | Cyfanswm y trwyddedau a roddwyd erbyn 31 Mawrth 15 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cysylltiadau Sefydlog | | 2,983 | 2,333 | 30,855 | 30,622 |
| Lloeren (Gorsaf Ddaearol Barhaol) | | 8 | 17 | 152 | 157 |
| Lloeren (Gorsaf Ddaearol Gludadwy) | | 101 | 113 | 114 | 118 |
| Lloeren (Rhwydwaith Gorsaf Ddaearol) | | 6 | 12 | 66 | 66 |
| Lloeren (Gorsaf Ddaearol heb fod yn sefydlog) | | 2 | 2 | 4 | 2 |
| **Cyfanswm ar gyfer Categori C** | | **3,100** | **2,477** | **31,191** | **30,965** |
| **DPA ar gyfer Categori C** | **90% mewn 42 diwrnod** | **100%** | **99%** | **–** | **–** |
| | **100% mewn 60 diwrnod** | **100%** | **100%** | **–** | **–** |

## Gwneud Rhaglenni a Digwyddiadau Arbennig (PMSE)

| Rhoi trwyddedau ar gyfer darllediadau allanol, gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig, a'u hawdurdodi | Trwyddedau a roddwyd Ebrill 15 – Mawrth 16 | Trwyddedau a roddwyd Ebrill 14 – Mawrth 15 | Cyfanswm y trwyddedau a roddwyd erbyn 31 Mawrth 16 | Cyfanswm y trwyddedau a roddwyd erbyn 31 Mawrth 15 |
|---|---|---|---|---|
| Trwyddedau PMSE[2] | 33,380[3] | 8,863 | 2,854 | 6,461 |
| **Cyfanswm ar gyfer PMSE** | **33,380** | **8,863** | **2,854** | **6,461** |
| **DPA ar gyfer PMSE (100% mewn 7 niwrnod)** | **100%** | **100%** | **–** | **–** |

## Trwyddedau Profi a Datblygu

| | Trwyddedau a roddwyd Ebrill 15 – Mawrth 16 | Trwyddedau a roddwyd Ebrill 14 – Mawrth 15 | Cyfanswm y trwyddedau a roddwyd erbyn 31 Mawrth 16 | Cyfanswm y trwyddedau a roddwyd erbyn 31 Mawrth 15 |
|---|---|---|---|---|
| Trwydded Datblygu Anweithredol | 332 | 334 | 309 | 282 |
| Trwydded Dros Dro Anweithredol | 242 | 274 | 77 | 90 |
| **Cyfanswm ar gyfer Profi a Datblygu** | **574** | **608** | **386** | **372** |
| **DPA ar gyfer Profi a Datblygu (100% mewn 60 diwrnod)** | **100%** | **100%** | **–** | **–** |

[1] Fel rhan o brosiect Rhyddhau Sbectrwm y Sector Cyhoeddus ac mewn ymateb i ymgynghoriad a gyhoeddwyd ym mis Medi 2014, mae nifer o newidiadau wedi'u gwneud i drwyddedau Amatur. Yn dilyn hysbysiad ffurfiol o gynnig Ofcom i amrywio trwyddedau, cafodd pob trwydded Radio Amatur eu hailgyhoeddi ym mis Mawrth/Ebrill 2015.

[2] Hyd at fis Mehefin 2015, roedd trwyddedau PMSE yn cael eu rhoi gan Arqiva ar ran Ofcom (gan gynnwys ar gyfer Gemau'r Gymanwlad Glasgow 2014). Ers y dyddiad hwnnw, Ofcom sydd wedi bod yn rhoi trwyddedau PMSE.

[3] Mae'r cyfrifiad wedi newid yn 2015/16 er mwyn ystyried Trwyddedau Hysbysiad Amrywiadau.

## Trwyddedau band eang Di-wifr a Symudol[1]

| Trwyddedau a roddwyd drwy arwerthiant o'r sbectrwm neu drwy ddyfarnu'r sbectrwm | Trwyddedau a roddwyd Ebrill 15 – Mawrth 16 | Trwyddedau a roddwyd Ebrill 14 – Mawrth 15 | Cyfanswm y trwyddedau a roddwyd erbyn 31 Mawrth 16 | Cyfanswm y trwyddedau a roddwyd erbyn 31 Mawrth 15 |
|---|---|---|---|---|
| Rhwydweithiau Di-wifr Cyhoeddus: 900, 1800MHz | | – | 4 | 4 |
| Mynediad Sbectrwm: 2100MHz | | – | 4 | 4 |
| Mynediad Sbectrwm: Twnnel y Sianel[2] | | – | 2 | 2 |
| Mynediad Sbectrwm: 800MHz, 2.6GHz | | – | 5 | 5 |
| Mynediad Sbectrwm: 412 – 414MHz | | – | 1 | 1 |
| Mynediad Sbectrwm: 1452 – 1492MHz | 2 (-1) | – | 2 | 1 |
| Mynediad Sbectrwm Cydamserol: 1781-1785MHz | | – | 12 | 12 |
| Mynediad Sbectrwm: 1785 MHz, Gogledd Iwerddon | | – | 1 | 1 |
| Mynediad Sbectrwm: 3.5, 3.6, 10, 28, 32, 40GHz | 6[3] | 2 (-1)[4] | 19 | 28 |
| **Cyfanswm ar gyfer Band Eang Di-wifr a Symudol** | **8** | **2** | **50** | **58** |

## Trwyddedau Ynys Manaw ac Ynysoedd y Sianel

| Ceisiadau am drwyddedau a wnaed drwy Reoleiddwyr lleol | Trwyddedau a roddwyd Ebrill 15 – Mawrth 16 | Trwyddedau a roddwyd Ebrill 14 – Mawrth 15 | Cyfanswm y trwyddedau a roddwyd erbyn 31 Mawrth 16 | Cyfanswm y trwyddedau a roddwyd erbyn 31 Mawrth 15 |
|---|---|---|---|---|
| Ffonau Symudol 2G, Ynysoedd y Sianel | – | (-6) | 0 | 0 |
| Ffonau Symudol 3G, Ynysoedd y Sianel | – | (-6) | 1 | 1 |
| Rhwydwaith Di-wifr Cyhoeddus: 800, 900, 1800, 2100, 2600 MHz, Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw | 2 | 12 (+ 12)[5] | 32 | 30 |
| Mynediad Di-wifr / Sbectrwm: 3.4, 3.6, 10, 28GHz, Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw | 3 (-2) | (-1) | 9 | 8 |
| **Cyfanswm Ynys Manaw ac Ynysoedd y Sianel** | **5** | **12** | **42** | **39** |

1 Nid yw ffigurau'r trwyddedau a amrywiwyd a/neu a ailgyhoeddwyd, neu a fasnachwyd yn llawn o un cwmni i'r llall, wedi cael eu cynnwys yn y ffigurau hyn.
2 Trwydded ar wahân ar gyfer y twnnel i gyfeiriad Ffrainc o'r DU.
3 14 o drwyddedau Mynediad Sbectrwm Rhanbarthol 28GHz wedi'u cyfuno mewn 6 trwydded ddaearyddol; 1 drwydded BFWA ranbarthol wedi dod i ben.
4 Un drwydded 32-/-40 GHz sydd wedi cael ei rhannu a'i masnachu ar wahân.
5 Trwyddedau symudol Jersey/Guernsey a ryddhawyd ar gyfer 2G/3G/4G yn 2014/15 – wedi'u hailgategoreiddio yn y tabl.

### Trwyddedau sbectrwm y difidend digidol

Y sbectrwm a ryddhawyd i'w ddefnyddio mewn ffyrdd newydd yn sgîl y newid i'r digidol

| Trwyddedau DDR GI a roddwyd drwy brosesau dyfarnu sbectrwm | Trwyddedau a roddwyd Ebrill 15 – Mawrth 16 | Trwyddedau a roddwyd Ebrill 14 – Mawrth 15 | Cyfanswm y trwyddedau a roddwyd erbyn 31 Mawrth 16 | Cyfanswm y trwyddedau a roddwyd erbyn 31 Mawrth 15 |
|---|---|---|---|---|
| Mynediad Sbectrwm 541 – 550 MHz (Caerdydd) | – | – | 1 | 1 |
| Mynediad Sbectrwm 758 – 766 MHz (Manceinion) | – | – | 1 | 1 |
| **Cyfanswm trwyddedau'r Difidend Digidol** | **–** | **–** | **2** | **2** |

### Trwyddedau sbectrwm annewisol

Mae'r Awdurdod Hedfan Sifil (CAA) yn rhoi trwyddedau ar gyfer awyrennau

| Gweithgarwch partner | Trwyddedau a roddwyd Ebrill 15 – Mawrth 16 | Trwyddedau a roddwyd Ebrill 14 – Mawrth 15 | Cyfanswm y trwyddedau a roddwyd erbyn 31 Mawrth 16 | Cyfanswm y trwyddedau a roddwyd erbyn 31 Mawrth 15 |
|---|---|---|---|---|
| Mae'r Awdurdod Hedan Sifil yn rhoi Trwyddedau Awyrenegol | 6,523 | 4,350 | 14,826 | 15,431 |
| DPA ar gyfer yr Awdurdod Hedfan Sifil (100% mewn 7 niwrnod) | 81% | 83% | | |
| **Cyfanswm** | **6,523** | **4,350** | **14,826** | **15,431** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **CYFANSWM NIFER Y TRWYDDEDAU – POB CATEGORI** | **131,566** | **79,912** | **333,850** | **328,382** |

# CYNALIADWYEDD

Mae'r adran hon yn rhoi data am gynaliadwyedd a'r costau ariannol yn fanylach. Mae data defnydd a chostau ar gyfer Project Park wedi'u cynnwys. Caeodd y swyddfa hon ym mis Mawrth 2015.

## Allyriadau nwyon tŷ gwydr

| | | | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dangosyddion anariannol (tunelli CO2e)** | **Cwmpas 1** | Nwy | 107 | 161 | 142 | 134 | 158 |
| | | Olew | 22 | 19 | 18 | 14 | 18 |
| | | Tanwydd fflyd | 224 | 204 | 210 | 200 | 180 |
| | **Cwmpas 2** | Trydan | 1,285 | 1,166 | 1,129 | 1,283 | 1,203 |
| | **Cwmpas 3** | Teithiau busnes | 375 | 375 | 346 | 290 | 250 |
| | | – Hedfan | 173 | 194 | 241 | 182 | 144 |
| | | – Domestig | 47 | 48 | 100 | 63 | 47 |
| | | – Teithiau byr | 102 | 110 | 83 | 71 | 30 |
| | | – Teithiau hir | 24 | 37 | 57 | 48 | 67 |
| | | Trên/bws/tanddaearol | 102 | 103 | 61 | 59 | 59 |
| | | Car/beic modur/beic | 97 | 75 | 41 | 46 | 44 |
| | | Tacsis | 3 | 3 | 2 | 3 | 3 |
| **Data defnydd cysylltiedig** | **Cwmpas 1** | Nwy (kWh) | 583,483 | 869,185 | 772,668 | 726,410 | 855,056 |
| | | Nwy fesul FTE (kWh) | 749 | 1,114 | 975 | 928 | 1,070 |
| | | Olew (litrau) | 8,500 | 7,500 | 7,000 | 5,697 | 7,001 |
| | | Tanwydd fflyd (litrau) | 87,206 | 78,923 | 80,558 | 76,898 | 69,596 |
| | **Cwmpas 2** | Trydan (kWh) | 2,658,244 | 2,411,198 | 2,334,436 | 2,387,352 | 2,404,949 |
| | | Trydan fesul PTE (kWh) | 3,414 | 3,091 | 2,945 | 3,049 | 2,010 |
| **Dangosyddion ariannol** | **Cwmpas 1** | Nwy | £25,432 | £34,991 | £33,060 | £34,677 | £27,786 |
| | | Olew | £6,827 | £7,081 | £5,317 | £3,500 | £3,504 |
| | | Tanwydd fflyd | £123,748 | £113,770 | £113,397 | £102,026 | £78,996 |
| | **Cwmpas 2** | Trydan | £330,763 | £301,645 | £290,452 | £335,058 | £329,757 |
| | **Cwmpas 3** | Teithiau busnes | £713,021 | £705,867 | £628,340 | £596,116 | £569,099 |
| | | – Hedfan | £239,772 | £280,526 | £301,014 | £257,364 | £197,408 |
| | | – Trên/bws/tanddaearol | £297,685 | £276,531 | £226,171 | £227,260 | £264,211 |
| | | – Car/beic modur/beic | £129,466 | £104,276 | £58,458 | £66,876 | £67,721 |
| | | – Tacsis | £46,148 | £44,534 | £42,696 | £44,615 | £39,759 |

1 Rydym wedi ailddatgan ein data defnydd o drydan a nwy ar gyfer 2011/12 a 2012/13 yn dilyn esboniad o sut mae defnydd yn cael ei ddyrannu ar draws ein hystad

**Cwmpas 1 –** Mae hyn yn berthnasol i ddefnydd o nwy ac olew yn uniongyrchol, a defnydd o danwydd yng ngheir fflyd Ofcom.

Mae'r data am y defnydd o nwy ar draws yr holl flynyddoedd yn berthnasol i brif swyddfa Ofcom yn Llundain, Belfast, Birmingham, Haydock a Livingston. Mae'r defnydd o nwy yn dibynnu ar y tywydd.

Mae'r data am y defnydd o olew yn berthnasol i swyddfa Ofcom yn Baldock yn unig.

Bydd Ofcom yn talu am danwydd diesel ar gyfer ei geir fflyd drwy ddefnyddio cardiau tanwydd, a chaiff y defnydd ei gofnodi a'i fonitro bob mis. Mae defnydd o danwydd yn ein ceir fflyd yn dibynnu i raddau helaeth ar y galw am ein gwasanaethau gorfodi. Mae defnydd o danwydd ar gyfer 2012/13 yn cynnwys tanwydd a ddefnyddiwyd wrth ddarparu gwasanaethau sbectrwm ar gyfer Gemau Olympaidd a Gemau Paralympaidd Llundain 2012.

**Cwmpas 2 –** Mae hyn yn berthnasol i gyflenwadau trydan i swyddfeydd Ofcom. Mae'r data trydan ar draws yr holl flynyddoedd yn berthnasol i brif swyddfa Ofcom yn Llundain, Baldock, Belfast, Birmingham, Caerdydd, Glasgow, Haydock, Livingston a rhai safleoedd monitro a chanfod cyfeiriad o bell ledled y DU. Ar gyfer 2011/12 mae hefyd yn cynnwys data costau a defnydd o swyddfa yn Caterham. Ar gyfer 2011/12 a 2012/13 mae hefyd yn cynnwys data costau o swyddfa ym Mryste. Ar gyfer y cyfnod

rhwng 2011/12 a 2014/15 mae hefyd yn cynnwys y defnydd o'n swyddfa Project Park yn Llundain. Mae'r defnydd o drydan yn dibynnu ar y tywydd.

**Cwmpas 3 –** Mae data ariannol am deithiau busnes wedi dod o'n system cofnodi SAP ac mae'n cynnwys teithio gan bob cydweithiwr ni waeth ble maent wedi'u lleoli. Rydym wedi trosi data ariannol teithiau mewn tacsis ac ar drenau i bellteroedd drwy ddefnyddio canllawiau o Safon yr Ymddiriedolaeth Garbon, a data ariannol teithiau mewn ceir i bellteroedd drwy ddefnyddio data o hawliadau treuliau ar gyfer milltiroedd a deithir. Mae'r data am hedfan wedi dod yn uniongyrchol gan ein darparwr teithiau busnes, ac wedi'i gategoreiddio i deithiau domestig, teithiau byr a theithiau hir yn unol â chanllawiau pellter hedfan Defra.

## Lleihau a rheoli gwastraff

Mae'r data am y defnydd o wastraff ar draws yr holl flynyddoedd yn berthnasol i brif swyddfa Ofcom yn Llundain, ac ar gyfer y cyfnod rhwng 2011/12 a 2014/15 mae'n cynnwys data o'n swyddfa Project Park yn Llundain hefyd. Nid oes data cywir am ddefnydd o wastraff ar gael ar gyfer swyddfeydd eraill Ofcom, ond mae'r costau sy'n gysylltiedig â chael gwared â gwastraff wedi'u cynnwys. Mae Ofcom yn talu ffi rheoli gwastraff gyffredinol nad oes modd ei rhannu yn ôl y categorïau gwastraff unigol. Mae Ofcom yn gweithredu ar sail 'dim gwastraff i safleoedd tirlenwi', ac mae'r holl wastraff yn cael ei ailgylchu neu ei losgi gan adfer ynni.

## Defnydd o adnoddau cyfyngedig

Mae'r data dŵr ar draws yr holl flynyddoedd yn berthnasol i brif swyddfa Ofcom yn Llundain, Baldock, Birmingham a Haydock. Ar gyfer 2011/12 mae hyn yn cynnwys data am gostau o swyddfeydd ym Mryste, Caterham, Leeds a Peterborough lle y bo'n berthnasol. Ar gyfer y cyfnod rhwng 2011/12 a 2014/15 mae hefyd yn cynnwys y defnydd o'n swyddfa Project Park yn Llundain. Caiff costau dŵr ar gyfer swyddfeydd eraill eu cynnwys yn y ffi gwasanaeth, ac felly nid oes modd dadansoddi hynny. Caiff defnydd o ddŵr ei gyfyngu i ddefnydd gweithredol, gan gynnwys cyfleuster arlwyo ym mhrif swyddfa Ofcom yn Llundain.

| | | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dangosyddion anariannol (tunelli)** | Cyfanswm gwastraff | 159 | 166 | 173 | 168 | 173 |
| | Gwastraff wedi'i anfon i safle tirlenwi | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | Gwastraff TGCh wedi'i ailgylchu/ailddefnyddio | 8 | 2 | 9 | 4 | 7 |
| | Gwastraff wedi'i ailgylchu/ ailddefnyddio | 89 | 91 | 98 | 94 | 111 |
| | Gwastraff wedi'i gompostio | 9 | 13 | 14 | 14 | 13 |
| | Gwastraff wedi'i losgi gan adfer ynni | 53 | 60 | 51 | 55 | 41 |
| | Gwastraff wedi'i losgi heb adfer ynni | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | Cyfanswm gwastraff fesul FTE | 0.204 | 0.213 | 0.218 | 0.214 | 0.216 |
| **Dangosyddion ariannol** | Cyfanswm gwastraff | £53,345 | £46,068 | £60,796 | £45,500 | £32,023 |

| | | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dangosyddion anariannol** | Defnydd dŵr (m3) | 11,508 | 11,509 | 13,694 | 14,213 | 10,767 |
| | Defnydd dŵr fesul FTE | 14.78 | 14.76 | 17.27 | 18.15 | 13.48 |
| | Rimiau papur | 9,286 | 7,623 | 7,721 | 5,993 | 7,545 |
| | – Rimiau A3 | 60 | 121 | 156 | 103 | 80 |
| | – Rimiau A4 | 9,226 | 7,502 | 7,565 | 5,890 | 7,465 |
| | – Rimiau A5 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Dangosyddion ariannol** | Dŵr | £22,771 | £26,610 | £20,506 | £24,931 | £16,784 |

1 Rydym wedi ailddatgan ein ffigurau defnydd o ddŵr ar gyfer 2011/12 yn dilyn esboniad o sut mae defnydd yn cael ei ddyrannu ar draws ein hystad

## Nodiadau

1. Mae'r tablau uchod wedi cael eu paratoi yn unol â chanllawiau a osodwyd gan y Trysorlys: https://www.gov.uk/government/publications/public-sector-annual-reports-sustainability-reporting-guidance-2015-to-2016.
2. Mae'r holl wybodaeth yn cydymffurfio â blwyddyn ariannol arferol y sector cyhoeddus, sef 1 Ebrill–31 Mawrth.
3. Mae ffactorau trosi Defra wedi cael eu defnyddio i gyfrifo ffigurau allyriadau carbon.
4. Ni chaiff allyriadau eu cywiro yn ôl y tywydd.
5. Dim ond mewn adeiladau lle cawn filiau uniongyrchol a phan rydym yn gyfrifol am eu talu y byddwn yn adrodd ar ddefnydd o ynni a dŵr.
6. Dim ond yn yr adeiladau lle cawn ddata gan gwmni rheoli gwastraff byddwn yn adrodd ar ein defnydd o wastraff.
7. Pan nad oedd biliau cyfleustodau wedi cyrraedd eto, roedd y data ar gostau a defnydd wedi cael eu hamcangyfrif ar sail data'r blynyddoedd blaenorol.
8. Mae rhai ffigurau blwyddyn flaenorol wedi cael eu hailddatgan yn 2013/14 yn sgil cael canllawiau diwygiedig oddi wrth Drysorlys Ei Mawrhydi.
9. Mae allyriadau trydan Cwmpas 2 wedi cael eu hailddatgan ar gyfer pob blwyddyn i roi cyfrif am newidiadau o bwys i'r ffactorau trosi a ddarperir gan Defra. Mae hyn yn cydymffurfio â chanllawiau adrodd ar gynaliadwyedd 2013/14.
10. Mae faint o bapur a brynwyd yn ofyniad newydd ar gyfer adrodd arno a gyflwynwyd yn y canllawiau adrodd ar gynaliadwyedd yn 2013/14. Dim ond ar bapur a brynwyd yn uniongyrchol drwy ein cyflenwyr deunydd papur yr ydym wedi adrodd; dim ond ar gyfer rhai swyddfeydd dethol y mae'r wybodaeth hon ar gael.

# GEIRFA

**3G** Systemau symudol trydedd genhedlaeth. Mae'n trosglwyddo data'n gyflym ac yn cefnogi rhaglenni amlgyfrwng megis fideo symud llawn, cynadledda fideo a chysylltu â'r rhyngrwyd, ochr yn ochr â gwasanaethau llais confensiynol.

**4G** Y bedwaredd genhedlaeth o dechnoleg ffonau symudol, sy'n dilyn 2G a 3G. Mae'r cyflymderau lawrlwytho a throsglwyddo data yn gyflymach na rhwydweithiau 3G.

**Amlblecs** Mae gwasanaethau teledu daearol digidol yn cael eu trawsyrru gan ddefnyddio strwythur 'amlblecs' gyda phob amlblecs yn cynnwys nifer o wasanaethau teledu cydredol, yn ogystal â gorsafoedd radio a gwasanaethau testun. Cyfunir y gwasanaethau hyn yn ddigidol yn un signal i ffurfio'r amlblecs a drawsyrrir.

**Band eang cyflym iawn** Gwasanaethau band eang sy'n darparu cyflymderau o fwy na 30Mbit yr eiliad.

**Band Eang Symudol** Gwahanol fathau o fynediad cyflymder uchel di-wifr i'r rhyngrwyd trwy fodem cludadwy, ffôn neu ddyfais arall.

**BDUK** Broadband Delivery UK, yn gyfrifol am ddarparu'r Rhaglen Band Eang Gwledig.

**Bit-rates** Y gyfradd a ddefnyddir mewn perthynas â chludo gwybodaeth ddigidol o fewn sianel gyfathrebu benodol. Fel rheol caiff cyflymder band eang ei fesur mewn Mbit yr eiliad.

**Cyfnewid testun** Gwasanaeth sy'n galluogi pobl sydd â nam ar eu clyw a'u lleferydd i gyfathrebu â phobl eraill drwy ddefnyddio offer ffôn neu ffôn testun.

**Cystadleuaeth pen-i-ben** Lle mae gweithredwyr post masnachol yn casglu, yn prosesu ac yn dosbarthu'r post yn uniongyrchol i'r derbynnydd heb ddefnyddio rhwydwaith y Post Brenhinol.

**Darlledu unionlin** Darllediadau teledu traddodiadol a drawsyrrir i deledu.

**Darparwr gwasanaeth** Darparwr gwasanaethau cyfathrebiadau electronig i drydydd partïon, p'un ai dros ei rwydwaith ei hun neu dros un arall.

**DCMS** Yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

**DTT** Teledu daearol digidol. Y dechnoleg teledu sy'n cludo'r gwasanaeth Freeview.

**EU5** Ffrainc, yr Almaen, yr Eidal, Sbaen a'r DU.

**Fideo ar-alwad (VoD)** Gwasanaeth neu dechnoleg sy'n galluogi gwylwyr teledu i wylio rhaglenni neu ffilmiau pryd bynnag y byddant yn dewis gwneud hynny, heb fod wedi'u cyfyngu gan amserlen unionlin.

**Galwad mud** Galwad ffôn a dderbynnir lle nad oes neb ar ochr arall y lein.

**IPTV (internet protocol television)** Gwasanaethau teledu a gyflwynir drwy'r rhyngrwyd yn hytrach na thrwy ddulliau traddodiadol, megis daearol, lloeren neu gebl.

**ISP** Darparwr gwasanaeth rhyngrwyd. Cwmni sy'n darparu mynediad at y rhyngrwyd.

**LLU (dadfwndelu dolenni lleol)** Y broses lle bydd y gweithredwyr presennol (BT a Kingston Communications) yn darparu eu rhwydwaith lleol (y llinellau sy'n rhedeg o eiddo'r cwsmer i'r gyfnewidfa ffôn) ar gyfer darparwyr cyfathrebiadau eraill.

**Llinell ar brydles** Cyfleuster trawsyrru sy'n cael ei lesio gan ddefnyddiwr oddi wrth gludydd cyhoeddus, ac sy'n benodol ar gyfer traffig y defnyddiwr hwnnw.

**Newid dan arweiniad y darparwr sy'n ennill y cwsmer (GPL)** Proses lle mai darparwr gwasanaeth newydd y cwsmer (y darparwr sy'n ennill) sy'n cymryd yr awenau gyda newid y gwasanaeth.

**Radio cymunedol** Gorsafoedd radio sydd fel rheol yn gwasanaethu ardal ddaearyddol fach gyda radiws darpariaeth o hyd at 5km ac sy'n rhedeg ar sail ddi-elw.

**Rhwydweithiau craidd y genhedlaeth nesaf (NGN)** Rhwydweithiau craidd sy'n seiliedig ar brotocol rhyngrwyd sy'n cefnogi amrywiaeth o wasanaethau sydd eisoes yn bodoli a rhai newydd, fel rheol gan ddisodli hen rwydweithiau lluosog a oedd yn gallu delio ag un gwasanaeth.

**Rhwydweithiau mynediad y genhedlaeth nesaf (NGA)** Rhwydweithiau mynediad newydd neu wedi'u huwchraddio sy'n darparu gwelliannau sylweddol mewn cyflymder band eang ac ansawdd gwasanaeth. Gall hyn fod yn seiliedig ar nifer o dechnolegau gan gynnwys cebl, di-wifr sefydlog a symudol. Gan amlaf caiff ei ddefnyddio i gyfeirio at rwydweithiau sy'n defnyddio technoleg ffibr optig.

**Sioc bil** Adwaith negyddol y gall unigolyn ei gael os yw ei fil yn annisgwyl o uchel.

Ofcom

Sicrhau bod marchnadoedd cyfathrebiadau'n **gweithio i bawb**

SICRHAU BOD CYFATHREBIADAU'N GWEITHIO I BAWB

HYRWYDDO DEWIS

SICRHAU SAFONAU

ATAL NIWED


**Ofcom**
Y Swyddfa Gyfathrebiadau
Riverside House
2a Southwark Bridge Road
Llundain SE1 9HA
**www.ofcom.org.uk**

Switsfwrdd:
**+44 (0)300 123 3000** or
**+44 (0)20 7981 3000**

Ffacs:
**+44 (0)20 7981 3333**

Ffôn testun:
**+44 (0)20 7981 3043**

Tîm Cyswllt Cwsmeriaid Ofcom:
**+44 (0)300 123 3333** or
**+44 (0)20 7981 3040**

**Alban:**
39 St Vincent Place
Glasgow G1 2ER
Ffôn: **0141 229 7400**
Ffacs: **0141 229 7433**

**Cymru:**
2 Pentir Caspian
Ffordd Caspian
Caerdydd CF10 4DQ
Ffôn: **029 2046 7200**
Ffacs: **029 2046 7233**

**Gogledd Iwerddon:**
Landmark House
5 Cromac Quay, The Gasworks
Ormeau Road, Belfast BT7 2JD
Ffôn: **028 9041 7500**
Ffacs: **028 9041 7533**



ISBN 978-1-4741-3197-1

Of565 (Gorff 2016)